



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

Dyddiad ac Amser

4.30 y.h., DYDD MERCHER, 6ED MEDI, 2017

Lleoliad

Plas Heli, Pwllheli, LL53 5YQ

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 29/08/17)

CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

AELODAETH

Cynghorwyr Gwynedd

Anwen Davies
Simon Glyn
John Brynmor Hughes
Aled Wyn Jones
Gareth Williams

Eraill

Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.

Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol,
Cyfoeth Naturiol Cymru,
Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,
Cyfeillion Llŷn,
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,
Undeb Amaethwyr Cymru,
Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.

R H A G L E N

1. CADEIRYDD

I ethol cadeirydd am y flwyddyn 2017/18.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol is-gadeirydd am y flwyddyn 2017/18.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

6. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2017, fel rhai cywir.

7. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

10 - 170

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

8. CAIS CYNLLUNIO - THE SHANTY, ABERSOCH

171 - 172

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

9. ETHOL AELODAU NEWYDD I'R PANEL GRANTIAU

173

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 5/4/17

Yn bresennol:

T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-gadeirydd)

Aelodau: Y Cynghorwyr Gareth Roberts, Gruffydd Williams a R. H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Ashley Batten (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), William I. Hughes (Undeb Amaethwyr Cymru), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog) a John Eric Williams (Cyfeillion Llŷn).

Swyddogion: Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Arfon Hughes (Cyngor Tref Nefyn), Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru).

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd R. H. Wyn Williams, oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf ar ran Cyngor Gwynedd, am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Cydbwyllgor ac ardal Llŷn.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn at y materion isod:

Tirweddau'r Dyfodol Cymru

Nodwyd bod cyrff cadwraethol wedi datgan pryderon yn ddiweddar yn y wasg o ran cynnwys adroddiad drafft yr adolygiad. Pwysleisiwyd bod y partneriaid ynghlwm â'r adolygiad yn weddol gytûn o ran cynnwys yr adroddiad drafft. Adroddwyd o ran amserlen, y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei rannu gyda'r partneriaid cyn y cynhelir digwyddiad i gyflwyno adroddiad terfynol yr adolygiad yn ystod yr Haf. Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi cynigion o ran annog cydweithio, arbed arian, denu cyllid (ond ddim yn nodi y ceir fwy o arian gan Lywodraeth Cymru) ac yn gefnogol i barhad y Gronfa Datblygu Gynaliadwy.

Nododd aelod bod trafodaethau cynnar yng nghyswllt yr adolygiad wedi cyfeirio at Lywodraeth Cymru'n cyfrannu'n ariannol tuag at yr AHNE a swyddogion i uchafu elfen gwarchod y dynodiad.

Nododd aelod bod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant uwch na'r cyfartaledd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 gyda swyddogion Gwynedd wedi bod yn flaenllaw yn darparu'r dystiolaeth i gyfiawnhau newid y fformiwla dyrannu i adlewyrchu gwir gost gofal yng nghefn gwlad. Ychwanegodd y dylid ystyried gwneud rhywbeth tebyg o ran yr AHNE.

Gofynnodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn i'r aelod gadarnhau enw swyddog y gallai gysylltu yng nghyswllt hyn.

Cais Nova Innovation

Cyfeiriwyd at gais gan Nova Innovation, ar ran Ynni Llŷn, i Ystad y Goron am hawl i ddatblygu cynllun ynni llanw posibl ger Ynys Enlli. Nodwyd bod Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Tudweiliog wedi dod ar draws taflen ymgynghori nad oedd yn cyfeirio at y Cyd-Bwyllgor. Ymhelaethodd y cynrychiolydd bod y daflen yn cyfeirio at yr AHNE ond nid oedd cyfeiriad at ymgynghori efo'r Cyd-Bwyllgor. Awgrymodd y dylid cysylltu efo Ynni Llŷn i ofyn am fwy o wybodaeth am y prosiect ac i nodi wrth Ystad y Goron y dylid ymgynghori â'r Cyd-Bwyllgor ar y cynllun.

Nododd aelod ei fod ar ddallt mai ymgynghoriad cychwynnol yn unig ydoedd o ran y posibilrwydd o ran sefydlu cynllun o'r fath.

Nododd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Tudweiliog bod y ddogfen yn nodi mai'r cam nesaf fyddai gwneud cais i Ystad y Goron am drwydded, felly dyma'r amser i roi mewnbwn y Cyd-Bwyllgor i'r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD y dylid cysylltu efo Ynni Llŷn i ofyn am fwy o wybodaeth am y prosiect ac i nodi wrth Ystad y Goron y dylid ymgynghori â'r Cyd-Bwyllgor ar y cynllun.

Llythyr Cyngor Cymuned Llanaelhaearn

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan Gyngor Cymuned Llanaelhaearn yn gofyn am gefnogaeth y Cyd-Bwyllgor i'w cais i Gyngor Gwynedd am olau stryd ar gyffordd Trefor ar sail diogelwch ffyrdd. Nodwyd bod Cynllun Rheoli'r AHNE yn nodi y dylid ceisio cyfyngu nifer o arwyddion ffordd a golau stryd o ran llonyddwch felly roedd yn sefyllfa anodd. Nodwyd y cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Pennaeth Rheoleiddio, Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio, Aelodau Lleol ynghyd â'r Cyngor Cymuned. Adroddwyd bod y Pennaeth Rheoleiddio o'r farn bod y gyffordd yn ddiogel a ni fyddai Cyngor Gwynedd yn gwneud newidiadau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Bod nifer o gyffyrdd tebyg yn yr AHNE, ni ellir cefnogi pob cais.
- Pryder o ran llygredd golau yn y nos ac effaith ar fioamrywiaeth.
- Yn yr achos yma, y dylid gwneud cyfaddawd o ran tywyllwch i fodloni anghenion pobl oherwydd y pryderon diogelwch.
- Nad oedd damwain angheuol ers y lôn newydd.
- Y dylid cefnogi'r bobl leol.
- Ddim yn gyfforddus yn lobio ar y mater ond fe ellir nodi cefnogaeth.
- Y dylid ymateb i'r llythyr gan nodi bod y Cyd-Bwyllgor yn derbyn pryder lleol gan ofyn i'r Cyngor ail-edrych ar y sefyllfa ac os oedd y Cyngor yn dod i benderfyniad bod angen golau stryd ar sail diogelwch nid oedd y Cyd-Bwyllgor yn wrthwynebus.

PENDERFYNWYD bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn anfon ymateb i'r llythyr, ar ran y Cyd-Bwyllgor, yn seiliedig ar y sylwadau uchod.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r newidiadau isod:

- Newid y frawddeg 'Nodwyd y cynhelir cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor pan fu'r adeilad yn cau mwyaf tebygol ym Mhwllheli.' yn y paragraff cyntaf ar dudalen 5 i ddarllen 'Nodwyd pan fudd yr adeilad yn cau, mwyaf tebygol mai ym Mhwllheli y cynhelir cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor.'
- Newid rhan o'r paragraff olaf ar dudalen 6 i ddarllen '...Tynnodd sylw at y ffaith fod rhagor o astudiaethau cyfoes wedi eu cwblhau parthed tyrbinau gwynt a ffermydd solar, gan nodi bod safleoedd y clystyrau o dyrbinau gwynt a gynigiwyd ar sail technegol gan ARUP Associates yn 2012 wedi eu diystyrru gan astudiaethau diweddarach a roddodd ystyriaeth i sensitifrwydd y dirwedd. Roedd y CDLI ar y cyd drafft hefyd yn dynodi tir o amgylch Rhoslan fel yr ardal chwilio flaenoriaethol yn Nwyfor ar gyfer ffermydd solar mawrion oherwydd materion tirweddol yn ogystal â chapasiti'r grid cenedlaethol.'

5. PROSIECTAU DIWEDDAR GWASANAETH AHNE LLŶN

Cyflwynodd Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn adroddiad ar waith y Gwasanaeth AHNE. Rhoddwyd diweddariad ar y prosiectau canlynol:

- Gwaredu Arwyddion Ffordd Blêr;
- Cylchdeithiau Beics Llŷn;
- Dehongli Tre'r Ceiri;
- Prosiect Ffynnon Aelrhwi.

Nododd aelod ei fod yn ymwybodol bod y bardd Joseph Sherman wedi cyfansoddi barddoniaeth yng nghyswllt Tre'r Ceiri ac fe fyddai'n eu hanfon ymlaen i'r Gwasanaeth AHNE.

Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn at y cyflwyniad a dderbyniwyd yn y cyfarfod blaenorol yng nghyswllt cynllun Rhodd Eryri sef cynllun peilot lle'r oedd ymwelwyr yn cyfrannu tuag at waith cadwraeth yn lleol. Nododd ei fod wedi mynychu digwyddiad a gynhaliwyd yn Llanberis i ddathlu llwyddiant blwyddyn gyntaf y cynllun. Nododd bod 45 busnes yn aelod o'r cynllun erbyn hyn, gyda £3,500 wedi ei gasglu a'u bod yn anelu i gasglu £10,000 erbyn mis Medi.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau yng nghyswllt prosiect tebyg yn yr AHNE, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y cyflwynir mwy o wybodaeth o ran sefydlu prosiect o'r fath ar gyfer yr AHNE i'r cyfarfodydd nesaf.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

6. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Cyflwynwyd adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn a oedd yn manylu ar sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Nodwyd mai £55,000 oedd swm y Gronfa ar ddechrau blwyddyn ariannol 2016/17 ac fe lwyddwyd i ddyrannu'r cyfan. Tynnwyd sylw at yr atodiad a oedd yn cynnwys crynodeb o'r prosiectau a dderbyniodd gyfraniad gan y Gronfa.

Adroddwyd y derbyniwyd cadarnhad fod £55,000 yn y Gronfa ar gyfer 2017/18 ac anogwyd aelodau i hyrwyddo'r Gronfa.

Ymatebodd y Swyddog i gwestiynau/sylwadau'r aelodau yng nghyswllt prosiectau penodol.

Nododd y Cadeirydd ei werthfawrogiad am y gwaith.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

7. AELODAU LLEOL AR Y CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn a oedd yn egluro goblygiadau, a'r broses, o newid cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol o ran nifer yr Aelodau Lleol all fod yn aelodau o'r Cyd-Bwyllgor ar unrhyw adeg yn unol â phenderfyniad y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2015.

Eglurwyd bod y cyfansoddiad presennol yn nodi mai 5 Aelod Lleol all fod yn aelodau o'r Cyd-Bwyllgor ar unrhyw adeg gydag aelodau yn cyfnewid yn dilyn etholiadau lleol. Tynnwyd sylw, ar adeg y gwnaed y penderfyniad, roedd disgwyl y byddai ffiniau wardiau'r ardal yn newid ac y byddai llai o Aelodau Lleol yn cynrychioli wardiau yn yr AHNE (yn rhannol neu gyfan gwbl). Fodd bynnag, ni fu unrhyw newid yn y wardiau, felly roedd cyfanswm yr aelodau gyda wardiau yn yr AHNE (yn rhannol neu gyfan gwbl) yn 11.

Tynnwyd sylw pe byddai'r holl Aelodau Lleol yn rhan o'r Cyd-Bwyllgor, byddai aelodaeth y Cyd-Bwyllgor yn cynyddu o 27 i 33 gyda mwyafrif sylweddol yn aelodau o Gyngor Gwynedd. Amlygwyd bod sedd i gynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned yn yr AHNE ar y Cyd-Bwyllgor eisoes.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Gan nad oedd y ffiniau etholiadol yn newid dylid ystyried gadael i'r Aelodau Lleol benderfynu ymysg ei gilydd pwy fyddai'n aelodau o'r Cyd-Bwyllgor.
- Bod Cynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig wedi anfon sylwadau i nodi ei fod o'r farn y dylid cadw at 5 Aelod Lleol ar y Cyd-Bwyllgor gan y byddai 11 Aelod Lleol yn newid y cydbwysedd yn ormodol o ran cynrychiolaeth y Cyngor. Roedd yn awgrymu hefyd efallai y gellir newid aelodau ar raddfa o un y flwyddyn er mwyn cael newid graddol.
- Un opsiwn fyddai rhoi cyflwyniad i'r Aelodau Lleol o ran yr AHNE cyn iddynt lenwi ffurflen i nodi pam eu bod eisiau bod yn aelod o'r Cyd-Bwyllgor gan adael y penderfyniad i'r Cyd-Bwyllgor o ran pa aelodau ddylai wasanaethu ar y Cyd-Bwyllgor.
- Anghytuno efo 11 Aelod Lleol ar y Cyd-Bwyllgor gan fod angen trawstoriad/cydbwysedd o ran aelodaeth a ni ddylid gadael y penderfyniad i'r aelodau lleol gan all bod gwahaniaeth barn.
- Y dylid ystyried dyrannu seddi aelodau lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor.
- Bod angen pwysu ar y Cynghorau Cymuned i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor.

Cynigiwyd a eiliwyd i gadw nifer yr Aelodau Lleol i 5 ac argymhell i'r Cabinet / Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio y dylid diwygio cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor i nodi y dyrennir seddi Aelodau Lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor ac i ddileu'r cymal "Aelodau Cyngor Gwynedd i gael eu cylchdroi yn dilyn etholiadau lleol". Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe gariodd.

PENDERFYNWYD cadw nifer yr Aelodau Lleol i 5 ac argymhell i'r Cabinet / Aelod Cabinet - Cynllunio a Rheoleiddio y dylid diwygio cyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor i nodi y dyrennir seddi Aelodau Lleol yn unol â threfniadau Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor ac i ddileu'r cymal "Aelodau Cyngor Gwynedd i gael eu cylchdroi yn dilyn etholiadau lleol".

8. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn rhoi diweddariad ar y gwaith o ddiweddar ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE. Tywyswyd yr aelodau trwy 4 bennod drafft o Ran 2 o'r cynllun rheoli sef 'Amgylchedd glân a Llonyddwch', 'Cynefinoedd a Bywyd

Gwyllt', 'Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau' a 'Pobol a Chymdeithas' a oedd yn atodiad i'r adroddiad.

Tynnwyd sylw mai dyma'r penodau olaf o'r Cynllun drafft i'w hystyried. Adroddwyd mai'r cam nesaf fyddai llunio cynllun gweithredu i gyd-fynd gyda'r polisiâu a thynnu'r holl ddeunydd at ei gilydd i ffurfio Cynllun Rheoli diwygiedig cyflawn mewn ffurf drafft. Yn dilyn hynny bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am o leiaf 6 wythnos cyn dychwelyd i'r Cyd-Bwyllgor gyda manylion o'r ymatebion a dderbyniwyd ac argymhellion.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau roi sylwadau, nodwyd y prif bwytiau canlynol:

Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

- Tudalen 31 – Y dylid cyfeirio at Ymgyrch Neifion o dan y pennawd 'Rhywogaethau morol'.
- Tudalen 32 - Ddim yn hapus y cyfeirir at allyriannau CO₂ o dan y pennawd 'Newid hinsawdd', fe ellir nodi bod newid hinsawdd ond ni ddylid clymu cyfrifoldeb â gweithgareddau dynol. O'r farn bod yr haul yn ffactor mawr o ran newid hinsawdd.
- Bod geiriad polisi BP5 yn wannach na'r hyn a nodir ar dudalen 32. Hefyd, nodir yn y paragraff olaf ar dudalen 32 '...creu ynni adnewyddol ar raddfa addas...', fe ddylid nodi'n fanwl yn y polisiâu beth a olygir fel graddfa addas.

Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau

- Bod rhai o'r ffigyrau a gynhwyswyd yn y bennod yn gamarweiniol gan nad ellir cael dadansoddiad mor fanwl o ffigyrau STEAM. Nododd Cynrychiolydd Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn y dylid trafod y ffigyrau efo Steven Jones (Uwch Swyddog Gwasanaethau Twristiaeth) ac y byddai ef hefyd yn fodlon cynorthwyo. Ychwanegodd ei fod yn anodd cael ffigyrau cadarn o ran yr Ardal o Harddwch.

Pobol a Chymdeithas

- Tudalen 55 – y dylid ystyried nodi o dan y pennawd 'Cartrefi Gwyliau a Phrisiau Tai' yr angen i edrych ar y rhesymau pam bod cynifer o dai ar werth mewn rhai ardaloedd penodol o fewn yr AHNE.
- Tudalen 56 - Tlodi Tanwydd - cysylltiad uniongyrchol rhwng y dreth ar garbon a'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn gorfod mewnforio tanwydd oherwydd nid oedd hawl i gael pwerdai llosgi glo newydd, polisiâu wedi dilyn at nifer o bobl mewn tlodi tanwydd.
- O ran trefn y penodau, dylid ystyried rhoi'r bennod yma yng nghychwyn y cynllun er mwyn rhoi mwy o bwyslais i'r bennod.
- Bod cymunedau yn heneiddio a'r angen i edrych ar sut y gellir cefnogi unigolion i aros yn eu cynefin. Er nad oedd hyn yn unigryw i'r AHNE, dylid ystyried cyfeirio at y mater.

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y derbyniwyd sylwadau gan Gynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ar y penodau drafft ac fe'u hystyrir a'u hymgorffori yn y penodau. Ychwanegodd bod croeso i unrhyw aelod anfon sylwadau ar y penodau ato.

Nodwyd bod y Cynrychiolydd wedi nodi ei fod o'r farn y dylai'r cynllun cyflawn ddod gerbron y Cyd-Bwyllgor cyn mynd allan i ymgynghori. Cafwyd trafodaeth ar y mater. Mewn ymateb i gwestiwn o ran yr amserlen, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn mai'r bwriad oedd ymgynghori ar y cynllun yn ystod mis Gorffennaf gan ddod gerbron y Cyd-Bwyllgor yn ystod mis Medi/Hydref efo'r sylwadau a wnaed yn y cyfnod ymgynghori gan fabwysiadu'r cynllun cyn diwedd y flwyddyn. Daethpwyd i gonsensws y dylai'r cynllun drafft ddod gerbron y Cyd-Bwyllgor cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

PENDERFYNWYD:

- (i) derbyn yr adroddiad;**

- (ii) bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn diwygio'r penodau drafft yn unol â sylwadau'r Cyd-Bwyllgor;**
- (iii) cynnal cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor i drafod y Cynllun Rheoli drafft cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30yh a daeth i ben am 6.20yh

CADEIRYDD

Eitem 7

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	6ed o Fedi 2017
TEITL	Cynllun Rheoli'r AHNE
PWRPAS	Cyflwyno'r Cynllun Rheoli diwygiedig drafft
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Cymeradwyo'r Cynllun Rheoli diwygiedig drafft

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod perthnasol, i baratoi Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE ac i adolygu'r Cynllun hwnnw bob 5 mlynedd.
- 1.2 Mae gan Gydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE rôl bwysig i'w chwarae mewn cynorthwyo i baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli drwy roi sylwadau ac awgrymiadau.
- 1.3 Cyflwynir yr adroddiad hon i'r Cydbwyllgor yn sgil y penderfyniad i gael gweld copi cyflawn o'r Cynllun diwygiedig drafft cyn ymgynghori yn gyhoeddus.

2.0 Y CYNLLUN RHEOLI DRAFFT

- 2.1 Mae Rhan 1 a Rhan 2 o'r Cynllun Rheoli diwygiedig (drafft) wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor am sylwadau dros nifer o gyfarfodydd. Yn ystod y cyfarfodydd hyn gwnaed sylwadau ar wahanol rannau ac fe wnaed newidiadau yn dilyn hynny. Hefyd mae rai cywiriadau wedi eu gwneud a gwybodaeth wedi ei ddiweddarau.
- 2.2 Yn awr mae copi o'r Cynllun diwygiedig cyflawn yn cael ei gyflwyno gerbron y Cydbwyllgor (Atodiad 1). Mae'r Cynllun cyflawn yn cynnwys y Rhaglen Weithredu sef y gweithredoedd a'r prosiectau manwl y bwriedir eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf.

3.0 CAMAU NESAF

- 3.1 Y dilyn derbyn y Cynllun diwygiedig fel drafft bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am o leiaf 6 wythnos. Yna bwriedir dychwelyd i'r Cydbwyllgor gyda manylion o'r ymatebion fydd wedi eu derbyn ac argymhellion i newid y Cynllun.

4.0 ARGYMHELLIAD

- 4.1 I ystyried y Cynllun Rheoli diwygiedig drafft ac awgrymu newidiadau neu welliannau lle bernir fod achos teg dros wneud hynny.
- 4.2 Derbyn y Cynllun diwygiedig drafft fel sail ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN

CYNLLUN RHEOLI
(DRAFFT DIWYGIEDIG)

2015-2020



www.ahne-llyn-aonb.org

www.gwynedd.llyw.cymru



CYNNWYS

Rhan 1

1.0	CYFLWYNIAD	1
2.0	CYD-DESTUN	9
3.0	Y DULL ECOSYSTEM	26
4.0	RHINWEDDAU ARBENNIG LLŶN	31
5.0	YR WELEDIGAETH	40

Rhan 2

6.0	TIRLUN AC ARFORDIR	46
7.0	AMGYLCHEDD GLÂN A LLYGREDD ISEL	60
8.0	BYWYD GWYLLT A CHYNEFINOEDD	67
9.0	YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL	82
10.0	YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT	97
11.0	POBOL A CHYMDEITHAS	105
12.0	CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG	113
13.0	HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD	126
14.0	CYNLLUN GWEITHREDU	138

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cynllun Rheoli

1.1.1 Dyma Gynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penrhyn Llŷn. Mae'r Cynllun wedi ei baratoi gan Gyngor Gwynedd a phartneriaid eraill ac mae'n berthnasol i ran o Benrhyn Llŷn a gafodd ei dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn 1957.

1.1.2 Mae'n ofynnol i baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer pob Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn unol â gofynion y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli cyntaf ar gyfer AHNE Llŷn yn 2005 a chafodd y Cynllun hwnnw ei adolygu yn 2009/10. Mae hwn yn adolygiad pellach o'r Cynllun gwreiddiol a bydd yn weithredol am y cyfnod 2014 hyd at 2019.

1.2 Beth yw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)?

1.2.1 Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi eu dynodi ar sail y tirlun trawiadol a golygfeydd arbennig. O'r safbwynt yma mae'r AHNE yr un mor bwysig o ran gwerth cadwraeth â'r Parciau Cenedlaethol - ac maent wedi eu dynodi o dan yr un ddeddf - sef Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Gyda'i gilydd mae'r AHNE a'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu diffinio yn genedlaethol fel tirluniau gwarchoddedig.

1.2.2 Prif bwrpas dynodi ardal yn AHNE yw gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, sy'n cynnwys diogelu planhigion, bywyd gwylt a'r nodweddion daearyddol yn ogystal â'r nodweddion sy'n ymwneud â'r tirlun. Hefyd mae dylanwad pobol ar y tirlun yn bwysig ac felly mae angen gwarchod olion archeolegol, hanesyddol a phensaernïol. Mae pobol a'r gymdeithas yn rhan allweddol o gymeriad ardal ac felly mae angen gofalu am les cymdeithasol ac economaidd Ardaloedd o Harddwch gan roi sylw i amaethyddiaeth, coedwigaeth a diwydiannau gwledig eraill yn ogystal ag anghenion cymdeithasol cymunedau lleol.

1.2.3 Oherwydd eu bod yn ardaloedd deniadol mae Ardaloedd o Harddwch yn fannau poblogaidd i ymwelwyr. Daw budd i'r economi leol o'r diwydiant ymwelwyr ond mae rhai effeithiau negyddol hefyd fel sbwriel ar safleoedd poblogaidd, traffig a phwysedd ar wasanaethau lleol. Rhaid anelu at gydbwysedd er mwyn rheoli effeithiau a gwarchod yr harddwch sy'n gwneud yr ardal yn ddeniadol.

1.2.4 Mae prif ddogfen polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad - Polisi Cynllunio Cymru, Rhif 7, 2014 yn cadarnhau bod AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn gyfartal o ran statws a bod yn rhaid eu gwarchod :

“Y prif amcan wrth ddynodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol. Dylai polisiau [cynllunio] a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio ar AHNE ffafrio diogelu harddwch naturiol, er mai priodol hefyd fydd ystyried lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac awdurdodau perthnasol eraill ddyletswydd statudol i barchu dibenion AHNE” Para 5.3.5.

“Yr un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn nhermau harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd a rhaid diogelu'r ddau yn llwyr rhag datblygiadau anaddas. Mae'r statws cyfwerth hwn yn golygu bod rhaid trin Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn yr un modd mewn polisiau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE, dylai polisiau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu roi pwys mawr ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn.” Para 5.3.6.

1.2.5 Penrhyn Gŵyr oedd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol cyntaf i gael ei dynodi ym Mhrydain yn 1956. Yna yn 1957 dynodwyd rhan o Benrhyn Llŷn yn AHNE (y drydedd ardal ym Mhrydain). Erbyn hyn mae 46 AHNE yn y Deyrnas Unedig, gyda 33 ohonynt yn Lloegr, 4 yng Nghymru, 1 yn rhannol yng Nghymru a Lloegr ac 8 yng Ngogledd Iwerddon.

1.2.6 Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn dirluniau â llawer o hanes, diwylliant a threftadaeth sydd wedi datblygu dros filoedd o flynyddoedd. Oherwydd hyn gosodwyd yr AHNE fel tirluniau Categori V gan Uned Cadwraeth y Byd (IUCN). Diffiniwyd tirluniau yn y Categori yma yn 1994 fel :

“Ardal o dir, ag arfordir a moroedd fel y bo'n briodol, lle mae rhyngweithio rhwng pobl a byd natur dros amser wedi creu ardal o gymeriad arbennig â gwerth esthetig, ecolegol a/neu ddiwylliannol sylweddol ac amrywiaeth biolegol helaeth yn aml. Mae diogelu cywirdeb y rhyngweithio traddodiadol hwn yn hanfodol ar gyfer gwaith gwarchod, gwaith cynnal ac esblygiad ardal o'r fath.” [Cyfieithiad]

1.2.7 Mae gan Gynllun Rheoli yr AHNE ran bwysig i'w chwarae o ran y berthynas rhwng safon y tirlun, yr economi a phobol leol gan anelu at ddatblygiad sydd yn cynnal ac yn parhau'r holl agweddau hyn. Dyma beth yw datblygiad cynaliadwy sydd yn greiddiol i'r Cynllun Rheoli.

1.3 Penrhyn Llŷn

1.3.1 Mae Penrhyn Llŷn yn nodedig am yr arfordir amrywiol a'r tirlun hardd - a dyma oedd y sail ar gyfer ei dynodi yn AHNE. Mae oddeutu chwarter Penrhyn Llŷn, tua 15,500 hectar yn yr ardal ddynodedig gyda'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond mae'r ardal hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys brynau o graig igneidd amlwg.

1.3.2 Estyniad naturiol i fasiff Eryri yw Llŷn gyda daeareg gymhleth sy'n cynnwys creigiau hynafol cyn-Gambrian. Adlewyrchir y daeareg gan yr amrywiad gwych o dirluniau arfordirol, o glogwyni creigiog serth o gwmpas Bae Aberdaron a'r trwynau a sustemau twyni tywod yng nghyffiniau Abersoch. Cadwyn fynyddig yr Eifl (564m) sy'n ffurfio'r manau uchaf y Llŷn. Yna ceir llwyfandir yn ymestyn tuag at y môr a chreigiau du Mynydd Mawr sydd ar

flaen y Penrhyn. Mae ffyrdd cul a throellog ynghyd â ffermydd a bythynnod gwyngalchog yn nodweddiadol o'r ardal a cheir hefyd ardaloedd agored o dir comin hynafol.

- 1.3.3 Mae Enlli, sydd yn yr AHNE, yn ynys arbennig. Mae iddi gysylltiadau Cristnogol yn dyddio yn ôl i gyfnod cynnar iawn a bu yn denu pererinion o bell ac agos dros yr oesoedd. Mae iddi le amlwg mewn chwedloniaeth Gymreig ac yn ôl y sôn fe gladdwyd 20,000 o saint yma. Mae'r ynys yn gyfoethog o olion ac adeiladau hanesyddol ac yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt.
- 1.3.4 Mae gan y Penrhyn etifeddiaeth hanesyddol gref gyda safleoedd archeolegol pwysig o bob cyfnod. Mae'r rhain yn amrywio o naddion fflint o gyfnod cyn-hanes tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl i olion militaraid yr Ugeinfed Ganrif. Mae rhan fwyaf o Lŷn ac Ynys Enlli wedi ei gynnwys ar Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru (Cadw 1998).
- 1.3.5 Patrwm ffermio o unedau bychan traddodiadol sydd i Lŷn ac mae hyn wedi bod o gymorth i gynnal y tirlun a'r amgylchedd. Mae'r diwydiant amaethyddol wedi gweld newidiadau mawr, ac mae'r nifer sy'n ennill bywoliaeth o'r diwydiant wedi lleihau yn sylweddol. Yn ogystal, mae'r diwydiant pysgota wedi edwino ac ychydig iawn o bysgotwyr llawn amser a geir bellach er bod nifer wrthi ar sail rhan amser. Bu'r diwydiannau cloddio mwynau a chwarelydda yn bwysig iawn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.
- 1.3.6 Mae'r ardal wedi dioddef allfudiad o'r boblogaeth ifanc leol tra ar yr un pryd gwelwyd mewnfudiad o bobl o rannau eraill o Gymru a Phrydain. Mae llawer o'r rhai sydd yn mudo i'r ardal wedi ymddeol, gan gynyddu'r canran o bobol hyn sydd ddim yn gweithio, ond yn ddiweddar gwelwyd mwy o deuluoedd yn symud i mewn. Does gan y rhan fwyaf o fewnfudwyr ddim gwybodaeth am yr iaith na'r diwylliant ac mae hyn wedi amharu ar gymeriad diwylliannol yr ardal a'r defnydd o'r iaith Gymraeg ond er hynny mae'r canran sy'n siarad yr iaith gyda'r uchaf drwy Gymru.
- 1.3.7 Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn yr economi, ond mae'n rhoi pwysedd ar wasanaethau, tan adeiledd a'r amgylchedd. Mae nifer o bentrefi arfordirol fel Abersoch a Nefyn bellach yn ganolfannau twristaidd poblogaidd. Yn y manau gwyliau poblogaidd mae cynnydd sylweddol mewn poblogaeth, teithio a gweithgareddau yn y tymor gwyliau a hefyd ar lefel llai dwys ar hyd y flwyddyn. Mae hyn yn creu pwysedd ar yr ardal yn gyffredinol ond efallai'n fwy ar hyd yr arfordir deheuol drwy brysurdeb ar y traethau, ffyrdd, meysydd parcio, manau lansio cychod ac yn y môr ei hun.

1.4 Pam fod angen Cynllun Rheoli ar gyfer yr AHNE?

1.4.1 Mae Adran 89 (2) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol perthnasol, fel Cyngor Gwynedd, i: *“baratoi a chyhoeddi cynllun sydd yn llunio eu polisi ar gyfer rheoli'r ardal o harddwch naturiol eithriadol ac ar gyfer gwireddu eu gweithredoedd mewn perthynas â'r ardal”*. Hefyd fe nodir yn ddiweddarach yn y Ddeddf (**Adran 84**) y dylai awdurdodau lleol gymryd:

“pob cam gweithredu a fydd o gymorth, fel y gwelant hwy, i warchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE neu'r rhan ohoni sydd yn eu hardal.”
[Cyfieithiad]

1.4.2 Yr Uned AHNE, Cyngor Gwynedd a Chydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE sydd yn arwain y gwaith o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli. Mae cynrychiolaeth o nifer o wahanol fudiadau a chyrrff ar y Cydbwyllgor yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Cynghorau Cymuned, Undebau Amaethyddol, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfeillion Llŷn.

1.4.3 Mae'n bwysig i nodi er fod Cyngor Gwynedd a'r Cydbwyllgor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun mae'r Cynllun yn berthnasol i'r holl unigolion sydd yn byw ac yn gweithio yn yr ardal, ymwelwyr o bob math a hefyd gwahanol gyrff a mudiadau sy'n gweithredu yn lleol.

1.4.4 Y Cynllun Rheoli yw un o'r dogfennau pwysicaf o ran dyfodol yr AHNE. Dogfennau eraill allweddol bwysig yw Strategaethau allweddol Gwynedd, Y Cynllun Datblygu Lleol (sy'n ymwneud â'r drefn gynllunio) a Strategaethau a Chynlluniau sefydliadau eraill sy'n weithredol yn yr ardal.

1.4.5 Mae'r Cynllun Rheoli yn ddogfen sy'n rhoi trosolwg o'r holl strategaethau a chynlluniau eraill perthnasol ac yn fodd i'w cysylltu â'i gilydd, yn ogystal â chydlynu strategaethau a gweithredoedd eraill. Mae gan y Cynllun Rheoli ran allweddol felly o ran sicrhau bod darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn cael eu bodloni, gan gynnwys y dyletswyddau a osodir ar bob corff cyhoeddus *“i gymryd ystyriaeth o bwrpas dynodi yn AHNE”* yn eu gweithgareddau (**Adran 85**).

1.5 Beth yw pwrpas Cynllun Rheoli?

1.5.1 Pwrpas y Cynllun Rheoli yw rheoli newid mewn modd cadarnhaol a dylanwadu ar beth sy'n digwydd yn yr ardal. Mae'r Cynllun Rheoli hefyd â'r nod o wella sefyllfa economaidd a lles cymdeithasol yr ardal mewn modd sy'n llesol i'r harddwch naturiol a'r nodweddion gwerthfawr eraill.

1.5.2 Mae'r Arolwg o Gyflwr yr AHNE yn rhan greiddiol o'r Cynllun ac yn bwysig ar gyfer cadw golwg ar gyflwr gwahanol adnoddau yn yr ardal. Bydd angen monitro a diweddarau'r wybodaeth yma a gall hyn ddangos tueddiadau a newidiadau dros amser. Ar sail y wybodaeth a gesglir gellir hyrwyddo

gweithredoedd sydd yn llesol i'r AHNE ar yr un pryd â rheoli neu gyfyngu datblygiadau niweidiol.

1.5.3 Drwy baratoi Cynllun Rheoli mewn ffordd resymegol bydd yn bosibl cael darlun llawn a chlir o gyflwr yr ardal a chytundeb ar sut y dylai'r ardal gael ei rheoli a mesurau addas ar gyfer gwneud hynny. Mae ymgynghori yn rhan bwysig o'r broses o adolygu Cynllun Rheoli er mwyn cael cytundeb a chydweithrediad gwahanol gyrrff ac unigolion.

1.5.4 Rôl arall bwysig i'r Cynllun yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r AHNE. Bydd hyn yn cynnwys dangos a chyfleu be mae'r ardaloedd hyn yn ei gynnig yn nhermau mwynhad, cyfleon hamdden, lles iechyd, cynnyrch lleol ac yn y blaen. Hefyd bydd y Cynllun yn dangos pa ddatblygiadau sy'n rhoi pwysedd ar yr ardal a'r hyn y mae yn ei gynnig fydd yn ei dro, gobeithio, yn creu cefnogaeth i gynnal yr ardal. Yn ogystal mae'r Cynllun Rheoli yn :


- Nodi lle y bydd gweithgareddau a gwariant yn cael eu targedu
- Fodd i gefnogi ceisiadau am grantiau

1.6 Sut yr adolygwyd y Cynllun?

1.6.1 Rhoddir arweiniad pur fanwl ar sut i adolygu Cynlluniau Rheoli AHNE mewn dogfen a gyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2009 sef "Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol – Arweiniad ar adolygu cynlluniau rheoli". Mae'r Arweiniad yn nodi fod angen rhoi sylw i nifer o faterion allweddol er mwyn adolygu'r Cynllun Rheoli yn effeithiol.

1.6.2 Hefyd ar gyfer adolygu'r Cynllun y tro yma bu i Cyfoeth Naturiol Cymru gomisiynu cwmni Craggatak i baratoi canllawiau ar sut i ymgorffori y Dull Ecosystem yn y Cynlluniau Rheoli.

1.6.3 Mae'r diagram sy'n dilyn yn dangos yn fras y camau i adolygu'r Cynllun:



1.6.4 Fel y gwelir o'r diagram mae ymgynghori wrth adolygu'r Cynllun Rheoli yn hollbwysig. Wrth adolygu'r Cynllun bu i'r Uned AHNE ymgynghori'n gyson gyda chydweithwyr, partneriaid a'r cyhoedd:

- ◆ Staff allweddol Cyngor Gwynedd;
- ◆ Sefydliadau Adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad fel 'sefydliadau perthnasol' megis Cynghorau Cymuned, Ymgymerywr Statudol a.y.b.
- ◆ Aelodau Lleol;
- ◆ Cyrff a mudiadau perthnasol lleol megis yr Undebau Amaethyddol, Cyfeillion Llŷn a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (yn bennaf trwy'r Cydbwyllgor) ;
- ◆ Unigolion lleol - trwy ddigwyddiadau, holiaduron a'r safle we.

1.7 Sut bydd y Cynllun yn cael ei weithredu?

1.7.1 Bydd y Cynllun yn cael ei weithredu gan yr Uned AHNE, Adrannau eraill o Gyngor Gwynedd a phartneriaid eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw Cymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yr Uned AHNE fydd yn cydgordio'r gwaith o weithredu'r Cynllun mewn cydweithrediad gyda'r Cydbwyllgor.




1.7.2 Lleolir yr Uned AHNE yn Swyddfa Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli. Y prif faterion eraill y mae'r Uned yn gyfrifol amdanynt yw:


- ◆ Cyd-gordio gwaith y Cydbwyllgor Ymgynghorol;
- ◆ Hybu polisïau a gweithredoedd i warchod, gwella a rheoli'r AHNE;
- ◆ Arwain gwaith y Cyngor ar weithgareddau AHNE yn genedlaethol;
- ◆ Codi a chynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ardal;
- ◆ Darparu sylwadau ar geisiadau datblygu
- ◆ Chwilio am ffynonellau ariannol a chwblhau ceisiadau grant;
- ◆ Arwain a datblygu prosiectau er budd yr AHNE;
- ◆ Darparu Cyngor proffesiynol i'r Cyngor a'i bartneriaid ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau;
- ◆ Rheoli a Gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

1.7.3 Sefydlwyd Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 gydag aelodaeth sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngorau Cymuned, Cynrychiolwyr Undebau Amaethyddol, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chyrff cyhoeddus a gwirfoddol eraill. Ei swyddogaeth yw cynghori'r awdurdodau lleol a chyrff eraill ar faterion cefn gwlad a rheoli amgylcheddol cyffredinol, a bod yn fforwm i drafod materion a godir. Y Cydbwyllgor sydd wedi bod yn gyfrifol am gyd-gordio gwaith adolygu'r Cynllun Rheoli hwn trwy gyfres o gyfarfodydd.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn Llyn Area of Outstanding Natural Beauty

Nodiant Notation

-  Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn
Llyn Area of Outstanding Natural Beauty
-  Arfordir Treftadaeth
Heritage Coast
-  Llwybr Arfordir
Coastal Path



1:175,000
 © Hawlfraint y Goron. Cyngor Gwynedd. Trwydded Rhif 100023387 - 2007
 © Crown Copyright. Gwynedd Council. Licence Number 100023387 - 2007

2.0 CYD-DESTUN

2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r Cynllun Rheoli hwn ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, yn berthnasol i holl unigolion, mudiadau, busnesau a sefydliadau sy'n weithredol yn yr ardal. Er fod y Cynllun yn ymwneud ag un ardal weddol fechan o Gymru mae gan beth sydd yn digwydd yn yr ardal hon y potensial i ddylanwadu ar ardaloedd eraill a'r amgylchedd yn ehangach.

2.1.2 Yn ddiweddar (2014) mae Llywodraeth Cymru, yn yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru wedi gosod her fawr i'r tirweddau dynodedig:

*"[Rydym] am i'r tirweddau dynodedig ddod yn esiamplau i'r byd ar sut i fod yn gynaliadwy. Dylent fod yn dirweddau byw ag ynddynt gymunedau byrlymus a chadarn sy'n cynnig cyfleoedd mawr i hamddena yn yr awyr agored, gydag ecosystemau llewyrchus a bioamrywiaeth gyfoethog. O roi'r arweiniad priodol, mae ganddynt y potensial i fod yn ardaloedd lle gall atebion arloesol i her cynaliadwyedd mewn ardaloedd gwledig gael eu cloriannu, eu deall a'u cyhoeddi."*¹

2.1.3 Mae'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli wedi ei baratoi o fewn cyd-destun cymhleth o faterion byd eang, rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae angen i'r Cynllun blethu i mewn gydag amrywiaeth eang o gynlluniau, strategaethau, polisiau a mentrau gan wahanol gyrrff a mudiadau.

2.1.4 Nid oes lle yma i gynnwys llawer o fanylion a dyfynnu rhannau helaeth o ddogfennau. Yn hytrach fe roddir crynodeb o'r prif faterion a'r cyd-destun cenedlaethol a lleol a chyfeirio at ffynonellau a gwybodaeth bellach - yn aml, drwy gyfeirio at wybodaeth ar safleoedd gwe. Mae rhywfaint o'r wybodaeth mwy perthnasol hefyd wedi ei gynnwys mewn Atodiad i'r Cynllun. Er mwyn ceisio rhoi darlun gweddol glir o'r sefyllfa fe rannwyd y cyd-destun perthnasol i'r categorïau canlynol: **Byd eang, Ewropeaidd, Cenedlaethol a Lleol.**

MATERION BYD-EANG A RHYNGWLADOL

2.2 Newid hinsawdd

2.2.1 Bellach mae ffeithiau a gwybodaeth arall yn dangos fod yr hinsawdd yn newid. Dyma'r arwydd mwyaf clir o derfynau amgylcheddol. Mae hyn yn fater sydd â'r potensial i gael dylanwad sylweddol ar y byd yr ydym yn byw ynddo.

¹ Y Gweinidog dros Gyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru (Mawrth 2015) Llythyr at gyrrff llywodraethu y tirweddau dynodedig.

2.2.2 Mae'r dystiolaeth o'r newid yn yr hinsawdd yn glir ac amlwg ac y mae darlun o'r sefyllfa fyd-eang yn 2014 i'w gael gan Banel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)².

2.2.3 Mae dwy ffordd gadarnhaol o ymateb i newid hinsawdd. Mae **lliniaru** yn ymwneud â mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd (e.e. lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, cynnal lefelau storio carbon mewn pridd organig neu gynyddu lefelau o CO₂ a gaiff ei gymryd o'r atmosffer). Mae **addasu** yn ymwneud ag addasu i effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd, cymunedau a'r economi (e.e. lleihau sensitifrwydd i effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd, ymateb i gyfleoedd posibl, a datblygu dealltwriaeth well o effeithiau tebygol unrhyw newid).

2.2.4 Mae ymateb i newid yn yr hinsawdd yn gofyn am ddull gweithredu integredig a dealltwriaeth o'r rhyngweithio sy'n digwydd rhwng yr amgylchedd, yr economi a'r gymuned leol. Mae angen i Gynllun Rheoli AHNE ystyried ei ymateb i gamau lliniaru ac addasu mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd trwy adnabod ardrawiad a chynnwys camau gweithredu priodol.

2.3 Gwasanaethau Ecosystemau a Chysylltedd

2.3.1 Yn 1992 o dan arweiniad y Cenhedloedd Unedig yn Rio De Janeiro fe lofnododd y rhan fwyaf o wledydd y byd i'r Gytundeb Amrywiaeth Bywydegol³. Dyma pryd y defnyddiwyd y term ecosystemau fel â ganlyn:

"Ecosystem" means a dynamic complex of plant, animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functional unit"

2.3.2 Mae ecosystemau yn darparu amrywiaeth fawr o wasanaethau yn ymwneud â'r amgylchedd, cynnyrch a lles cyhoeddus. Fel rheol dosberthir gwasanaethau ecosystemau i bedwar categori, sef :

- **Gwasanaethau cefnogi:** megis cylchu maetholion, cynhyrchu ocsigen a ffurfio pridd.
- **Gwasanaethau darparu:** megis bwyd, tanwydd a dŵr.
- **Gwasanaethau rheoleiddio:** megis rheoleiddio'r hinsawdd / cymryd carbon o'r atmosffer, rheoli ansawdd aer, rheoleiddio erydiad, puro dŵr, peillio a rheoleiddio peryglon naturiol.
- **Gwasanaethau diwylliannol:** h.y. manteision o ran iechyd, profiadau ysbrydol, gweithgareddau hamdden a phrofiadau mwynhad.

2.3.3 Mae'r **dull ecosystemau** yn disgrifio strategaeth ar gyfer rheolaeth integredig o dir, dŵr ac adnoddau byw sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy o'r adnoddau hyn mewn dull teg. Mae wedi ei seilio ar 12 egwyddor (gweler Adran 3 am fwy o wybodaeth am hyn).

² Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd gw. www.ipcc.ch/

³ Cytundeb Amrywiaeth Bywydegol (1992) gw.www.cbd.int/ecosystem

2.3.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'r wlad i fabwysiadu'r dull ecosystemau o gynnal a gwella ei adnoddau naturiol (gweler isod)

2.4 Gwarchod Natur ac Adnoddau Naturiol

2.4.1 Mae AHNE, ynghyd â Pharciau Cenedlaethol, yn perthyn i rwydwaith o'r hyn a elwir yn dirweddau gwarchodedig. Mae AHNE yn rhan o dirweddau Categori V a ddiffinnir fel:

*"A protected area where the interaction of people and nature over time has produced an area of distinct character with significant ecological, biological, cultural and scenic value: and where safeguarding the integrity of this interaction is vital to protecting and sustaining the area and its associated nature conservation and other values."*⁴

2.4.2 Mae'n **angenrheidiol** i dirweddau Categori V gael y nodweddion hanfodol canlynol:

- Tirwedd a/neu morwedd arfordirol ac ynys o ansawdd golygfeydd uchel a/neu hynod a gyda nodweddion cynefinoedd, fflora a ffawna a diwylliannol o bwys;
- Rhyngweithiad cydbwysol rhwng pobl a natur sydd wedi parhau dros amser ac sydd yn dal gyda hygrededd neu obaith rhesymol o adfer yr hygrededd hwnnw;
- Patrymau defnydd tir unigryw neu draddodiadol.

2.4.3 Mae'n **ddymunol** hefyd iddynt gael y nodweddion canlynol:

- Cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth sy'n cyd-fynd â'r dull o fyw a gweithgareddau economaidd;
- Trefniadaeth gymdeithasol unigryw neu draddodiadol fel y'i gwelir mewn arferion, dull o weithio neu gredoau lleol;
- Cydnabyddiaeth gan artistiaid o bob math a thraddodiadau diwylliannol (yn awr ac yn y gorffennol);
- Potensial ar gyfer adfer ecolegol a/neu dirwedd.

MATERION EWROPEAIDD

2.5 Y Confensiwn Ewropeaidd ar y Dirwedd

2.5.1 Er nad yn rhan uniongyrchol o'r fframwaith cyfreithiol mae'r Undeb Ewropeaidd a'r gwladwriaethau unigol wedi cefnogi offeryn Y *Confensiwn (Cytundeb) Ewropeaidd ar y Dirwedd*. Mae hwn yn cynnwys goblygiadau pwysig o safbwynt ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol:

⁴ www.iucn.org

- Mae Erthygl 1 yn cynnwys diffiniadau o beth a olygir gan “*dirwedd*”, “*polisi tirwedd*” ac “*amcan polisi tirwedd*”. Mae hefyd yn diffinio “*diogelu tirwedd*”, “*rheoli tirwedd*” a “*cynllunio tirwedd*”;
- Mae Erthygl 2 yn cynnwys diffiniad o hyd a lled y term tirwedd sy’n cynnwys ardaloedd trefol a lled drefol yn ogystal â thirwedd naturiol a gwledig ledled Ewrop;
- Mae Erthygl 5 yn gofyn i bob rhan-ddeiliaid gydnabod yn ei ddeddfwriaeth fod tirweddau yn elfen hanfodol o gynefin pobl, yn fynegiant o’u treftadaeth ac yn sylfaen i’w hunaniaeth. Mae’n gofyn iddynt sicrhau fod y cyhoedd yn cyfrannu at ddatblygu a gweithredu polisiau i warchod a gwella’r dirwedd. Mae gofyn hefyd iddynt gyfannu polisiau tirwedd gyda meysydd polisi eraill gan gynnwys cynllunio trefol a rhanbarthol

2.5.2 Yn ôl diffiniad y Cytundeb mae tirwedd yn golygu: “*ardal, fel y caiff ei dirnadau gan bobl, y mae ei chymeriad yn deillio o weithredu a rhyngweithio gan ffactorau naturiol a / neu ffactorau’n ymwneud â phobl.*” Mae’r Confensiwn Tirwedd, felly yn anelu at hyrwyddo gwarchodaeth a rheolaeth o bob math o dirweddau yn cynnwys rhai naturiol, gwledig, trefol yn ogystal â rhai ar dir, ar y dŵr ac ar y môr.

2.5.3 Cadarnhawyd ymlyniad y Deyrnas Gyfunol i’r Cytundeb hwn ym mis Tachwedd 2006.

2.6 Datganiad (Protocol) Gothenburg 2001⁵

2.6.1 Diffiniodd yr Undeb Ewropeaidd darged eglur yng Nghynhadledd Gothenburg yn 2001, sef “*atal colli bioamrywiaeth erbyn 2010*”. Rhoddodd hyn ar waith trwy ddogfen o’r enw *Communication on Halting Biodiversity by 2010 and Beyond* (Brwsel, Mai 2006). Roedd y ddogfen yn amlinellu maint y broblem ac yn bwrw golwg gyffredinol ar ddigonolrwydd ymateb yr UE.

2.6.2 Nododd y ddogfen bedwar maes polisi ar gyfer gweithredu ynghyd â deg amcan allweddol er mwyn cyflawni’r targed ar gyfer 2010. Mae nifer o’r rhain yn berthnasol i AHNE Cymru (Gweler Canllawiau CCGC am fwy o fanylion). Felly mae gan gynlluniau rheoli AHNE rôl bwysig i’w chwarae o ran cyfrannu ar wireddu amcanion atal colli bioamrywiaeth, hybu gwaith cadwraeth a helpu bioamrywiaeth i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

2.6.3 Ym mis Mai 2012 cytunodd y carfannau sydd yn bleidiol i’r datganiad wneud nifer o ddiwygiadau, gan gynnwys ymrwymiad i leihau allyriadau ymhellach tan 2020.

2.7 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr⁶

2.7.1 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw’r darn mwyaf pwysicaf o ddeddfwriaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â dŵr, a’i bwriad yw gwella ac

⁵ www.unep.org/env/irtap/multi_h1.html

⁶ http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/index_en.html

integreiddio'r modd y mae cyrff dŵr yn cael eu rheoli ar draws Ewrop. Yng Nghymru, bydd llawer o'r gwaith gweithredu'n cael ei gyflawni gan Gyfoeth Naturiol Cymru trwy Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch.

2.7.2 Daeth y Fframwaith i rym ym mis Rhagfyr 2000 a'r nod yw i aelod-wladwriaethau geisio "*cyrraedd statws cemegol ac ecolegol da mewn dyfroedd mewndirol ac arfordirol erbyn 2015*". Bydd ail gylch rheolaeth l'w gyflawni erbyn 2021 a'r trydydd erbyn 2027.

2.7.3 Bwriad y Fframwaith yn benodol yw:

- gwella statws ecosystemau dŵr a statws gwlypdiroedd cysylltiedig sy'n dibynnu ar ecosystemau dŵr, a'u hatal rhag dirywio;
- hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr;
- lleihau llygredd dŵr;
- sicrhau bod llygredd dŵr daear yn lleihau'n raddol.

2.7.4 Mae'r ymgynghoriad ar yr ail Gynllun Rheolaeth o Ddalgylchoedd Afon yng Nghymru newydd ddod i ben yn Ebrill 2015 a disgwylir y bydd y gofynion newydd yn eu lle yn yr Hydref.

2.8 Y Polisi Amaeth Cyffredin⁷

2.8.1 Yn sgil newidiadau i'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) a gyflwynwyd yn 2005, cafodd taliadau fferm eu gwahanu oddi wrth lefelau cynhyrchu amaethyddol - trwy'r system Taliad Sengl. Sefydlwyd system Glastir gan y Cynulliad yn 2012 gyda'r bwriad o roi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo i ddarparu gwasanaethau a chynnyrch amgylcheddol.

2.8.2 Ar gyfer y cyfnod 2014 – 2020 bydd newidiadau pellgyrhaeddol eto i PAC a diau y mae hyn yn arwain i gyfnod o leihau'r cymorth y mae Ewrop yn rhoi i amaethyddiaeth. Ers dechrau 2015 cychwynnwyd cyfnod pontio o bum mlynedd i gyflwyno system y Taliadau Uniongyrchol Sylfaenol (BPS). Mae'r drefn newydd yn seiliedig ar faint o dir y mae ffarmwr yn ffermio gyda 30% o'r taliad yn dibynnu ar fesurau gwyrdd i amddiffyn yr adnoddau naturiol sydd yn ei gwneud yn bosibl i gynhyrchu bwyd.

2.8.3 Mae'r newidiadau a wnaed i'r Polisi Amaeth Cyffredin yn anelu at greu diwydiant amaeth sy'n cyd-fynd yn well â'r farchnad. Fodd bynnag, mae cymhorthdal yn dal yn angenrheidiol i gynnal y diwydiant - ni fyddai'r rhan fwyaf o fusnesau'n hyfyw ar sail yr incwm a geir o ffermio'n unig. O ran amaethyddiaeth y materion sydd angen cadw golwg arnynt yw :

- lefelau cynhyrchu - er mwyn atal lefelau cynhyrchu amaethyddol rhag disgyn yn is na'r lefel sydd ei angen i gynnal y gadwyn gyflenwi a diwydiannau prosesu;

⁷ <http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/>

- cynnal gweithgarwch amaethyddol sy'n gyson â'r angen i fodloni amcanion ehangach mewn perthynas â thirwedd a bioamrywiaeth.

2.8.4 Rhennir tir amaeth yng Nghymru i un o dair rhanbarth – Rhostir, ardal dan Anfantais Mawr ac ardal dan Anfantais a thir llawr gwlad gyda'i gilydd. Cyfyngir taliadau Rhostir i dir sydd yn uwch na 400 metr yn hytrach na'r tir a ddangoswyd ar fap 1992. Mae hyn wedi cyfyngu ar y cyfran o'r AHNE a fydd yn cael ei ystyried yn rhostir rannau o'r Eifl, Gyrn Goch a Gyrn Ddu.

2.8.5 Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (2014 – 2020)⁸ yn cynnwys mesurau sy'n cefnogi amaethyddiaeth ac ardaloedd gwledig sef Echel 1 - Gwella Gallu'r Sector Amaeth a'r Sector Coedwigaeth i Gystadlu; Echel 2 - Gwella'r Amgylchedd a Chefn Gwlad; Echel 3 - Hybu Ansawdd Bywyd mewn Ardaloedd Gwledig ac Arallgyfeirio yn yr Economi Wledig; ac Echel 4 - LEADER.

2.8.6 Bydd y Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru nesaf yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cystadleurwydd (ar y fferm ac yn y gadwyn gyflenwi)
- yr Amgylchedd (gwaith amaeth-amgylcheddol, coetiroedd, ynni adnewyddadwy)
- y gymuned (mynediad i wasanaethau a ffordd LEADER o weithio).

2.8.7 Disgwylir y bydd y Cynllun, sy'n berthnasol i'r AHNE, yn cael ei gymeradwyo cyn diwedd 2015.

2.9 Asesiad Amgylcheddol Strategol⁹

2.9.1 Yn 2001, cyflwynwyd Gorchymyn yr UE sy'n golygu ei bod yn angenrheidiol i gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o gynlluniau a rhaglenni perthnasol. Cafodd y Gorchymyn ei droi'n gyfraith gan y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru).

2.9.2 Hefyd cyflwynwyd yr angen i gwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)¹⁰ dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Daeth hyn yn fater gorfodol o dan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007.

2.9.3 Mae manylion gofynion yr AAS a'r ARh C yn atodiad [].

2.9.4 Er bod yr Asesiadau hyn wedi cymhlethu ac arafu'r broses o adolygu Cynlluniau Rheoli mae nifer o fanteision ynghlwm â'r prosesau trwy sicrhau:

- nad yw cynlluniau yn cynnwys unrhyw beth a allai niweidio rhinweddau arbennig yr AHNE;

⁸

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/?skip=1&lang=cy>

⁹ <http://ec.europa.eu/environment/eia/sea-legalcontext.htm>

¹⁰ <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:31992L0043:EN:HTML>

- bod materion yn ymwneud â chynaliadwyedd yn cael sylw digonol;
- bod cynlluniau rheoli'n cael ei integreiddio â chynlluniau a strategaethau perthnasol eraill;
- bod modd sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng polisiau;
- nad yw lles safleoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol o ran bioamrywiaeth yn cael eu niweidio;
- gwella polisiau o ran gwarchod a gwella tirweddau a warchodir
- Mae'r canlyniadau yn cael eu hintegreiddio i'r broses o baratoi'r Cynllun Rheoli.

CYD-DESTUN Y DU

2.10 Strategaeth Datblygu Cynaliadwy

2.10.1 Rhoddir safbwynt y Deyrnas Unedig ar ddatblygiad cynaliadwy yn y ddogfen *Securing the Future: Delivering the UK Government Sustainable Development Strategy* (2005). Yn hon nodir fod dwy egwyddor sylfaenol ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yn y DU, sef:

- **Byw o fewn terfynau amgylcheddol.** *Parchu terfynau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y ddaear - er mwyn gwella ein hamgylchedd, sicrhau nad oes unrhyw beth yn amharu ar yr adnoddau naturiol sydd eu hangen i fyw, a sicrhau eu bod yn aros felly am genedlaethau;*
- **Sicrhau cymdeithas gadarn, iach a chyfiawn.** *Diwallu anghenion amrywiol pob unigolyn mewn cymunedau sydd eisoes yn bod a chymunedau'r dyfodol; hyrwyddo lles personol; hyrwyddo cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol; a chreu cyfleoedd cyfartal i bawb.*

2.10.2 Daeth Comisiwn y DG dros Ddatblygu Cynaliadwy i ben yn 2011. Er fod pob adran o'r Llywodraeth yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod eu polisiau a gweithredoedd yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy mae'r cyfrifoldeb am arwain ar ddatblygu a gweithredu polisi ar lefel y DG yn awr o fewn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

2.11 Datblygiadau Seilwaith Mawr

2.11.1 Fe gyflwynodd Deddf Cynllunio 2008 drefn newydd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer prosesu a phenderfynu ar brosiectau seilwaith cenedlaethol o bwys ("major infrastructure projects"). Mae rhain yn cwmpasu meysydd ynni, cludiant, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff. Ers 2011 mae'r cyfrifoldeb am brosesu rhain yn nwylo'r Arolygiaeth Cynllunio.

2.11.2 Cymharol brin yw'r nifer o brosiectau a broseswyd hyd yn hyn; mae wyth wedi eu cofrestru a'u prosesu yng Nghymru ond ddim un yn ardal Gwynedd. Mae natur y prosiectau dan sylw yn ei gwneud yn annhebygol y bydd ceisiadau tebyg yn cael eu derbyn o fewn yr AHNE Llŷn ond fe all ceisiadau

ar gyfer datblygiadau o'r fath ddigwydd o mewn rhai ardaloedd (e.e. Wylfa Newydd).

Y CYD-DESTUN CYMREIG

2.12 Datblygiad Cynaliadwy

2.12.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygiad cynaliadwy trwy Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Diffinnir Datblygiad Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009) fel datblygiad sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:

- mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

2.11.2 Oherwydd y pwyslais yma ar ddatblygiad cynaliadwy bydd Llywodraeth Cymru yn:

- mynnu bod y sefydliadau cenedlaethol y mae'n eu noddi (megis y Cyfoeth Naturiol Cymru) yn dangos sut y caiff datblygu cynaliadwy ei integreiddio yn eu gwaith;
- anelu at waith datblygu cynaliadwy yn ei bolisiâu ei hun, y bydd llawer ohonynt yn effeithio ar AHNE (e.e. amaethyddiaeth, coedwigaeth a chynllunio).

2.13 Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru

2.13.1 Mae 25% o arwynebedd Cymru yn dirweddau dynodedig. Maent yn cynnwys tri Parc Cenedlaethol a phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

2.13.2 Fel rhan o adolygiad o'r tirweddau dynodedig fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru banel o dan gadeiryddiaeth yr athro Terry Marsden i'w gynghori ar ddau fater:

- Pwrpasau y tirweddau a'r manteision o gael un dynodiad
- Trefniadau llywodraethu a rheoli'r ddau ddynodiad

2.13.3 Cyhoeddwyd adroddiad ar Gam Un – ac ymateb y Llywodraeth iddo - ym mis Mawrth 2015. Mae'r adroddiad yn gwneud chwe argymhelliad yn cynnwys ehangu dibenion a dyletswyddau statudol yr AHNE a newid yr enw i "Tirweddau Cenedlaethol Cymru".

2.13.4 Cyhoeddwyd Adroddiad Terfynol y Panel yn Hydref 2015. Mae'r Adroddiad yn cynnwys casgliadau Cam 1 ac hefyd Cam 2 oedd yn ystyried rheolaeth a llywodraethu yr ardaloedd dynodedig. Mae cyfanswm o 69 argymhelliad yn cael ei gwneud yn yr Adroddiad Terfynol.

2.13.5 Mae oblygiadau sylweddol a phellgyrhaeddol i'r Argymhellion y Panel Adolygu a bu i'r Gweinidog, Carl Sargeant sefydlu Gweithgor i ystyried sut i'w gweithredu.

2.14 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2.14.1 Daeth y Mesur hwn yn ddeddf fis Ebrill 2015. Ei bwrpas yw:

cryfhau trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2.14.2 Mae'r ddeddf yn:

- nodi amcanion i wella llesiant Cymru;
- cyflwyno dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud i lesiant Cymru;
- penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru i fod yn eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- gwneud Byrddau Gwasanaethau Lleol a chynlluniau llesiant yn statudol a symleiddio gofynion ar gyfer cynllunio cymunedol integredig.

2.14.3 Caiff AHNE a'r Pharciau Cenedlaethol eu hystyried yn fannau i roi prawf ymarferol ar ddulliau newydd o ddatblygu cynaliadwy. Yn y dyfodol, disgwylir y bydd tirweddau dynodedig yn rheoli adnoddau naturiol ac yn ceisio cyrraedd y chwe nod llesiant a nodir ym mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel a nodir ym tabl isod

Nod	Disgrifiad
Cymru lewyrchus	Economi arloesol a chynhyrchiol, gydag allyriadau carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur; ac sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am gyflogaeth ar gyfer poblogaeth fedrus ac addysgedig.
Cymru gydnerth	Amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag

	ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd a'r gallu i addasu i newid.
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

2.14.4 Mae disgwyl i'r tirweddau dynodedig, gan gynnwys AHNE Llŷn chwarae eu rhan, a gwneud cyfraniad i amrediad o feysydd polisi eraill - gan gynnwys yr economi, iechyd a lles a mynd i'r afael â thlodi – yn ogystal â materion amgylcheddol.

2.14.5 Mae'r Cynulliad hefyd yn ymroddedig i Safon y Ddraig Werdd sydd yn system reolaeth amgylcheddol yn seiliedig ar gynaliadwyedd. Gellir cael cydnabyddiaeth Rheolaeth Amgylcheddol Rhyngwladol ac Ewropeaidd (ISO 14001 ac EMAS) os gellir cydymffurfio â'r gofynion. Gan fod datblygiad cynaliadwy yn greiddiol i'r Cynllun Rheoli mae'r Cynllun hefyd wedi cyfrannu tuag at nod Cyngor Gwynedd i ennill Safon Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

2.15 Rheoleiddio ar y Môr

2.15.1 Pwrpas y Ddeddf Morol 2009 oedd symilhau rheoliadau a deddfwriaeth forl a gwella'r o weithredu fel bod mwy o gydweithio a dealltwriaeth. Mae'r Ddeddf yn cynnwys adrannau ar greu Sefydliad Rheoli Morol; cynllunio; trwyddedu gweithgareddau; gwarchod natur; rheoli pysgodfeydd; moderneiddio a symleiddio pwerau gorfodi a mynediad i dir arfordirol. Y gobaith yw y bydd y Mesur yn sicrhau bod yr amgylchedd morol ac arfordirol yn cael ei reoli'n fwy effeithiol ac mewn modd mwy cynaliadwy.

2.15.2 Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw cyflawni rhai swyddogaethau mewn perthynas â'r môr, tra bod swyddogaethau eraill wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

2.15.3 Mewn ardal arfordirol fel Llŷn mae'n hanfodol ystyried y berthynas rhwng y tir a'r môr. Yn wir roedd yr arfordir a'r amgylchedd forol yn un o'r rhesymau dros ddynodi'r ardal ac mae'n un o rinweddau'r ardal. Mae'r cysylltiadau rhwng y tir a'r môr yn niferus ac amrywiol, ac mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â rhai amgylcheddol. Mae nifer o ddogfennau ar gael sy'n rhoi arweiniad pellach ar yr ystyriaeth sydd angen ei roi i'r nodweddion a'r berthynas rhwng y tir a'r môr.

2.16 Cynllunio yng Nghymru

2.16.1 Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) gydsyniad Brenhinol ar 6ed Gorffennaf 2015.

2.16.2 Mae pump prif amcan i'r Ddeddf:

- fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – o dan y Ddeddf newydd bydd modd gwneud ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol
- atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun – bydd y Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- gwella gwytnwch - bydd y Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno
- rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella – bydd y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio
- galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol – bydd y Ddeddf yn gwneud newidiadau i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau uniongyrchol ac ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.

2.16.3 Ynghyd â newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau, bydd y Ddeddf yn:

- helpu i ddarparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith sydd eu hangen ar Gymru
- cynnig cyfleoedd i ddiogelu a gwella ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf
- cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

2.16.4 Mae'r fframwaith strategol ar gyfer arwain datblygiad yng Nghymru wedi ei osod ar hyn o bryd yng Nghynllun Gofodol Cymru: *Pobl, Lleoedd, Dyfodol* 2008 a Chynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru. Fodd bynnag mae'r Ddeddf uchod yn cyflwyno darpariaeth i greu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol

- 2.16.5 Rhoddir arweiniad polisi cynllunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y ddogfen Polisi Cynllunio Cymru a ddiweddarwyd yn 2015. Mae'r ddogfen yn rhoi arweiniad polisi cenedlaethol ar faterion cynllunio gan gynnwys Cynaliadwyedd, Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir, Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol, Cynnal yr Economi, Trafnidiaeth, Tai, Twristiaeth a Llygredd. O ran Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fe nodi'r:

“Yr un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac AHNE yn nhermau harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd a rhaid diogelu'r ddau yn llwyr rhag datblygiadau anaddas. Mae'r statws cyfwerth hwn yn golygu bod rhaid trin Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn yr un modd mewn polisiâu cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mewn Parciau Cenedlaethol ac AHNE, dylai polisiâu cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu roi pwys mawr ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn.”

- 2.16.6 Yn ychwanegol i'r brif ddogfen bolisi mae cyfres o ddogfennau yn rhoi cyfarwyddyd ar faterion cynllunio yn ymwneud â datblygiadau penodol, sef Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru).

2.17 Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol

- 2.17.1 Arweiniodd y Fframwaith Amgylchedd Naturiol (Cymru Fyw) at greu'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol yn 2014. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- polisi ar reoli adnoddau naturiol, gan gynnwys pennu blaenoriaethau cenedlaethol;
- Bil yr Amgylchedd;
- gwneud 'rheoli ar sail ecosystem' yn rhan annatod o'n gwaith. Bydd hynny'n cynnwys prosiectau arddangos i ddangos manteision y drefn honno; y gallwn ddysgu trwyddynt sut i wneud a phryd i wneud
- gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chydlynu trefniadau rheoli perfformiad;
- cyfathrebu, ennyn diddordeb a rhannu gwybodaeth.

2.18 Bil yr Amgylchedd

- 2.18.1 Cyflwynwyd y Bil ar 11 Mai 2015. Ei bwrpas yw creu deddfwriaeth sy'n angenrheidiol i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd sy'n fwy cynaliadwy a chydgyssylltiedig.

- 2.18.2 Yn ôl Llywodraeth Cymru ei fanteision yw:

- cynorthwyo'r gwaith o fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol rydym yn eu hwynebu a chanolbwyntio ar y cyfleoedd y mae ein hadnoddau'n eu cynnig
- sefydlu targedau statudol i leihau allyriadau a chyllidebau carbon i gefnogi'r gwaith o'u cyflawni

- mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithredu'r tâl a godir ar fagio siopa untro
- gwella'r prosesau ar gyfer rheoli gwastraff
- symleiddio'r gyfraith ynghylch systemau rheoleiddio amgylcheddol gan gynnwys rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn, trwyddedau morol, rheoli perygl llifogydd a draenio tir.

2.18.3 Mae Cynllun Rheoli'r AHNE yn rhoi sylw i lawer o faterion fydd yn greiddiol i'r Fframwaith newydd fel datblygiad cynaliadwy, gwasanaethau ecosystem, terfynau i dwf a newid hinsawdd.

2.19 Bil Treftadaeth

2.19.1 Cyflwynwyd y Mesur Treftadaeth ym mis Mai 2015. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai bwriad y Bil yw:

- diogelu adeiladau rhestredig a henebion rhestredig yn fwy effeithiol;
- rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy;
- sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd o safbwynt; penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

2.20 Cynlluniau Rheoli'r Traethlin

2.20.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chyrrff eraill sy'n ymwneud â rheoli'r arfordir weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRHTau) ar gyfer arfordir Cymru gyfan¹¹.

2.20.2 Mae CRHTau yn ddogfennau polisi lefel uchel, anstatudol ar gyfer cynllunio rheoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol. Mae CRHTau yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig ag erydu arfordirol a llifogydd ar yr arfordir ac maent yn cynnig polisiâu i helpu i reoli'r peryglon hyn.

2.20.3 Dylunnir polisiâu rheoli CRHTau arfaethedig er mwyn creu cynaliadwyedd tymor hir (am y 100 mlynedd nesaf). Mae polisiâu rheoli ar gyfer pob rhan o'r arfordir yn cael eu cynnig gan ystyried amrywiaeth o ffactorau megis lleoliad cymunedau arfordirol, amddiffynfeydd presennol, ardaloedd twristiaeth ac amwynderau, safleoedd cadwraeth a threftadaeth a'r amgylchedd naturiol ehangach..

2.20.4 Y gwahanol bolisiâu a gynigir yn y CRHTau ar gyfer rheoli'r draethlin yw:

1. Cadw'r llinell (CLI): mae hyn yn golygu bod amddiffynfeydd yn cael eu cynnal, eu hatgyweirio neu eu huwchraddio ar hyd eu haliniad presennol.

¹¹ Gw. www.walescoast.org am rhagor o wybodaeth

2. Symud y llinell ymlaen (SLIY): mae hyn yn golygu bod amddiffynfeydd newydd yn cael eu hadeiladu ar ochr y môr i'r amddiffynfeydd gwreiddiol.
3. Alinio wedi'i reoli (AR): gadael i'r draethlin symud yn ôl mewn ffordd sy'n cael ei reoli.
4. Dim ymyrraeth weithredol (DYW): mae hyn yn golygu y bydd yr aliniad yn parhau i esblygu yn naturiol pan fydd yr amddiffynfeydd (os oes rhai) yn methu.

2.20.5 Cwblhawyd y genhedlaeth gyntaf o CRhTau yn gynnar yn y 2000au a'r ail genhedlaeth yn 2011/12. Mae'n debygol y bydd adolygiad arall o CRhT2 yn cael ei gynnal yn weddol fuan ac o leiaf o fewn y 5 i 10 mlynedd nesaf.

2.21 Strategaethau a Chynlluniau Cenedlaethol eraill

2.21.1 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi nifer o strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, ar wahanol bynciau sydd yn berthnasol i Lŷn a'r AHNE. Bydd yr angen i gynnal a gwarchod yr amgylchedd a datblygiad cynaliadwy yn cael eu hystyried yn y dogfennau hyn oherwydd ymroddiad y Cynulliad i ddatblygiad cynaliadwy ar lefel genedlaethol. Mae'r dogfennau hyn oll yn ystyriaethau perthnasol ar gyfer cynlluniau a strategaethau lleol a gynhyrchir gan awdurdodau fel Cyngor Gwynedd.

GWYNEDD

2.22 Strategaethau Corfforaethol

- 2.22.1 Y mae *Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn a Gwynedd* yn ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer y ddwy sir am y cyfnod 2013-17.
- 2.22.2 Diben y Cynllun yw "gweithio ynghyd er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal erbyn 2025." Mae "hyrwyddo a chynnal ein hamgylchedd" yn un o wyth prif fater sy'n cael eu hadnabod fel materion "cymhleth a hirdymor" lle bydd angen mynd i'r afael â nhw.
- 2.22.3 Ym mis Mai 2013 mabwysiadodd Cyngor Gwynedd ei *Gynllun Strategol* ar gyfer 2013 – 2017. Prif bwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013 – 17. Fe'i adolygir yn flynyddol a fe gymeradwywyd Cynllun Strategol 2015 – 17 gan Gabinet y Cyngor yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a mewol ym Mehefin 2015.
- 2.22.4 Gweledigaeth y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn yw "parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaetha'r ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhaus ... drwy drawsffurfio gwasanaethau l fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol."

2.23 Natur Gwynedd

2.23.1 Natur Gwynedd yw y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) ar gyfer yr ardaloedd yng Ngwynedd sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri.

2.23.2 Fe'i datblygwyd gan bartneriaeth eang o sefydliadau ac unigolion. Mae Natur Gwynedd yn nodi yr hyn sydd yn rhaid ei wneud i ddiogelu a gwarchod ein bywyd gwyllt a chynefinoedd lleol hynod o bwysig.

2.23.3 Amcanion Natur Gwynedd yw:

- helpu i warchod bioamrywiaeth Gwynedd ac, felly, i gyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru, y DU a'r byd.
- datblygu partneriaethau lleol effeithiol i sicrhau bod yr hyn rydym ni'n ei wneud yn cael ei gynnal yn y tymor hir.
- cynyddu'n gwybodaeth o fioamrywiaeth Gwynedd.
- codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o fioamrywiaeth yng Ngwynedd.

2.23.4 Mabwysiadwyd *Strategaeth Amgylcheddol Cyngor Gwynedd – Gwarchod yr Amgylchedd Heddiw ac i'r Dyfodol* yn 2002 ac fe'i hadolygwyd yn 2005. Mae'r Strategaeth wedi ei pharatoi ar gyfer rhoi cyfeiriad i waith y Cyngor ar wella a diogelu'r amgylchedd lleol a byd eang.

2.23.5 Nodir yn y cyflwyniad i'r Strategaeth Amgylcheddol y bydd blaenoriaeth uchel yn cael ei roi i:

- Warchod a gwella amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt yr ardal;
- Lleihau gwastraff preifat a masnachol, annog ailgylchu ac ailddefnyddio a hyrwyddo dulliau o arbed ynni;
- Annog pobol i fwynhau, parchu a dod yn fwy ymwybodol o gyfoeth a chyfraniad yr amgylchedd lleol;
- Cynnal a chyfoethogi ansawdd adeiledig yr ardal mewn modd fydd yn parchu ac yn cyfoethogi diwylliant, amgylchedd a chymeriad lleol;
- Hyrwyddo trafndiaeth effeithiol a chynaliadwy fydd yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr.

2.24 Y Cynllun Datblygu

2.24.1 Fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDU) yn 2009. Mae'r CDU yn y broses o gael ei ddisodli gan Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn ar y Cyd. Mae'r Drafft Adneuo o'r Cynllun wedi bod yn destun cyfnod o ymgynghoriad ffurfiol ar ei gynnwys yn y cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2015. Disgwylir y bydd y CDLI yn cael ei fabwysiadu ddiwedd 2016/dechrau 2017 wedi derbyn ac ystyried Adroddiad yr Arolygydd ar y sylwadau/ gwrthwynebiadau a dderbyniwyd.

2.24.2 Mae'r CDU yn cynnwys polisiâu penodol ar yr AHNE a dynodiadau statudol ac anstatudol eraill yn ogystal â materion cynllunio penodol megis tai newydd, trafndiaeth, datblygiadau economaidd a thwristiaeth. Yn ychwanegol mae Canllawiau Dylunio Tirlun Gwynedd a Chanllawiau Dylunio Gwynedd yn ddogfennau cysylltiol pwysig.

2.24.3 Mae gan y teclynnau cynllunio hyn ran hanfodol bwysig i'w chwarae yng ngwarchodaeth a datblygiad yr AHNE. Mae gweithredu polisiâu'r Cynlluniau a Chanllawiau Cynllunio yn briodol hefyd yn holl bwysig. Bydd hyn yn rhan o broses a wneir gan y swyddogion cynllunio a Phwyllgorau perthnasol o'r Cyngor. Bydd cyfle i'r Uned AHNE wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio a allai gael effaith ar yr ardal ddynodedig.

2.25 Cynlluniau a Strategaethau Eraill

2.25.1 Yn ychwanegol i'r uchod mae nifer o gynlluniau a strategaethau eraill yn cael dylanwad ar yr AHNE ac yn berthnasol i'w hystyried yng nghyd-destun y Cynllun Rheoli. Gellir gwahanu'r rhain i ddau fath sef Cynlluniau un-pwrpas e.e. yn deilio a choedwigaeth neu'r economi, twristiaeth ayb neu Gynlluniau Cyllido fyddai yn cynnwys y Cynlluniau amaeth-amgylcheddol, grantiau coedwigaeth ayb.

2.25.2 Mae rhan fwyaf o gynlluniau a strategaethau a gaiff eu paratoi gan Gyngor Gwynedd, ar nifer helaeth o faterion, yn gynlluniau un pwrpas gydag angen iddynt gydymffurfio â'r Strategaeth Gymunedol a'r Strategaeth Amgylcheddol. Y rhai amlwg o'r rhain o ran perthynas ac effaith ar yr AHNE yw Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd, Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gwynedd, Strategaeth Beicio Gwynedd, Cynllun Gwaredu Gwastraff ac Ail Gylchu a Pholisi Llifogydd ac Erydiad Arfordirol.

2.25.3 Mae nifer o gynlluniau a strategaethau yn cael eu paratoi gan bartneriaethau hefyd yn berthnasol. Y rhai amlwg o'r rhain yw Cynllun Gweithredu Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (partneriaeth gydag amrywiaeth o gyrff gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru) a Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Natur Gwynedd. Cynllun Natur Gwynedd sydd yn gweithredu yn lleol i gydymffurfio â chyfrifoldeb y Cynulliad o ran cynnal a gwarchod bioamrywiaeth yn genedlaethol..

2.25.4 Hefyd mae amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a phreifat yn gweithredu yn yr AHNE ac mae'r rhain yn cynhyrchu amrywiol gynlluniau, strategaethau, datganiadau polisi neu ddogfennau eraill all fod yn berthnasol o ran dyfodol yr ardal. Gweler rhestr o'r prif gyrff sy'n berthnasol i AHNE isod:

Cyfoeth Naturiol Cymru
SP/ MANWEB
Cadw
Telecom Prydain
Ymddiriedolaeth Archeolegol
Gwynedd

Dŵr Cymru (Glas Cymru)
Grid Cenedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Gweithredwyr/Darparwyr Telegyfathrebu

2.25.5 Mae rhai o'r cyrff ac asiantaethau hyn dan orfodaeth benodol i roi ystyriaeth i les yr AHNE yn ôl Deddf Mynediad a Hawliau Tramwy 2000 (Adran 85). Yn ôl gofynion y Ddeddf mae angen i'r cyrff ac asiantaethau hyn "roi ystyriaeth i'r pwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol yr ardal o harddwch naturiol eithriadol wrth weithredu neu wneud unrhyw weithgaredd mewn perthynas â, neu fyddai yn effeithio ar, dir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol". Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw codi ymwybyddiaeth am y cyfrifoldeb hwn, cynnal trafodaethau adeiladol ac asesu sut mae gwahanol gyrff ac asiantaethau yn cydymffurfio â'r cyfrifoldeb hwn.

3. Y Dull Ecosystem

3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r adolygiad hwn o Gynllun Rheoli AHNE Llŷn wedi ei sylfaenu ar y dull ecosystem o reoli amgylchedd naturiol. Gwnaed hynny trwy ddilyn canllawiau a baratowyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru gan gwmni Craggatak yn ogystal â nifer o ddogfennau cefndirol eraill perthnasol.

3.1.2 Yn ei hanfod dull o ystyried natur, a'r amgylchedd naturiol o flaen popeth arall yw'r Dull Ecosystem. Er mor hardd ydi tirlun ac arfordir Llŷn, a'r cyfoeth o fywyd gwyllt sydd yma, mae mwy na hynny hefyd yn cael ei ddarparu gan natur a'r amgylchedd naturiol. Mewn gwirionedd mae gwerth mawr ar y gwasanaethau mae'r amgylchedd naturiol ac ecosystemau yn eu darparu ac mae'n bwysig eu cydnabod, eu gwerthfawrogi, ac anelu i'w cynnal a'u cadw.

3.2 Ecosystemau

3.2.1 Mae diffinio ecosystem yn fan cychwyn pwysig. Mae'r Confensiwn dros Amrywiaeth Biolegol (Convention on Biological Diversity – CBD) a'r Millenium Ecosystem Assessment (MA) yn diffinio ecosystem fel:

“A dynamic complex of plant, animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functional unit”.

3.2.2 Mae bioamrywiaeth yn sylfaen i system ecosystem. Mae gwerth cynhenid i natur ac mae yn cyfrannu llawer i'r les parhaol pobol a chymdeithas. Nid harddwch a golygfeydd yn unig sy'n cael eu darparu ond bwyd, swyddi, deunyddiau adeiladu, sail i ffermio, coedwigaeth a chwarelydda.

3.2.3 Sefydlwyd y Millenium Ecosystem Assessment (MA) yn 2001 gan y Cenhedloedd Unedig. Pwrpas yr Aseiad yw ceisio rhagweld beth fyddai effaith newid mewn ecosystemau ar les pobol a chymunedau y dyfodol a ac awgrymu camau i ofalu a gwella cyflwr ecosystemau yn fyd eang. Cyfrannodd dros 1,300 o arbenigwyr at y gwaith sydd yn asesu cyflwr ecosystemau 'r byd, a'r gwasanaethau maent yn ei gyfrannu, ac awgrymwyd camau er cynnal, adfer a hyrwyddo gwneud defnydd cynaliadwy o ecosystemau.

3.2.4 Casgliadau'r MA oedd fod gweithredoedd dynol wedi defnyddio llawer o adnoddau naturiol y ddaear, gan roi straen ar yr amgylchedd a'i gwneud yn anodd i ecosystemau'r byd i gynnal poblogaethau'r dyfodol. Cesglir y byddai yn bosibl dad-wneud llawer o'r difrod gyda newid polisiau ac ymarferon – ond nad yw'r newidiadau angenrheidiol wedi eu mabwysiadu hyd yma.

3.3 Gwasanaethau Ecosystem

3.3.1 Fel yr esboniwyd mae'r amgylchedd naturiol yn darparu "gwasanaethau" at ein byw. Mae'r gwasanaethau yma yn cynnwys bwyd, cyfleon gwaith, coed, cerrig adeiladu ac ystod eang o gynnyrch arall. Hefyd mae'r amgylchedd yn gyfrifol am bethau fel puro dŵr, cylchdroi mwynau, darparu awyr iach ayb. Erbyn hyn mae cytundeb ei bod yn bosibl gosod y Gwasanaethau Ecosystem hyn mewn 4 categori, fel â ganlyn:

- **Gwasanaethau Darparu** – cynnyrch megis bwyd, ffibr a moddion
- **Gwasanaethau Rheolaeth** – puro dŵr, cynnal safon aer, a rheoli hinsawdd
- **Gwasanaethau Diwylliant** – lles trwy gysylltu efo natur ac addysg
- **Gwasanaethau Cynnal** – prosesau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau eraill megis ffurfio pridd a chylchdroi maeth.

3.3.3 Isod mae dadansoddiad manylach o'r Gwasanaethau Ecosystem sydd yn y pedwar categori uchod :

Gwasanaethau

- Bwyd – mae ecosystemau yn darparu'r amgylchiadau ar gyfer tyfu bwyd. Mae'r rhan fwyaf o fwyd yn dod o systemau amaethu ond mae ffynonellau naturiol hefyd megis pysgod, coed a bwyd o ffynonellau naturiol e.e. mwyar duon, madarch.
- Deunydd crai: Mae ecosystemau yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer adeiladu a thanwydd – yn cynnwys coed, tanwydd ac olew.
- Dŵr croyw: Mae ecosystemau yn chwarae rhan greiddiol yn y cylchdro dŵr, gan reoli llif y dŵr a phuro dŵr. Mae llystyfiant a choedwigoedd yn rheoli faint o ddŵr sydd ar gael yn lleol.
- Adnoddau meddygol. Darperir amrywiaeth o blanhigion a ddefnyddir fel meddyginiaethau naturiol gan fywyd gwyllt ac ecosystemau a darparu deunydd crai i'r diwydiant meddyginiaethau.

Gwasanaethau Rheoli

- Hinsawdd lleol a safon yr aer. Mae coed yn darparu cysgod tra mae coedwigoedd yn rheoli glawiad a darpariaeth o ddŵr. Mae coed yn bwysig hefyd am gael gwared o lygredd o'r aer.
- Storio carbon – mae ecosystemau yn rheoli hinsawdd byd eang trwy storio ag ymdrin a carbon deuocsid - nwy tŷ gwydr.
- Cyfyngu ar ddiwyddiadau hinsawdd eithafol – mae ecosystemau yn ffurfio "buffer" yn achos rhai amgylchiadau eithafol e.e. coed yn sefydlogi gelltydd a chorsydd yn amsugno dŵr.

- Trin dŵr gwastraff – tiroedd fel corydd a mawndir yn ffiltro a phuro dŵr.
- Atal erydiad a cynnal ffrwythlondeb pridd – mae llystyfiant yn gwarchod tir rhag erydiad ac mae ecosystemau iach yn cynnal ffrwythlondeb tiroedd.
- Peillio – mae pryfetach a gwynt yn peillio coed a phlanhigion eraill yn ogystal â rhai adar.
- Rheolaeth biolegol – mae ecosystemau yn rheoli pla ag afiechydon trwy'r drefn naturiol o "predators" a "parasites" e.e adar, ystlumod a phryfaid.

Gwasanaethau Cynefin neu Gefnogol

- Cynefin i rywogaethau– darperir popeth ar gyfer rhywogaethau – bwyd, dŵr, cysgod. Bydd rhai rhywogaethau yn dibynnu ar wahanol ecosystemau ar adegau gwahanol e.e. adar, pysgod, mamaliaid.
- Cynnal amrywiaeth geneteg – sef y gwahaniaeth rhwng gwahanol boblogaethau a rywogaeth.

Gwasanaethau Diwylliant

- Hamdden a iechyd corfforol a meddyliol e.e. cerdded neu chwaraeon yn yr awyr agored sydd yn gyfle i gadw'n iach ac ymlacio.
- Twristiaeth – Mae ecosystemau a bioamrywiaeth yn sail ar gyfer mathau arbennig o dwristiaeth sy'n cyfrannau at economi ardaloedd/ gwledydd a rhoi budd i gymunedau.
- Gwerthfawrogiad o esthetig ac ysbrydoliaeth i ddiwylliant, celf a dylunio. Mae cysylltiad agos rhwng iaith, gwybodaeth a'r amgylchedd naturiol ac mae bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol wedi bod yn ysbrydoliaeth i gelf, diwylliant a gwyddoniaeth.
- Profiad ysbrydol a naws am le – mae cysylltiad ysbrydol gyda mannau arbennig e.e. Ynys Enlli ac mae bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol yn gysylltiedig efo crefydd ac arferion.

3.4 Beth ydi Dull Rheoli ar Sail Ecosystem ?

3.4.1 Mae rheoli ar sail ecosystem wedi ei ddiffinio gan y Confensiwn dros Amrywiaeth Biolegol fel â ganlyn:

“A strategy for the intergrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable use in an equitable way”.

3.4.2 Hefyd mae'r Confensiwn wedi diffinio 12 egwyddor ar gyfer gweithredu EA – ond gellir addasu hyn at bwrpas. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y 12eg egwyddor ar gyfer gweithredu yn ôl y dull ecosystem yn y wlad hon. Mae crynodeb o'r egwyddorion wedi eu nodi isod:

Egwyddor 1: Mae amcanion o reoli tir, dŵr ac adnoddau naturiol yn fater o ddewisiadau cymdeithasol.

Egwyddor 2: Dylai rheoli gael ei wneud ar y lefel fwyaf lleol bosibl.

Egwyddor 3: Dylai Rheolwyr ecosystem ystyried effaith (gwir neu botensial) eu gweithgareddau ar ecosystemau cyffiniol ac ecosystemau eraill.

Egwyddor 4: O ddeall y buddion posibl o reolaeth, fel arfer mae angen deall a rheoli ecosystemau mewn cyd-destun economaidd.

Egwyddor 5: Dylai cadwraeth ecosystemau – eu strwythur a'r modd y maent yn gweithredu, fod yn flaenoriaeth o'r Dull Ecosystem er mwyn cynnal gwasanaethau ecosystem.

Egwyddor 6: Rhaid rheoli ecosystemau oddi mewn i derfynau eu gallu i ymdopi gyda newid.

Egwyddor 7: Dylid gweithredu y Dull Ecosystem o fewn graddfa gofodol a thymhorol addas.

Egwyddor 8: O ystyried graddfeydd tymhorol ac effeithiau amser (“lag-effects”) sy'n nodweddu'r broses ecosystem, dylai amcanion ar gyfer rheolaeth ecosystem fod yn rhai ar gyfer hir-dymor.

Egwyddor 9: Dylai rheoli gydnabod fod newid yn anorfod.

Egwyddor 10: Dylai'r Dull Ecosystem geisio cael y cydbwysedd addas, yn ogystal â phlethiad, rhwng cadwraeth a'r defnydd o amrywiaeth biolegol.

Egwyddor 11: Dylai'r Dull Ecosystem ystyried pob math o wybodaeth berthnasol, yn cynnwys gwybodaeth wyddonol, cynhenid lleol, blaengarwch (“innovation”) ac ymarfer da.

Egwyddor 12: Dylai'r Dull Ecosystem gynnwys pob sector berthnasol o gymdeithas a galwedigaethau gwyddonol.

3.5 Sut gall Dull Ecosystem olygu gwneud polisiau gwell ?

3.5.1 Mae'r nifer o fanteision i ddefnyddio'r dull ecosystem i wneud polisiau effeithiol:

- Rhoi dadansoddiad gwell o'r materion sydd dan sylw
- Mae'r fodd i ddiffinio opsiynau a thrafod efo eraill

- Ffordd o asesu cost/ buddion opsiynau
- Gwneud penderfyniad efo cost leiaf ond y buddion mwyaf
- Gweithio efo partneriaid i wireddu y polisi
- Gwerthuso ac addasu polisi, o ystyried y buddion a ddarperir gan yr Amgylchedd Naturiol

3.6 Ymgorffori y Dull Ecosystem yn y Cynllun Rheoli

3.6.1 Mae'r Dull Ecosystem yn chwilio am gyfleon i weithio efo systemau naturiol i wireddu amcanion a pholisïau. Bydd yn mesur ardrawiad negyddol a llesol polisïau ar y gwasanaethau a geir o natur/ amgylchedd naturiol. Bydd gwneud hyn yn effeithiol yn golygu meddwl yn hir dymor, ar raddfa eang, edrych tu draw i ffiniau polisi arferol, cynnal gwerthusiad o'r gwasanaethau dan sylw a chynnwys y rhai sy'n cael budd o'r Gwasanaethau a rhai sy'n darparu.

3.6.2 Fel rhan o adolygu'r Cynllun Rheoli hwn ceisiwyd rhoi sylw i'r holl faterion perthnasol o ran ymgorffori y Dull Ecosystem. Rhestrir y materion perthnasol isod, ond rhaid nodi nad oedd adnoddau yn caniatáu rhoi sylw manwl i'r holl faterion sydd yn cael eu nodi.

- Cadarnhau beth yw Rinweddau Arbennig yr ardal
- Ystyried yr holl ardal ddynodedig o ran yr ecosystem a'r gwasanaethau, a'r ardal gerllaw os oedd angen.
- Adnabod gwasanaethau/ buddion ecosystem yr ardal ac ystyried sut byddai y polisïau yn eu newid/dylanwadu arnynt.
- Rhoi gwerth ar y newidiadau yn y gwasanaethau eco, fel y gellir eu hystyried fel rhan o cost/ lles
- Chwilio am gyfleon i ddefnyddio gwasanaethau ecosystem i wireddu polisïau
- Adnabod cyfyngiadau cyfreithiol a bio-ffisegol o ran yr opsiynau polisi a gweld sut bydd rhain yn newid dros amser.
- Adnabod y risgiau i'r amgylchedd naturiol o'r polisïau a sut gallai'r rhain newid dros amser.
- Ystyried pawb all gael eu heffeithio gan y newidiadau i gwasanaethau ecosystem yn sgil y polisïau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun.

4.0 PENRHYN LLŶN - LLE ARBENNIG!

4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Penrhyn Llŷn oedd un o'r ardaloedd cyntaf trwy Brydain i gael ei dynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a hynny yn 1956. Hyd yma dim ond 5 AHNE sydd yng Nghymru, y rhai eraill yw Ynys Môn, Bryniau Clwyd, Penrhyn Gŵyr a Dyffryn Gwy.
- 4.1.2 Prif sail dynodi rhan o'r ardal fel AHNE yn 1956 oedd harddwch y tirlun a'r arfordir, y golygfeydd gwych a natur di-ddatblygiad yr ardal. Mae'r nodweddion yma yn parhau i wneud yr ardal yn arbennig ond at bwrpas y Cynllun Rheoli mae'n bwysig ceisio gwneud dadansoddiad mwy manwl o arbenigrwydd yr ardal a diffinio ei holl rinweddau.
- 4.1.3 Wrth sôn am "rinweddau" be sydd dan sylw ydi nodwedd neu elfen o gymeriad yr ardal sydd arbennig, unigryw neu yn "werthfawr". Ar ôl adnabod a diffinio'r rhinweddau arbennig gellir symud ymlaen i fesur maint a chyflwr y rhinweddau yma (a'r adnoddau sy'n rhan ohonynt) gan gynnwys mesur pa newidiadau sydd wedi digwydd tros amser ac yn parhau i ddigwydd.
- 4.1.4 Bydd rhai o rinweddau yr ardal yn parhau yn weddol ddi-newid megis y tirlun hardd a'r arfordir amrywiol am eu bod yn seiliedig ar ddaearreg a llystyfiant yr ardal. Ond rhai o'r rhinweddau wedi dirywio, er enghraifft cynefinoedd, bywyd gwylt ac adeiladau hanesyddol.
- 4.1.5 Mae lluo o ddynodiadau o ran cadwraeth wedi eu gwneud ar wahanol rannau o ardal Llŷn. Mae'r rhain yn cydnabod gwerth uchel y tirlun, arfordir, daearreg, bywyd gwylt a chynefinoedd, olion ac adeiladau hanesyddol. Mae mwy o wybodaeth am y dynodiadau hyn wedi ei gynnwys yn yr asesiad o gyflwr yr ardal. Yr haen uchaf a phwysicaf o ddynodiadau yw rhai Ewropeaidd megis y Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar. Yn dilyn hyn mae dynodiadau Cenedlaethol, yna dynodiadau rhanbarthol a dynodiadau lleol. Mae'r dynodiadau allweddol yn rhai sydd yn seiliedig ar ddeddf (statudol) tra mae dynodiadau mwy lleol neu ranbarthol yn rhai anstatudol.

4.2 Y Rhinweddau Arbennig

- 4.2.1 Rhoddwyd gryn sylw i adnabod a diffinio rhinweddau arbennig yr ardal yn y Cynllun Rheoli gwreiddiol ac mae'r gwaith hwnnw yn parhau i fod yn berthnasol. Roedd y gwaith yn cynnwys ystyried gwahanol ffynonellau o wybodaeth a barn pobol leol ac ymwelwyr. Yn fras dyma oedd y prif ffynonellau a ystyriwyd:

- Dynodiadau cadwriaethol;
- Asesiad Tirlun LANDMAP;

- Barn broffesiynol gwahanol swyddogion ac arbenigwyr;
- Barn gyhoeddus (pobol leol ac ymwelwyr);
- Llenyddiaeth a barddoniaeth.

4.2.2 Ar sail y gwaith yma casglwyd fod nifer o rinweddau yn berthnasol i Llyn gyda chyfres o nodweddion yn cyfrannu at greu pob rhinwedd penodol. Er enghraifft, os mai harddwch y tirlun yw'r rhinwedd mae'r nodweddion sydd yn cyfrannu at hynny yn cynnwys y ddaear, llystyfiant, cloddiau ayb.

4.2.3 Wrth ddod i gasgliadau ynglŷn â'r rhinweddau at bwrpas y Cynllun fe geisiwyd fod yn benodol a chlir o ran AHNE Llŷn yn hytrach na chynnwys penawdau eang fyddai yn medru bod yn berthnasol i unrhyw ardal. At bwrpas y Cynllun Rheoli hwn felly dyma a ddiffiniwyd rhinweddau arbennig AHNE Llŷn:

- Tirlun ac Arfordir
- Amgylchedd glân a thawelwch
- Cyfoeth o fywyd gwylt
- Yr Amgylchedd hanesyddol
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant lleol
- Pobol a chymunedau clos
- Cynnyrch lleol a busnesau gwledig
- Hawliau tramwy a mynediad

4.2.4 I ddilyn fe geir braslun o rinweddau yr ardal yn ôl y categorïau uchod gyda rhai lluniau i geisio dangos pam fod y nodweddion hyn yn arbennig. Ceir mwy o wybodaeth a ffeithiau am adnoddau'r AHNE yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE.

4.3 Tirlun ac Arfordir Hardd

4.3.1 Mae Llŷn yn ardal o dirlun arfordirol a gwledig amrywiol a hardd sy'n cynnig golygfeydd trawiadol. Mae'r dirwedd yn amrywio o lawr gwlad ffrwythlon i'r brynau igneaidd sy'n britho'r ardal megis Garn Fadrun, Garn Boduan a Foel Gron. Mae'r llystyfiant yn creu argraff weledol gref drwy greu darlun lliwgar, sy'n amrywio yn ôl amser y flwyddyn.

4.3.2 O ben y brynau hyn ceir golygfeydd gwych i bob cyfeiriad ac mae natur arfordirol yr ardal yn amlwg. Rhennir tirlun Llŷn yn glytwaith gan ffordd, nentydd ac afonydd megis afon Desach, afon Geirch, Y Daron a'r Soch. Mae terfynau caeau traddodiadol, cloddiau a waliau cerrig yn bennaf, hefyd yn nodwedd amlwg ar y tirlun ac yn adnodd hanesyddol pwysig.

4.3.3 Mae'r arfordir yn ffurfio rhan bwysig o edrychiad a chymeriad Pen Llŷn. Mae yn amrywiol iawn - mae rhannau o arfordir y gogledd yn greigiog ond mae traethau tywodlyd yma ac acw megis yn Nefyn, Towyn a Phorthor. Ceir traethau mwy eang ar yr arfordir deheuol a thwyni tywod yn ardal Abersoch. Mae'r nodweddion yn cynnwys clogwyni uchel, ogofau, staciau ac ynysoedd, penrhynau a thraethau tywodlyd a charegog gydag enwau

lleol diddorol.

- 4.3.4 Mae ôl preswyliaeth dyn ar y tirlun yn cyfrannu at gymeriad gweledol y tirlun. Mae'r rhannau mwyaf gwledig yn cael ei nodweddu gan dai a bythynnod bychan a ffermydd unigol - sydd yn ymdebygu i rannau o dde-orllewin Iwerddon. Oherwydd diffyg datblygiadau eraill mae ymdeimlad cryf o dirlun naturiol, heb ei ddifetha yn perthyn i Llŷn. Mae pentrefi bychan, wedi eu gwasgu i'r tirlun hefyd yn nodweddiadol o'r ardal. Oherwydd eu natur gryno a'r deunyddiau adeiladu traddodiadol maent gan amlaf yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun.
- 4.3.5 Oherwydd ei harddwch naturiol trawiadol mae Llŷn wedi gwneud argraff ar arlunwyr yn cynnwys rhai brodorol megis Elis Gwyn Jones, Emrys Parry a Rob Piercy a rhai a ddaeth i'r ardal am gyfnod i ymarfer eu crefft. Mae lluniau o olygfeydd trawiadol Llŷn yn amlwg iawn yng ngwaith arlunwyr ac mae myrdd o olygfeydd o fôr, machlud, tirlun amrywiol, arfordir, bythynnod a chymeriadau lleol bellach ar gael.

4.4 Y Môr a'i Donnau.

- 4.4.1 Does unlle ymhell o'r môr ar Benrhyn Llŷn ac mae'r môr wedi cael dylanwad sylweddol ar gymeriad yr ardal. Mae'r swnt, sydd rhwng Ynys Enlli a'r tir mawr, yn lle i'w barchu - gall fod yn dymhestlog a pherygl oherwydd bod sawl cerrynt yn cyfarfod yma.
- 4.4.2 Rhoddodd y môr gynhafiaeth i genedlaethau o bobol Llŷn a thyfodd nifer o bentrefi arfordirol yr ardal yn sgil y diwydiant pysgota. Datblygwyd porthladdoedd bychain mewn nifer o fannau ar arfordir Llŷn yn yr ail ganrif ar bymtheg. Byddai cynnyrch amaethyddol yn cael ei allforio trwy'r porthladdoedd a mewnforid nwyddau megis pupur, lliain, llestri, finegr ayb. Hefyd roedd glo yn cael ei fewnforio i nifer o borthladdoedd bach Llŷn ac mae olion iardiau glo i'w gweld mewn nifer o fannau hyd heddiw megis Porth Ysgaden, Porthor ac Aberdaron. Datblygwyd odynau calch ger rhai o'r porthladdoedd hyn ac mae olion i'w gweld mewn nifer o fannau megis Abersoch a Porth Ysgaden.
- 4.4.3 Yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygodd adeiladu llongau hwyliau i fod yn ddiwydiant pwysig ym Mhwillheli, Nefyn a Phorthdinllaen. Yn sgil y diwydiant hwn datblygodd traddodiad o fynd i'r môr yn yr ardal ac fe lwyddodd nifer o hogia'r ardal, yn enwedig Nefyn i fod yn gapteiniaid. Sefydlwyd Amgueddfa Forwrol yn Nefyn i gadw' creiriau'r cyfnod a chofnodi'r hanes.
- 4.4.4 Er mwyn gwasanaethu'r diwydiant chwareli a chloddio mwynau datblygwyd glanfeydd megis ar gyfer allforio cerrig ithfaen yn Nhrefor, Porth y Nant a Charreg y Llam ac ym Mhorth Neigwl a Phorth Ysgo ar gyfer llongau oedd yn cario manganis o ardal y Rhiw. Mae olion rhai o'r strwythurau hyn i'w gweld ar y traethau hyd heddiw.

- 4.4.5 Yn naturiol mae'r môr wedi yn chwarae rhan amlwg yn niwylliant yr ardal. Bu nifer o longddrylliadau ar hyd y glannau ac mae storïau am gasglu llwyth rhai llongau oddi ar y traethau a hyd yn oed denu llongau i drybini. Mae straeon am smyglo a môr ladron hefyd yn gysylltiedig â Llŷn. Mae disgrifiadau o'r môr yn amlwg yng ngwaith y beirdd hefyd a chredir hanesion morwyr, llongau, trychinebau ac ambell i dro trwstan.
- 4.4.6 Bellach môr yn adnodd economaidd gwerthfawr o ran cychod pleser, beiciau dŵr, pysgota ac yn y blaen ac mae'r traethau yn denu miloedd o bobol leol ac ymwelwyr yn yr haf.

4.5 Tawelwch a Llygredd Isel

- 4.5.1 Mae Penrhyn Llŷn, yn enwedig pen gorllewinol y penrhyn, yn un o'r ardaloedd prin hynny lle mae ceir tawelwch a thangnefedd. Rhyw "deimlad" neu argraff o le ydi peth fel hyn mae yn anodd ei adnabod a'i fesur yn glir. Er bod newidiadau dros amser a mwy o brysurdeb mae rhannu o Llŷn yn parhau'n wledig a thawel iawn eu natur. Mae'r bardd J.Glyn Davies wedi rhoi disgrifiad byw iawn o Llŷn sydd yn cyfeirio at yr ymdeimlad o dangnefedd yma:

Heulwen ar hyd y glennydd a haul hwyr, a'i liw
Ar y mynydd,
Felly Llŷn ar derfyn dydd,
Lle i enaid gael llonydd" - J.Glyn Davies

- 4.5.2 Nid un peth, ond nifer o wahanol elfennau, sy'n cyfrannu at greu'r tangnefedd yma. Y math o bethau sy'n cyfrannu hyn yw absenoldeb datblygiadau ar raddfa fawr (tai neu ddiwydiant), prinder ceir a thraffig, ychydig o sŵn i darfu ar dawelwch ac ychydig o olau i darfu ar dywyllwch y nos. Mae natur bellennig ac ymylol yr ardal eto wedi bod yn ffactor allweddol o ran creu a chynnal y rhinwedd hwn.
- 4.5.3 Yn ogystal â bod yn dawel mae'r lefelau llygredd yn isel yma yn Llŷn. Eto oherwydd natur bellennig yr ardal nid oes llawer o ddatblygiadau a diwydiannau sylweddol yma mae lefelau traffig yn isel heblaw am y prif gyfnodau gwyliau. Mae safon y pridd, aer, dŵr a dŵr y môr yn parhau'n uchel iawn yma.

4.6 Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd

- 4.6.1 Mae cyfoeth o fywyd gwyllt yn byw mewn gwahanol gynefinoedd ym Mhenrhyn Llŷn. Dros amser mae natur wledig ac amaethyddol yr ardal yn ogystal â natur lonydd a di-lygredd yr ardal wedi cyfrannu at barhad llawer o rywogaethau sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai prin yn ynysoedd Prydain.
- 4.6.2 Bellach mae llystyfiant naturiol neu lled-naturiol, sef tir heb ei wella a'i drin megis rhostiroedd, tiroedd gwlyb a choetiroedd yn brin yn y Deyrnas Unedig. Er wedi gwanychu llawer mae rhostiroedd yn parhau yn nodwedd

amlwg a phwysig yn Llŷn ac mae yma rostiroedd gwlyb, sych, isel ac arfordirol i'w cael yma. Maent yn gwneud cyfraniad nid yn unig fel cynefin a nodwedd ar y tirlun ond hefyd ar lefel hanesyddol, diwylliannol ac fel adnodd hamdden (mae llawer o rostiroedd yr ardal yn diroedd comin). Mae'r rhostiroedd yn cynnal amrywiaeth eang o borfa a phlanhigion yn ychwanegol i grug a'r eithin sydd mor lliwgar yn Awst a Medi.

- 4.6.3 Nodwedd arall bwysig yn llyn yw'r cynefinoedd arfordirol sy'n cynnwys clogwyni, llethrau, tir arfordirol, traethau a thwyni tywod. Mae'r clogwyni a llethrau yn cynnal amrywiaeth o blanhigion a blodau gwyllt sy'n araf droi yn borfeydd arfordirol a rhostir ac maent hefyd yn gartref i amrywiaeth o adar y môr, cacwn a rhai creaduriaid di-asgwrn cefn prin.
- 4.6.4 Oherwydd pwysigrwydd amryw o gynefinoedd a rhywogaethau morol i'w weld yn ardal Llŷn a'r Sarnau, er enghraifft y riffiau a'r aberoedd, mae'r ardal wedi cael ei ddynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau. Mae'r riffiau yn cefnogi amrywiaeth eang o gymunedau fflora a ffawna yn cynnwys amrywiaeth o goedwigoedd gwymon, sbyngau a chwistrellau
- 4.6.5 Mae'r morloi llwyd yn gyffredin i'r ardal yn ogystal â dyfrgwn, llamhidyddion harbwr a dolffiniaid trwynbwl a welir yn y dyfroedd ar yr arfordir deheuol. Hefyd mae lleoliad a nodweddion arbennig y bae yn gynefin addas i'r dolffin Risso.
- 4.6.6 Oherwydd ei thirlun gwledig a'r arfordir amrywiol mae Llŷn yn gynefin i amrywiaeth helaeth o adar tir ac adar morol, rhai ohonynt yn rhywogaethau prin. Ymysg yr adar prin mae'r fran goesgoch a ddefnyddir fel logo yr AHNE. Mae yma rywogaethau eraill o adar o bwysigrwydd Ewropeaidd hefyd, gan gynnwys Y Pâl, Gwylog, Mulfran neu Wil wal waliog a'r Aderyn Drycin Manaw.

4.7 Amgylchedd Hanesyddol

- 4.7.1 Mae pobol wedi byw yn Llŷn ers canrifoedd lawer ac maent wedi gadael eu marc ar y tirlun. Mae olion archeolegol, yn cynnwys safleoedd unigol, henebion a'r tirlun ehangach gyda'r patrwm caeau ac anheddau bychain. Maent yn cysylltu heddiw gyda'r gorffennol pell ac yn ein hatgoffa fod Llŷn yn hen, hen le a bod llawer cenhedlaeth wedi troedio tir yr ardal.
- 4.7.2 Y cyfnod Mesolithig (c.10,000 - 4,000 C.C) - yw'r cyfnod hanesyddol cynharaf y gwelir olion dynol yn yr ardal. Canfuwyd olion cerrig wedi eu naddu, fflintiau wedi eu naddu ac offer megis cyllyll a chrafwyr. O'r Oes Neolithig (c. 4,000 - 2,000 CC) - mae siambrau claddu a meini hirion a hefyd o bwysigrwydd sylweddol o'r cyfnod yma mae olion ffatri fwyelli ar Fynydd y Rhiw.
- 4.7.3 Yr olion mwyaf trawiadol o wareiddiad cynnar yn yr ardal yw'r ceirydd oes yr Haearn sydd wedi ei lleoli ar ben nifer o fryniau yr ardal, megis Garn Boduan, Garn Fadrun a Phenarfynydd yn y Rhiw. Y gaer fwyaf yw Tre'r

Ceiri ar yr Eifl sydd tua 460m uwch lefel y môr. Roedd hon yn gaer amddiffynnol bwysig ac roedd yn bosibl gweld unrhyw fygythiad o bell. Mae'n rhyfeddod fod cymaint o'r gaer yn parhau yn sefyll - fe welir y prif fur amgylchynol yn glir yn ogystal ag olion tua 150 o gytiau crynion.

- 4.7.4 Mae crefydd ar hyd y cyfnodau wedi gadael ei ôl ar wlad Llŷn - o ran y tirlun, hanes, y gymdeithas a'r diwylliant. O ran olion hanesyddol mae nifer o gerrig ag arnynt ysgrifau o'r cyfnod Cristnogol Cynnar (y 5ed Ganrif) wedi eu darganfod, er enghraifft y cerrig gydag enwau offeiriad VERACIVS a SENACVS a ddarganfuwyd ger Capel Anelog, Uwchmynydd. Hefyd o'r cyfnod yma gwelwyd sefydlu eglwysi bach (llan) a ddatblygodd yn safleoedd eglwysig amlwg megis Clynnog Fawr, Llanaelhaearn ac Aberdaron. Enwyd nifer o'r safleoedd cynnar hyn ar ôl Seintiau Celtaidd megis Beuno (Clynnog, Pistyll a Charnguwch), Hywyn (Aberdaron) a Cwyfan (Edern a Thudweiliog).
- 4.7.5 O gyfnod diweddarach mae llawer o olion diwydiant yr oes a fu yn Llŷn, y rhai amlycaf yr ardal yw olion y chwareli ithfaen a'r cloddio mwynau. Hefyd gellir gweld olion incleins, llwyfannau a dociau ar gyfer allforio yn eglur hyd heddiw. Yn y cyfnod hwn, cyn cyfleusterau teithio effeithiol roedd cymunedau yn ffurfio ger mannau gwaith a datblygwyd pentrefi gerllaw rhai o'r chwareli megis Trefor, Llithfaen a Nant Gwrtheyrn. Y chwareli ithfaen a ddarparodd y cerrig ar gyfer adeiladu llawer iawn o adeiladau yn Llŷn yn y cyfnod yma ac mae'r rhan fwyaf o adeiladau traddodiadol a rhestredig yr ardal wedi eu hadeiladu o garreg ithfaen lleol.
- 4.7.6 Mae rhai strwythurau hanesyddol eraill o ddiddordeb eraill i'w gweld yn Llŷn megis olion dwy hen felin wynt a strwythurau yn ymwneud â thrafnidiaeth - megis pontydd, camfeydd cerrig a cherrig milltir.
- 4.7.7 Er nad oes olion o gyfnod y Rhufeiniaid yn Llŷn (hyd y gwyddir) mae 'na lawer o olion archeolegol eraill dros gyfnod maith o amser wedi eu darganfod yma. Mae Llŷn yn unigryw yn hyn o beth ac adlewyrchir hyn yn y ffaith fod yr ardal wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru a baratowyd gan Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS (Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd) 1998. Mae'r gofrestr yn nodi: "mae yma gyfoeth ac amrywiaeth mawr a digyffelyb, ran amlaf o nodweddion archeolegol a hanesyddol ar raddfa lai, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio cyfanrwydd cydlynol ac intergreiddiedig, gan arddangos parhad ac undod tiriogaethol Llŷn ers efallai adegau cynhanesyddol."

4.8 Adeiladau Hanesyddol

- 4.8.1 Bythynnod oedd tai'r bobl gyffredin yn Llŷn - a gan amlaf codwyd y rhain mewn dull syml ac mewn byr o dro. Mae'r rhai sydd wedi ei goroesi wedi eu hail doi gyda llechi ac mae'r enghreifftiau gorau wedi eu rhestru gan Cadw. Yn ôl traddodiad mae llawer o'r bythynnod bychan sydd yn rhan o dirlun Llŷn wedi eu seilio ar "dai unnos". Adeiladwyd y bythynnod yma gyda'r deunyddiau oedd agosaf i law, sef pridd, cerrig a mwd.

- 4.8.2 Oherwydd bod Llŷn yn ardal amaethyddol lewyrchus mae'n nifer helaeth o dai fferm ag adeiladau amaethyddol diddorol yma. Mae rhai tai fferm bychan tra mae eraill yn sylweddol gyda chysylltiad â theuluoedd o uchelwyr amlwg megis Bodwrdda, Meillionydd a Chastellmarch. Datblygwyd llawer o dai fferm ac adeiladau gan y Stadau megis Glynllifon, Nanhoron a'r Faenol.
- 4.8.3 Gwelir llawer o adeiladau crefyddol hanesyddol yn Llŷn gan fod crefydd wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad a diwylliant yr ardal o'r cyfnod Cristnogol ymlaen. Mae olion Mynachdy o'r 6ed ganrif i'w weld ar Ynys Enlli tra mae eglwysi hynafol ar lwybr y pererinion mewn mannau fel Clynog Fawr, Llanaelhaearn, Llangwnnadr ac Aberdaron.
- 4.8.4 Bu codi capeli ar raddfa fawr yn Llŷn yn sgil datblygiad Anghydfurfiaeth o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen. Adeiladwyd capel cyntaf yr annibynwyr, sef Capel Newydd Nanhoron yn 1769 a chodwyd llu o gapeli gan wahanol enwadau eraill hyd a lled yr ardal wedi hynny.

4.9 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

- 4.9.1 Mae Llŷn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg sydd yn un o ieithoedd hynaf Ewrop. Yma mae'r Gymraeg yn iaith fyw ac yn cael ei defnyddio yn ddyddiol yn y cartref, capeli ac eglwysi, yr ysgol, y siop, y gweithle ac ar y stryd. Hefyd mae'r iaith yn weledol ymhobman, ar arwyddion, posteri a'r papur bro lleol: "Y Llanw Llŷn". Enwau Cymraeg sydd ar gaeau amaethyddol a lleoliadau yn Llŷn a'r rhan fwyaf o ffermydd a thai hefyd.
- 4.9.2 Mae'r Gymraeg hefyd yn iaith lenyddiaeth a barddoniaeth ac yn rhan o ddiwylliant arbennig yr ardal. Elfennau eraill pwysig o'r diwylliant lleol hanesion, chwedlau, ofergoelion, dywediadau, cymeriadau ac enwau lleoedd.
- 4.9.3 Mae crefydd yn parhau i chwarae rhan bwysig yn niwylliant pobol Llŷn. Yn yr oesau a fu roedd y seintiau yn amlwg iawn ac roedd pererindodau cyson i Ynys Enlli. Cysegrwyd nifer helaeth o eglwysi lleol i'r seintiau cynnar Yn ddiweddarach sefydlwyd capeli gan wahanol enwadau ledled Llŷn ond bellach mae cynulleidfaoedd wedi edwino llawer. Ynghlwm a'r capeli y daeth traddodiad yr Eisteddfod sydd yn parhau i ffynnu hyd heddiw.
- 4.9.4 Mae cymeriadau lleol hefyd yn cyfrannu at ddiwylliant Llŷn. Ymysg y cymeriadau hanesyddol enwog roedd Dic Aberdaron – oedd yn medru siarad 15 iaith yn ôl y sôn a hen feddyges Bryn Caniad, Uwchmynydd oedd yn gwella pob math o anhwylderau gyda ffisig ac eli wedi ei wneud adref.

4.10 Pobol a Chymdeithas

- 4.10.1 Yma yn Llŷn ceir cymunedau clòs sydd wedi datblygu dros gyfnod hir o amser. Gwelwyd rhai newidiadau yn y gymdeithas dros y blynyddoedd -

mae pobol o fannau eraill wedi symud i mewn i gael gwaith, i ymddeol neu oherwydd newid ffordd o fyw.

- 4.10.2 Hefyd gwelwyd pobol yn symud allan o'r ardal - yn bennaf ar gyfer cael addysg neu i chwilio am waith. Ar y cyfan mae'r gymdeithas wedi medru ymdopi â'r datblygiadau hyn heb newid sylweddol yn ei chymeriad a'i strwythur ac felly heb effaith gormodol ar y diwylliant lleol a'r defnydd o'r iaith. Mae polisi Addysg drwy'r Gymraeg gan yr Awdurdodau Lleol wedi bod yn bwysig iawn yn hyn o beth.
- 4.10.3 Y bobol leol a'r cymunedau y maent yn eu ffurfio sydd wedi cynnal yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig arbennig. Mae arferion, hanesion a gwybodaeth wedi eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.
- 4.10.4 Oherwydd bod y gymuned yn cyfrannu at gymeriad yr ardal mae'n bwysig anelu tuag at gynnal a gwarchod y gymdeithas. Felly mae angen rhoi sylw i anghenion pobol o ran tai, gwasanaethau a chyfleusterau, hamdden, gwaith a swyddi.

4.11 Economi a Sgiliau

- 4.11.1 Yn draddodiadol mae pwyslais wedi bod yn Llŷn ar waith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd. Mae amaethu a physgota wedi datblygu ers amseroedd cynnar iawn ac maent yn parhau yn bwysig hyd heddiw gan gynnal teuluoedd, darparu cynnyrch lleol a chynnal diwydiannau eraill. Yn ogystal mae diwylliant arbennig yn gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn – yn llawn arferion, hanesion a chymeriadau lliwgar.
- 4.11.2 Yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y diwydiant chwareli a chloddio mwyn yn ddiwydiannau pwysig. Roedd y gweithfeydd hyn yn darparu gwaith ar gyfer nifer helaeth o bobol a thyfodd nifer o bentrefi chwarelyddol megis Trefor, Pistyll a Llithfaen. Gwelir olion y diwydiannau ar dirlun yr ardal hyd heddiw - olion cloddio, hen adeiladau a chyfarpar a thomenni sbwriel. Mae dwy chwarel gerrig yn parhau i weithio yn Llŷn sef Nanhoron a Threfor gan ddarparu cerrig ar gyfer diwydiannau lleol.
- 4.11.3 Mae llawer o fusnesau bychan eraill yn bwysig i economi Llŷn. Mae traddodiad o fod yn hunan gyflogedig yn Llŷn ac ers talwm roedd cyfran uchel o seiri, gofaint a gweision fferm yma ond erbyn heddiw adeiladwyr, trydanwyr, seiri coed ayb sydd yn niferus. Yn ogystal â darparu gwaith mae nifer o fusnesau gwledig hefyd yn cynnal sgiliau yn fodd i gynnal a chadw nodweddion hanesyddol yn yr ardal megis cloddiau, waliau cerrig, adeiladau hanesyddol ayb.
- 4.11.4 I raddau helaeth mae'r diwydiant ymwelwyr yn Llŷn wedi ei seilio ar rinweddau arbennig yr ardal - yr harddwch, y traethau, amgylchedd glân a thawelwch. Mae'r diwydiant yn darparu swyddi ac yn helpu i gynnal busnesau lleol ac yn cyfrannu yn sylweddol i'r economi ond mae rhai effeithiau negyddol ar y rhinweddau hefyd. Rhaid anelu at reoli'r diwydiant

er dod a budd i'r ardal ond i sicrhau na wneir hynny ar draul y nodweddion sy'n creu cymeriad arbennig a swyn yr ardal.

4.12 Lle i Grwydro

- 4.12.1 Mae llawer o gyfleon i grwydro a mwynhau harddwch naturiol a nodweddion hanesyddol yn yr ardal. Roedd llwybrau cyhoeddus yn ddull pwysig o gysylltu yn y gorffennol ac roedd defnydd mawr ohonynt mewn ardal wledig fel Llŷn. Mae'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned yn cynnal a gwarchod y rhwydwaith o lwybrau oherwydd eu pwysigrwydd o ran cerdded a mwynhau.
- 4.12.2 Yn ogystal â'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus mae myrdd o ffyrdd bychain gweledig sydd yn gwau eu ffordd ar draws y penrhyn gan gysylltu ardaloedd a'i gilydd. Ar y cyfan mae'r ffyrdd yn weddol ddistaw ac mae cyfle i gerdded, beicio a marchogaeth ar eu hyd hefyd.
- 4.12.3 Mae'r llwybrau ar hyd rhannau o arfordir Llŷn, yn hen lwybrau gan y Pererinion oedd yn cerdded ar hyd y glannau tuag at Ynys Enlli gan aros ger eglwysi fel Clynnog a Llangwnnadi. Mae datblygu Llwybr Arfordir Cenedlaethol wedi bod o fudd mawr. Gydag arian ac adnoddau mae rhannau o'r llwybr gwreiddiol wedi ei wella ac mae rhannau newydd sy'n rhedeg ar ymyl yr arfordir wedi eu hychwanegu.
- 4.12.4 Mae 'na lecynnau sylweddol o dir comin yn Llŷn megis Mynydd Tir y Cwmwd, Y Foel Gron a Mynydd Rhiw - gan roi cyfle gwych i grwydro yn fwy anffurfiol a gweld a mwynhau bywyd gwylt, gwahanol blanhigion a golygfeydd trawiadol. Nid yw'r tiroedd comin wedi eu gwella yn amaethyddol ac mae llawer yn rhostiroedd heb eu gwella - cynefin sydd bellach yn brin yn genedlaethol.
- 4.12.5 Un o brif atyniadau Llŷn yw'r traethau bendigedig sydd yma. Mae'r rhain yn amrywio llawer - ceir traethau o ro a cherrig a thraethau eraill o dywod meddal a llyfn mewn mannau fel Nefyn, Porthdinllaen, Porthor. Mae rhai traethau yn adnabyddus ac amlwg - ac felly yn medru bod yn brysur yn yr haf ond mae yma draethau mwy cuddiedig a thawel hefyd - llecynnau perffaith am dipyn o heddwch.

5.0 GWELEDIGAETH AR GYFER AHNE LLŶN

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r rhan yma o'r Cynllun yn symud ymlaen i ystyried dyfodol yr ardal a'r hyn y gall y Cynllun ei wneud er lles yr AHNE. Nod sylfaenol y Cynllun Rheoli yw arwain gweithredu ar faterion craidd yr AHNE – sef gwarchod, cynnal a gwella harddwch naturiol a rhinweddau arbennig yr ardal. Er mwyn gwireddu hyn bydd raid anelu i ddylanwadau ar weithgareddau sydd yn niweidiol neu'n llesol i'r rhinweddau hynny.

5.1.2 Nod tymor hir ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a geir yn y Weledigaeth. Mae yn ddatganiad penodol ac felly rhaid edrych ymhellach i'r dyfodol na 2019 pryd y bydd yn Cynllun Rheoli yn cael ei adolygu nesaf. Roedd y Weledigaeth wreiddiol yn cyfeirio at 2020 ond yn ystod yr adolygiad diweddaraf penderfynwyd fod 2040 yn garreg filltir addas ar gyfer y Weledigaeth i'r Cynllun diwygiedig.

5.1.3 Wrth gwrs mae angen i'r Weledigaeth roi sylw i rinweddau arbennig yr AHNE a'r cyflwr yr anelir ato yn y dyfodol. Materion eraill y rhoddwyd sylw iddynt yw:

- datblygiadau tebygol yn y dyfodol a thueddiadau lleol a byd eang.
- y rhyngweithio rhwng ansawdd amgylcheddol a chefnogi economïau a chymunedau lleol - sydd wrth wraidd datblygiad cynaliadwy
- newid hinsawdd a'r ymatebion i hynny
- yr ystod eang o wasanaethau naturiol a manteision mae amgylchedd arbennig yr AHNE yn ei gynnig a'i ddarparu.

5.2 Egwyddorion Sylfaenol

5.2.1 Cyn gosod y Weledigaeth ar gyfer yr ardal sefydlwyd cyfres o egwyddorion i fod yn sail ar gyfer y Cynllun Rheoli. Diffiniwyd yr egwyddorion hyn yn dilyn ystyried y rhesymau sylfaenol dros ddynodi AHNE, lles tymor hir yr ardal, cynaliadwyedd a materion lleol a byd eang perthnasol.

5.2.2 Yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli fe ailedrychwyd ar yr egwyddorion a chael fod y pedair egwyddor yn y Cynllun blaenorol (2009-14) yn parhau yn berthnasol gyda addasiadau bychan. Gwelir yr egwyddorion yn dilyn:

EGWYDDOR 1

Gwarchod, cynnal a lle bo'n briodol adfer y nodweddion sy'n gwneud ardal Penrhyn Llŷn yn arbennig ac unigryw.
--

5.2.3 Cyfuniad o nodweddion ac asedau sydd yn gwneud Llŷn yn ardal unigryw ac yn ffurfio rhan bwysig o'i chymeriad. Diffiniwyd y nodweddion neu'r rhinweddau hyn yn y rhannau blaenorol o'r Cynllun ac mae'n cynnwys y tirlun, bywyd gwyllt, amgylchedd hanesyddol, cymunedau a'r iaith. Prif ffocws y Cynllun Rheoli fydd anelu i warchod, cynnal a lle bo'n bosibl i wella'r nodweddion neu'r rhinweddau hyn.

- 5.2.4 Mae'n bwysig sicrhau fod datblygiadau newydd a ganiateir yn gweddu i'r ardal ac felly bydd materion megis maint, graddfa, dyluniad a deunyddiau yn bwysig. Yn aml gellir lleihau effaith ddatblygiadau newydd y tirlun a'r amgylchedd trwy fesurau megis lleoliad addas, dylunio sy'n gweddu a thirlunio.
- 5.2.5 Mae'r drefn gynllunio yn chwarae rhan bwysig yn hyn trwy asesu ceisiadau ac atal datblygiadau fyddai yn cael effaith annerbyniol ar yr AHNE neu osod amodau i wneud datblygiadau yn fwy derbyniol.

EGWYDDOR 2

Cymryd camau i hyrwyddo a hybu datblygiad cynaliadwy a pharatoi at gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol.
--

- 5.2.6 Mae gan y Cynllun Rheoli a gweithgareddau'r Gwasanaeth AHNE ran bwysig i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithredu ar faterion amgylcheddol lleol a byd eang, datblygiad cynaliadwy ac oblygiadau newid hinsawdd.
- 5.2.7 Gall codi ymwybyddiaeth a gweithredu yn lleol gyfrannu at weithredu cenedlaethol i leihau llygredd, arbed ynni, lleihau teithio a cheisio sicrhau fod datblygu yn gynaliadwy yn y tymor hir. Hefyd mae rhaid rhoi sylw i effeithiau posibl newid hinsawdd a lefel y môr y codi yn arbennig mewn ardal arfordirol fel Penrhyn Llŷn.

EGWYDDOR 3

Adnabod, hyrwyddo ac ennyn gwerthfawrogiad o'r gwasanaethau a manteision amgylcheddol a ddarperir yn yr AHNE.
--

- 5.2.8 Dynodwyd Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ar sail eu harddwch naturiol ac am eu bod yn ardaloedd arbennig o gefn gwlad ac arfordir. Ond hefyd mae gan yr ardaloedd hyn rôl bwysig i'w chwarae mewn darparu cyfleon ar gyfer pob math o weithgaredd i ymlacio a hamddena i bobol leol ac ymwelwyr. Erbyn hyn mae mwy a mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfleon fel hyn a'r budd y gall yr ardaloedd hyn ei gynnig o ran iechyd a lles cyffredinol y boblogaeth.
- 5.2.9 Gall y Cynllun Rheoli, a'r gweithredoedd fydd yn deillio ohono, wneud llawer i godi ymwybyddiaeth pobol leol o'r cyfleon sydd ar drothwy eu drws. Hefyd mae cyfleon i gyfleu negeseuon tebyg i ymwelwyr o bob math sy'n dod i Llŷn. Mae'r Cynllun hefyd codi ymwybyddiaeth arweinwyr meysydd iechyd a lles yn ogystal â gwleidyddion am yr hyn y gall y tirluniau gwarchodedig ei gynnig.

EGWYDDOR 4

Cefnogi cymunedau a'r bobol sy'n byw a gweithio yn Llŷn ac ennyn diddordeb yn yr AHNE ac yn nyfodol yr ardal.
--

- 5.2.10 Mae'n bwysig sylweddoli mai tirlun byw yw AHNE Llŷn. Y bobol leol a'r cymunedau sy'n rhoi lliw a bywyd i'r ardal ac yn cynnal a chadw llawer o'r rhinweddau sy'n gwneud yr ardal yn arbennig ac unigryw. Bydd yn bwysig cefnogi'r bobol hyn a

hefyd ceisio sicrhau eu bod yn cymryd diddordeb ac yn chwarae rhan fwy cadarnhaol yn rheolaeth yr AHNE a dyfodol yr ardal.

5.3 Dyfodol Llŷn

5.3.1 Lluniwyd y Weledigaeth ar sail yr wybodaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd yn y rhannau blaenorol y Cynllun. Mae'r rhannau hyn yn diffinio beth sydd yn arbennig am Llŷn, beth yw cyflwr y rhinweddau hyn a beth yw'r gweithredoedd sy'n rhoi pwysedd ar y rhinweddau neu sy'n fuddiol i'r rhinweddau. Yn ychwanegol mae'r Weledigaeth yn ystyried yr egwyddorion sylfaenol y cyfeiriwyd atynt yn dechrau'r rhan yma.

5.3.2 **Dyma'r Weledigaeth felly, ar gyfer Llŷn yn 2040:**

ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD YN GYFOETHOG O FYWYD GWYLLT SY'N DARPAU LLU O WASANAETHAU NATURIOL. NODWEDDION HANESYDDOL YN CAEL COFNODI A'U GWERTHFAWROGI A CHYMUNEDAU LLEOL YN CYNNAL YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG.

5.3.3 Er mwyn bod yn fwy penodol ynglŷn â nodweddion penodol yr ardal fe luniwyd gweledigaethau unigol sydd yn fwy manwl. Mae'r gweledigaethau hyn yn gosod darlun o gyflwr delfrydol y nodwedd dan sylw yn y dyfodol.

5.4 Y Tirlun, Arfordir a Morlun

5.4.1 Harddwch naturiol y tirlun, yr arfordir a'r golygfeydd cysylltiedig oedd prif sail dynodi AHNE Llŷn yn 1957 a'r Arfordir Treftadaeth yn 1974. Mae'r Weledigaeth yn nodi'r bwriad o gynnal a chadw'r rhinweddau naturiol arbennig yma a rhan bwysig o hynny yw bod unrhyw ddatblygiadau newydd sydd yn cael eu caniatáu yn y dyfodol o safon dda ac yn gweddu i amgylchedd yr ardal.

5.4.2 Y weledigaeth a osodwyd ar gyfer y dyfodol yw:

Penrhyn o wastatir a bryniau amlwg ac arfordir hardd. Golygfeydd naturiol gwych a pherthynas agos gyda'r môr. Tai, ffyrdd a datblygiadau newydd eraill yn gweddu yn dda i amgylchedd naturiol ag hanesyddol yr AHNE.

5.5 Tawelwch a Llygredd Isel

5.5.1 Ar hyn o bryd mae Llŷn yn ardal lle mae llygredd amgylcheddol yn isel ac mae'r Weledigaeth isod yn rhagweld y bydd hynny yn parhau ac efallai bydd rhai gwelliannau yn y dyfodol. Y gobaith hefyd yw bydd y lefelau isel o weithgareddau, sŵn a golau yn Llŷn yn cael ei gynnal ac felly fod cymeriad llonydd a thawel yr ardal yn parhau.

5.5.2 Gweler y weledigaeth isod:

Lefelau isel o lygredd, sŵn a golau nos ac awyrgylch o dawelwch, unigedd a hedd.

5.6 Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

- 5.6.1 Yn anffodus mae llawer o gynefinoedd naturiol Llŷn wedi crebachu yn sylweddol yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf oherwydd prosesau amaethyddol mwy effeithiol ac erbyn hyn mae rhai yn adnodd prin. Mae angen gwarchod ac adfer rhai o'r cynefinoedd hyn a gwella rheolaeth ohonynt er gwireddu'r weledigaeth.
- 5.6.2 Mae cymeriad gwledig ac arfordirol yr ardal, a hefyd ei natur di-lygredd, yn golygu ei bod yn hafan i gyfoeth o fywyd gwyllt. Y gobaith yw y bydd Llŷn yn parhau i fod yn gynefin ar gyfer amrywiaeth fawr o anifeiliaid, ymlusgiaid, pryfetach, adar a chreaduriaid y môr yn cynnwys rhai sydd bellach yn brin trwy wledydd Ewrop.
- 5.6.3 Y weledigaeth yw:

Rhostiroedd a chynefinoedd allweddol eraill Llŷn yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n effeithiol a'r cyfoeth o fywyd gwyllt yn cael ei warchod a'i gynnal.

5.7 Yr Amgylchedd Hanesyddol

- 5.7.1 Mae ardal Llŷn ac Ynys Enlli wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru fel cydnabyddiaeth o gyfoeth yr amgylchedd hanesyddol yn yr ardal.
- 5.7.2 Fel y gwelwyd yn rhan flaenorol y Cynllun mae amgylchedd hanesyddol yr ardal yn cynnwys amrywiaeth helaeth o adnoddau. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys olion archeoleg a hanesyddol cynnar fel meini hirion a cheyrydd, olion gweithgaredd diwydiannol fel hen chwareli, gwaith mwyn, iardiau glo ac odyddau calch. Hefyd mae adeiladau hanesyddol a rhannau traddodiadol o bentrefi hefyd yn elfen bwysig o'r dreftadaeth adeiledig. Dengys arolygon fod adeiladau hanesyddol mewn perygl oherwydd diffyg cynnal a chadw a datblygiadau anaddas yn amharu ar eu cymeriad a'u hedrychiad ond ar y cyfan mae rhannau traddodiadol o bentrefi wedi cynnal eu cymeriad gwreiddiol yn dda.
- 5.7.3 Y gobaith hefyd yw y bydd mwy o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ar gael a mwy o gyfleon i ymweld â safleoedd ac adeiladau.
- 5.7.4 Y weledigaeth a osodwyd ar gyfer y dyfodol yw:

Nodweddion hanesyddol fel meini hirion, cloddiau, ffynhonnau, eglwysi a bythynnod yn cael eu gwarchod a'u cynnal yn ddigonol. Cyfleon da ar gyfer ymweld a dysgu am olion, safleoedd ac adeiladu hanesyddol pwysig Llŷn.

5.8 Pobol a Chymuned

- 5.8.1 Mae'r bobl sy'n byw a gweithio yn yr ardal yn cyfrannu at ei chymeriad a'i hunaniaeth ac yn cynnal traddodiadau, diwylliant a'r iaith. Drwy gael amodau byw teg a chyfleon ar gyfer mwynhau a gwneud bywoliaeth yn yr ardal mae'r weledigaeth yn rhagweld y bydd cymunedau yn sefydlog ac yn ffynnu. Yn ei dro

bydd trigolion lleol a'r cymunedau yn fodd i gynnal un arall o nodweddion arbennig Llŷn sef yr iaith a'r diwylliant.

5.8.2 Gweler y weledigaeth isod:

Cymunedau sefydlog yn mwynhau safon byw da a phobol a phlant yn ymwybodol o hanes a thraddodiadau'r ardal ac yn cynnal y diwylliant a'r iaith Gymraeg.

5.9 Yr iaith a'r Diwylliant Cymreig

5.9.1 Mae diwylliant lleol unigryw, gyda blas Cymreig arbennig arno, yn perthyn i Llŷn ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan greiddiol ohono. Mae'r iaith a'r diwylliant dan gryn fygythiad oherwydd allfudiad o'r gymdeithas gynhenid a mewnfudiad o bobl sydd yn aml ddim yn ymwybodol o hanes a diwylliant yr ardal. Drwy weithredoedd, prosiectau ac ymgyrchoedd yn y blynyddoedd i ddod y gobaith yw y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn brif iaith yr ardal yn 2040.

5.9.2 Gobaith arall yw y bydd elfennau ieithyddol a diwylliannol lleol yn cael eu cofnodi a'u hyrwyddo yn ystod y cyfnod dan sylw, drwy wahanol brosiectau gan gymunedau, awdurdodau cyhoeddus a mentrau eraill.

5.9.3 Y weledigaeth yw:

Y Gymraeg yn brif iaith Llŷn, enwau Cymraeg yn cael eu harddel a'r diwylliant Cymreig wedi ei gofnodi'n dda ac yn ffynnu.

5.10 Cynnyrch Lleol a Busnesau Gwledig

5.10.1 Dros y canrifoedd mae diwydiannau primaidd o amaethu, chwarelydda a physgota wedi cael dylanwad trwm ar gymeriad yr ardal ac wedi bod yn sylfaen i'r economi leol. Credir fod ganddynt gyfraniad parhaol i'w wneud i economi Llŷn ond gall mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy o weithredu fod o fudd sylweddol i rinweddau arbennig yr ardal. Hefyd yn Llŷn mae busnesau bychain a hunangyflogaeth yn bwysig o'r economi wledig gan gyfrannu at yr economi a chymeriad yr ardal.

5.10.2 Mae'r diwydiant twristiaeth a hamdden yn dod a budd economaidd sylweddol ac yn gymorth i gynnal gwasanaethau lleol. Ond mae'n amlwg fod sgil effeithiau pur ddifrifol i rai o rinweddau arbennig yr ardal ynghlwm â'r diwydiant. Y gobaith ar gyfer y dyfodol yw y gellir taro cydbwysedd rhwng elwa o'r diwydiant, lleihau ei ardrawiad a chynnal safon yr amgylchedd. Mae datblygu'r diwydiant ar sail gynaliadwy yn cynnig budd sylweddol i'r economi lleol ac o ran effeithiau ar y rinweddau arbennig.

5.10.3 Y weledigaeth yw:

Ffermio, pysgota a chwarelydda yn parhau i ddarparu gwaith a chynnyrch lleol safonol. Twristiaeth a diwydiannau bychain gwledig eraill yn cyfrannu tuag at yr economi leol heb amharu ar amgylchedd arbennig yr ardal.

5.11 Hawliau Tramwy a Mynediad

5.11.1 Mae hawliau tramwy a hawl mynediad yn adnodd pwysig i ardal fel Llŷn. Heb yr hawliau hyn ni fyddai modd cael mynediad at rannau helaeth o'r ardal a'r arfordir. At y dyfodol y gobaith yw y bydd yr hawliau yma yn cael eu gwarchod a'r llwybrau yn cael eu cynnal, er fe sylweddolir y bydd raid blaenoriaethu ar sail adnoddau. Dangosodd gwaith ymchwil fod cyfleon i wella'r ddarpariaeth ar gyfer yr anabl yn Llŷn ac erbyn 2040 gobeithir y bydd gwelliannau wedi eu cyflwyno mewn rhai mannau lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

5.11.2 Nod arall fydd sicrhau fod y cynnydd mewn defnyddio hawliau tramwy, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn y dyfodol - ar sail lles ac iechyd cyhoeddus, cynyddu gwerthfawrogiad a mwynhad o'r AHNE ac er budd yr amgylchedd. Felly bydd codi ymwybyddiaeth yn bwysig, yn ogystal â rheolaeth i leihau gwrthdaro a datblygu gwell perthynas rhwng perchnogion, rheolwyr a gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr.

5.11.3 Y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yw:

Hawliau tramwy a thir gyda hawl mynediad yn cael eu mwynhau yn ddi-rwystr a cyfleon mynediad ar gyfer yr anabl wedi cynyddu. Cerdded, beicio, marchogaeth a gweithgareddau hamdden dŵr di-fodur yn weithgareddau poblogaidd.

6.0 TIRLUN AC ARFORDIR

Ffeithiau Allweddol

Dynodwyd AHNE Llŷn yn 1956, arwynebedd o 15,500 hectar
Mae Arfordir Treftadaeth Llŷn yn ymestyn 55 milltir o amgylch y Penrhyn
Landmap - Mae rhannau o dirlun ac arfordir Llŷn wedi eu dynodi o safon "eithriadol" ac "uchel".

6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Barnwyd fod Llŷn yn haeddu cydnabyddiaeth a gwarchodaeth arbennig fel AHNE ar sail tirlun ac arfordir hardd. Mae tirlun unigryw Llŷn wedi ei greu gan gyfuniad o ddaearog, llystyfiant a dylanwad dynol dros ganrifoedd o amser. Yn aml mae'r tirlun a'r golygfeydd yn anodd ei hasesu a'u mesur oherwydd bod golygfa yn ddarlun gweledol sy'n gyfuniad o nodweddion, strwythurau a lliwiau.
- 6.1.2 Mae seiliau daearegol a geomorffoleg Llŷn yn gymhleth ac amrywiol. Ceir creigiau eithriadol o hen o'r cyfnod Cyn-Gambriaidd, creigiau folcanig mewnwthiol ac ardal eang o greigiau Ordoficaidd. Cafodd gweithgaredd rhewlifol effaith amlwg iawn ar y tirlun gan greu dyddodion o glog-glai, llynnoedd, cerlannau a sianelau dŵr. Bu i'r rhewlifant gario cerrig o ardal y Clyde (Alisa Craig) ac Ardal y Llynnoedd i Llŷn, ac fe welir y rhain yn y drifftiau rhewlifol trwy'r ardal.
- 6.1.3 Gwneir cyfraniad mawr i harddwch a chymeriad naturiol ardal Llŷn gan yr arfordir. Mae'n arddangos nodweddion naturiol amrywiol a diddorol gan gynnwys clogwyni uchel, ogofau, staciau, penrhynau a thraethau tywodlyd. Mae enwau Cymraeg amrywiol a diddorol ar y ffurfiau hyn. Mae'r ynysoedd, ac Ynys Enlli yn arbennig, yn rhan greiddiol o arfordir Llŷn. Hefyd mae'r môr yn amgylchynu'r ardal bron ac mae ymadroddion megis "dylanwad y môr" ac "unman ymhell o'r môr" yn gyffredin am yr ardal.
- 6.1.4 Oherwydd harddwch yr ardal a nodweddion arbennig eraill, mae Llŷn wedi datblygu yn lle poblogaidd gan ymwelwyr. Dechreuodd hyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda dyfodiad y trêen i Bwllheli. Yn raddol newidiodd natur yr ymwelwyr yn yr ugeinfed ganrif gyda mwy a mwy yn cael ceir eu hunain ac roedd pobol yn aros mewn tai a llety gwely a brecwast mewn sawl ardal. Yn ddiweddarach, o'r 1960au ymlaen dechreuodd mwy a mwy ddod gyda charafanau a phebyll. Erbyn heddiw mae twristiaeth yn ddiwydiant mawr gan gyflogi llawer a dod ag incwm sylweddol i'r economi. Fodd bynnag, mae rhai datblygiadau sydd ynghlwm â'r diwydiant twristiaeth yn cael effaith sylweddol ar harddwch naturiol a rhinweddau eraill yr ardal.
- 6.1.5 Mae'r safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysicaf wedi eu dynodi yn un ai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDDGA) – sydd yn safleoedd o ddiddordeb a phwysigrwydd cenedlaethol, neu yn Safleoedd Rhanbarthol o Bwysigrwydd Daearegol a Geomorffoleg ("RIGS"). Mae safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cynnwys ogofau, chwareli a ffurfiau tirluniol.

- 6.1.6 Mae **12 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** ar sail daeareg neu gyfuniad o ddaeareg a nodwedddion eraill oddi mewn yr AHNE, arwynebedd o **1588.12 ha**. Mae cyflwr y safleoedd hyn yn cael ei asesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (gweler safle we CNC am fwy o wybodaeth).
- 6.1.7 Mae **3 Safle Ddaearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol** yn yr AHNE, sef Trwyn y Tâl (11.00 hectar), Mynydd Carreg (5.29ha) a Phorthdinllaen (5.67 ha). Cofnodir cyflwr y safleoedd hyn fel “Ardderchog” gan Grŵp RIGS Gwynedd a Môn (2004)
- 6.1.8 Dynodwyd **Ardal Cadwraeth Arbennig** Clogwyni Pen Llŷn ar sail natur arbennig y creigiau a'r clogwyni. Mae'n 877.48 ha mewn arwynebedd.
- 6.1.9 Yn **LANDMAP**, mae 14 o safleoedd yn yr AHNE wedi eu nodi fel rhai o bwysigrwydd “eithriadol” (pwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol) a 4 safle fel rhai o safon “uchel” (pwysigrwydd rhanbarthol neu sirol) o ran Daeareg neu Geomorffoleg. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.1.10 Mae rhannau o'r arfordir yn dioddef erydiad naturiol ac mae tir arfordirol wedi ei gollu'n gyson yn ystod treigladau amser. Datblygwyd cynlluniau gwarchod yr arfordir sylweddol yn Nefyn, Morfa Nefyn ac Aberdaron. Mae Cynlluniau Rheolaeth y Traethlin (Bae Ceredigion ac Arfordir y Gogledd) wedi eu paratoi ar gyfer rhaglennu gwaith rheoli erydiad y dyfodol.
- 6.1.11 At bwrpas yr adolygiad o'r Cynllun, fe wnaed arolwg o ffurfiau Daearegol yr AHNE gan gwmni Land Use Consultants. Dangosodd y gwaith fod yr holl safleoedd hyn mewn cyflwr boddhaol. Fodd bynnag, o ran rheoli'r safleoedd yn y dyfodol roedd rhai materion yn cael eu hadnabod fel bygythiadau:
- datblygiadau newydd
 - gwaredu deunyddiau a gwastraff
 - cario deunydd oddi ar wyneb y graig

6.2 Cymeriad y Tirlun

- 6.2.1 Mae asesiad tirlun proffesiynol yn ddefnyddiol i asesu a gwerthfawrogi harddwch naturiol ac fe ellir defnyddio termau disgrifiadol safonol i fapio'r tirlun yn nhermau'r synhwyrâu. Sefydlwyd LANDMAP fel proses sy'n ystyried holl ffactorau perthnasol sy'n cyfrannu ar gymeriad tirlun yn ogystal ag asesu effaith penderfyniadau. Hefyd asesir gwybodaeth am ddefnydd tir, strategaethau perthnasol a chanfyddiad cyhoeddus. Datblygwyd y system gan Grŵp Partneriaeth Tirlun Cymru ac mae'r system yn cael ei chydgordio gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.2.2 O ran asesiad gweledol mae LANDMAP yn cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth: Tirlun, morlun, llystyfiant, patrwm defnydd tir ac aneddeuoedd. O ran canfyddiad, rhoddwyd ystyriaeth i raddfa, ffiniau, lliwiau, amrywiaeth, tawelwch, symudiadau, diogelwch, manau gweld, blerwch ac ardaloedd o ddylanwad gweledol. Ar sail yr uchod rhannwyd Gwynedd yn 10 ardal ac mae'r AHNE yn rhan o ddwy ardal sef Arfordir Gogleddol Llŷn a Gorrlewin

Llŷn.

- 6.2.3 Mae ardal Arfordir y Gogledd yn sribyn cul yn ymestyn o Aberdesach i Nefyn ac yn cynnwys Bwlch Mawr, Gyrn Ddu, Gyrn Goch, Yr Eifl, Moel Tŷ Gwyn, Mynydd y Gwylwyr a Garn Boduan. Mae pentrefi Trefor, Llithfaen, Pistyll a thref Nefyn yn yr ardal hon. Gwelir amrywiaeth o lystyfiant yn cynnwys gwelltir, coedlannau conwydd a rhostir asidaidd.
- 6.2.4 Mae ardal Gorllewin Llŷn yn cynnwys rhan o'r penrhyn i'r gorllewin o'r A497. Yn naturiol mae'r môr yn cael dylanwad cryf ar gymeriad yr ardal yn ogystal â phatrwm caeau traddodiadol. Mae daeareg yr ardal wedi creu llwyfandir isel gydag ymwthiadau igneaidd yma ac acw megis Garn Fadrun a Mynydd Rhiw ac mae olion rhewlifant hefyd i'w gweld hyd a lled yr ardal. Mae'r daeareg a'r llystyfiant amrywiol wedi creu cynefinoedd pwysig megis rhostiroedd a thiroedd gwlyb. Mae olion presenoldeb dynol yn amlwg ar dirlun gorllewin Llŷn. Yn fwyaf amlwg mae'r bryngaerau ar Garn Fadryn a Chastell Odo a'r patrymau caeau cynhanesyddol.
- 6.2.5 Mae dadansoddiad LANDMAP o'r elfen Gweledol a'r Synhwyrol yn cofnodi saith nodwedd neu rinwedd allweddol am Benrhyn Llŷn sef:
- Ffurf y penrhyn - ffurf trwyn eliffant gydag arfordir sy'n gyfuniad o gyfres o faeau a thraethau tywodlyd rhwng penrhynau creigiog;
 - Mynyddoedd bychan – naill ai brynau crwn caregog neu gopaon serth ynysig;
 - Y gwrthgyferbyniad cryf rhwng gwahanol fath o llystyfiant – tir glas cyfoethog, grug ac eithin, tir pori garw, coedwigoedd conifferaidd a thir corsiog;
 - Patrymau o gaeau bychain - wedi eu hamgylchynu gan waliau cerrig a/neu gloddiau;
 - Ffermdai gwasgaredig a phentrefi chwarelyddol;
 - Tawelwch – dim llygredd sŵn a golau;
 - Olion chwareli a thyllu am fwynau – tomeni gwastraff a hen strwythurau o chwareli a gweithfeydd megis Gyrn Ddu, Yr Eifl, Trwyn Llanbedrog a Mynydd Rhiw.
- 6.2.6 Mae'r arfordir yn creu argraff gref, a gwelir bod aneddleoedd gwasgaredig gorllewin Llŷn yn bwysig a bod patrymau a geir gan derfynau yn parhau. Mae nifer o safleoedd wedi eu nodi fel rhai o bwysigrwydd "eithriadol" (ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol) a "uchel" (pwysigrwydd rhanbarthol neu sirol) o ran agwedd Gweledol a Synhwyrol. Hefyd mae adroddiad a baratowyd ar sail Landmap yn ymestyn ffin yr AHNE i gynnwys yr holl ardal i'r gorllewin o'r A497. Gweler LANDMAP ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru am wybodaeth lawn.

6.3 Y Berthynas Rhwng y Tir a'r Môr

- 6.3.1 Mae'r angen i roi sylw i'r berthynas rhwng y tir a'r môr wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar gyda'r pryder am newid hinsawdd a thymhestledd y môr. Mae darogan y bydd newid hinsawdd yn arwain at ddadmer rhew yr Arctig a chodi

lefel y môr, ac y bydd y tywydd hefyd yn fwy stormus ac yn creu erydiad mewn manau. Mae hyn wedi cyfrannu at greu achos dros ddeddfwriaeth newydd yn cynnwys y Ddeddf Môr a Mynediad Arfordirol a ddaeth i rym yn 2009. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith newydd ar gyfer cynllunio a rheoli amgylchedd y môr a'r arfordir mewn modd cynaliadwy gan anelu at greu moroedd a chefnforoedd glân, iach, saff, cynhyrchiol sy'n llawn bioamrywiaeth.

6.3.2 Mae Rheolaeth Integredig o Barthau Arfordirol (ICMZ) yn broses sydd yn rhoi datblygu cynaliadwy ar waith mewn parthau arfordirol. Mae'n tynnu pawb sy'n ymwneud â chynllunio, rheoli a defnyddio'r arfordir at ei gilydd i sicrhau fod yr arfordir hwnnw'n cael ei reoli mewn dull integredig. Ers 2007 mae Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid allweddol eraill sy'n perthyn i Bartneriaeth Arfordir a Morol Cymru wedi ymrwmo i arddel yr arfer o Reolaeth Integredig o'r Parth Arfordirol (*Inter Coastal Management Zone - ICZM*) ar gyfer arfordir Cymru. Ar sail hynny mabwysiadwyd strategaeth arfordirol (ICZM) ar gyfer Cymru o'r enw: Gwneud y Gorau o Arfordir Cymru.

6.3.4 Y weledigaeth ar gyfer arfordir Cymru yn y strategaeth yw bod asedau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yr arfordir, a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn cael eu cynnal a'u gwella er budd a mwynhad pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Ymysg y blaenoriaethau ar hyn o bryd mae sicrhau fod egwyddorion ICMZ yn cael eu derbyn a'u harddel wrth ddatblygu polisi ac arferion, bod gwell system o wneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â'r tir a'r môr o boptu'r terfyn arfordirol, bod pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd yr asedau arfordirol, a bod gwell system o gasglu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a monitro cynnydd.

6.3.5 O ran rheolaeth o'r draethlin mae arfordir Cymru wedi ei rannu i bedair "cell" neu ardal. Yn Llŷn mae'r arfordir i'r gogledd o Ynys Enlli yn rhan o'r arfordir a ddaw o dan gell Arfordir Llandudno i Ynys Enlli tra bo'r arfordir i'r de-ddwyrain yn rhan o gell arfordirol Bae Ceredigion. Mae Cynlluniau Rheoli wedi eu paratoi ar gyfer yr ardaloedd hyn sy'n canolbwyntio ar reoli'r amddiffynfeydd arfordirol, ymateb i lifogydd ac erydu'r arfordir.

6.3.6 At bwrpas Cynllun Rheoli yr AHNE fe osodwyd yr isod fel Prif Nod:

Prif Nod

GWARCHOD A GWELLA CYMERIAD A HARDDWCH TIRLUN AC ARFORDIR AHNE LLŷN TRWY GYNNAL AC ADFER NODWEDDION SY'N GWNEUD YR ARDAL YN ARBENNIG AC UNIGRYW.
--

Nodweddion Arbennig

6.4 Penrhyn Bryniog

6.4.1 Penrhyn yn ymestyn allan i'r môr yw Llŷn a does unman yn bell o'r môr. Mae daeareg yr ardal yn gymhleth ac amrywiol ac yn cynnwys a creigiau Cyn-Gambriaidd sydd filiynau o flynyddoedd oed sydd wedi rhoi mynyddoedd, brynau, dyffrynnoedd ac arfordir unigryw i'r ardal.

- 6.4.2 Y ddaeareg amrywiol sy'n sail ar gyfer cymeriad unigryw'r tirlun gweledol. Llwyfandir eang yw'r penrhyn gyda nifer o fryniau a mynyddoedd igneaidd yn brigo i'r wyneb - mae'r rhain yn nodwedd amlwg yn nhirlun Llŷn a'r AHNE. Y prif rai ar hyd y gogledd yw Gyrn Goch, Gyrn Ddu a Moel Penllechog, Yr Eifl, Mynydd y Gwylwyr, Mynydd Nefyn a Garn Boduan ac yna Anelog ac Uwchmynydd ym mhen draw'r Penrhyn. Ar yr ochor ddeheuol ceir Mynydd Rhiw, Mynydd y Graig a Thir y Cwmwd a Foel Gron a Garn Fadrun mwy i mewn i'r tir. Mae nifer o fryniau a moelydd llai hefyd fel Garn Saethon a Foel Gwynus.
- 6.4.3 Oherwydd ei natur ynysig a phellter o ardaloedd trefol, ardal eithaf ymylol yw Llŷn ac i gymharu ag ardaloedd eraill ychydig o ddatblygiad sydd wedi bod yma – yn aml cyfeirir ati fel ardal heb ei difetha.

6.5 Arfordir Trawiadol

- 6.5.1 Mae arfordir arbennig Llŷn yn un o brif nodweddion yr ardal ac yn un o'r prif resymau dros ddynodi'r ardal yn AHNE. Nodweddir rhannau helaeth o'r arfordir gogleddol gan glogwyni serth a chreigiau geirwon gyda rhai rhannu o ddeunydd gwaddodol. Mae'r deunydd gwaddodol yma wedi ei erydu dros amser ac mae nifer o benrhynau a baeau wedi eu ffurfio a rhoddwyd enwau Cymraeg diddorol iddynt fel Porth Ysgaden, Porth Meudwy, Porth Gwylan a Phorth Colmon. Mae llawer o nodweddion arfordirol ddiddorol eraill hefyd fel ogofau, staciau ac ynysoedd bychain, hefyd gyda llun o enwau Cymraeg hanesyddol.
- 6.5.2 Er bod clogwyni a chreigiau ar yr arfordir deheuol mae yno fwy o draethau tywodlyd eang megis Porth Neigwl, Porth Ceiriad a thraeth Abersoch. Oherwydd natur tywodlyd y traethau yma mae system o dwyni tywod wedi datblygu yn ardal Abersoch.
- 6.5.3 O ganlyniad i natur arbennig yr arfordir a'r ffaith nad oedd llawer o ddatblygiad wedi bod fe, ddynodwyd rhan helaeth o arfordir Llŷn (55 milltir/ 88.3 cm) yn Arfordir Treftadaeth yn 1974. Mae'r Arfordir Treftadaeth yn dilyn ffin yr AHNE ar hyd yr arfordir o Aberdesach i Benrhyn Du ar yr arfordir deheuol. Nid yw'n cynnwys y rhan o'r arfordir deheuol rhwng y Penrhyn Du a Charreg y Defaid (sydd yn yr AHNE). Ar y llaw arall mae rhan o'r arfordir sydd rhwng Nefyn a Morfa Nefyn wedi ei gynnwys yn yr Arfordir Treftadaeth er nad yw yn yr AHNE. Hefyd mae Ynys Enlli ac Ynysoedd Sant Tudwal hefyd wedi eu cynnwys. Er nad yw Arfordir Treftadaeth yn ddynodiad statudol mae yn rhoi cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i gyfyngu ar ddatblygiadau arfordirol.
- 6.5.4 Mae rhannau eang o'r arfordir hefyd wedi eu dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ogystal ag Ardal Cadwraeth Arbennig

6.6 Llystyfiant

- 6.6.1 Mae'r llystyfiant sy'n lliwio'r tirlun yn creu argraff weledol gref gan ei fod yn creu darlun gweledol amrywiol a lliwgar, sy'n amrywio yn ôl amser o'r

flwyddyn. Mae rhannau helaeth o'r ardal yn dir amaethyddol wedi ei wella ac mae'r rhan fwyaf ohono yn dir pori. Mae hyn y rhoi tirlun o gaeau o faint amrywiol ac mewn rhai mannau mae patrwm caeau hanesyddol yn goroesi. Mae rhai ardaloedd o dir pori garw yn bodoli hefyd – yn bennaf ar y tiroedd uchel, tiroedd gwlypach mewn dyffrynnoedd ac ar y gelltydd môr. Mae rhai cnydau yn cael eu tyfu hefyd – haidd yn bennaf ond yn ddiweddar mae lleihad sylweddol wedi bod mewn tyfu cnydau ar draul amrywiaeth gweledol a bywyd gwyllt.

- 6.6.2 Mae'r rhostiroedd yn nodwedd amlwg o lystyfiant yn Llŷn ac mae ardaloedd o rostir iseldir arfordirol ac ucheldir. Mae rhostiroedd yr ucheldir yn arbennig o liwgar ar ddiwedd yr Haf pan mae'r eithin mân a'r grug mewn blodau.

6.7 Terfynau a Phatrwm Caeau

- 6.7.1 Mae tirlun Llŷn wedi ei rannu gan derfynau naturiol (afonydd, coedlannau, mynyddoedd) a rhai wedi eu gwneud gan ddyn. Y terfynau dynol mwyaf cyffredin yn AHNE Llŷn yw'r cloddiau a'r waliau cerrig i rannu'r caeau a bob ochor i'r ffyrdd – sydd wedi eu codi gannoedd os nad filoedd o flynyddoedd yn ôl. Mae rhai gwrychoedd yn creu ffiniau hefyd ac mae'r rhain oll yn gynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr. Mae'r patrwm caeau traddodiadol, sy'n dyddio yn ôl i gyfnod Oes y Cerrig mewn rhai mannau, yn gyfuniad o elfennau naturiol a dynol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r tirlun hardd a welir heddiw.

6.8 Y Chwareli Ithfaen

- 6.8.1 Yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd mynd mawr ar gerrig ithfaen fel deunydd adeiladau ac ar gyfer ffyrdd a strydoedd. O ganlyniad datblygwyd nifer o chwareli ithfaen ar ochrau brynau a mynyddoedd Penrhyn Llŷn – olion sydd i'w gweld yn glir hyd heddiw. Y prif chwareli oedd Trefor, Nant Gwrtheyrn / Carreg y Llam a'r Gwylwyr yn Nefyn. Roedd llawer o fân chwareli hefyd fel ar Fynydd Tir y Cwmwd, Gyrn Ddu a Thrwyn Dwmi. Mae'r chwareli wedi gadael eu hoel ar yr ardal ond hefyd maent wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu tai yn gartrefi i'r gweithwyr ac mewn rhai mannau pentrefi cyfan fel Pistyll, Trefor a Nant Gwrtheyrn.

6.9 Pentrefi ac Adeiladau Gwasgaredig

- 6.9.1 Nodweddir yr ardal gan bentrefi bychan, wedi eu gwasgu i'r tirlun. Oherwydd eu natur gryno a'r deunyddiau adeiladu traddodiadol maent yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun. Mae nifer o bentrefi bychan yma wedi cadw eu cymeriad yn dda – fel Llanengan, Llangian, Y Rhiw, Clynnog ac Aberdaron ac yn cyfrannau at apêl yr ardal.
- 6.9.2 Mae'r rhannau mwyaf gwledig yr AHNE yn cael ei nodweddu gan dai a bythynnod bychan, ffermydd ac ambell gapel neu eglwys - sydd yn ymdebygu i rannau o dde-orllewin Iwerddon. Eto mae hyn yn rhoi argraff o ardal heb weld llawer o newid ac heb ei difetha – disgrifiadau a ddefnyddir am yr ardal yn aml

Materion Allweddol

6.10 Newid Hinsawdd

6.10.1 Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn creu pwysedd sylweddol ar arfordir Cymru yn y dyfodol. Mae tystiolaeth o effeithiau newid hinsawdd yn awgrymu mae'r tueddiadau disgwylidig ar Gymru yw cynnydd yn y tymheredd, mwy o hafau sych a poeth, gaeafau mwynach a gwlypach hefo glaw trwm¹.

6.10.2 Fe all y tueddiadau hyn arwain at ddau fath o newid dros amser:

- cynnydd yn lefel y môr, nifer a dwyster y stormydd yn arwain at bwysedd ychwanegol yn nhermau erydiad arfordirol a llifogydd mewn ardaloedd lefel isel;
- ymestyn y tymor tyfu gan arwain at ddefnydd gwahanol o dir amaethyddol a phwysau i wneud defnydd o dir amaeth ymylol.

6.11 Erydiad Arfordirol

6.11.1 Mae rhannau o'r arfordir yn dioddef erydiad naturiol ac mae tir arfordirol wedi ei golli'n gyson yn ystod treigladd amser – mae Porth Neigwl, Nefyn - Pistyll ac ardal Trefor yn dioddef o hyn. Datblygwyd cynlluniau gwarchod yr arfordir sylweddol yn Nefyn, Morfa Nefyn ac Aberdaron sydd wedi amharu ar gymeriad naturiol yr arfordir ond barnwyd ar y pryd yn angenrheidiol i warchod eiddo a phobol. Mae Cynlluniau Rheoli y Draethlin (Bae Ceredigion ac Arfordir y Gogledd) wedi eu paratoi ar gyfer rhaglennu gwaith rheoli erydiad yn y dyfodol.

6.11.2 Mae erydiad yn amharu ar ellytydd môr a thraethau a gall fod peryglon gwirioneddol i eiddo a phobol. Hefyd mae rhannau o lwybrau yn cael eu colli, a'r Llwybr Arfordir yn fwyaf nodedig, gan olygu fod angen ail-sefydlu llwybrau. Mae'n bwysig cadw llygad ar lwybrau ac eiddo a chodi ymwybyddiaeth a chymryd mesurau i baratoi at erydiad.

6.12 Newidiadau ym Myd Ffermio

6.12.1 Mae'r dulliau ffermio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae llawer llai o ffermydd cymysg yn yr ardal. Rhai o ddatblygiadau cysylltiedig yn y diwydiant ffermio sydd wedi cael ardrawiad ar y tirlun yn ddiweddar yw:

- Codi siediau o faint sylweddol ar gyfer cadw anifeiliaid dan do dros y gaeaf
- Arbenigo mewn un dull o ffermio – defaid, gwartheg biff neu laeth
- Peiriannau modern llawer mwy – sydd angen adwyon llydan a chaeau mawr
- Arallgyfeirio i ddod ag incwm ychwanegol e.e. carafanau teithiol, pebyll, ynni adnewyddol.

¹ Dyfynnwyd yn Strategaeth Amgylchedd Cymru (2008) op cit.

6.12.2 Rhaid cydnabod hefyd fod gwaith amgylcheddol da wedi ei wneud ar lawer o ffermydd trwy gynlluniau amaeth- amgylcheddol fel ail-sefydlu cloddiau, trwsio ac ail godi waliau cerrig, adfer adeiladau traddodiadol a phlannu gwrychoedd. Mae mentrau o'r math yma wedi bod o fudd i'r amgylchedd a'r tirlun lleol.

6.13 Carafanau a Chalets

6.13.1 Er fod datblygiadau carafanau wedi dod ag ymwelwyr ac arian i'r ardal maent, yn anffodus wedi cael effaith ar y tirlun a'r arfordir. Mae carafanau sefydlog a chalets wedi cael effaith negyddol yn enwedig yn ardal Abersoch a Sarn Bach. Mae llawer o'r safleoedd hyn yn dyddio yn ôl i'r 1960au a 70au er fod rhai estyniadau wedi bod yn ddiweddarach. Yn y blynyddoedd diweddar mae polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol diweddar wedi bod yn fwy cyfyngedig o ran carafanau, yn enwedig o ran carafanau sefydlog. Ni chaniateir safleoedd newydd a dim ond estyniadau bychan a ganiateir fel rhan o gynlluniau uwchraddio safleoedd. O ran yr AHNE credir fod cyfleon i leihau effaith gweledol rhai safleoedd carafanau sefydlog yn yr AHNE trwy gynlluniau tirlunio.

6.13.2 Hefyd gwelwyd cynnydd mewn safleoedd a niferoedd o garafanau teithiol o amgylch Aberdaron ac ar hyd yr arfordir gogleddol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae gwybodaeth gan Adran Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd (2015) yn cadarnhau y cynnydd bychan mewn carafanau teithiol a phebyll yn yr AHNE ond yn ddelfrydol mae angen asesiad trylwyr a manwl o garafanau a phebyll yn yr ardal. O ran yr AHNE mae safleoedd bychan, mewn mannau cuddiedig yn gallu bod yn dderbyniol ond mae'n bwysig bod amodau tirlunio yn cael eu defnyddio a'u gweithredu.

6.13.3 Ffactor arall i'w ystyried yw bod rhai perchnogion a gweithredwyr safleoedd yn cadw mwy o garafanau na sydd ganddynt hawl iddynt. Credir fod goruchwyllo (trwy arolygon ac ymweliadau safle) a rheolaeth effeithiol yn hanfodol yn ogystal ag ystyried cyfleon i leihau effaith safleoedd presennol trwy dirlunio a bod angen ystyried gwarchodaeth ychwanegol i rai rhannau sensitif o'r ardal.

6.14 Tyrbinau Gwynt

6.14.1 Yn eu hanfod mae tyrbinau gwynt angen mannau agored a gwyntog er mwyn bod yn effeithiol ac oherwydd hynny maent yn amlwg ar y tirlun ac yn amharu ar gymeriad naturiol a golygfeydd. Nid oes ychwaith fawr o gyfle i gynnwys mesurau i leihau'r effaith trwy dirlunio.

6.14.2 O 2010 ymlaen roedd cymhorthdal wedi ei gynnig gan y Llywodraeth am drydan wedi ei greu o ffynonellau adnewyddol, yn cynnwys ynni gwynt, yn sgil y "Feed-In Tariff". Yn sgil hynny roedd diddordeb mawr yn y mentrau hynny gan eu bod yn dod a budd economaidd a lleihau'r defnydd o drydan confensiynol. Fodd bynnag mae cyfraddau taliadau'r Tariff wedi ei leihau yn arw dros y blynyddoedd nes disgyn i lefel isel iawn yn 2016.

6.14.3 Pan yn adolygu'r Cynllun ychydig iawn o dyrbinau gwynt sydd wedi ei

caniatáu ar Benrhyn Llŷn a'r AHNE yn benodol. Mae polisiâu y Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Rheoli wedi bod yn bwysig iawn o ran rheoli'r datblygiadau yn yr ardal yn ogystal ag astudiaeth sensitifrwydd tirlun gan gwmni Gillespies. Mae'n debygol y bydd y newid yng ngraddfa'r tariff o 2016 ymlaen yn golygu llai o geisiadau am dyrbinâu gwynt.

6.14 Ffermydd Solar

6.14.1 Eto yn sgil taliadau "Feed in Tariff" gan y Llywodraeth bu cynnydd mewn ceisiadau cynllunio am baneli solar a hefyd ffermydd solar yn yr ardal. Mae'r paneli yn cael eu gosod ar dai, adeiladau allanol a siediau amaethyddol yn eithaf llwyddiannus er eu bod yn amharu ar rai adeiladau traddodiadol.

6.14.2 Mae ffermydd solar wrth gwrs ar raddfa hollol wahanol, drwy fod dros arwynebedd o hectarau. Mae'r paneli yn weddol isel ar y tirlun ac efallai bod rhai lleoliadau cuddiedig lle gellir eu lleoli heb effeithio llawer ar dirlun yr ardal. Pan yn adolygu'r cynllun roedd 1 fferm solar yn yr AHNE ei hun (ger Aberdaron) a 5 fferm arall o faint eithaf sylweddol yn weddol agos i'r ffin (Boduan, Llangybi, Chwilog, Nanhoron a Llwyndyrys). Yn dilyn newid graddfa taliadau am yr ynni adnewyddol yn 2016 rhagwelir y bydd nifer y ceisiadau yn lleihau yn sylweddol.

6.15 Tai Newydd

6.15.1 Mae'n naturiol y bydd rhai tai newydd yn cael eu codi ym mhentrefi a chefn gwlad Llŷn yn ystod cyfnod y Cynllun. Tai unigol a godir gan fwyaf ond mae rhai stadau bychain wedi eu codi yn diweddar hefyd er enghraifft ym mhentrefi Abersoch, Llanbedrog a Trefor.

6.15.2 Gall adeiladau newydd fodd bynnag amharu ar dirlun a chymeriad yr ardal os ydynt wedi eu lleoli mewn mannau anaddas a/neu o faint a dyluniad sydd ddim yn gweddu. Felly dylid anelu i sicrhau fod adeiladau newydd gael eu lleoli yn ofalus a gweddu i'w cefndir boed hynny mewn tref, pentref neu bentref gwledig.

6.15.3 Yn ogystal â lleoliad a dyluniad addas mae deunyddiau addas yn bwysig. Cerrig, chwipiad a gwahanol fathau o rendr sydd fwyaf cyffredin yn Llŷn a tho llechi. Yn draddodiadol coed oedd drysau a ffenestri ond mae plastig yn gyffredin erbyn hyn. Ar y cyfan mae dyluniad a deunyddiau traddodiadol yn gweddu yn well na rhai modern yn yr AHNE.

6.16 Addasiadau i Adeiladau

6.16.1 Gall estyniadau ac addasiadau anaddas amharu ar gymeriad adeiladau ac ar harddwch cyffredinol yr ardal. Adeiladau traddodiadol yr ardal – tai fferm, bythynnod, adeiladau amaethyddol, capeli ac eglwysi ayb sydd fwyaf sensitif i addasiadau a estyniadau a dylid anelu at gynnal a gwarchod eu cymeriad. Rhoddir mwy o sylw i'r mater yma yn yr ardal ar yr Amgylchedd Hanesyddol.

6.17 Adeiladau a Safleoedd Blêr

6.17.1 Mae adeiladau blêr a safleoedd blêr yn amharu ar y tirlun a chymeriad yr ardal yn gyffredinol. Yn ffodus yma yn Llŷn nid oes llawer o achosion o'r math yma ar hyn o bryd, mae nifer o welliannau wedi bod yn ddiweddar e.e. dymchwel hen Westy Plas Pistyll. Mae'n bosibl y bydd adeiladau neu safleoedd eraill yn datblygu i fod mewn cyflwr blêr yn ystod cyfnod y Cynllun a bryd hynny anelir i gesio gwella'r sefyllfa trwy gysylltu gyda pherchnogion a hysbysu'r adrannau perthnasol o'r Cyngor neu sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.18 Materion Ffyrdd

6.18.1 Mae lonydd hanesyddol yr AHNE wedi eu gweu i'r tirlun gan ddilyn dyffrynnoedd, ffiniau naturiol a llwybrau. Yn gyffredinol maent yn weddol gul gyda cloddiau, waliau cerrig neu wrychoedd bob ochor ac mae nodweddion diddorol i'w gweld fel postiau giât cerrig, giatiau haearn a hen llwyfannau caniau llaeth. Mae'r lonydd gwledig yn bendant yn cyfrannau at naws yr ardal.

6.18.2 Mae gwelliannau i'r A499 wedi cael effaith sylweddol ar dirlun yr AHNE rhwng Llanaelhaearn ac Aberdesach. Yn sicr roedd angen gwelliannau i'r ffordd hon ond yn anffodus crëwyd ffordd lydan hefo rhannau hir a syth ac ymylon eang. Hefyd collwyd nodweddion hanesyddol megis adwyon bychan, cilbyst cerrig, giatiau haearn a llwyfannau caniau llaeth.

6.18.3 Mae achos tros wella rhai ffyrdd eraill yn yr AHNE – ac yn fwyaf penodol yr A4417 rhwng Nefyn a Llanaelhaearn. Os bydd cyllid i wneud y gwaith hyn mae'n bwysig talu sylw dyladwy i'r AHNE ac chael cynllun da sy'n gwarchod a chynnal nodweddion hanesyddol.

6.18.4 Mae pryder hefyd am y cynnydd cyson mewn arwyddion ffyrdd sy'n amharu ar natur wledig yr ardal. Comisiynwyd Adroddiad gan y Gwasanaeth AHNE yn 2008 a ddangosodd effaith y cynnydd graddol mewn mân welliannu ac arwyddion ffyrdd a chynigiwyd arferion da ar gyfer y dyfodol.

6.19 Cyfathrebu a Thanadeiledd

6.19.1 Fel pob ardal mae nifer o fastiau ffonau symudol wedi eu codi yn Llŷn ac mae'r gwasanaeth hwn yn bwysig i bobol leol, ymwelwyr a busnesau. Ar y cyfan mae'r rhain wedi eu lleoli yn eithaf gofalus gan osgoi cael ardrawiad amlwg ar y tirlun a'r arfordir. Mae'n bosibl y bydd datblygiadau 4G a diffyg gwasanaeth mewn rhai ardaloedd yn golygu ceisiadau i godi mastiau o'r newydd yn y dyfodol.

6.19.2 Mae na rwydwaith eang o bolion a cheblau trydan a ffôn yn yr ardal, fodd bynnag nid oes unrhyw beilonau mawr 132KV yn yr ardal ddynodedig. Mae cyfleon i greu gwelliannau o ran effaith y cyfarpar yma trwy rannau adnoddau a thanddaearu. Bwriedir gweithio hefo Telecom Prydain a SP Manweb i geisio gwireddu cynlluniau o'r fath er budd tirlun yr AHNE.

6.20 Coedwigoedd Conwydd

6.20.1 Yn ddiweddar mae rhai ardaloedd o goed conwydd yn yr AHNE wedi eu torri – enghreifftiau amlwg yw ochrau Garn Boduan a ger Nant Gwrtheyrn. Er nad yw'r coedwigoedd hyn yn naturiol i'r ardal mae'n i raddau wedi dod yn rhan o'r tirlun ac mae newid sylweddol pan maent yn cael ei torri. Mae rhai o'r coedwigoedd hyn yn cael eu hail-blannu ac fel arfer bydd hynny yn cynnwys elfen o goed cynhenid.

6.21 Datblygiadau ger Ffin yr AHNE

6.21.1 Penderfynwyd ar ffin i'r AHNE ynghanol 1950au yn dilyn arolygon, barn broffesiynol ac ymgynghori. Mae'r ffin yn dilyn ffiniau naturiol mewn rhai mannau ac yn anelu i gynnwys yr arfordir a bryniau igneidd amlwg ond mae rhan helaeth o'r penrhyn heb ei gynnwys er ei fod o werth amgylcheddol uchel. Mae achos cryf dros adolygu ffiniau'r AHNE – ar sail harddwch tirlun, bywyd gwyllt, amgylchedd hanesyddol a diwylliant. Mae'n bwysig hefyd gofalu am yr ardal tu draw i'r ffin oherwydd y gall datblygiadau yma gael effaith negyddol ar osodiad yr ardal a golygfeydd i mewn ac allan.

6.22 Tannau ar y Rhostiroedd

6.22.1 Mae llosgi rhannau o rhostiroedd yn rhan o'r ffordd draddodiadol o'u rheoli er cael gwared a gor-dyfiant ac annog twf newydd. Mae'n bwysig fodd bynnag fod llosgi yn cael ei wneud yn ofalus a than reolaeth, ar adegau cywir o'r flwyddyn i atal effaith annerbyniol ar fywyd gwyllt ac rhag ofn i'r tân fynd allan o reolaeth. Mae ymdrechion wedi eu gwneud i godi ymwybyddiaeth am y dulliau cywir o losgi trwy brosiectau Cadw'r Lliw yn Llŷn a gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru/ Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.22.2 Ar adegau fodd bynnag mae tannau ar y rhostiroedd sydd heb eu cynllunio – wedi eu cychwyn yn anfwriadol neu yn ddamweiniol. Gall tannau o'r math hwn greu problemau mawr gan effeithio y tirlun a bywyd gwyllt am flynyddoedd i ddod.

Polisiau

TP 1 CYNNAL A GWARCHOD SAFLEOEDD DAEAREGOL A GEOMORFFOLEGOL ALLWEDDOL YN YR AHNE A CHODI YMWHYBYDDIAETH O'U PWYSIGRWYDD.

Mae amrywiaeth o wahanol nodweddion daearegol a geomorffolegol diddorol iawn ym Mhen Llŷn. Mae llawer o'r nodweddion hyn i'w gweld mewn safleoedd arfordirol neu lle mae'r graig yn brigo i'r wyneb ar y tiroedd uchel. Mae'r safleoedd pwysig wedi eu dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Safleoedd Rhanbarthol o Ddiddordeb Daearegol.

Yn y gorffennol mae rhai datblygiadau wedi amharu ar safleoedd neu nodweddion pwysig – yn fwyaf amlwg y chwareli ithfaen a mwynau ond mewn gwirionedd nid oes llawer o fygythiad i'r safleoedd hyn erbyn heddiw. Fodd bynnag, anelir i'w gwarchod a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.

TP 2 GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMLWG AR Y TIRLUN AC YN AMHARU AR OLYGFEYDD GAN GYNNWYS DATBLYGIADAU GER Y FFIN FYDDAI YN AMHARU OLYGFEYDD I MEWN AC ALLAN O'R AHNE.

Harddwch y tirlun a'r arfordir a'r golygfeydd gwych sydd yn gysylltiedig â hynny fu'n bennaf gyfrifol am ddynodi Llŷn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 1957. Mae'n hanfodol felly gwarchod yr ardal ddynodedig rhag unrhyw ddatblygiadau fuasai'n amlwg ar y tirlun ac yn amharu ar olygfeydd i mewn ac allan o'r ardal.

TP 3 GWARCHOD ARFORDIR ARBENNIG LLŷN A'R YNYSOEDD TRWY WRTHSEFYLL UNRHYW DATBLYGIADAU NEWYDD ARWYDDOCAOL.

Penrhyn yn ymestyn i'r môr ydi Llŷn ac mae'r arfordir a dylanwad y môr yn rhan allweddol o gymeriad yr ardal. I raddau helaeth mae'r arfordir yn ei ffurf naturiol gydag ychydig iawn o ôl gwaith dyn – dim ond ychydig chwareli, glanfeydd a rhai adeiladau. Roedd cymeriad naturiol a diddorol yr arfordir hefyd yn rhan o'r rheswm am ddynodiad yr AHNE yn ogystal â'r Arfordir Treftadaeth.

TP 4 GWARCHOD AC ADFER TERFYNAU HANESYDDOL SYDD YN CYFRANNU AT GYMERIAD A HUNANIAETH LLŷN - SEF CLODDIAU, WALIAU CERRIG A GWRYCHOEDD.

Mae asesiadau cymeriad tirlun yn cynnwys LANDMAP yn cadarnhau fod ffiniau traddodiadol yn cyfrannu at edrychiad a chymeriad tirlun Penrhyn Llŷn. Bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill felly yn anelu i warchod, cynnal a chadw'r cloddiau, waliau cerrig a gwrychoedd presennol a hyrwyddo gwelliannau ac ail-sefydlu ffiniau sydd wedi dirywio. Gall hyn fod trwy wrthwynebu ceisiadau i ddymchwel terfynau traddodiadol, taliadau uniongyrchol e.e. Glastir a hyfforddiant ar ddulliau o gynnal a chadw nodweddion.

TP 5 HYRWYDDO GWELLIANNAU O RAN SAFLEOEDD AC ADEILADAU BLËR AC YMWTHIOL YN YR AHNE A GERLLAW.

Prin ydyw safleoedd ac adeiladau blêr ar hyn o bryd ond mae'r manau hynny yn amharu ar y tirlun a gorau oll os bydd yn bosibl sicrhau gwelliannau. Pan fydd safleoedd neu adeiladau penodol yn cael eu hadnabod fe all Cyngor Gwynedd a phartneriaid weithredu trwy drafod, cymorthdaliadau neu orfodaeth i geisio datrys y sefyllfa. Hefyd mae cyfleon i dirlunio datblygiadau presennol sy'n ymwthiol e.e. safleoedd carafanau ac is-orsafoedd trydan.

TP 6 SICRHAU FOD ADEILADAU NEWYDD YN GWEDDU I'R ARDAL O RAN DYLUNIAD A DEUNYDDIAU AC FOD ADDASIADAU I ADEILADAU PRESENNOL YN GWEDDU I'R GWREIDDIOL.

Mae adeiladau newydd o bob math cael effaith ar y drefwedd neu'r tirlun yn ddibynnol ar eu lleoliad ac mae hynny yn arbennig o bwysig yn achos ardaloedd dynodedig fel AHNE a Pharciau Cenedlaethol. Bydd bob cais i godi

adeilad newydd yn gorfod mynd trwy'r drefn gynllunio a chydymffurfio gyda pholisïau cenedlaethol a lleol a bydd polisïau'r Cynllun Rheoli hwn hefyd yn rhan o'r ystyriaethau. Bwriad y polisi hwn yw sicrhau fod pob ymdrech yn cael i wneud i sicrhau fod adeiladau newydd yn gweddu i'w cefndir o ran lleoliad, math, maint a dyluniad.

TP 7 ANNOG Y CWMNIAU TRYDAN A THELEGYFATHREBU I RANNU CYFARPAR A GOSOD CEBLAU O DAN Y DDAEAR MEWN MANNAU AMLWG YN YR AHNE A GERLLAW.

Er fod cyfarpar presennol y cwmnïau trydan a thelegyfathrebu wedi eu derbyn fel rhan o'r tirlun i raddau, mae rhai lleoliadau lle mae polion, gwifrau a mastiau ffonau symudol yn amharu ar y tirlun. Mae rhai mannau yn yr ardal lle mae'r holl offer wedi eu gosod dan y ddaear (Porthdinllaen a ger Nant Gwrtheyrn yn benodol) wedi profi cymaint o welliant yw hynny o ran yr olygfa ac felly bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid yn cydweithio â'r cwmnïau perthnasol i geisio sicrhau gosod cyfarpar dan y ddaear a rhannu mastiau mewn rhai lleoliadau.

TP 8 GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU TYRBINAU GWYNT A FFERMYDD YNNI SOLAR FYDDAI YN CAEL EFFAITH ANDWYOL AR EDRYCHIAD A CHYMERIAD TIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A'I GOSODIAD.

Yn 2010 cyflwynwyd Tariff taliadau (Feed-in Tariff) gan y Llywodraeth i annog cwmnïau, sefydliadau a'r cyhoedd i gynhyrchu ynni adnewyddol trwy wahanol ddulliau yn cynnwys ynni dŵr, solar, gwynt a biomas. Solar a gwynt oedd yn cynnig y potensial mwyaf yn yr ardal hon a bu diddordeb cynyddol yn y mentrau hyn. Fodd bynnag bu lleihad graddol yn y Tariff dros y blynyddoedd, gyda'r gostyngiad mwyaf arwyddocaol yn nechrau 2016.

Gwnaed llawer o geisiadau am baneli solar ar adeiladau ar y cychwyn ond yn ddiweddar – ers 2013 mae nifer o geisiadau am ffermydd solar wedi eu cyflwyno, er dim ond 1 sydd wedi ei chaniatáu yn yr AHNE ei hun. Mae ffermydd solar yn defnyddio arwynebedd eithaf eang o dir ac felly mae angen bod yn ofalus i gyfyngu safleoedd i leoliadau cuddiedig lle na fyddent yn amharu ar harddwch tirlun yr ardal.

Derbyniwyd nifer o geisiadau am dyrbinau gwynt yn Llŷn yn sgil y tariff taliadau. Yn sgil polisi pendant yn y Cynllun Datblygu Unedol ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad yn yr AHNE ei hun, fodd bynnag caniatwyd nifer ar safleoedd gerllaw y ffin a gwrthodwyd nifer o geisiadau hefyd (rhai ar apêl). Rhaid derbyn fod rhai o'r datblygiadau hyn yn ymwthiol ar y tirlun gwledig ac fod angen gofal mawr gyda'r math yma o dechnoleg ynni adnewyddol.

TP 9 GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU CARAFANAU NEWYDD AC ESTYNIADAU I SAFLEOEDD PRESENNOL MEWN LLEOLIADAU AMLWG AR DIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A HYRWYDDO TIRLUNIO O SAFLEOEDD PRESENNOL.

Mae datblygiadau carafanau yn sicr wedi amharu ar dirlun ac arfordir rhai rhannau o'r AHNE. Datblygiadau hanesyddol o garafanau sefydlog yw nifer o'r rhain yn dyddio yn ôl i'r 1960au fel y Warren a Phenrhos.

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf mae cynnydd cyson wedi bod mewn safleoedd newydd ar gyfer carafanau teithiol ac mae'r tueddiad i adael y carafanau ar y safle drwy gydol y tymor yn cynyddu eu heffaith gweledol. Yn ddiweddar mae mwy o geisiadau yn ardal Aberdaron a rhan gogleddol o'r penrhyn. Er mwyn gwarchod harddwch a golygfeydd Llŷn a'r AHNE mae angen cyfyngu safleoedd newydd i fannau cuddiedig ac os yn bosib i gyflwyno tirlunio i guddio safleoedd presennol amlwg.

TP 10 CYNNAL CYMERIAD FFYRDD GWLEDIG LLŷN TRWY WRTHSEFYLL DATBLYGIADAU NIWEIDIOL A CHYNNAL AC ADFER NODWEDDION HANESYDDOL.

Mae ffyrdd hanesyddol yn dilyn ffiniau naturiol – gan roddi cymeriad i'r daith a nodweddion diddorol i'w gweld. Mae achos dros wneud gwelliannau mewn rhai mannau, lle mae'r ffordd yn gul neu droadau cas ond mae angen cynlluniau gwella sensitif mewn ardaloedd dynodedig. Gall gwelliannau olygu colli cymeriad ffyrdd hanesyddol a chyflwyno elfennau modern ffyrdd llydan, ymylon eang, cylchfannau, goleuadau ac arwyddion newydd.

Mae'r ffyrdd bach, neu lonydd bach y wlad, yn bwysig hefyd. Dangosodd Astudiaeth Ffyrdd Gwledig Llŷn a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth AHNE yn 2008 fod y ffyrdd gwledig yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymeriad yr ardal Llŷn a'r AHNE. Ffyrdd cul troellog rhwng cloddiau llydan neu waliau cerrig a gwrychoedd yw llawer ohonynt ac mae arwyddion, cerbiau concrid a marciau ffordd yn elfennau ymwithiol.

TP 11 CODI YMWHYBYDDIAETH AM GYMERIAD UNIGRYW LLŷN A HYRWYDDO BALCHDER YN YR ARDAL A CHEFNOGAETH TUAG AT GADWRAETH.

Mae angen pob cymorth posib i ofalu am yr ardal a'r AHNE a gall pobol leol ac ymwelwyr gyfrannu at hyn o beth. Rhaid felly codi ymwybyddiaeth am nodweddion arbennig yr ardal a chreu teimlad o falchder a chefnogaeth i waith cadwriaethol lleol. Mae'r Gwasanaeth AHNE, a phartneriaid yn anelu i ddarparu cyfleon i wybod a deall mwy am nodweddion arbennig yr ardal a chyfleon i gyfrannau trwy waith gwirfoddol ac hyfforddiant.

TP 12 CEFNOGI A HYRWYDDO DULLIAU O REOLI TIRLUN AC ARFORDIR FYDD YN GYMORTH I GYFYNGU AR SGIL-EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AG YMDOPI GYDA EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD.

Mae gwyddonwyr bellach yn eithaf pendant fod newid hinsawdd yn digwydd o ganlyniad i gynnydd mewn lefelau CO2 yn yr amgylchedd a difrod i'r haen oson. Yn sicr bydd effeithiau yn fwy eithafol mewn rhai mannau – a bydd effeithiau hyd yn oed ar yr ardal hon yn y dyfodol ac felly ni ddylid di-ystyru y mater. Bydd felly angen cefnogi a hyrwyddo mesurau i gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd a gwybod sut i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymchwil, codi ymwybyddiaeth a rhannau ymarfer da.

7.0 AMGYLCHEDD GLÂN A LLYGREDD ISEL

Mae cyfanswm y tir “di-gyffwrdd” yn yr AHNE wedi gostwng o 85% i 71% ers 1997
Mae traffig wedi cynyddu ar y A499 ers 1997 gyda sgil effeithiau amgylcheddol cysylltiol
Codwyd nifer o strwythurau (mastiau a thyrbinau gwynt) yn ddiweddar.
Mae llawer o oleuadau ffordd wedi eu cyfnewid i rai LED yn 2016/7

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae tangnefedd (“tranquility”) yn nodwedd sy’n cael ei adnabod a’i werthfawrogi fwy-fwy y dyddiau hyn. Nid yw’n hawdd mesur tangnefedd ond mae’n gyfuniad o dawelwch rhag sŵn peiriannau a diwydiant, ychydig o symudiadau cerbydol ac ymyrraeth arall ac ychydig o olau i darfu ar dywyllwch nos. Felly cyfuniad o wahanol ffactorau sy’n creu awyrgylch o dangnefedd ac erbyn hyn mae ardaloedd o’r fath yn eithaf prin drwy’r DU, er fod rhannau eithaf eang yn yr Alban.

7.1.2 Mae tawelwch neu dangnefedd wedi ei adnabod fel un o rinweddau AHNE Llŷn yn ystod cyfnod paratoi y Cynllun Rheoli gwreiddiol yn 2004/5. Yn sicr mae natur ymylol a phellennig yr ardal yn rhannol rhesymol am hyn sydd wedi golygu nad oes datblygiadau diwydiannol na than adeiledd sylweddol ac ychydig o ymyrraeth gan draffig a pheiriannau. Hefyd mae’r boblogaeth yn weddol isel – tua 6,000 – o ystyried arwynebedd yr ardal.

7.1.3 Yn ogystal â hyn mae safon amgylcheddol y pridd, aer, dŵr a dŵr y môr ar y cyfan yn uchel yn Llŷn a lefelau llygredd yn isel. Mae gan yr ardal ddelwedd o leoliad gydag amgylchedd glân – sy’n fanteisiol o ran pobl leol ac i ddenu ymwelwyr. Er hynny mae’ n bwysig cynnal, ac os yn bosibl, gwella cyflwr yr amgylchedd leol trwy gyfyngu ar weithgareddau sy’n creu llygredd ac annog gweithgareddau di-lygredd –e.e. dulliau amgen o deithio.

7.1.4 At bwrpas Cynllun Rheoli yr AHNE fe osodwyd yr isod fel Prif Nod o ran Tawelwch a Llygredd isel:

Prif Nod

CYNNAL A GWELLA LEFELAU PRESENNOL O LENDID, TAWELWCH A DIOGELWCH ER SICRHAU FOD TRIGOLION AC YMWELWYR YN MWYNHAU GWELL LLES AC ANSAWDD BYWYD.
--

Nodweddion Arbennig

7.2 Aer di-lygredd

7.2.1 Mae’r aer ym Mhen Llŷn yn lân a di-lygredd. Mae gan yr ardal ddelwedd o un lle gellir mwynhau bod allan a mwynhau awyr iach cefn gwlad ac arfordir. Nid oes unrhyw ddiwydiannau sylweddol, gweithfeydd mawr na phwerdai yn yr ardal. Er nad oes gwybodaeth benodol ar gyfer yr ardal hon ar gael, roedd Adroddiad Cyflwr Amgylchedd Gwynedd (2004) yn cynnwys gwybodaeth ar

gyfer Sir Gwynedd ac yn cadarnhau fod lefelau llygredd aer yn isel neu isel iawn (y pedwar prif fath o lygredd aer yw Sylffwr Deuocsid, Gronynnau, Ocsidau Nitrogen a Charbon Monocsid). Gan nad oes unrhyw ddatblygiad sylweddol wedi bod er hynny tybir fod safon yr aer yn parhau yn dda ac fe allai fod gwelliant yn sgil cyfyngiadau pellach ar allyriant (“emissions”) cerbydau.

7.2.2 Yn gyffredinol ymddengys fod lefelau llygredd yn parhau i ostwng ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag mae llygredd yn parhau i gael ei greu a'i ollwng i'r amgylchedd trwy amryw o wahanol ffynonellau gan amharu ar y tir, aer a dŵr ac effeithio ar bobl, cynefinoedd a rhywogaethau. Gall mesurau a phrosiectau lleol ar raddfa fach gynorthwyo i leihau allyriannau a llygredd aer.

7.3 Dŵr Glân

7.3.1 Ar y cyfan mae safon y dŵr yn dda yn yr ardal. Y prif faterion sy'n effeithio safon dŵr ardaloedd gwledig fel Llŷn yw llygreddau megis glaw asid, gwrtaitth artiffisial a llifiad slyri. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gynnal safon dŵr croyw a dŵr arfordirol yng Nghymru.

7.3.2 **Dŵr Croyw** - Mae safon dŵr afonydd a nentydd yr ardal yn dda ond mae system gofnodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos problemau weithiau gyda dŵr afonydd yn Llŷn, yn bennaf gan lygredd yn llifo i afonydd. Y prif broblemau yw:

- Llygredd yn llifo oddi ar dir (tir amaethyddol gan fwyaf);
- Gorrifiad o wrtaith amaethyddol a phlaladdwyr, carthion, dŵr o ddiwydiant;
- Glaw asid.

7.3.3 Mae llawer o wybodaeth am safon dŵr afonydd Gwynedd wedi ei gynnwys ym Mhecyn Gwybodaeth Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd (2008). Fodd bynnag, dim ond un afon oddi mewn yr AHNE sydd yn ddigon mawr i'w monitro sef Afon Soch. Mae'r afon hon yn sgorio yn uchel iawn o ran bioleg a chemeg tra mae lefelau llygreddau nitradau a ffosffad yn weddol isel/cymedrol. Nid oes methiannau sylweddol o ran safon dŵr yr afon wedi ei nodi yn Asesiad Safon Cyffredinol Afonydd (Asiantaeth yr Amgylchedd). Hyd yma nid oes ardal dan fygythiad o Nitradau (“Nitrate Vulnerable Zone”) yn Llŷn.

7.3.4 **Dŵr Yfed** - Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau darpariaeth lân a dibynadwy o ddŵr yfed. O ran cyflenwad lleol mae Llŷn wedi ei osod mewn rhanbarth Llŷn-Harlech gan Dŵr Cymru. Uwchraddiwyd y system trin dŵr ar gyfer yr ardal gan Dŵr Cymru yn ddiweddar (agorwyd y gwaith trin newydd yn 2017).

7.3.5 **Dŵr Ymdrochi** – Mae safon traethau Llŷn yn cael ei adlewyrchu gan y nifer o draethau sydd wedi eu gwobrwyo gyda gwobrau traeth cenedlaethol ac Ewropeaidd. Maent ymysg y glanaf drwy'r Deyrnas Unedig, gyda safon uchel o ddŵr ymdrochi a chyfleusterau da ger llawer ohonynt.

- 7.3.6 Mae'r gwobrau traethau Ewropeaidd yn cynnwys y Faner Las, Gwobr Arfordir Gwyrdd ac Gwobr Glan Môr yn seiliedig ar safon y dŵr, cyfleusterau a rheolaeth. Yn 2017 derbyniodd traethau Aberdaron, Abersoch a Pwllheli y statws Faner Las a Gwobr Glan Môr ta cafodd Porth Neigwl y wobwr Arfordir Gwyrdd.
- 7.3.7 Ar lefel Genedlaethol mae Adroddiadau yn cadarnhau fod safon dŵr ymdrochi yng Nghymru yn dda iawn o ganlyniad i wella mewn gwaredu a thrin carthion. Ar adegau mae glaw yn creu llawer o all-lifiad o dir amaethyddol a pheth o'r dŵr hynny wedi ei lygru. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Morol yn rhagweld parhad yn y problemau hyn oherwydd newid hinsawdd ac yn gobeithio y bydd cynlluniau gan Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru a Moroedd Gwyrdd yn fodd i wella'r sefyllfa. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Morol yn argymhell newidiadau mewn ffermio, gwella systemau carthffosiaeth a monitro cyson.

7.4 Safon y Pridd

- 7.4.1 Ardal amaethyddol yw Llŷn ac mae'r tir wedi ei ffermio dros genedlaethau. Mae priddoedd o safon da ar y tiroedd isel (2, 3a a 3b) sydd yn adnodd cenedlaethol gwerthfawr ar gyfer magu stoc a thyfu cnydau yn ogystal â chynnal bywyd gwyllt. Hefyd oherwydd absenoldeb diwydiannau a gweithfeydd mae lefelau llygredd y pridd yn isel yn yr ardal er fod rhai safleoedd unigol lle ceir llygredd yn dilyn gwaith mwyngloddio. Er bod nifer o safleoedd tirlenwi wedi bod yn yr ardal yn hanesyddol erbyn 2009 doedd dim un safle o'r math yma oddi mewn yr AHNE.
- 7.4.2 Bellach mae adnabyddiaeth llawer gwell o'r angen i warchod y tir a'r pridd. Mae deddfau a systemau wedi eu mabwysiadu ar gyfer asesu safon tir, adennill tir llygredig ac atal llygru pellach. Y nod yn Llŷn yw cynnal safon uchel y tir a'r pridd ac mae gan rhesymoli defnydd o wrteithiau a chemegolion ran i'w chwarae yn hyn.

7.5 Tawelwch a Llonyddwch

- 7.5.1 Mae Pen Llŷn yn lle o dawelwch a llonyddwch oherwydd natur wledig, arfordirol yr ardal ac absenoldeb diwydiant a gweithfeydd mawr. Cadarnhawyd hynny mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn 1997 i asesu ardaloedd tawel yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth yn ystyried y prif gategoriâu o ddatblygiad sy'n creu cynnwrf fel traffig, trefi a phentrefi, strwythurau trydanol, rheilffyrdd a meysydd awyr. Hefyd cofnodwyd lleoliad rhai datblygiadau penodol sydd yn cael effaith ar lonyddwch megis chwareli, mastiau, ffermydd gwynt, saethu colomennod clai, badau dŵr personol a chychod rasio.
- 7.5.2 Yn yr Adroddiad roedd rhan helaeth o Llŷn wedi ei diffinio fel Ardal Dawel neu haen C (lefel isel o gynnwrf). Dangosodd yr astudiaeth fod rhai gweithgareddau swnllyd (gweithgareddau morol yn bennaf) ar yr arfordir deheuol o amgylch Abersoch a Llanbedrog.
- 7.5.3 Yn 2009 bu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gomisiynu Land Use Consultants i

wneud asesiad newydd o Gymru gyfan. Ar gyfer y gwaith yma ceisiwyd dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn flaenorol er mwyn creu cymhariaeth. Mae'r Arolwg yn casglu fod tua 11,600km sgwâr o Ardal Dawel yng Nghymru (tua 55% o arwynebedd y wlad) ond fod gostyngiad o 1,500 km sgwâr (tua 6% o holl arwynebedd Cymru). Gweler map Arolwg Llonyddwch Cymru 2009 sydd yn crynhoi casgliadau'r astudiaeth. Gweler www.stats.wales.gov.uk am fwy o fanylion. Mae bwriad ar y gweill gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ailasesu'r sefyllfa yn 2018/9.

7.6 Awyr Dywyll yn y Nos

- 7.6.1 Erbyn hyn mae golau nos sylweddol yn cael ei adnabod fel math o lygredd. Nid yn unig fod effaith uniongyrchol y golau yn amharu ar yr awyr dywyll naturiol ond hefyd mae golau artiffisial yn amharu ar ecosystemau sydd yn dylanwadu ar iechyd pobl a bywyd adar. Fel y disgwyl mae lefelau uchel o olau nos mewn ardaloedd trefol tra mae lefelau isel mewn ardaloedd gwledig fel Llŷn. Bellach sylweddolwyd fod ardaloedd gydag ychydig o olau nos yn prinhau trwy'r DU.
- 7.6.2 Mater arall yw'r trydan a ddefnyddir er mwyn darparu'r goleuadau. Mae cyfleon i wneud arbedion ariannol ac amgylcheddol trwy leihau'r defnydd o oleuadau a hefyd newid i lampau a golau LED ac ardrawiad isel. Hefyd, mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cyflwyno cynlluniau i ddiffodd rhai goleuadau stryd yn ystod oriau'r nos er gwneud arbedion ariannol am mae hynny wedi bod o fudd amgylcheddol yn ogystal.
- 7.6.3 Fel y nodwyd yn y Cynllun Rheoli gwreiddiol mae rhannau sylweddol o'r AHNE yn parhau heb lygredd goleuo. Wrth gwrs mae goleuadau yn y pentref a'r trefi ac ar rai o'r ffyrdd ond mae ardaloedd eang heb unrhyw olau o gwbl. Mae llifoleuadau yn cael effaith sylweddol ar dywyllwch nos ac yn bresennol Nghlwb Chwaraeon Bodegroes ac Ysgol Botwnnog – mae'r ddau safle oddi allan yr AHNE ond yn weladwy o gryn bellter i ffwrdd pan ynghyn.
- 7.6.4 Wrth astudio Map Ardaloedd Tawel Cymru 2009 fe ellir cymharu'r sefyllfa yn 1997 a 2009. Yn gyffredinol nodir bod gostyngiad o 6% neu 1,500 km² o ardal llonydd yng Nghymru rhwng y ddau arolwg. Yn achos AHNE Llŷn erbyn 2009 mae llonyddwch cyffredinol yr ardal yn awr yn dangos pocedi o ardaloedd llai llonydd o gwmpas Llithfaen, Tudweiliog, Rhiw, Llanengan, a llethrau Garn Fadryn. Nid yw'n glir a yw'r pocedi o ddirywiad sydd wedi eu hadnabod yn ganlyniad i ddatblygiadau unigol ynteu yn rhan o batrwm mwy tymor hir. Nid oes waith wedi ei wneud i weld os oes newid pellach yn y sefyllfa ers 2009 ond mae gwaith pellach wedi ei raglennu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2018/9.

Materion Allweddol

7.7 Trafnidiaeth a Moduron

- 7.7.1 Oherwydd natur wledig Llŷn, mae'r mwyafrif o'r trigolion yn ddibynnol ar foduron at ddefnydd pob dydd. Hefyd, gwelir cynnydd sylweddol mewn traffig

yn ystod tymhorau gwyliau yn y lefelau traffig wrth i nifer fawr o ymwelwyr deithio yn eu ceir ac mae hyn yn creu tagfeydd mewn rhai mannau – yn fwyaf amlwg Abersoch a Phwllheli. Mae cynnydd mewn traffig a thagfeydd yn cynyddu allyriadau a llygredd awyr.

- 7.7.2 Buasai lleihau teithiau mewn moduron a chynnydd mewn teithio trwy ddulliau cynaliadwy yn llesol o ran lleihau llygredd ac fe all hyn greu buddion o ran iechyd. Credir felly fod cyfleon i hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio trwy arddangos amserlenni a gwybodaeth berthnasol arall. Mae Rheilffordd y Cambrian a Bws Arfordir Llŷn yn wasanaethau hwylus ac mae angen cydweithio i hyrwyddo a marchnata gwasanaethau o'r fath.
- 7.7.3 Gall beicio hefyd gynnig cyfleon i leihau teithio mewn cerbydau a bod yn llesol o ran iechyd. I gyd- fynd gyda'r nod o hyrwyddo beicio yn yr ardal mae'r Gwasanaeth AHNE wedi lansio taflen wybodaeth newydd yn ddiweddar am Gylchdeithiau Beics Llŷn. Mae'n bwysig datblygu cyfleon pellach i feicio yn yr ardal drwy ddarparu llwybrau addas a hyrwyddo'r cyfleoedd hynny.
- 7.7.4 Hefyd mae cyfleon i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau lleol i leihau teithiau car, yn enwedig teithiau byr yng nghyffiniau mannau gwyliau poblogaidd.

7.8 Sbwriel

- 7.8.1 Mae sbwriel ar lwybrau a ger safleoedd picnic a meysydd parcio yn broblem ac yn niweidiol i ddelwedd yr ardal fel un lân a thaclus. Hyd yn hyn nid yw hon yn broblem fawr ond mae cynnydd bychan mewn achosion ac fe all toriadau ariannol olygu llai o finiau a wardeniaid i oruchwylio.
- 7.8.2 Mae baw cŵn hefyd yn fater o bryder ac ymddengys fod hyn ar gynnydd gan fod mwy o bobol yn cadw anifeiliaid anwes. Yn anffodus mae tueddiad diweddar hefyd gan rai pobol i adael bagiau baw ci ar ochor llwybrau yn hytrach na'u rhoi yn y biniau pwrpasol. Gallai gosod rhagor o finiau mewn safleoedd amlwg leihau rhywfaint ar hyn yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am yr AHNE a'i holl nodweddion arbennig a pha mor niweidiol yw gwaredu gwastraff yn anghyfrifol. Mae prosiectau yn y gorffennol megis Trefi Taclus wedi cydweithio yn dda gydag ysgolion lleol i greu arwyddion i geisio atal problemau baw cŵn er enghraifft.
- 7.8.3 Gwelir llawer o sbwriel hefyd ar ein traethau, wedi ei adael gan rhai yn defnyddio'r traeth neu ei gario yn y môr. Mae lle yma i godi ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr cychod ac ati am pa mor bwysig yw gwaredu sbwriel yn y dull cywir. Mae Cadwch Cymru'n Daclus yn cynnal ymgyrchoedd glanhau o bryd i'w gilydd gyda gwirfoddolwyr ar draethau megis Porth Neigwl ac mae unrhyw brosiect o'r math hwn i'w annog a'i gefnogi.
- 7.8.4 Er nad oes tystiolaeth ffeithiol i gadarnhau mae'n ymddangos fod mwy o dipio anghyfreithlon ar ochor ffyrdd yn ddiweddar. Eto mae cyfleon i godi ymwybyddiaeth ac addysgu. Gall gwastraff plastig o ffermydd hefyd fod yn flêr ac eto mae lle i godi ymwybyddiaeth am waredu gwastraff fferm yn fwy gofalus.

7.9 Llygredd Dŵr

- 7.9.1 Ar y cyfan mae achosion o lygredd dŵr yn isel yn yr ardal ac mae gwelliannau wedi bod mewn safon dŵr croyw, dŵr yfed a dŵr ymdrochi yn sgil deddfau, rheoliadau a gwaith trin newydd. Mae ansicrwydd am yr union sefyllfa o ran allyriadau carthffosiaeth i'r môr ac efallai fod achos dros asesu'r sefyllfa. Gall safon dŵr ymdrochi is-safonol olygu problemau mewn ceisiadau am wobrau traeth fel y Faner Las a Gwobr Arfordir Gwyrdd. Gallai diffyg cyllid fod yn broblem o ran ymgeisio am y gwobrau traethau yn y dyfodol.
- 7.9.2 Mae angen sicrhau safon dŵr yn cael ei fesur a'i gynnal ac fod Dŵr Cymru yn parhau i weithredu yn effeithiol yn yr ardal oddi fewn yr AHNE.

7.10 Gweithgareddau Hamdden ar Draethau

- 7.10.1 Mae dipyn o sôn wedi bod yn ystod y blynyddoedd diweddar am gychod pŵer, beiciau dŵr personol ac ati yn amharu ar eraill a'r amgylchedd o'u cwmpas. Maent yn weithgareddau swnllyd sydd yn medru amharu ar fywyd gwylt a chreu gwrthdaro gyda defnyddwyr cychod eraill. Rai blynyddoedd yn ôl bu i Gyngor Gwynedd sefydlu system cofrestru badau dŵr personol a bu gwelliant yn sgil hynny. Hefyd mae Côt Morol Gwynedd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar (2016) wedi ei anelu at ddefnyddwyr y môr a'u hannog i fod yn wylidwrus o ran bywyd gwylt morol a pheidio â tharfau ar anifeiliaid, pysgod ac adar.

7.11 Goleuadau yn Gysylltiedig â Datblygiadau Newydd

- 7.11.1 Gyda rhai datblygiadau newydd bydd golau ychwanegol yn cael ei osod er mwyn gwasanaethau'r adeilad. Yn achos tai unigol nid yw hon yn broblem fawr ond mae'n fwy arwyddocaol mewn achos datblygiadau mwy. Hefyd gall goleuadau gael eu gosod ar adeiladau masnachol neu wasanaethol newydd ac mae rhai enghreifftiau lle gwelwyd golau sylweddol yn cael ei gyflwyno e.e. Gorsaf Dân newydd yn Nefyn. Gall amodau cynllunio roi cyfle i gyfyngu a rheoli ar oleuadau yn gysylltiedig â datblygiadau newydd.

Polisiâu

PP 1. HYRWYDDO MENTRAU CLUDIANT CYHOEDDUS A'R DEFNYDD OHONYNT A MATHAU ERAILL O DEITHIO CYNALIADWY.

Mae'r rhan fwyaf o gerbydau yn creu allyriannau a llygredd ac mae traffig yn cynyddu yn yr ardal yn y cyfnodau gwyliau prysur. Bydd y Gwasanaeth AHNE, mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, yn hyrwyddo cludiant cyhoeddus fel dull o deithio i'r ardal (bysiau lleol a Rheilffordd y Cambrian) ac yn yr ardal ei hun. Hefyd mae cyfleon i gynyddu dulliau eraill o deithio cynaliadwy - beicio yn arbennig – a bydd y Gwasanaeth AHNE felly yn hyrwyddo beicio fel dull o deithio yn lleol.

PP 2. CYNNAL A GWELLA SAFON DŴR A PHRIDD YN YR ARDAL.

Er fod safon dŵr a pridd yn uchel yn yr ardal mae'n bwysig cynnal hynny a

gwneud rhai gwelliannau lle bo'n bosibl. Anelir i gweithio gyda adrannau eraill Cyngor Gwynedd ac asiantaethau fel Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ogystal â pherchnogion safleoedd er cyflawni hyn. Credir hefyd y dylid ymgeisio am wobrau fel Y Faner Las/ Arfordir Gwyrdd er mwyn adlewyrchu safon uchel y dŵr a'r adnoddau mewn rhai lleoliadau.

PP 3. CYFYNGU AR LEFELAU SŴN A GOLAU NOS YN YR AHNE A GERLLAW A HYRWYDDO'R DEFNYDD O OLAU STRYD/ ALLANOL SY'N YNNI-EFFEITHIOL AC ARDRAWIAD ISEL.

Mae tangnefedd ac awyr dywyll yn rinweddau sy'n perthyn i AHNE Llŷn ac mae'r polisi yn anelu i gyfyngu ar ddatblygiadau fyddai yn amharu ar hynny. Ar y cyfan nid yw sŵn yn broblem ond mae goleuadau presennol a rhai o'r newydd yn medru amharu ar dywyllwch y nos. Byddid felly yn argymhell amodau i reoli golau mewn cysylltiad â datblygiadau newydd a hyrwyddo eraill i asesu goleuadau presennol i weld os oes cyfleon i leihau golau neu cael rhai sy'n cael llai o ardrawiad.

PP 4. HYRWYDDO LEFELAU GLENDID LLEOL TRWY ANNOG AILDDEFNYDDIO, AILGYLCHU A GWAREDU SBWRIEL YN GYFRIFOL.

Er fod rhai llecynnau bach o sbwriel o dro i dro nid yw tipio anghyfreithlon yn broblem fawr yn yr ardal. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn cydweithio gydag adrannau eraill y Cyngor ac eraill fel Cadw Cymru'n Daclus i glirio safleoedd, addysgu perchnogion am aildddefnyddio ac ailgylchu a chymryd camau gorfodaeth pan yn angenrheidiol.

PP 5 . CODI YMWYBYDDIAETH AM EFFAITH NEGyddOL A PHERYGLON IECHYD BAW CŴN AC ANNOG PERCHNOGION I FOD MWY CYFRIFOL.

Yn ogystal â bod yn berygl i iechyd mae baw cŵn yn ddiflas ac yn cyfleu argraff negyddol am leoliad neu lwybr. Bwriedir cydweithio gydag Adran Iechyd y Cyhoedd a sefydliadau eraill i adnabod mannau lle mae problemau a gweithredu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a chymryd camau gorfodaeth.

8.0 BYWYD GWYLLT A CHYNEFINOEDD

Ffeithiau Allweddol

Mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yr AHNE, 6.6% o'r arwynebedd tir.
Mae dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yr AHNE, 4.4% o'r tir.
Mae 22 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), dros 2000 o hectarau (11% o'r arwynebedd tir) yn yr AHNE.
Ceir 1 Warchodfa Natur Genedlaethol yn yr AHNE, sef Ynys Enlli ac 1 gerllaw sef Cors Geirch (hefyd yn safle RAMSAR).

8.1 Cyflwyniad

- 8.1.1 Mae Llŷn, yn cynnwys yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn cynnal amrywiaeth eang o wahanol rywogaethau a chynefinoedd, rhai ohonynt yn brin ar lefel genedlaethol ac Ewropeaidd. Er fod cyfoeth o fywyd gwyllt yn parhau mae gwaith ymchwil yn dangos fod dirywiad mawr wedi bod mewn cynefinoedd naturiol a lled naturiol yn Llŷn rhwng dechrau a diwedd y ganrif ddiwethaf. Gweler "Vegetation change in Llŷn between 1920/2 and 1987/8" - J. P Stevens (1992) am fanylion llawn.
- 8.1.2 Ceir llawer o gyfleon i weld ac astudio bywyd natur yn yr ardal yn cynnwys anifeiliaid, adar tir, adar y môr a bywyd morol. Mae'r cyfoeth o fywyd gwyllt sydd ar riniog y drws hefyd yn adnodd addysgol effeithiol y gall ysgolion cynradd ac uwchradd fanteisio arno. Daw rhai ymwelwyr i Llŷn yn arbennig i weld a mwynhau'r bywyd gwyllt tra bod llawer o ymwelwyr eraill hefyd yn mwynhau rhyw elfen ar fywyd gwyllt yr ardal tra yn aros yma. Mae bywyd gwyllt felly yn adnodd sy'n cyfrannu at apêl yr ardal i ymwelwyr ac felly yn cyfrannu at yr economi lleol.
- 8.1.3 Casglwyd llawer o wybodaeth ar rywogaethau lleol wrth baratoi Natur Gwynedd yn 2003 a chafodd yr wybodaeth hwn ei diweddarau ar adegau. Hefyd mae gwybodaeth ar gael am statws nifer o'r rhywogaethau ar lefel Cymru a Gwynedd wedi bod ar gael ond yn ddiweddar (Medi 2016) cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (State of Natural Resources Report – SoNaRR) gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Am fwy o fanylion gweler: www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy .
- 8.1.4 Mae'r Adroddiad yn asesu cyflwr adnoddau naturiol Cymru a pha mor gynaliadwy y maent yn cael eu rheoli, yn ogystal ag argymell ffyrdd i greu gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Hefyd mae'r Adroddiad yn creu cysylltiad rhwng cyflwr adnoddau naturiol Cymru a lles pobol y wlad – edrychir yn benodol ar sut mae adnoddau naturiol yn cefnogi y saith nod lleisiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar sail yr wybodaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol bydd Llywodraeth Cymru yn gosod blaenoriaethau a pholisïau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol. Yna bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, yn paratoi Datganiadau Ardal er mwyn gweithredu'r polisïau ar lefel lleol.

- 8.1.5 Yn gyffredinol mae'r Adroddiad yn dangos fod cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru yn dirywio – mae llai o amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau, maint cynefinoedd wedi lleihau, cyflwr yn amrywio a chysylltedd wedi lleihau yn sylweddol. Mae hyn yn cael effaith ar y gwasanaethau all yr ecosystemau hyn eu darparu.
- 8.1.6 Daeth cyfrifoldeb penodol tuag at warchod Bioamrywiaeth ar Awdurdodau Lleol yn sgil Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006. Fel dilyniant i hyn gosododd Deddf yr Amgylchedd 2016 ddyletswydd newydd ar bob Awdurdod Cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. O dan ofynion y Ddeddf bydd angen i Gyngor Gwynedd baratoi Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth erbyn Mai 2017 a'i adolygu bob dwy flynedd yn dilyn hynny.
- 8.1.7 Oherwydd bod nifer o gynefinoedd a rhywogaethau prin yn yr ardal mae cyfres o ddynodiadau Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol mewn grym. Y prif ddynodiadau Ewropeaidd o ran cynnal a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA).
- 8.1.8 **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** - Dynodiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd 1992 i ddiogelu cynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid o dan fygythiad yw hwn. Dyma'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r safleoedd hyn hefyd wedi eu dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Safleoedd Gwarchod Arbennig. Mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig yn Llŷn, sef Clogwyni Pen Llŷn, Corsydd Llŷn a Phen Llŷn a'r Sarnau.
- 8.1.9 **ACA Clogwyni Pen Llŷn:** Mae'r dynodiad hwn yn eithaf eang (877 ha) a môr lwerddon yn ffin iddo. Mae'n agored i wyntoedd a thywydd gorllewinol ac mae'r ardal yn cynrychioli'r enghreifftiau gorau o rostir arfordirol a morol a gwelltiroedd rhostir ar y Penrhyn. Dynodwyd yr ardal oherwydd ei bod yn rhyngwladol bwysig am y clogwyni a chynefinoedd cysylltiedig. Mae'r ardal yn cynnwys rhannau o nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r rhostir yn yr ACA mewn cyflwr boddhaol ond mae'r clogwyni yn anfoddhaol ac yn gwella. Gorbori a thanbori oedd y prif ffactorau yn effeithio ar gyflwr y cynefinoedd ac felly ar gyfer y dyfodol mae pori cywir/addas yn hollbwysig er cynnal a gwella cyflwr. Mae'r cyflwr o ran Brain Coesgoch ac Adar Drylicin Manaw yn foddhaol.
- 8.1.10 **ACA Corsydd Llŷn:** Mae yma bedwar safle penodol sydd tua chanol Penrhyn Llŷn gyda rhan oddi mewn yr AHNE, sef Cors Hirdre, Cors Geirch, Rhyllech Uchaf ac Abergeirch. Arwynebedd yr holl safleoedd a ddynodwyd yw 282.28 ha. Mae'r ACA hon hefyd yn cynnwys Safle Ramsar Cors Geirch ond mae'r safle honno oddi allan i AHNE Llŷn. Mae eu cyflwr o ran cynefin cors a malwod yn anffafriol – oherwydd tan bori, lledaeniad coed a scrwb a materion rheoli dŵr. Fodd bynnag mae gwelliant wedi bod yn ddiweddar sgil prosiect LIFE + Corsydd Llŷn a Môn.

- 8.1.11 **ACA morol Pen Llŷn a'r Sarnau:** Ardal forol eang iawn (14,604 ha) sydd yn ymestyn o Benrhyn Nefyn hyd at Afon Clarach i'r gogledd o Aberystwyth felly dim ond rhan o'r ardal sydd yn cysylltu â'r AHNE. Gweler mwy o fanylion am y dynodiad, rheolaeth ayb ar www.penllynarsarnau.co.uk.
- 8.1.12 **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** - Dynodir yr ardaloedd yma o dan Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd ar warchod bywyd gwyllt (Y Gyfarwyddeb Adar) er mwyn cynnal cynefinoedd dau gategori arbennig o adar sef rhywogaethau prin neu dan fygythiad a rhywogaethau mudol sy'n teithio miloedd o filltiroedd i gyrraedd gwahanol leoedd - ac sydd angen manau diogel ar gyfer gorffwys. Mae dwy Ardal Gwarchod Arbennig yn yr AHNE, sef AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli ac AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal.
- 8.1.13 **AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli** – Mae'r ardal hon yn cynnwys rhan helaeth o arfordir o Borthor i Aberdaron ac yn cynnwys Ynys Enlli ac Ynysoedd Gwylanod. Mae'r arfordir amrywiol yn cynnwys rhostir a glaswelltir sydd yn gynefin i amrywiaeth o blanhigion a phoblogaeth o'r Fran Goesgoch. Mae Ynys Enlli yn gartref i'r boblogaeth fwyaf o Adar Drycin Manaw yn y DU, sy'n rheswm am bwysigrwydd rhyngwladol yr ynys.
- 8.1.14 **AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal/ Mynydd Cilan.** Mae'r arfordir hwn yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin, ac mae'r clogwyni sydd yn cysgodi'r traethau yn erydu'n gyson gan gynnig clytwaith o waddod moel, a chynefinoedd morwrol a thwyni cyfoethog eu blodau. Mae yno hefyd ardaloedd sylweddol o rostiroedd sych a gwlyb, a chynefinoedd creigiog rhynglanwol o ddiddordeb morwrol, oherwydd rhwydwaith o rywogaethau prin. Mae'r rhain yn cynnwys un yn unig o ddwy boblogaeth o'r Saer Wenynen (OSMIA XANTHOMELENA) sydd o dan fygythiad. Mae'r ardal hon hefyd yn bwysig iawn yn benodol oherwydd y boblogaeth o'r Fran Goesgoch. Mae'r safle hwn yn cael ei ddefnyddio gan 3% o boblogaeth Prydain Fawr o'r aderyn trwy dymhorau bridio a di-fridio. Mae'r clogwyni a'r ogofau yn cynnig safleoedd bridio a nythu, tra mae'r clogwyni, rhostiroedd, y morwellt, a'r porfeydd a'r caeau cyfagos yn cynnig safleoedd bwyta trwy'r flwyddyn.
- 8.1.15 **Gwlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (RAMSAR)** - Cynefinoedd tiroedd gwlyb yw'r rhain sy'n cynnal rhywogaethau amrywiol sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae pedair o gorsydd Llŷn wedi eu dynodi yn safle RAMSAR (Corysdd Llŷn).
- 8.1.16 **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)** - Mae'r Gwarchodfeydd hyn yn cynnwys cynefinoedd a nodweddion daearegol pwysig, pob un yn arbennig yn ei ffordd ei hun. Mae pob gwarchodfa hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ceir un Warchodfa Natur Genedlaethol yn yr AHNE sef ar Ynys Enlli ac mae'r arwynebedd yn 180ha. Dynodwyd yn Warchodfa Natur Cenedlaethol oherwydd y cynefinoedd morol a rhynglanw, y Brain Coesgoch ac Adar Drycin Manaw.
- 8.1.17 **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** - Dynodir ar sail cynefin, rhywogaethau neu ddaeareg arbennig. Mae'r safleoedd yn Llŷn yn

amrywio o gorsydd a dolydd i dwyni tywod a choedwigoedd. Mae cyfanswm o 22 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rhannol neu'n gyfan gwbl oddi mewn yr AHNE- mae'r rhain yn cynnwys 2,188 ha (11%) o'r tirlun gwarchoddedig. Nid oes SoDdGA newydd wedi ei dynodi ers 2008. Gwelir asesiad o bob SoDDGA yn yr Atodiad sydd yn cynnwys nodi nodweddion y safle, cyflwr, tueddiad a ffactorau rheoli. Gweler Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE 2014 am fwy o wybodaeth am y safleoedd hyn.

8.1.18 Lle'r oedd gwybodaeth ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru am SoDDGA roedd gwelltir, rhostir, dŵr wyneb, coedlannau brasddail lled-naturiol a thwyni mewn cyflwr anfodhaol ac yn dirywio. Doedd dim gwybodaeth am ffen a chorsydd. Roedd nodweddion gwelltiroedd gwlyb yn foddhaol yn ogystal ag ardaloedd creigiog morol a rhyng-lanw. Y prif faterion oedd yn effeithio ar y cynefinoedd hyn oedd:

- Gwelltiroedd a rhostir:- tan bori, rhywogaethau ymledol a llosgi (rhostir sych)
- Corsydd, ffen a dŵr wyneb:- Pori a rhywogaethau ymledol, llygredd, safon dŵr, rheoli dŵr
- Coedlannau brasddail:- pori a rhywogaethau ymledol
- Arfordir (yn cynnwys clogwyni creigiog, graean, a bolderi, ardaloedd rhwng llanw, twyni tywod a phyllau mewn creigiau):- pwysedd hamdden a llygredd.

8.1.19 **Safleoedd Bywyd Gwyllt Posib** - Mae'r safleoedd hyn o bwysigrwydd cadwraeth lleol sylweddol ond nid oes statws statudol iddynt ar hyn o bryd. Cyfeirir atynt yn y Cynllun Datblygu Unedol ac maent wedi eu nodi ar system Wybodaeth Ddaearyddol Cyngor Gwynedd.

8.1.20 At bwrrpas y Cynllun Rheoli gosodwyd y Brif Nod ganlynol o ran Bywyd gwyllt a Chynefinoedd:

Prif Nod

CYNNAL, GWELLA A HYBU CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU ALLWEDDOL A SAFLEOEDD NATUR DYNODEDIG AHNE LLŶN ER MWYN SICRHAU PARHAD YR AMRYWIAETH CYFOETHOG O ANIFEILIAID, PRYFETACH, ADAR A PHLANHIGION.
--

Nodweddion Arbennig

8.2 Cynefinoedd Amrywiol

8.2.1 Bellach mae llystyfiant naturiol neu lled-naturiol, sef tir heb ei wella a'i drin yn brin yng Nghymru a Lloegr. Yr esiamplau amlycaf o diroedd fel hyn yw rhostiroedd, tiroedd gwlyb a choetiroedd ac maent i gyd yn bresennol yn Llŷn.

8.2.2 Nid yw coetiroedd brasddail naturiol yn nodwedd amlwg yn AHNE Llŷn ond maent yn gwneud cyfraniad at edrychiad y tirlun a bioamrywiaeth ac yn adnodd prin. Mae coedwigoedd coniferer bythwyrdd wedi eu plannu ar nifer o

fryniau a llethrau'r ardal. Nid ydynt yn nodwedd naturiol ond i raddau helaeth maent wedi ennill eu plwyf erbyn hyn ac mae'r effaith ar y tirlun yn amlwg pan fyddant yn cael eu torri a'u clirio.

8.2.3 Gwelir dadansoddiad manwl o'r holl gynefinoedd perthnasol i Llŷn yn Natur Gwynedd. Manylir ar hyn drwy nodi beth yw arwynebedd y cynefinoedd pwysicaf (blaenoriaeth Cymru/ Y DU). Mae tabl yn yr Atodiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb ac arwynebedd cynefinoedd pwysig sy'n bod yn AHNE Llŷn.

8.2.4 Mae'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd yn Llŷn wedi eu cynnwys fel cynefinoedd sy'n flaenoriaeth o ran gwarchod amrywiaeth biolegol yng Nghymru yn Adran 42, Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Manylir ar y cynefinoedd pwysicaf yn yr ardal isod:

8.3 Cynefinoedd Arfordirol

8.3.1 Mae llawer math o gynefin arfordirol yn Llŷn gan gynnwys clogwyni, llethrau, tir arfordirol, traethau a thwyni tywod. Mae'r clogwyni a llethrau yn cynnal amrywiaeth o llystyfiant ac yn gynefin pwysig i adar y môr fel y Gwylog, Llurs, y Fulfran a'r Fulfran Werdd. Mae Carreg y Llam ger Llithfaen a Thrwyn Cilan yn ardaloedd nodedig i wyllo rhai o'r adar hyn tra mae'r Pâl yn amlwg iawn ar Ynysoedd Gwylanod a'r Adar Drycin Manaw yn cartrefu ar Enlli.

8.3.2 Yn fwy i'r tir mae'r llystyfiant yn araf droi yn borfeydd arfordirol a rhostir sydd eto yn gartref i amrywiaeth o adar yn cynnwys Gwenoliaid y Glennydd a'r Frân Goesgoch. Mae'r tiroedd hyn hefyd yn gynefin i gacwn a rhai creaduriaid di-asgwrn cefn prin.

8.3.3 Mae traethau yn gynefinoedd amlwg yn Llŷn a cheir nifer o systemau twyni tywod ar hyd arfordir deheuol y penrhyn. Mae twyni tywod yn un o gynefinoedd mwyaf naturiol i'w weld ym Mhrydain ac yn gartref cyfoethog i rywogaethau prin. Mae systemau twyni yn cael eu cydnabod i fod o bwysigrwydd rhyngwladol i fywyd gwylt; maent yn cynnwys planhigion fel moresg, amrywiaeth o ffyngau, madfallod megis madfall y tywod a nifer fawr o anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis y gardwenynen.

8.3.4 Heddiw mae twyni tywod o dan fygythiad ac mae niferoedd rywogaethau yn gostwng oherwydd bod prysgwydd yn lledaenu a thwyni tywod yn gorsefydlogi. Un rheswm am hyn yw diffyg pori'r tir. Y system dwyni ger Abersoch yw'r un amlycaf yn yr AHNE ("Y Warren"). Mae'r system yma yn dioddef yn sylweddol oherwydd pwysedd ymwelwyr yn ystod yr haf ac amryw o ddatblygiadau megis parciau carafanau, cyfleusterau parcio a glaswelltir wedi ei wella neu led wella er mwyn creu porfa neu linciau golff.

8.4 Rhostir

8.4.1 Mae rhostiroedd yn nodwedd amlwg a phwysig yn Llŷn ac mae rhostiroedd gwlyb, sych, isel ac arfordirol i'w cael yma. Maent yn gynefinoedd a nodwedd ar y tirlun ac hefyd yn cyfrannu ar lefel hanesyddol, diwylliannol ac fel adnodd

hamdden (mae llawer o rostiroedd yr ardal yn diroedd comin sydd yn egluro paham nad ydynt wedi eu gwella er mwyn amaethu). Mae'r rhostiroedd yn cynnal amrywiaeth eang o borfa a phlanhigion diddorol megis Rhosyn y Graig yn ychwanegol i grug a'r eithin brodorol sydd mor lliwgar yn Awst a Medi.

8.4.2 Mae'r rhostiroedd arfordirol yn bwysig yng nghyd-destun Ewropeaidd oherwydd eu bod yn nodweddiadol o rostiroedd gorllewinol sydd wedi prnhau yn sylweddol iawn ers yr Ail Ryfel Byd. Bellach dim ond 0.3% o arwynebedd y DU sydd yn rhostir isel. Gwnaed llawer o waith cynnal, rheoli, adfer a gwella mynediad i'r rhostiroedd lleol dan brosiect Cadw'r Lliw yn Llŷn. Datblygwyd y prosiect gan bartneriaid yn cynnwys CYMAD, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, RSPB a Chyngor Gwynedd.

8.5 Glaswelltir a Gweirgloddiau

8.5.1 Y prif ddefnydd tir yn yr ardal yw porfeydd amaethyddol. Mae llawer iawn o'r glaswelltiroedd naturiol wedi eu colli yn dilyn y chwyldro amaethyddol a fu'n gyfrifol am glirio, draenio a gwella tiroedd. Yn ddiweddar mae bygythiad newydd i laswelltir naturiol gan ymlediad scrwb, rhedyn a gweiriau bras o ganlyniad i ddiffyg pori. Dim ond llecynnau bychain o laswelltir naturiol a geir ar ôl erbyn hyn sef tir anodd ei drin megis tir gwlyb neu dir serth ac ymylon ffyrdd. Mae'r tiroedd naturiol hyn yn gartref i gyfoeth o fywyd gwyllt; planhigion megis pengaled, llygaid llo mawr, briallu Mair a perwallt y gwanwyn, adar megis yr ehedydd a'r gylfinir, gloÿnnod byw, a llawer o ymlusgiaid a phryfetach.

8.5.2 Mae'r glaswelltiroedd pwysicaf wedi eu dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae cytundebau rheoli yn ei lle ar gyfer rhai ohonynt. Hefyd oherwydd ei brinder mae glaswelltir heb ei drin a gweirgloddiau gwair yn destun taliadau sylweddol o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd fel Glastir.

8.6 Coetiroedd a Choed

8.6.1 Mae coedwigoedd brasddail yn brin iawn yn yr AHNE ac mae'r rhai pwysicaf, a'r rhai dan fygythiad, wedi eu gwarchod gan Orchmynion Diogelu Coed. Y bygythiad mwyaf i'r coed hyn yw datblygiadau newydd fyddai'n gofyn am dorri coed, diffyg rheolaeth gywir yn arwain at ddirywiad ac afiechydon megis darfyddiad derw a chlefyd llwyfen yr Iseldiroedd.

8.6.2 Prin yw coetiroedd collddail cynhenid yn cynnwys coed megis derw, ynn, cyll, bedw a chriafol yn yr AHNE. Erbyn hyn dim ond mannau bychan, gwasgaredig iawn o goedlannau collddail lled-naturiol sydd yma ar lethrau, ochrau dyffrynnoedd, coridorau afonydd ac ar diroedd yr ystadau. Mae'r coedlannau hyn yn cyfrannu at y tirlun ac yn gynefinoedd sydd yn cynnal cyfoeth o rywogaethau yn cynnwys mwsoglau a chen prin. Un o'r coedlannau naturiol pwysicaf yw'r goedwig hynafol ger Plas yn Rhiw. Prin hefyd yw'r coedwigoedd cymysg - o goed brasddail a choniffer ond mae cynnydd mewn arwynebedd yn sgil ymdrechion i reoli a lleihau ar y coed coniffer.

8.2.3 Mae ardaloedd o goed coniffer yn amlwg iawn ar rai o lechweddau yr ardal

megis Garn Fadrun, Garn Boduan, Mynydd Rhiw, Nant Gwrtheyrn a Moel Penllechog. Ychydig o gyfraniad a wna'r rhain fel cynefin a bydd y tirlun yn cael ei adael yn foel pan gant eu torri. Mae cyfleon ar gyfer ail blannu'r ardaloedd hyn gyda choed brodorol.

8.2.4 Mae gwarchodaeth a rheolaeth gywir o goedwigoedd yn hanfodol i'w lles tymor hir. Un bygythiad i rai coetiroedd yw rhododendron ponticum a all ymledu'n gyflym gan atal tyfiant naturiol y goedwig. Bygythiad arall yw pori dwys sydd yn dirywio'r coetir yn laswellt gwael wrth i'r coed farw o henaint a dim coed ifanc yn tyfu.

8.2.5 Mae nifer o gyrff yn gweithredu o ran gwarchod, cynnal, rheoli a hyrwyddo coed a choedlannau yng Nghymru, yn cynnwys Pen Llŷn sef:

- **Coed Cadw** ("Woodland Trust") – Elusen sy'n anelu i warchod a hyrwyddo coed cynhenid ac ysbrydoli pawb i werthfawrogi a mwynhau coed a choedlannau. Anelir i warchod coed hynafol, adfer coedlannau a chreu coedlannau newydd.

- **Coed Cymru** - Menter ar gyfer Cymru gyfan, i hyrwyddo rheolaeth coetiroedd llydanddail a'r defnydd o bren caled. Rhoddir cymorth diduedd am ddim i ffermwyr, perchnogion coetiroedd a rheolwyr, grwpiau cymunedol a busnesau coed.

8.7 Mawndir a Chorsydd

8.7.1 Ychydig o fawndir a chorsydd sydd yn yr AHNE ei hun. Maent yn gynefinoedd pwysig i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid, ac hefyd yn adnodd amgylcheddol pwysig trwy sugno nwyau tŷ gwyr a phuro dŵr trwy dynnu gormodedd o faetholion a gwaddodion. Collwyd llawer o diroedd gwlyb drwy amaethyddiaeth dwys a gweithgareddau megis sychu tir a llygru dŵr gyda gwrteithiau.

8.7.2 Mae Cors Geirch, sydd yn ymestyn o Rydyclafdy i lawr i gyfeiriad Edern ar yr arfordir gogleddol yn fawndir o bwysigrwydd rhyngwladol ac fe ddynodwyd y mawndir yma yn Warchodfa Natur Cenedlaethol. Mae'r hesg, mwsogl a'r blodau tal megis llafnlys mawr yn tyfu ar y safle sy'n gynefin prin ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn cefn yn cynnwys y falwen droellog, gwas y neidr, y neidr ac amffibiaid fel y llyffant. Dynodwyd Cors Geirch, a chorsydd eraill Llŷn (Cors Hirdre, Rhyllech Uchaf ac Aber Geirch) yn safle RAMSAR ac Ardal Cadwraeth Arbennig a bellach mae prosiect uchelgeisiol dan nawdd LIFE + i adfer a chynnal y corsydd hyn.

8.8 Tiroedd Gwlyb

8.8.1 Yn ôl Arolwg Cynefinoedd 1990 (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) mae Llŷn o ddiddordeb arbennig oherwydd cyfres o dir lleidiog cyfoethog sydd yn ardaloedd canolog Llŷn, yn cynnwys Afon Geirch ac hefyd o amgylch Afon Penrhos. Mae arolwg 1995 ar Warchodfa Natur Leol Lôn Cob Bach Pwllheli yn datgan "diddordeb uchel" mewn ymestyn y Warchodfa i gynnwys ardal yn amgylchynu'r Afon Penrhos oherwydd bod yr ardal yn ymddangos i gynnwys

cyfoeth o fywyd gwyllt.

8.9 Terfynau Caeau

8.9.1 Mae waliau cerrig, gwrychoedd ac yn arbennig cloddiau yn nodweddion amlwg yn nhirlun Llŷn ac maent hefyd yn gynefinoedd pwysig yn ogystal â bod yn nodwedd amlwg ar y tirlun. Ceir amrywiaeth o fywyd gwyllt yn ddibynnol ar y terfynau hyn a pho hynaf y terfyn y mwyaf cyfoethog yw'r bywyd gwyllt. Mae rheoliadau yn bod i warchod gwrychoedd (Rheoliadau Gwrychoedd) tra mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn gymorth i gynnal ac adfer terfynau traddodiadol eraill. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o gloddiau, waliau a gwrychoedd yn cael eu colli yn flynyddol ac mae cynnal a chadw yn broblem oherwydd costau a diffyg sgiliau.

8.10 Ymylon Ffyrdd

8.10.1 Dyma gynefin lled-naturiol sy'n bwysig o ran cadwraeth natur am amryw o resymau. Maent yn ffynhonnell fwyd ac yn gysgodfa sydd yn cynnal coridorau bywyd gwyllt heb lawer o ymyrraeth. Er hynny, mae problem o ran planhigion estron ymledol megis Canclwm Siapaneaidd mewn rhai mannau. Mae Cyngor Gwynedd yn cadw cofrestr o ymylon ffyrdd a diddordeb cadwraeth natur, yn cynnwys nifer yn ardal AHNE Llŷn. Mae'r cynefin hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn Natur Gwynedd.

8.11 Cynefinoedd Morol

8.11.1 Oherwydd pwysigrwydd amryw o gynefinoedd a rhywogaethau morol yn ardal Llŷn a'r Sarnau, er enghraifft y riffiau a'r aberoedd, mae'r ardal wedi cael ei ddynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau Ewropeaidd. Mae'r riffiau yn cefnogi amrywiaeth eang o gymunedau fflora a ffawna yn cynnwys amrywiaeth o goedwigoedd gwymon, sbyngau a chwistrellau môr. Mae gwybodaeth bellach ar gael yng Nghynllun ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a safle we www.penllynarsarnau.co.uk.

8.11.1 Mae Ymgyrch Neifion gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn bwysig o ran cynnal a gwarchod cynefinoedd arfordirol trwy Gymru gan gynnwys rhannau o arfordir Llŷn.

8.12 Rhywogaethau Allweddol

8.12.1 Mae natur lonydd a di-lygredd Llŷn yn sicr wedi cyfrannau at barhad llawer o rywogaethau sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai prin yn ynysoedd Prydain. Mae Natur Gwynedd (2004) yn diffinio'r rhywogaethau sy'n bwysig yng Ngwynedd ac o hynny adnabyddwyd rhai sydd yn benodol bwysig i'r AHNE ym mhob categori mamaliaid, pysgod, adar, ymlusgiaid, creaduriaid di-asgwrn cefn a phlanhigion – gweler yr Atodiad am y tabl llawn.

8.12.2 Nid oedd gwybodaeth am niferoedd y rhywogaethau a nodir yn benodol ar gyfer AHNE Llŷn wrth adolygu'r Cynllun Rheoli.

8.13 Mamaliaid

8.13.1 Mae amrywiaeth o famaliaid prin yma yn Llŷn a'r AHNE sydd wedi eu hadnabod fel rhai blaenoriaeth:-

- Y Dyfrgi - cynnydd wedi bod yn yr ardal, presennol yn afon Soch a dangosodd arolygon diweddar ei fod yn defnyddio cynefinoedd arfordirol yn Llŷn.
- Y Ffwlbarth - presennol ond diffyg gwybodaeth am leoliad a niferoedd.
- Ysgyfarnog - presennol ond diffyg gwybodaeth am leoliad a niferoedd.
- Llygoden ddŵr - arolygon diweddar yn awgrymu fod Llŷn yn gadarnle ond diffyg gwybodaeth fanwl.
- Ystlum bedol leiaf - clwydfannau yn Llŷn ond dim gwybodaeth fanwl

8.14 Rhywogaethau Morol

8.14.1 Mae dyfroedd arfordirol Llŷn yn llawn bywyd morol. Mae'r morloi llwyd yn gyffredin i'r ardal (ar lannau Enlli yn arbennig) yn ogystal â dyfrgwn, llamhidyddion harbwr a dolffiniaid trwynbwl. Mae lleoliad a nodweddion arbennig y bae a mynediad da i ddŵr dwfn oddi ar Ynys Enlli, yn gynefin addas i'r dolffin Risso.

8.14.2 Mae'r morloi llwyd a'r dolffin trwynbwl yn rywogaethau sydd yn cael eu cydnabod yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth DU a hefyd yn cael ei gwarchod trwy gyfarwydddeb Undeb Ewropeaidd 'Cynefinoedd a Rhywogaethau'. Mae Grŵp ACA Bae Ceredigion wedi paratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y rhywogaethau yma'n benodol ac yn gweithio'n agos gyda'r grwpiau a'r mudiadau trwy fforymau fel Grŵp Dolffiniaid Cymru (Welsh Cetacean Group) i rannu gwybodaeth. Mae Cynllun Rheoli ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn rhoi sylw manwl i gynefinoedd yr ACA yn ogystal â rhywogaethau.

8.15 Adar

8.15.1 Mae Penrhyn Llŷn yn gynefin i amrywiaeth helaeth o adar tir ac adar môr, rhai ohonynt yn rhywogaethau prin. Soniwyd am rai o'r rhain eisoes ond ymysg y rhai pwysicaf mae'r Frân Goesgoch a welir ar logo AHNE Llŷn. Yn 2002 roedd 67 o safleoedd a pharau yng Ngwynedd ond nid oes gwybodaeth am faint yn union sydd yn yr AHNE. Mae yma rywogaethau eraill o adar o bwysigrwydd Ewropeaidd hefyd gan gynnwys Y Pâl, Gwylog, Mulfran ac Aderyn Drycin Manaw.

8.15.2 Ymysg adar tir pwysig yr ardal mae'r Dylluan Wen – amcangyfrifir fod tua 20 pâr yn nythu yng Ngwynedd ar gyfartaledd a Phen Llŷn yn un o'i chadarnleoedd. Hefyd, er wedi prinhau'n sylweddol mae'r gornchwigen yn bresennol yma ond diffyg gwybodaeth am leoliad a niferoedd.

8.16 Anifeiliaid Di-Asgwrn Cefn

8.16.1 Eto mae anifeiliaid di-asgwrn cefn nodedig yn byw yn ardal Llŷn, er nad oes

sicrwydd fod rhai oddi mewn ffin yr AHNE ei hun. Mae gwybodaeth fanwl yn yr atodiad ond ymysg y rhywogaethau prin mae:

- Brith y Gors, sef glöyn byw o liw oren, aur a du sydd dan fygythiad ac yn prnhau - presennol yng Nghors y Wlad a Chors Gyfelog ger ffin yr AHNE.
- Pryf Lladd- presennol yng Nghors Geirch ger ffin yr AHNE ac yn ôl adroddiadau yn Cilan a Nefyn ar un adeg. Ei gynefin naturiol ar dir heb ei drin a rhostir wedi prnhau.

8.17 Planhigion

8.17.1 Mae amrywiaeth fawr o flodau a phlanhigion gwyllt yn Llŷn. Yn y gwanwyn bydd ochrau ffyrdd gwledig yr ardal yn gyforiog o flodau gwyllt lliwgar fel bysedd y cŵn, blodyn neidr, moron gwyllt a briallu. Ar hyd y cloddiau mae'r eithin yn amlwg iawn a hefyd y ddraenen wen a'r ddraenen ddu. Ar hyd y gelltydd môr mae'r serynnen wanwyn las a'r glustog fair llachar yn gynnar yn yr haf.

8.17.2 Ar y rhostiroedd fel Mynydd Tir y Cwmwd a'r Eifl mae'r eithin mân cynhenid a'r grug yn lliwgar ac yn drawiadol iawn ddiwedd yr haf. Ymysg y planhigion eraill pwysig yn yr ardal mae clychau'r gog sy'n bresennol ar rai o lethrau megis yn ardal Llanaelhaearn a gwelir rhai math o degeirian ar gorsydd yr ardal.

Materion Allweddol

8.18 Newid Hinsawdd

8.18.1 Bellach mae tystiolaeth pur gadarn fod newid graddol yn hinsawdd y byd yn sgil cynnydd mewn tymheredd. Yn ôl gwyddonwyr mae allyriadau CO₂ yn cyfrannau at hyn ond mae ynni'r haul hefyd yn rhan o'r broses. Mae CO₂ yn cael ei arllwys i'r awyr trwy losgi tanwyddau ffosil, gweithfeydd a diwydiannau a llygredd o foduron, loriau, llongau ac awyrennau ac ati. Er nad oes tystiolaeth leol am newid hinsawdd mae'n wir dweud fod newidiadau bychan i'w gweld yn y tymhorau sydd yn ymddangos i gadarnhau effeithiau newid hinsawdd.

8.18.2 Mae tystiolaeth wyddonol yn rhagweld mai effeithiau cynhesu byd eang fydd cynnydd graddol mewn tymheredd aer a dŵr y môr. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at newid tymhorol – a'r farn o ran Prydain yw y bydd hafau yn gynhesach ond gwlypach, gaeafau yn llai oer ac eto yn wlypach a chyfnodau amlach o dywydd anarferol – glaw mawr, gwyntoedd a dyddiau o wres.

8.18.3 Yn sicr bydd newid hinsawdd yn dylanwadu ar fioamrywiaeth trwy amharu ar rhai rhywogaethau a chynefinoedd. Bydd y newidiadau yn golygu y bydd rhai rhywogaethau cynhenid dan fygythiad tra bydd rhai rhywogaethau eraill yn ffynnu a rhai rhywogaethau newydd yn ymddangos. Hyd yma nid oes llawer o wybodaeth na thystiolaeth o ran newidiadau sy'n debygol o ran bioamrywiaeth yn ardal hon.

8.18.4 Mae'r lle i'r AHNE chwarae rhan o ran newid hinsawdd trwy annog a hyrwyddo mesurau i lleihau allyriant CO2 trwy arbed ynni, creu ynni adnewyddol domestig, teithio mwy cynaliadwy ac ati. Hefyd mae angen codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ac effeithiau tebygol ar yr ardal.

8.19 Amaethyddiaeth

8.19.1 Yn y gorffennol mae amaethyddiaeth wedi cael effaith eithaf sylweddol ar fywyd gwyllt trwy wledydd Prydain. Roedd y diwydiant yn cael ei yrru gan bwysedd i gynhyrchu mwy o gynnyrch am bris rhesymol ac roedd grantiau ar gael i sychu tir gwlyb, aredig a thrin tir, tynnu cloddiau ac ati. Hefyd roedd defnydd eang o chwynladdwyr, pla-laddwyr a gwrteithiau yn ail hanner y ganrif ddiwethaf. Mae astudiaethau wedi dangos fod hyn wedi cael ardrawiad sylweddol ar fywyd gwyllt yn cynnwys adar.

8.19.2 Dechreuodd pethau newid tua diwedd y ganrif ddiwethaf. Gyda gwaith ymchwil, gwybodaeth ffeithiol ac arbenigedd daeth sylweddoliad fod gor-gynhyrchu a gor-ddibyniaeth ar gemegolion ac effeithiau hynny. Ers hynny mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol amrywiol wedi eu cyflwyno oedd yn rhoi grantiau tuag at waith amgylcheddol fel creu a glanhau llynnoedd, codi cloddiau, adfer waliau a phlannu gwrychoedd. Mae'r cynlluniau hyn, a'r cynllun Glastir presennol (a'r Taliad Sengl sy'n gosod amodau traws-gydymffurfio) yn sicr o fudd i gynefinoedd a bywyd gwyllt trwy Gymru.

8.19.3 Fodd bynnag mae rhai gweithgareddau amaethyddol yn parhau i gael ardrawiad ar gynefinoedd a rhywogaethau. Y prif weithgareddau amaethyddol a allai gael effaith ar gynefinoedd, dŵr a bywyd gwyllt yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli yw:

- Pori a lefelau stocio (tan bori a/neu gor bori yn medru bod yn niweidiol)
- Slyri yn mynd i gyrsiau dŵr, nentydd ac afonydd
- Gwrteithiau artiffisial yn all-lifo i nentydd ac afonydd (nitrogen)
- Pla-laddwyr a chwynladdwyr
- Mwy o arbenigol mewn un math o ffermio mewn ffurf mwy dwys.

8.20 Grantiau a Phrosiectau Amgylcheddol

8.20.1 Gall prosiectau helpu i gynnal, adfer a gwella rheolaeth o gynefinoedd a thrwy hynny darparu ar gyfer rhywogaethau penodol. Yn y gorffennol cafwyd prosiectau fel Natur Gwynedd, Tirlun Llŷn a phrosiect y Gronfa Natur yn Llŷn a wnaeth lawer i wella rhai cynefinoedd yn Llŷn - yn arbennig terfynau traddodiadol, pyllau a llynnoedd a rhostiroedd. Hefyd mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n gysylltiedig â dynodiad yr AHNE wedi cefnogi prosiectau llesol i fywyd gwyllt ar raddfa lai fel Caeau Tan y Bwlch a Morwellt Porthdinllaen. Y gobaith yw y gellir datblygu prosiectau eraill tebyg yn y dyfodol er budd bioamrywiaeth lleol.

8.20.2 Yn ogystal â grantiau amaethyddol Glastir mae grantiau wedi eu darparu gan Coed Cadw a Coed Cymru er mwyn gwella coedlannau presennol trwy gyflwyno mwy o goed cynhenid a gwell rheolaeth.

8.21 Planhigion Ymledol

- 8.21.1 Yn ddiweddar mae planhigion ymledol a phlanhigion ymledol estron wedi dod yn fwy o broblem yn yr ardal. Er nad oes gwybodaeth benodol i gefnogi y farn yw fod arwynebedd o redyn wedi ymledu yn sgil lefelau stocio is ar rai tiroedd – e.e ochrau bryniau a hefyd llecynnau bach o dir ddim yn cael eu ffermio bellach. Hefyd mae cyfyngiad ar y defnydd o'r chwynladdwr Asulam a bygythiad y bydd yn cael ei wahardd yn gyfan gwbl. Yr arwyddion felly yw bydd rhedyn yn ymledu ymhellach gan amharu ar gynefin fel rhostir a thir pori garw a'r rhywogaethau sydd yn byw yn y mannau hynny.
- 8.21.2 Prin yw'n enghreifftiau o Ganglwm Siapaneaidd ("Japanese Knotweed") ar hyn o bryd ond mae cynnydd wedi ei weld yn y degawd diwethaf. Oherwydd gwytnwch y planhigyn ymledol hwn, ei allu i ymledu a'r ffaith nad oes unrhyw gynllun na phrosiect penodol i'w ddifa mae'n debygol y bydd yn cynyddu gan amharu ar blanhigion cynhenid.
- 8.21.3 Cynyddu hefyd mae'r Jac y Neidiwr ("Himalayan Balsam") a hynny ar raddfa gyflym. Mae'r planhigyn yn ymledu trwy daflu ei had ymhell ac mae'n hoff o fannau gwlyb fel ochrau afonydd – felly gall yr had deithio ymhell. Mae Jac y Neidiwr bellach wedi ymledu yn sylweddol mewn rhai dyffrynnoedd a mannau gwlyb yn Llŷn a gyda'r potensial i ymledu llawer ymhellach.
- 8.21.4 Mae gan dir-feddianwyr, rheolwyr tir Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth AHNE rôl i'w chwarae mewn monitro a rheoli rhywogaethau ymledol yn yr ardal.

8.22 Rheoliadau Amgylcheddol

- 8.22.1 Mae nifer o ddynodiadau Ewropeaidd yn berthnasol i nifer o safleoedd yn Llŷn yn cynnwys yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a safleoedd Ramsar. Mae Brexit yn creu ansicrwydd mawr ynglŷn â dyfodol y dynodiadau hyn sydd yn cynnig cynhaliaeth a gwarchodaeth i'r safleoedd dan sylw.
- 8.22.2 Yn ogystal, mae rheoliadau Ewropeaidd ynglŷn â phlalladdwyr a chwynladdwyr yn berthnasol i Brydain ac wedi eu creu er mwyn gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd.
- 8.22.3 Mae ansicrwydd mawr felly o ran y dyfodol a bydd yn bwysig arolygu'r sefyllfa a chael yr wybodaeth ddiweddaraf. Efallai y gellir ystyried dynodiadau cadwriaethol cenedlaethol neu leol i gymryd lle'r rhai Ewropeaidd os na fyddent yn berthnasol i Brydain yn y dyfodol.

8.23 Gwasgfa Ariannol

- 8.23.1 Mae cwtogi ariannol ar wariant cyhoeddus y blynyddoedd ers 2008/9 yn dilyn helynt y banciau. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar wahanol sefydliadau ac adrannau cyhoeddus yn cynnwys yr Awdurdodau Lleol a chyrrff

cadwriaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru (a'i ragflaenwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd).

8.23.2 Mae toriadau ariannol sylweddol wedi bod yn Nghyngor Gwynedd dros y blynyddoedd a'r mwyaf yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd yn 2015. Mae'r toriadau wedi cael effaith ar nifer o wasanaethau yn cynnwys Cefn Gwlad a Mynediad a'r Uned Bioamrywiaeth gan olygu lleihad mewn staff a chyllidebau. Effaith hyn ydi lleihau staff, gorfod blaenoriaethu gwaith a chanolbwyntio ar waith statudol yn unig ar draul datblygu a gweithredu prosiectau, hyrwyddo ac ati.

8.24 Datblygiadau Newydd

8.24.1 Mae datblygiadau newydd yn gallu amharu ar gynefinoedd a rhywogaethau, yn cynnwys tai, siediau, datblygiadau amaethyddol, gwelliannau ffordd ac ati. Wrth gwrs mae'n rhaid i'r holl ddatblygiadau hyn dderbyn hawl cynllunio trwy'r broses ffurfiol ac felly byddent yn cael eu hasesu gan wahanol adrannau y Cyngor (yn cynnwys yr Uned Bioamrywiaeth a'r Gwasanaeth AHNE pan yn berthnasol) a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gellir felly wrthwynebu datblygiadau fyddai yn niweidiol i fywyd gwylt neu argymell amodau i'r cysylltu i'r hawl cynllunio.

8.24.2 Nid oes unrhyw safle o faint sylweddol wedi eu dynodi ar gyfer datblygu yn ardal Llŷn yng Nghynllun Datblygu Gwynedd. Ar y cyfan felly nid oes pryderon mawr am effaith datblygiadau newydd ar fywyd gwylt yr ardal.

Polisiau

BP 1. HYRWYDDO GWARCHODAETH A RHEOLAETH EFFEITHIOL O GYNEFINOEDD ALLWEDDOL LLŷN.

Mae amrywiaeth eang o gynefinoedd yn bodoli yn AHNE Llŷn sydd yn adlewyrchiad o'r tirwedd a'r arfordir amrywiol a welir yn yr ardal. Bellach mae llystyfiant naturiol neu lled-naturiol, sef tir heb ei wella a'i drin yn brin yng Nghymru a Lloegr. Yr esiamplau amlycaf o diroedd fel hyn yw rhostiroedd, tiroedd gwlyb a choetiroedd ac maent i gyd yn bresennol i ryw raddau yn Llŷn. Gwelir dadansoddiad manwl o'r holl gynefinoedd perthnasol yn Natur Gwynedd ond yn fras mae'r cynefinoedd allweddol yn cynnwys cynefinoedd arfordirol amrywiol (traethau, clogwyni, twyni tywod ayb), rhostir, glaswelltir a gweirgloddiau, coetiroedd a choed, mawndir a chorsydd, terfynau caeau ac ymylon ffyrdd a chynefinoedd morol.

BP 2. GWARCHOD, RHEOLI A HYRWYDDO DEFNYDD ADDAS O DIROEDD COMIN YN LLŷN.

Mae tir comin yn nodwedd bwysig yn yr AHNE ac yn ffurfio cynefin gwerthfawr gan ei fod yn dir heb ei drin i raddau helaeth, hefyd yn cynnig cyfleon mynediad (ond nid ydynt mewn perchnogaeth cyhoeddus). Ceir cyfanswm o 30 safle i gyd dros arwynebedd sylweddol o dir ac mae hawliau amrywiol ynghlwm â'r gwahanol safleoedd (e.e. pori, casglu coed tân). Rhostir neu dir pori garw yw llawer o'r tir ac ychydig o reolaeth sydd wedi bod ar rai safleoedd gan olygu fod y tir wedi tyfu yn

wyllt a rhedyn yn gyffredin. Mae rhai tiroedd comin yn nwylo'r Ymddiriedolaeth genedlaethol ac wedi elw o hynny a chynlluniau megis gan Bartneriaeth Tirlun Llŷn sydd wedi clirio gor-dyfiant ac ail gyflwyno pori.

BP 3. GWARCHOD, CYNNAL A GWELLA RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT LLŷN YN ARBENNIG Y RHAI A DDYNODWYD DAN DDEDDFAU EWROPEAIDD NEU YN RHAI O BWYSIGRWYDD UCHEL IAWN YN NEDDF ANCG 2006 A GWRTHWYNEBU UNRHYW DDATBLYGIADAU NIWEIDIOL.

Mae yna gyfoeth o fywyd gwyllt a gwahanol rywogaethau yn AHNE Llŷn ac mae natur lonydd a di-lygredd yr ardal yn sicr wedi cyfrannau at barhad llawer o rywogaethau sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai prin yn ynysoedd Prydain. Mae rhai rhywogaethau wedi ei dynodi er gwarchodaeth dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac eraill o bwysigrwydd uchel iawn yn Neddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC Act). Mae'r rhain wedi ei rhannu yn famaliaid, adar, pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid, anifeiliaid di-asgwrn cefn, planhigion falgwlaidd, cen, mwsoglau a llysiau'r afu, ffwng, rhawn yr ebol a rhywogaethau morol. Mae nifer o'r rhain yn bresennol yn Llŷn.

BP 4. CREU A GWELLA CYSYLLTIAD RHWNG SAFLEOEDD PWYSIG O RAN CYNEFIN A BYWYD GWYLLT.

Mae cysylltedd ecolegol rhwng cynefinoedd a symudiad rhywogaethau trwy'r tirlun yn holl bwysig i les tymor hir bioamrywiaeth. Bydd y Gwasanaeth AHNE, Cyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi a datblygu cynlluniau a phrosiectau i gryfhau cysylltedd a datblygu cysylltiadau newydd oherwydd hynny. Bydd hyn yn ail-afael mewn nifer o brosiectau a wireddwyd yn ddiweddar gan Partneriaeth Tirlun Llŷn. Rhoddir arweiniad ar flaenoriaethau lleol mewn dogfennau fel Natur Gwynedd, Strategaeth Cysylltedd Arfordirol Llŷn (2013) ac Awdit Bywyd Gwyllt Llŷn (2013).

BP 5. ASESU EFFEITHIAU POSIBL NEWID HINSAWDD AR GYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT CYNHENID YR ARDAL A MESURAU POSIB I DDYGYMOD Â HYNNY.

Bellach fe brofwyd fod newid hinsawdd yn digwydd a bod hynny yn mynd i gael effaith ar gynefinoedd a bywyd gwyllt. Credir ei bod yn bwysig cymryd camau i geisio rhagweld effaith newid hinsawdd ar AHNE Llŷn fel y gellir adnabod mesurau i'w cymryd i ymateb i hynny. Bydd angen ystyried gwybodaeth arbenigol yn y maes gan sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru (Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol), Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar ac ati.

BP 6. TRIN RHYWOGAETHAU YMLEDOL CYNHENID AG ESTRON A CHODI YMWHYBYDDIAETH AMDANYNT A'R FFORDD O'U TRIN A'U GWAREDU.

Yn hanesyddol roedd rhedyn yn cryn broblem yn yr ardal hon – mae'n tueddu i dyfu ar dir mynyddig a mygu planhigion eraill. O'r 1960au ymlaen hefo chwynladdwyr mwy effeithiol a phori mwy dwys bu lleihad yn yr arwynebedd o redyn ond yn ddiweddar mae cynnydd unwaith eto oherwydd lefelau stocio llai dwys a chyfyngiadau ar chwistrellu (mae'n bosibl y bydd y chwynladdwyr mwyaf effeithiol yn cael ei wahardd yn fuan). Bwriedir cefnogi cynlluniau i godi ymwybyddiaeth a

threialu dulliau o reoli rhedyn.

Y planhigion ymledol estron amlycaf yw'r Canclwm Siapaneaidd a Jac y Neidiwr gyda rhai ardaloedd bychan o rododendron. Hyd yma nid yw'r rhywogaethau hyn wedi ymledu yn sylweddol er fod cynnydd wedi bod o ran safleoedd ac arwynebedd – yn enwedig o ran Jac y Neidiwr. Anelir i gydweithio er targedu safleoedd penodol, codi ymwybyddiaeth perchnogion tir a chynnal hyfforddiant.

BP 7. CODI YMWHYBYDDIAETH A GWELLA DEALLTWRIAETH AM GYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT O BWYSIGRWYDD YN LLŶN A HYRWYDDO GWIRFODDOLWYR I GYMRYD RHAN MEWN PROSIECTAU RECORDIO A CHADWRAETH.

Gwybodaeth gyffredinol iawn sydd gan y rhan fwyaf o bobol leol ac ymwelwyr am gynefinoedd pwysig Llŷn a'r cyfoeth o fywyd gwyllt sydd yn yr ardal. Heb wybodaeth a dealltwriaeth o arferion rhywogaethau ni ellir eu gwerthfawrogi a cheisio cymryd camau fydd er lles iddynt. Credir fod lle i weithio gyda mudiadau cadwriaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar, Gwasanaeth ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac ati i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobol gan gynnwys plant ysgol.

BP 8. GWELLA YMWHYBYDDIAETH AM GYFRANIAD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU MEWN DARPARU GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A BUDDION Y GWASANAETHAU HYNNY O RAN IECHYD A LLES.

Mae'r amgylchedd naturiol, yn cynnwys bywyd gwyllt a chynefinoedd, yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem i bobol a chymunedau. Mae bioamrywiaeth yn cyfrannau at bethau fel puro dŵr, amsugno CO₂, ffrwythlondeb pridd, peillio ac ati. Er fod ymwybyddiaeth ynglŷn â hyn yn cynyddu yn raddol mae llawer eto i'w wneud o ran ymwybyddiaeth cyhoeddus cyffredinol ac ymysg arbenigwyr yn y maes iechyd a lles. Gall y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill, gynorthwyo i wneud hynny ac efallai ddatblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd.

9.0 YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

Ffeithiau Allweddol

55 o Henebion Cofrestredig yn yr AHNE, a nifer eraill gerllaw
249 o Adeiladau Rhestredig a nifer yn yr ardaloedd gerllaw
7 adeilad Gradd I, sef yr adeiladau mwyaf arbennig
11 Ardal Cadwraeth yn yr AHNE neu gerllaw
1 Gardd a Pharcdir Cofrestredig – Plas yn Rhiw
Rhan fwyaf o'r AHNE o fewn ardal wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru

9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Mae'r cysyniad o Amgylchedd Hanesyddol yn eang ac yn cynnwys pob agwedd o ddylanwad dynol o'r cyfnod cyn hanesyddol hyd at heddiw. Mae'n cynnwys olion archeolegol dan y ddaear, gweddillion hen aneddiadau, adeiladau a strwythurau hanesyddol, ffermydd a therfynau caeau, olion chwareli a gweithfeydd yn ogystal a pharciau a gerddi.

9.1.2 Mae olion preswyliaeth pobol yn rhan annatod o dirlun Llŷn ac wedi dylanwadu llawer ar sut mae'r ardal yn edrych erbyn heddiw. Dros y canrifoedd mae gwahanol genedlaethau a charfannau o bobol wedi dylanwadu ar y tirlun i greu amgylchedd hanesyddol gymhleth a diddorol, gyda chymeriad a naws arbennig.

9.1.3 Mae yma lawer o geirydd o'r cyfnod cyn-hanesyddol, Meini Hirion, Cromlechi, Terfynau Caeau Hanesyddol, Ffynhonnau ac Eglwysi hynafol. Hefyd mae olion chwareli a chloddio mwyn yn amlwg ar y tirlun ac mae pentrefi bychan, bythynnod gwledig a thai fferm hanesyddol yn nodweddiadol o'r ardal. Gyda'i gilydd mae'r holl olion hyn yn cyfrannu at gymeriad unigryw Penrhyn Llŷn.

9.1.4 Oherwydd nad oes llawer o ddatblygu wedi bod yn yr ardal mae llawer o safleoedd hanesyddol wedi goroesi. Mae nifer o gromlechi a meini hirion yn dal i'w gweld yn eu lleoliad gwreiddiol a nodweddion fel cerrig milltir yn dal ar ochrau'r ffyrdd gwledig. Er fod llawer o'r tir wedi ei amaethu a'i wella mae rhannau eang o diroedd comin sydd yn rhostir prin a phatrwm hanesyddol o gaeau bach wedi goroesi mewn rhai ardaloedd fel y Rhiw ac Uwchmynydd.

9.1.5 Mae adeiladau hanesyddol yn bwysig ac yn ddiddorol oherwydd eu bod yn dangos traddodiad adeiladau yr ardal ac yn dangos pensaernïaeth nodweddiadol dros wahanol gyfnodau. Er enghraifft credir yn ôl traddodiad fod rhai o'r bythynnod bychan sydd yn rhan o dirlun Llŷn wedi eu seilio ar "dai unnos". Adeiladwyd y bythynnod yma ar diroedd comin gyda'r deunyddiau oedd agosaf i law, sef pridd, cerrig a thywyrch. Ar y llaw arall roedd tai'r dosbarth uwch yn cael eu codi o gerrig wedi eu trin a llechi gorau - dyma'r tai ffermydd mawr a phlastai bychain. Mae gerddi hanesyddol yn gysylltiedig â rhai o'r plastai er enghraifft Plas yn Rhiw a Phlas Cefnamwlch.

- 9.1.6 Mae'r adeiladau hanesyddol pwysicaf yn cael eu rhestru gan Cadw i ddosbarth Gradd I, II* neu II. Ystyrir adeiladau Gradd I a Gradd II* fel rhai pwysig yn genedlaethol tra ystyrir rhai Gradd II yn werthfawr ar lefel ranbarthol. Penderfynodd Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth gyda Cadw gomisiynu arolwg manwl o'r holl adeiladau rhestredig yn y sir yn 2003 (ac eithrio ardal y Parc Cenedlaethol). Fel rhan o'r astudiaeth fe ymwelwyd â phob adeilad rhestredig yn ardal Cyngor Gwynedd. Tynnwyd lluniau, aseswyd cyflwr a nodwyd defnydd presennol pob adeilad. Roedd adeiladau yn cael eu sgorio ar sail eu cyflwr gan asesu materion megis cyflwr waliau, to, drysau, offer cario dŵr.
- 9.1.7 Gwnaed Arolwg gan Cwmni Handley yn 2007 mae gwybodaeth fanwl, drylwyr a diweddar ar gael am adeiladau a strwythurau rhestredig, sef yr adeiladau hanesyddol pwysicaf. Mae'r wybodaeth yn cael ei chrynhofi ar ffurf tabl (gweler yr Atodiad) sydd yn cyfeirio at y nifer, gradd a chyflwr yn ôl canlyniadau Arolwg a gynhaliwyd ar ran Cyngor Gwynedd.
- 9.1.8 Mae llawer o adeiladau hanesyddol – fel y ffermdai, adeiladau amaethyddol, eglwysi a chapeli yn parhau i gael eu defnyddio er mae rhai yn segur ac yn dadfeilio. Mae'n bwysig anelu i gynnal a chadw adeiladau hanesyddol a chynnal eu cymeriad arbennig – boed yn adeiladau unigol neu glwstwr o adeiladau fel canol pentrefi.
- 9.1.9 Mae olion archeolegol a hanesyddol yn bwysig am eu bod yn brawf ac yn gofnod o sut roedd cenedlaethau'r gorffennol yn byw a gweithio. Mae'r olion yn fodd i gysylltu'r gorffennol a'r presennol a dangos sut roedd ein cyndeidiau yn byw. Gall olion hanesyddol fod yn adnodd addysgol cryf a byw ar gyfer plant, pobol leol ac ymwelwyr i'r ardal. O'u cyflwyno mewn ffordd effeithiol bydd yr adnoddau hyn a gwybodaeth amdanynt yn creu ac ennyn diddordeb.
- 9.1.10 Mae Llŷn ac Ynys Enlli yn un o 36 o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru ar y Gofrestr a baratowyd gan Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ICOMOS (Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd Hanesyddol). Cafodd ardal Llŷn ei chynnwys ar y Gofrestr oherwydd bod yma lawer o olion bychan o wahanol gyfnodau sydd yn dangos dilyniant a datblygiad dros amser. Mae ardal Llŷn i gyd (i'r gorllewin o ffordd yr A499 – Pwllheli – Trefor) wedi ei gynnwys ar y Gofrestr sydd yn nodi: "mae yma gyfoeth ac amrywiaeth mawr a digyffelyb, ran amlaf o nodweddion archeolegol a hanesyddol ar raddfa lai, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio cyfanrwydd cydlynol ac integreiddiedig, gan arddangos parhad ac undod tiriogaethol Llŷn ers efallai adegau cynhanesyddol."
- 9.1.11 Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi ymgymryd â gwaith o ran asesu cymeriad hanesyddol gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd. Pwrpas y gwaith yw adnabod nodweddion pwysicaf a chymeriad hanesyddol penodol y gwahanol ardaloedd a gosod argymhellion ar gyfer rheolaeth yn y dyfodol. Mae'r astudiaeth yn crynhoi cymeriad hanesyddol ardal Llŷn yn effeithiol dan nifer o themâu, hefyd mae 22 is-ardal o wahanol gymeriad tirwedd hanesyddol wedi eu diffinio a dadansoddiad ohonynt ar sail hanes, ffurfiau tirlun a phrosesau allweddol. Gellir cael gwybodaeth fanwl ar safle we

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (www.heneb.co.uk).

- 9.1.12 Cadw sydd yn gyfrifol am warchodaeth yr adnoddau hanesyddol pwysicaf yng Nghymru. Dynodir yr olion hanesyddol pwysicaf yn Henebion Rhestredig ac maent yn derbyn gwarchodaeth yn sgil hynny. Mae'r Henebion hyn yn cael eu gwarchod o dan y Ddeddf Henebion Rhestredig a Safleoedd Archeolegol 1979 ac mae'n drosedd gyfreithiol i amharu ar y safleoedd neu cario unrhyw ddeunyddiau oddi yno. Mae Cadw hefyd yn gyfrifol am asesu cyflwr yr Henebion Rhestredig. Yn ogystal mae Cadw yn gyfrifol am rhestru adeiladau a strwythurau ar sail eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig yn ôl eu pwysigrwydd (Graddfa I II* II). Y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) sy'n gyfrifol am ymchwilio a cofnodi archaeoleg, adeiladau, tirweddau ac olion arforol o'r cyfnod cynhanesyddol hyd heddiw.
- 9.1.13 Mae'r Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gosod fframwaith er mwyn rheoli yr amgylchedd hanesyddol mewn dull positif. Rhoddir arweiniad polisi ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru gan Llywodraeth Cymru hefyd yn Polisi Cynllunio Cymru (Pennod 6) ac yn Nodyn Polisi Technegol 24. Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu sydd yn cynnwys polisiâu cynllunio ar gynnal a gwarchod agweddau o'r amgylchedd hanesyddol.
- 9.1.14 Nid oes gwasanaeth Archeolegol yng Nghyngor Gwynedd bellach, yn hytrach darperir cyngor ar faterion archeolegol ar draws y rhanbarth gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (trwy Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd) Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gynnal y Gofrestr Amgylchedd Hanesyddol ranbarthol (CAH/ "HER" – sef cofnod statudol o holl olion hanesyddol/ archeolegol yn yr ardal) ac am ddarparu gwybodaeth ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol a lleol, gweithredwyr statudol, datblygwyr a'r cyhoedd yn benodol o ran materion cynllunio a chadwraeth. Gellir cael mynediad cyhoeddus at y Gofrestr trwy www.cofiadurcahcymru.org.uk/arch/. Dylai ymholiadau, gwybodaeth neu geisiadau am wybodaeth gael eu cyfeirio yn syth at Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Gwynedd a'r Gofrestr.
- 9.1.15 Gall Cyngorau Lleol ddynodi Ardaloedd Cadwraeth dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 os ydi ardal o "werth pensaernïol neu hanesyddol arbennig" lle byddai yn ddymunol i "gynnal neu wella eu cymeriad a'u hedrychiad". Gall ansawdd arbennig yr ardal ddeillio o gyfuniad o amryw o ffactorau megis grŵp o adeiladau, patrymau strydoedd gwahanol, llecynnau agored, nodweddion adeiladau a nodweddion o ran y tirwedd.
- 9.1.16 Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dirfeddiannwr pwysig yn yr ardal (yn cynnwys nifer o safleoedd ac adeiladau hanesyddol pwysig fel Plas yn Rhiw a Phorthdinllaen). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal a chadw yr eiddo yn dda ac yn cyflogi penseiri a swyddogion cadwraeth.
- 9.1.17 Sefydlwyd Cymdeithas Hanes ac Archaeoleg Llŷn rai blynyddoedd yn ôl ond yn anffodus nid yw'r Gymdeithas wedi bod yn weithredol yn ddiweddar ac nid

oes grŵp cadwraeth amgylchedd hanesyddol arall yn Llŷn. Fodd bynnag mae gan Gyfeillion Llŷn, a sefydlwyd i gynnal a datblygu iaith a diwylliant yr ardal, gyfle i ehangu i'r maes o gadwraeth amgylchedd hanesyddol.

9.1.18 At bwrpas y Cynllun Rheoli gosodwyd y Brif Nod ganlynol o ran yr Amgylchedd Hanesyddol:

Prif Nod

CYNNAL A GWELLA CYFLWR YR AMRYWIAETH O ADNODDAU SY’N RHAN O AMGYLCHEDD HANESYDDOL LLŷN GAN GYMRYD I YSTYRIAETH YR ANGEN I WARCHOD BUDDIANNAU CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU AR SAFLEOEDD DYNODEDIG RHYNGWGLADOL.

Nodweddion Arbennig

9.2 Y Cyfnod Cyn-hanesyddol

9.2.1 O ystyried y cyfnod sylweddol o amser sydd wedi bod mae'n rhyfeddol fod cymaint o olion a henebion wedi goroesi. Mae nifer o henebion a chreiriau wedi eu darganfod a'u gwarchod - mae nifer o greiriau o Llŷn yn cael eu cadw yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Dyma ychydig o wybodaeth am gefndir archeolegol yr ardal a'r olion a chreiriau sydd wedi eu darganfod yn ardal Llŷn:

9.2.2 **Yr Oes Fesolithig** (c.10,000 – 4,000 C.C) – Daeth yr Oes yr lâ ddiweddaraf yn hanes y byd i ben tua 12,000 o flynyddoedd yn ôl oherwydd fod hinsawdd y byd yn cynhesu a bu i hyn achosi i haenau o rew i ddadmer a lefel y môr i godi. Cafodd Prydain ei hynysu oddi wrth weddill cyfandir Ewrop a bu i'r boblogaeth Fesolithig fanteisio ar eu hamgylchedd arfordirol, ac maent wedi gadael olion o'u tiriogaeth. Pobol symudol oeddent yn hela a chasglu ac felly nid ydynt wedi gadael unrhyw strwythurau na henebion sylweddol. Cynhyrchwyd llawer o gelfi ac arfau o fflint a "chert" a cherrig eraill yn ystod y cyfnod ac mae tystiolaeth o safleoedd gweithio gyda naddion cerrig, fflintiau a "debitage" yn ogystal â thomennydd o ddeunydd a chregyn ("middens"). Mae safleoedd fel hyn yn aml yn cael eu darganfod yn sgil erydiad arfordirol oherwydd mae'n debyg fod y rhan fwyaf o anheddau o'r cyfnod Mesolithig ar hyd yr arfordir neu ar ochrau dyffrynnoedd er manteisio ar y pysgod a'r dŵr fel ffordd o deithio a chyfathrebu.

9.2.3 **Yr Oes Neolithig** (c. 4,000 - 2,000 CC) - Mae'r henebion cynharaf ar dirlun Llŷn yn cynnwys siambrau claddu (megis Tan y Muriau, Rhiw a Bachwen ger Clynnog) a meini hirion sydd yn tystiolaethu arferion claddu cenedlaethau'r cyfnod. Roedd llawer o'r henebion hyn yn parhau i fod yn arwyddocaol mewn cyfnodau diweddarach ac roeddent yn ganolbwynt gweithgareddau yn ystod yr Oes Efydd ac Oes yr Haearn. Hefyd o bwysigrwydd sylweddol mae olion ffatri fwyelli ar Fynydd y Rhiw. Mae'r ffatri fwyelli yn brawf o sut roedd pobol yr oes Neolithig yn defnyddio adnoddau naturiol a chreu arfau gan eu masnachu dros ardal eang.

- 9.2.4 **Yr Oes Efydd** (c. 2500 – 600 BC) – Y carneddau sydd ar ben mynyddoedd Carnguwch, Yr Eifl a Mynydd y Rhiw ag yn y gaer yn Nhref Ceiri yw'r henebion amlycaf o'r cyfnod yma. Nodwedd amlwg o'r cyfnod hefyd yw'r meini hirion sy'n niferus trwy'r ardal. Mae carneddau cerrig o'r cyfnod hwn wedi goroesi ond yn aml yr unig olion a welir o siambrau pridd yw cylchoedd o edrych i lawr o'r awyr. Mae claddedigaethau wrn o'r cyfnod hwn wedi eu darganfod yn Foel Mellteyrn, Morfa Nefyn a ger Bodfel.
- 9.2.5 Credir hefyd fod llawer o safleoedd anheddol a gwarchodol yr ucheldir, sydd yn cael eu dyddio i Oes yr Haearn, wedi eu sefydlu yng nghyfnod yr Oes Efydd. Nid oes dealltwriaeth dda o sefydliadau ar yr iseldir ond mae darganfyddiadau diweddar o dociau llosgi ("burnt mounds") o'r cyfnod hwn yn awgrymu sefydliadau domestig. Mae tociau llosgi yn dystiolaeth o bobol yn cynhesu cafnau o ddŵr gan ddefnyddio cerrig poeth a gallai'r dechneg fod yn rhan o goginio bwyd neu efallai fragu cwrw neu hyd yn oed baddonau neu "saunas".
- 9.2.6 **Oes yr Haearn** – mae tystiolaeth glir o'r cyfnod hwn i'w weld yn yr ardal, yn fwyaf amlwg y bryngaerau gwych yn Nhref Ceiri, ar Garn Boduan, Garn Fadrun a Chastell Odo ar Fynydd yr Ystum. Mae bryngaerau eraill llai eu maint hefyd megis Pen y Gaer, Llanaelhaearn. Safleoedd amddiffynnol oedd 'rhain ond roeddent hefyd yn ganolfannau gweinyddol lle roedd pobol yn byw mewn cartrefi crynion (a elwir weithiau yn gyntiau Gwyddelod). Mae safleoedd eraill, nad oedd yn rhai amddiffynnol, ac yn cynnwys tystiolaeth o batrwm caeau mwy diweddar fel Mynydd Anelog, Carnguwch a safle uwchben Clynnog. Ceir gwybodaeth fanwl am yr olion a'r darganfyddiadau o'r cyfnod hwn yn Atlas Sir Gaernarfon a gyhoeddwyd yn 1977.
- 9.2.7 Nid oes gwybodaeth am unrhyw olion o'r **cyfnod Rhufeinig** yn Llŷn sy'n awgrymu na chawsant ddylanwad cryf dros yr ardal ond mae olion o'r **Cyfnod Cristnogol** cynnar- a dreiddiodd drwy Llŷn o'r bumed ganrif ymlaen. Mae nifer o gerrig ac arnynt ysgrifau Lladin o'r cyfnod hwn wedi eu darganfod ac mae ysgrifen tebyg i Gymraeg cynnar ar rai ohonynt. Cerrig beddi neu gerrig coffa oedd llawer o'r rhain ac mae'r ysgrif 'HIC IACIT' wedi ei nodi arnynt (sef Yma Gorwedda...). Dydi'r rhan fwyaf o'r rhain ddim yn eu lleoliad gwreiddiol – rhai wedi eu cynnwys fel rhan o strwythurau diweddarach fel waliau mynwentydd neu wedi eu gosod ar i fyny fel meini hirion. Cerrig i goffau gwyr enwog oedd y rhain fwyaf tebyg. Yr enghreifftiau amlycaf yn Llŷn yw'r cerrig gydag enwau offeiriad (yn fwyaf tebygol) sef VERACIVS a SENACVS a ddarganfuwyd ger Capel Anelog, Uwchmynydd (bellach yn Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron) a'r garreg a ddarganfyddwyd yn Llangian - "MELI MEDICI" - yn cyfeirio at Melus y Meddyg.
- 9.2.8 Yn sgil ymlediad Cristnogaeth sefydlwyd ysgolion hyfforddi, eglwysi bach (llan) a chelloedd meudwyaidd a datblygodd rhai o'r rhain yn safleoedd eglwysig amlwg megis Clynnog Fawr ac Aberdaron. Enwyd nifer o'r safleoedd cynnar hyn ar ôl Seintiau Celtaidd megis Beuno, Hywyn, Aelhaearn a Cwyfan. Datblygodd nifer o eglwysi arfordirol megis Pistyll a Llanengan yn fannau gorffwys i'r pererinion a ddechreuodd teithio i Enlli o'r 6ed ganrif ymlaen. Bu cyfnod o wella ac ail adeiladu eglwysi yn y bymthegfed ganrif ac

eto yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

9.2.9 Mae amryw o ffynhonnau hynafol o amgylch Penrhyn Llŷn, rhai yn dyddio yn ôl i'r o gyfnod Cyn-Gristnogol ac yn tystio ble roedd safleoedd sanctaidd ein cyndadau paganaidd. Yn ddiweddarach daeth nifer o'r ffynhonnau yn fannau Cristnogol pwysig ac roedd cred fod rhinweddau iachaol arbennig yn perthyn i lawer ohonynt megis Ffynnon Aelrhiw, Ffynnon Aelhaearn a Ffynnon Fyw. Mae llawer o'r hen ffynhonnau wedi goroesi, fel y dangosodd gwaith ymchwil i'r Gwasanaeth AHNE yn 2004-05 ac mae gwelliannau wedi eu gwneud i nifer ohonynt.

9.3 Y Cyfnod Canoloesol (5ed-15fed Ganrif)

9.3.1 Gelir dweud gyda llawer o sicrwydd mai adeiladau o bren oedd eglwysi cynnar Llŷn. Mae'r dystiolaeth cynharaf o ddefnyddio cerrig i'w hadeiladu yn dyddio o'r 12fed ganrif. Yr esiampl gorau yw mynedfa bwa Romanesque Eglwys Aberdaron, er ei fod wedi ei addasu dros y blynyddoedd, a hefyd Eglwys Pistyll. Mae'r rhan fwyaf o'r eglwysi eraill arwyddocaol yn Llŷn hefyd yn dyddio yn ôl i'r cyfnod hwn, er mai ychydig o olion sydd wedi goroesi o'r safleoedd eglwysig cynnar hyn. Fodd bynnag, rhwng y 12fed a dechrau'r 16eg Ganrif daeth eglwysi wedi eu hadeiladu o gerrig yn nodwedd amlwg o'r tirlun gyda ehangiad sylweddol tua 1500. Cafodd nifer o eglwysi bychan, syml fel Llaniestyn, Llanengan, Abererch ac Aberdaron eu hymestyn a'u gwella.

9.3.2 Mae'r terfynau caeau hanesyddol yn nodwedd pwysig sydd yn dangos patrwm o amaethu'r gorffennol ac mae llawer ohonynt yn dyddio yn ôl i'r cyfnod hwn. Maent yn cyfrannu llawer tuag at edrychiad y tirlun ac maent yn rhan o dreftadaeth a diwylliant yr ardal hefyd. Er bod llawer o'r hen derfynau cynnar wedi diflannu dros amser mae patrwm caeau hanesyddol Llŷn wedi goroesi yn dda mewn rhai ardaloedd ac yn arbennig rhan orllewinol y Penrhyn a gellir gweld y terfynau a'r patrwm a grëir yn glir o ben Uwchmynydd.

9.3.3 Y dulliau traddodiadol o greu terfyn yn Llŷn yw cloddiau cerrig a phridd, gwrychoedd a waliau cerrig sychion. Cloddiau pridd a cherrig yw'r dull mwyaf cyffredin o'r rhain ar y penrhyn ac mae iddynt gymeriad lleol arbennig gan fod y cerrig fel arfer yn rhedeg ar i fyny. Mae gwrychoedd ar ben rhai o'r cloddiau hyn tra mae eraill yn foel. Maent yn ddull effeithiol o greu terfyn a rhoi cysgod i stoc ond maent hefyd yn ecolegol bwysig drwy ffurfio cynefin i amrywiaeth o anifeiliaid, planhigion, pryfetach ac adar.

9.3.4 Mae'r waliau cerrig yn gyffredin iawn yn y rhannau o'r AHNE lle'r oedd digonedd o gerrig ar gael, sef llethrau yr ymwithadau igneidd sy'n britho'r ardal : Bwlch Mawr, Gyrn Ddu, Yr Eifl, Mynydd Carnguwch, Mynydd Nefyn, Garn Fadrun a Mynydd Rhiw. Maent yn waliau cadarn, hyd at 5-6 troedfedd o uchder a hyd at 3-4 troedfedd o led mewn rhai mannau (mae waliau llydan iawn yn ardal y Rhiw). Tynnwyd rhai o'r waliau cerrig i lawr dros gyfnod o amser, rhan amlaf ar lethrau isaf y brynau lle bu ymdrechion i wella tiroedd a chael caeau mwy. Dull arall o gau tir yw gwrychoedd ond nid yw'r rhain mor gyffredin yn Llŷn. Mae gwrychoedd yn bwysig ar sail weledol, hanesyddol ac

hefyd fel cynefin.

- 9.3.5 O edrych ar fapiau hanesyddol mae'n amlwg fod llawer o derfynau caeau wedi eu dymchwel i wneud caeau mwy. Nid oedd gwybodaeth am y nifer o waliau cerrig, cloddiau na gwrychoedd yn AHNE Llŷn wrth adolygu'r Cynllun Rheoli ond yn gyffredinol mae dirywiad wedi bod ac mae rhai rhannau wedi eu colli yn llwyr. Ar y llaw arall mae gwelliannau mewn rhai mannau oherwydd cynlluniau amaeth amgylcheddol yn rhoi cymhorthdal i adfer cloddiau, waliau a gwrychoedd e.e. Ardal Amgylchedd Arbennig, Tir Cynnal, Tir Gofal a Phrosiect Gweithredu Natur Gwynedd.
- 9.3.6 Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r nodweddion hyn trwy Arolwg Cloddiau Pen Llŷn, Cyngor Gwynedd, 2007. Roedd yr Arolwg yn canolbwyntio ar ran gorllewinol o Benrhyn Llŷn (yn fras o drwyn Cwmistir i lawr at gongl orllewinol Porth Neigwl). Dengys yr Arolwg fod dwysedd uchel o gloddiau yn yr ardal dan sylw - dyma oedd tua 60% o derfynau, roedd gwrychoedd yn ffurfio tua 29%, waliau sychion 6% ac roedd yn ymddangos mai terfynau wedi dadfeilio oedd tua 2%. Roedd yn amhosibl diffinio tua 4% o derfynau.
- 9.3.7 Edrychodd yr Arolwg yn fras ar ddwysedd caeau yn yr ardal hefyd a chymharu rhai mannau gyda'r sefyllfa yn 1953. Dangosodd y gwaith fod dwysedd (nifer) y caeau mewn rhai ardaloedd wedi lleihau'n sylweddol mewn hanner can mlynedd - sydd yn dangos hefyd fod llawer o derfynau wedi eu colli. Gweler yr Astudiaeth am wybodaeth fanylach.

9.4 Y Cyfnod Ôl – Ganoloesol (1500-1800)

- 9.4.1 **Eglwysi a Chapeli cynnar** - Yn sgil datblygiad Anghydfurfiaeth yn Llŷn o ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen, dechreuwyd adeiladu capeli'r gwahanol enwadau. Adeiladwyd capel cyntaf yr annibynwyr, sef Capel Newydd Nanhoron yn 1769. Mae'r capel hynod hwn yn sefyll hyd heddiw ac wedi ei restru fel adeilad Gradd 1 oherwydd ei gyflwr gwreiddiol a'r faith ei fod yn un o'r capeli anghydfurfiol cynharaf yng ngogledd Cymru. Codwyd y capeli Methodistaidd cyntaf yn yr ardal yn Bryncroes yn 1752 ac Uwchmynydd (1774). Codwyd capeli gan nifer o enwadau eraill hefyd megis y Bedyddwyr tua diwedd y cyfnod hwn ac mae rhai o'r rhain yn dal i sefyll hyd heddiw.
- 9.4.2 **Cartrefi yr Uchelwyr** - Roedd yr Uchelwyr yn rhan bwysig o gymdeithas Cymru rhwng 1300 a 1700. Roedd rhain yn hen deuluoedd, rhai gyda chysylltiadau gyda'r tywysogion. Roeddent yn berchen ar diroedd a chyfoeth ac roeddent yn cyflogi gweision ac yn noddï beirdd. Cafodd llawer ohonynt swyddi fel ynadon heddwch a siryfion ac roedd eraill fel esgobion neu archesgobion yn yr Eglwys.
- 9.4.3 Adeiladodd rhai o'r Uchelwyr hyn gartrefi mawr a moethus ac mae llawer yn parhau hyd heddiw – lefydd fel Castellmarch, Bodfel, Bodwrda, Rhydolion, Carreg a Thrygarn. Mae rhai yn anffodus wedi eu colli hefyd fel Madryn, Penarth a Saethon.

9.4.5 **Bythynnod a Thai** – Codwyd llawr o fythynnod syml yn y cyfnod hwn – rhai o fwd, rhai'n gerrig neu gyfuniad o'r ddau. Tai syml iawn oeddent hefo un ystafell, croglofft a tho gwellt. Tai'r bobl gyffredin - y tyddynwyr oedd y rhain a godwyd mewn dull syml mewn dim o dro. Mae llawer o fythynnod o'r cyfnod hwn wedi eu dymchwel neu wedi eu haddasu'n sylweddol ond mae rhai enghreifftiau da yn parhau a nifer wedi eu rhestru gan Cadw. Mae rhai tai deulawr sy'n ychydig yn fwy o'r cyfnod hwn yn parhau hefyd – tai fferm syml neu dai unigolion mwy ariannog.

9.4.6 **Porthladdoedd Bychain** - Datblygwyd porthladdoedd bychain mewn nifer o fannau ar arfordir Llŷn yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed. Byddai cynnyrch amaethyddol yn cael ei allforio trwy'r porthladdoedd a mewnforid nwyddau megis pupur, lliain, llestri, finegr ac ati. Mae ychydig o olion o'r cyfnod hwn wedi goroesi e.e. yr hen forglawdd ym Mhorthdinllaen.

9.5 Y Cyfnod Diwydiannol/ Modern (1800 -)

9.5.1 **Chwarelydda** - Datblygwyd llawer o chwareli gwenithfaen yn yr ardal yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y prif rai oedd Gyrn Ddu, Yr Eifl (Trefor), Porth y Nant, Cae'r Nant, Carreg y Llam, Gwylwyr (Nefyn) a Thir y Cwmwd (Llanbedrog). Mae'r chwareli hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad unigryw Llŷn. Nid yn unig mae olion y chwareli eu hunain a'r gweithfeydd oedd ynghlwm â hwynt ond gellir gweld olion incleins, llwyfannau a dociau ar gyfer allforio yn eglur hyd heddiw. Datblygwyd pentrefi gerllaw rhai o'r chwareli megis Trefor, Llithfaen a Nant Gwrtheyrn.

9.5.2 Y chwareli ithfaen a ddarparodd y cerrig ar gyfer llawer iawn o adeiladau yn Llŷn yn y cyfnod yma ac mae'r rhan fwyaf o adeiladau traddodiadol yr ardal wedi eu hadeiladu o garreg ithfaen lleol. Cafodd llawer o'r ithfaen hefyd eu naddu'n gerrig sets a'u hallforio i ddinasoedd diwydiannol gogledd orllewin Lloegr, yn fwyaf amlwg Lerpwl a Manceinion. Mae nifer o lyfrau yn cyfeirio at y chwareli ithfaen a cheir gwybodaeth ar safleoedd gwe fel Penllyn.com a Rhiw.com.

9.5.3 **Mwyngloddio** - Mae tystiolaeth o fwyngloddio ar rai safleoedd yn Llŷn o ddiwedd cyfnod y Tuduriaid gyda phrysurddeb cynyddol o tua 1760 ymlaen. Pan oedd y diwydiant cloddio mwynau yn ei anterth cloddiwyd plwm, copr a sinc yn yr ardal gan gyflogi hyd at 200 o weithwyr. Hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd llawer o gloddio plwm ger Bwlchtocyn ac mae llawer o olion i'w gweld hyd heddiw megis yr hen gorn gwaith yn Llanengan a hen adeiladau.

- 9.5.4 Daethpwyd yn ymwybodol fod manganîs yn ardal Rhiw yn 1840 a dechreuwyd ar y gwaith o'i gloddio, ar raddfa fechan, yn 1858. Roedd dwy safle benodol sef Benallt a Nant y Gadwen a bu cyfnodau o brysurdeb a chyfnodau tawlech o ran cloddio a chyflogaeth. Bu gweithio prysur yn Rhiw yn ystod y ddau Ryfel Byd oherwydd roedd galw am y manganîs i wneud haearn yn fwy gwydn. Yn Ysgo fe welir olion y cyfarpar a ddefnyddid i gario'r deunydd at y môr hyd heddiw. Daeth y gwaith i ben yn y 1940au ac nid oes unrhyw waith cloddio mwynau bellach yn Llŷn.
- 9.5.5 **Tai Fferm ac Adeiladau Amaethyddol** - Oherwydd bod Llŷn yn ardal gyda thraddodiad amaethyddol cryf mae'n naturiol fod nifer helaeth o dai fferm, yn ogystal ag adeiladau amaethyddol, yn hanesyddol bwysig. Mae rhai tai fferm bychan tra mae eraill yn sylweddol gyda chysylltiad â theuluoedd o uchelwyr amlwg Llŷn megis Bodwrdda, Carreg, Meillionnydd, Castellmarch, Bodnithoedd ac Elernion. Datblygwyd llawer o dai fferm ac adeiladau gan y Stadau megis Glynllifon, Nanhoron a'r Faenol ac roeddent wedi eu dylunio ar batrwm penodol, er enghraifft gydag adeiladau allanol o amgylch yr iard. Hefyd mae gweddillion dwy felin wynt yn sefyll hyd heddiw ger Bryn Felin, Llanengan ar Foel Fawr, Mynytho - mae'r rhain wedi eu rhestru gan Cadw (Gradd II).
- 9.5.6 **Cau'r Tiroedd Comin** - Yn gynnar yn y cyfnod hwn (1800 – 1850) cafodd rhannau sylweddol o diroedd comin eu hawlio gan dirfeddianwyr mawr mewn ardaloedd fel Rhoshirwaun, Aberdaron, Llanbedrog, Llaniestyn and Pistyll. Oherwydd creu'r tiroedd hyn, gan rai fel Assheton-Smith a Syr Watkin Williams-Wynn, adeiladwyd waliau cerrig mewn llinellau sythion ac mae'n rhai yn dal i sefyll hyd heddiw. Roedd cryn wrthwynebiad i gau'r tiroedd comin.
- 9.5.7 **Porthladdoedd ac Adeiladu Llongau** - Roedd glo, defnyddiau a chynnyrch yn cael eu mewnforio i nifer o borthladdoedd bach Llŷn yn ystod y cyfnod hwn. Mae iardiau glo, neu olion iardiau i'w gweld mewn nifer o fannau hyd heddiw megis Porth Ysgaden, Porthor ac Aberdaron. Datblygwyd odynau calch ger rhai o'r porthladdoedd hyn ac mae olion i'w gweld mewn nifer o fannau megis Abersoch a Phorth Ysgaden.
- 9.5.8 Er mwyn gwasanaethu'r diwydiant morol datblygwyd glanfeydd megis ar gyfer allforio cerrig ithfaen yn Nhrefor, Porth y Nant a Charreg y Llam ac ym Mhorth Neigwl a Phorth Ysgo ar gyfer llongau oedd yn cario manganîs o ardal y Rhiw. Mae olion rhai o'r strwythurau pren yma i'w gweld ar y traethau o hyd.
- 9.5.9 **Adeiladau Crefyddol** - Roedd rhai capeli anghydfurfiol wedi eu codi yn y Ddeunawfed ganrif fel y nodwyd ond cynyddodd graddfa'r adeiladau a'r ehangu/ ail-adeiladu yn sylweddol o 1800 ymlaen ac mae llawer o'r adeiladau hyn i'w gweld hyd a lled yr ardal hyd heddiw. Ond o ganol y yr Ugeinfed daeth tro ar fyd a dechreuodd y cynulleidfaoedd edwino ac o tua'r 1980au ymlaen gwelwyd capeli ac eglwysi yn cau ac mae'r tueddiad hwn wedi parhau. Erbyn heddiw mae llawer o gapeli ac eglwysi wedi cau, nifer wedi eu dymchwel a nifer cynyddol yn cael eu haddasu ar gyfer defnydd arall.

- 9.5.10 **Trafnidiaeth** - Roedd llawer mwy o drafnidiaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen a gwelwyd adeiladu a gwella ffyrdd oedd yn cynnwys codi pontydd (e.e. pont Aberdaron, pont Edern) a gosod cherrig milltir a welir ar lawr o ffyrdd yr ardal. Mae'r strwythurau hyn yn cyfrannu yn sylweddol at naws lleol yr amgylchedd gwledig a hanesyddol. Yn anffodus mae rhai damweiniau yn amharu ar y strwythurau hyn e.e loriau llydan a pheiriannau torri cloddiau mecanyddol.
- 9.5.11 **Pentrefi, Stadau a Chartrefi** - Mae pentrefi hanesyddol a thraddodiadol a ffurfir gan grŵp o adeiladau hanesyddol hefyd yn rhan bwysig o'r etifeddiaeth adeiledig ardal Llŷn. Gellir dweud fod pentrefi'r AHNE yn perthyn i dri chategori: pentrefi arfordirol, pentrefi gwledig a phentrefi chwarelyddol fel Trefor, nant Gwrtheyrn a Phistyll.
- 9.5.12 Oherwydd natur bellennig Llŷn mae newid a datblygiad wedi bod yn araf ac mae hyn wedi bod o fudd i gynnal cymeriad pentrefi traddodiadol. Mae newidiadau wedi bod ym mhob pentref dros amser ond mae newidiadau mawr wedi bod mewn rhai pentrefi glan y môr fel Abersoch a Morfa Nefyn.
- 9.5.13 Mae'r Awdurdod Lleol wedi dynodi cyfanswm o 11 Ardal Cadwraeth yn, neu gerllaw, ardal yr AHNE - Aberdaron, Clynnog, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llanengan, Llangian, Llaniestyn, Nefyn, Porthdinllaen, Trefor, ac Ynys Enlli. Bu i gwmni "Building Design Partnership" (BDP) wneud nifer o argymhellion o ran yr Ardaloedd Cadwraeth mewn adroddiad a baratowyd yn 2003 a bu i'r Gwasanaeth AHNE gomisiynu gwaith pellach yn gwerthuso a chynnig gwelliannau yn 2015.
- 9.5.14 Codwyd nifer o blastai yn y cyfnod hwn - dyma gartrefi sylweddol wedi eu hadeiladu ar fel rhan o Stadau pwysig yn yr ardal. Rhai amlycaf sydd oddi mewn neu'n agos at ffin yr AHNE yw Plas yn Rhiw, Plas Glyn y Weddw, Plas Nanhoron, Plas Cefnamwlch a Phlas Boduan.
- 9.5.15 Codwyd llawer o dai eraill yn y cyfnod hefyd ac mae llawer o rai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn rhai nodweddiadol o'r cyfnod hwn – tai deulawr, blaen cymesur a tho llechi. Yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif gwelwyd dyluniadau mwy amrywiol a thai unllawr yn dod yn fwy cyffredin yn enwedig yn rhan olaf y ganrif.
- 9.5.16 **Olion Milwrol** - Dechreuwyd adeiladu maes awyr Porth Neigwl yn 1936 ar ôl prynu saith fferm, y bae a saith milltir o draeth. Crëwyd targedau gyda chynfasau ar gyfer ymarfer saethu a rafftiau allan yn y bae ar gyfer ymarfer bomio. Erbyn dechrau'r 1940au roedd y llain lanio o laswellt wedi ei ymestyn ac roedd hangers "Bellman" a llain concrit cysylltiol wedi eu hadeiladu. Hefyd adeiladwyd rheilffordd ar gyfer targed symudol yn y cyfnod hwn. Cafodd y maes awyr ei gau yn 1945 a chafodd y strwythurau eu dymchwel yn 1947 er fod rhai strwythurau, fel "pillboxes" a "gun emplacements" wedi goroesi.
- 9.5.17 Mae rhai safleoedd lle bu damweiniau awyrennau yr Ail Ryfel Byd hefyd yn yr AHNE. Damweiniau yn ymwneud ag ymarfer oedd rhain yn bennaf – ar hyd yr arfordir ac o amgylch y mynyddoedd. Un safle enwog yw honno ar ochrau

Tre'r Ceiri lle bu i awyren 'Halifax' daro'r creigiau.

9.5.18 Mae safleoedd milwrol eraill yn agos i ffin yr AHNE, yn benodol gweddillion yr hen ysgol peilotiaid ym Mhenyberth, Penrhos a'r camp Radar yn Glanrhyd ger Edern.

Materion Allweddol

9.6 Erydiad gan Bobol

9.6.1 Mae ceirydd a'r tai crynion ar ben rhai o fryniau'r AHNE megis Yr Eifl, Garn Fadrun, Garn Boduan a Garn Fawr wedi cadw yn rhyfeddol o ystyried eu bod yn ganrifoedd oed. Fodd bynnag mae dirywiad araf yn sgil treigl amser a phobol yn ymweld â'r safleoedd gan greu llwybrau a weithiau symud neu ansefydlogi cerrig. Rhaid bod yn ofalus o ran annog pobol i ymweld â safleoedd hanesyddol cynnar rhag ofn cynyddu pwysedd o'r math yma.

9.7 Difrod Damweiniol

9.7.1 Weithiau mae olion hanesyddol neu archeolegol yn cael eu difrodi yn ddamweiniol oherwydd diffyg gwybodaeth am eu bodolaeth. Gall hyn ddigwydd yn sgil gwaith cloddio, adeiladu neu waith cynnal e.e. cerrig milltir yn cael eu taro gan beiriannau barbio lonydd.

9.7.2 Mae'r sefyllfa o ran hyn wedi gwella yn ddiweddar fel mae pobol yn fwy ymwybodol o'r olion a henebion - e.e. ffermwyr yn cael gwybodaeth trwy gynlluniau amaeth amgylcheddol. Mae lle i barhau a gwaith codi ymwybyddiaeth trwy wahanol ddulliau fel sgysiau, taflenni gwybodaeth (fel yr un a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd) a thrafod gyda perchnogion a rheolwyr eiddo.

9.8 Creiriau Lleol wedi Gadael yr Ardal

9.8.1 Yn y gorffennol mae rhai creiriau wedi eu cario o'r ardal i gael eu cadw a'u harddangos mewn amgueddfeydd. Er yn deall fod rhai creiriau pwysig angen eu gwarchod a bod ar gael i'w gweld yn genedlaethol mae lle i gadw ac arddangos rhai o'r creiriau hyn yn lleol gan eu bod yn rhan o'r dreftadaeth. Gallai'r Amgueddfa Forwrol gartrefu rhai o'r rhain ond does dim amgueddfa arall pwrpasol i Lŷn.

9.8.2 Enghreifftiau o greiriau sydd wedi gadael yr ardal ydi Coron Brenin Enlli (Amgueddfa Forwrol Lerpwl), Broetsh Efydd o Dre'r Ceiri (Amgueddfa Genedlaethol Cymru), a chrochenwaith a chelfi o'r Oes Efydd ac Oes y Cerrig.

9.9 Erydiad Arfordirol

9.9.1 Mae erydiad sylweddol yn digwydd ar rai rhannau o arfordir yr AHNE ac mae hyn yn fygythiad i rai safleoedd o bwysigrwydd sy'n rhan o'r amgylchedd hanesyddol. Y rhannau gwaddodol o'r tir sydd yn erydu fwyaf ac mae tir

amaethyddol a rhai hen derfynau wedi eu colli mewn rhai ardaloedd ar yr arfordir gogleddol a deheuol.

9.9.2 Dwy safleoedd bwysig sy'n cael ei heffeithio gan erydiad morol yw'r olion y gaer Bentir ar drwyn Porthdinllaen a gweddillion hen wersyll ymarfer Ail Ryfel Byd ym Mhorth Neigwl. Mae prosiect diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Archaeoleg (Achub Archaeoleg Llŷn) wedi adnabod safleoedd mewn perygl ac wedi bod yn archwilio a chofnodi tra bod yn bosibl gwneud hynny e.e Porthdinllaen. Mae'n bwysig parhau â'r math hwn o waith ar safleoedd pwysig cyn i'r olion hyn gael eu colli am byth.

9.10 Newid Hinsawdd

9.10.1 Mae tystiolaeth yn dangos fod newid araf o ran hinsawdd y byd ac mae rhai tueddiadau lleol i'w gweld sef gaeafau mwyn ond gyda chlyfnodau hir o law, (e.e. 2015-6), cyfnodau byr o law trwm iawn a hafau mwy ansefydlog. Gall hinsawdd o'r math hwn fod yn niweidiol trwy greu llifogydd a all fygwth adeiladau hanesyddol a thampwydd sydd eto yn niweidiol i hen adeiladau a strwythurau. Rhagwelir y bydd hyn, mewn cyfuniad gydag erydiad arfordirol, yn broblem yn y dyfodol i eiddo arfordirol fel Porthdinllaen.

9.11 Datblygiadau Amaethyddol

9.11.1 Yn y gorffennol mae datblygiadau yn gysylltiedig ag amaeth wedi cael dylanwad sylweddol ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Yn sgil y pwyslais ar gynhyrchu bwydydd yn ystod yr 1960 – 80au gwnaed llawer o waith i uno caeau, lledu adwyon hanesyddol ac ati. Arweiniodd hyn at gollu rhai nodweddion hanesyddol fel terfynau caeau. Fodd bynnag o ddiwedd y 1980a ymlaen gwelwyd pwyslais ar gadw ac ail-sefydlu nodweddion hanesyddol trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

9.12 Adeiladau a Strwythurau Newydd

9.12.1 Mae gan adeiladau a strwythurau newydd, yn cynnwys gwelliannau ffyrdd y posibilrwydd o amharu ar olion archeolegol a hanesyddol a chymeriad hanesyddol y tirlun yn gyffredinol. Mae'n bwysig felly osgoi datblygu ar safleoedd lle mae olion hanesyddol pwysig ac i wneud archwiliadau os oes diffyg gwybodaeth. Hefyd mewn rhai achosion bydd angen ymgymryd â mesurau i gyfyngu ar effeithiau archeolegol neu gynllun gwella lle bydd ardrawiad ar safleoedd archeolegol. Gall Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd roi arweiniad ar hyn drwy'r drefn cynllunio.

9.13 Addasiadau i Adeiladau Hanesyddol a Thraddodiadol

9.13.1 Mae'n bwysig fod adeiladau hanesyddol yn parhau i gael eu defnyddio – bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw at y dyfodol. Rhaid derbyn fodd bynnag y bydd addasu rhai adeiladau er mwyn defnyddiau newydd neu ar gyfer eu gwneud yn fwy ymarferol at ddefnydd modern.

9.13.2 Dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer o geisiadau cynllunio wedi eu derbyn ar gyfer trosi adeiladau hanesyddol at ddefnydd anheddol – adeiladu fel capeli, eglwysi, hen ysgolion, adeiladau amaethyddol ayb. Mae rhai cynlluniau wedi llwyddo i gynnal cymeriad yr adeilad gwreiddiol yn dda ond nid yw hyn yn wir am bob achos. Y prif broblemau a welir yw estyniadau ddim yn gweddu a deunyddiau anaddas. Er mwyn aildefnyddio neu addasu adeiladau hanesyddol yn effeithiol rhaid gweithredu polisiau cynllunio yn effeithiol a dilyn ymarfer da o ran dylunio a deunyddiau (e.e. cyhoeddiadau gan Cadw). Gallai canllawiau dylunio penodol ar gyfer ardal Llŷn fod o gymorth hefyd.

9.14 Cynnal a Chadw

9.14.1 Mae cyflwr rhai adnoddau hanesyddol wedi dirywio yn yr ardal oherwydd nad yw perchnogion yn eu cynnal. Gall hyn fod oherwydd diffyg arian i wario neu nad yw'r adeiladau yn cael eu defnyddio bellach – e.e. adeiladau amaethyddol, capeli ac eglwysi.

9.14.2 Ar adegau mae gwaith is-safonol neu anghywir yn cael ei wneud hefyd. Enghraifft o'r math hwn o beth yw gwaith cynnal diofal ac anghywir ar adeiladau e.e. sment yn lle mortar calch a gosod ffenestri neu ddrysau o batrwm anaddas. Yma mae angen codi ymwybyddiaeth, gwella sgiliau ac annog perchnogion i gynnal cymeriad adeiladau hanesyddol yn y dull cywir. Yn hyn o beth gall cymorthdaliadau fod o gymorth e.e. trwy Glastir neu Cadw yn bennaf mae dipyn o waith gweinyddol ynghlwm ag ymgeisio yn ogystal ag amodau os yn llwyddiannus.

9.14.2 Gall diffyg cynnal a chadw fod yn ffactor sydd yn effeithio ar dir cyhoeddus yn ogystal – tiroedd fel ymylon ffyrdd, parciau a thir glas arall. Hefyd mae hyn yn gallu bod yn broblem ar strydoedd a phalmentydd oherwydd cyflwr y ffordd, arwyddion gormodol neu ddi-angen gorsafoedd bysiau blêr ac ati. Mae adroddiad ar Ardaloedd Cadwraeth Llŷn a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth AHNE yn 2015 wedi adnabod nifer o enghreifftiau o'r math hwn o beth ym mhentrefi'r ardal.

9.15 Mân Addasiadau Modern yn Amharu ar Ardaloedd Cadwraeth

9.15.1 Mae Astudiaeth a nodir uchod hefyd wedi dangos fod cyfres o fân ddatblygiadau wedi dirywio cymeriad Ardaloedd Cadwraeth yr ardal dros amser. Y math o bethau sy'n cael sylw yn yr astudiaeth yw renderau anaddas, drysau a ffenestri o ddyluniad neu a/neu ddeunydd anaddas, dysglau lloeren ar wyneb blaen, paneli solar, walïau terfyn ddim yn gweddu ac ati. Mae'r Astudiaeth yn argymhell cyfres o weithredoedd yn cynnwys gwaith uniongyrchol ar rai adeiladau a safleoedd penodol yn yr Ardaloedd Cadwraeth a hefyd cydweithio gyda thrigolion a chymunedau i lunio Arweinyfr o Ddyluniad Da.

9.16 Grantiau a Phrosiectau

9.16.1 Ar nodyn positif mae rhai nifer o brosiectau cadwraethol gan sefydliadau lleol yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod o fudd i'r Amgylchedd Hanesyddol yn

Llŷn. Dyma restr o'r rai ohonynt:

- Prosiect cofnodi ac adfer ffynhonnau - Gwasanaeth AHNE a Cadw Cymru'n Daclus
- Prosiect Arwyddion Pentref ac Arwyddbyst Hanesyddol - Gwasanaeth AHNE
- Bryngaer Meillionnydd, Rhiw - cloddio ac ymchwil - Prifysgol Bangor
- Bryngaerau Oes yr Haearn - gwaith dehongli - Partneriaeth Tirlun Llŷn
- Adeiladau crefyddol - nifer wedi cael eu hadfer a'u gwella efo grantiau gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn a'r Loteri Treftadaeth e.e. Capel Salem Sarn, Capel Plas Carmel, Aberdaron.

9.16.2 Mae grantiau ar gael trwy Cadw, y Loteri Dreftadaeth, Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a chynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Glastir ar gyfer cynnal, adfer ac atgyweirio elfennau o'r amgylchedd hanesyddol.

Polisiâu

HP 1. ADNABOD, COFNODI AC ASESU CYFLWR ADNODDAU HANESYDDOL YR ARDAL.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ystod eang o adnoddau hanesyddol sydd yn Llŷn ac hefyd i wneud gwaith ymchwil i gadarnhau ein gwybodaeth am y gorffennol. Bydd pwyslais felly yn cael ei roi ar adnabod a diffinio elfennau o'r amgylchedd hanesyddol a chofnodi yr asedau hynny drwy waith ymchwil a phrosiectau eraill megis casgliadau lluniau, cynnal bas data a chadw cofnodion. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos olion dan fygythiad o ddirywiad neu erydiad. Hefyd mae'n bwysig cofnodi cyflwr yr adnoddau hanesyddol yn cynnwys olion archeolegol, ffurfiau ar y tirlun, adeiladau a strwythurau. Bydd hyn yn ffurfio bas data o wybodaeth ac yn caniatáu i adnabod elfennau sydd yn dirywio neu dan fygythiad.

HP 2. GWARCHOD A CHYNNAL NODWEDDION HANESYDDOL YN CYNNWYS OLION ARCHEOLEGOL A STRWYTHURAU AC ADEILADAU HANESYDDOL A'U GOSODIAD.

Mae'r olion archeolegol a hanesyddol yn rhan greiddiol o'r amgylchedd hanesyddol a rhoddir pwyslais ar gynnal a chadwraeth yr amgylchedd hanesyddol a gosodiad henebion pwysig. Bydd cronfeydd gwybodaeth, ymchwil ac asesiadau yn rhoi gwybodaeth am adnoddau a chyflleon. Bwriedir cydweithio ar brosiectau yn uniongyrchol a chefnogi prosiectau a gweithredoedd gan eraill fydd yn llesol. Bydd angen sicrhau fod perchnogion yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael hefyd mewn ffurf cyngor a grantiau.

HP 3. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU NEWYDD AC ADDASIADAU YN PARCHU AC ATGYFNERTHU CYMERIAD AC EDRYCHIAD ADEILADAU A STRWYTHURAU HANESYDDOL A HYRWYDDO YMARFER DA O RAN CYNNAL A CHADW.

Y bwriad gyda'r polisi hwn yw fod datblygiadau newydd ac addasiadau yn cynnal a gwella cymeriad adeiladau a strwythurau hanesyddol. Bydd polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol yn allweddol bwysig yn hyn o beth. Yn ogystal rhoddir pwyslais ar sicrhau fodd adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal yn y modd gorau drwy ddefnyddio technegau a deunyddiau addas. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen cydweithio ac eraill i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymarfer da.

HP 4. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMHARU AR GYMERIAD AC EDRYCHIAD ARDALOEDD CADWRAETH A CHEFNOGI MENTRAU I WNEUD GWELLIANNAU.

Mae lluo o fân ddatblygiadau wedi amharu ar gymeriad Ardaloedd Cadwraeth ym mhentrefi'r ardal. Bwriad y polisi hwn yw ceisio gwrthsefyll datblygiadau o'r math yma a hyrwyddo prosiectau a gweithredoedd fydd yn cynnal ac adfer yr Ardaloedd. Mae Adroddiad a gomisiynwyd gan y gwasanaeth AHNE yn 2015 yn darparu gwybodaeth am gamau llesol ac yn argymhell cydweithio i baratoi canllawiau o ymarfer da ymysg mesurau eraill.

HP 5. CODI YMWHYBYDDIAETH A HYRWYDDO DEALLTWRIAETH O AMGYLCHEDD HANESYDDOL YR ARDAL YMYSG FFERMWYR, PERCHNOGION EIDDO, POBOL LEOL, PLANT AC YMWELWYR I'R ARDAL

Bydd codi ymwybyddiaeth yn fodd i ennyn diddordeb a dealltwriaeth am wahanol elfennau o'r amgylchedd hanesyddol – mae hyn yn bwysig i'r cymunedau lleol a gall ychwanegu gwerth at y diwydiant twristiaeth ond rhaid bod yn ofalus rhag creu pwysedd gormodol ar adnoddau. Bwriedir cefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth cyffredinol ond mae lle i gysylltu yn fwy uniongyrchol gyda rhai all gael dylanwad uniongyrchol ar adnoddau hanesyddol fel ffermwyr, perchnogion tir ac eiddo a thenantiaid.

HP 6. HYRWYDDO GWELL MYNEDIAD AT ADNODDAU HANESYDDOL LLEOL A MWYNHAD OHONYNT.

Bwriad y polisi hwn yw hyrwyddo gwell mynediad at adnoddau hanesyddol er budd pobol leol ac ymwelwyr. Eisoes mae rhai prosiectau wedi eu gwireddu trwy'r Gwasanaeth AHNE a sefydliadau eraill fel Phartneriaeth Tirlun Llŷn ac aelodau yr Ecoamgueddfa. Yn y cyd-destun hwn efallai fod cyfle i ymchwilio i'r cyfleon o ran dychwelyd rhai olion hanesyddol er mwyn eu harddangos yn lleol.

10. YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

Ffeithiau Allweddol

Mae 71.8% o boblogaeth yr AHNE yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r lefelau ar draws Cymru gyfan.
--

Gwelwyd gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r AHNE yng nghyfrifiad 2011 (lawr o 72.3% yn 2001)
--

10.1 Cyflwyniad

- 10.1.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan greiddiol o Benrhyn Llŷn. Dyma iaith lafar yr ardal ar hyd y canrifoedd, iaith addysg a chrefydd. Dengys Cyfrifiad 2011 fod 71.8% o boblogaeth cymunedau'r AHNE yn gallu siarad yr iaith, ac mae hyn yn parhau gyda'r uchaf drwy Gymru. Mae llawer iawn o bolisiâu, strategaethau a chynlluniau mewn lle i gynnal y Gymraeg a'i chryfhau ar gyfer y dyfodol - yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru (megis strategaeth iaith Fyw: iaith Byw 2012-17), ac hefyd ar lefel sirol.
- 10.1.2 Yma yng Ngwynedd, mae'r corff Hunaniaith yn parhau i weithredu fel Menter iaith yn y sir, ac yn gweithio law yn llaw â Chyngor Gwynedd, ac mewn partneriaeth gyda nifer o gyrff eraill gyda'r nod o gryfhau'r Gymraeg fel iaith ar yr aelwyd, yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y gweithle. Lanswyd Strategaeth Iaith Gwynedd (2014-17) yn Nhachwedd 2014 a'r darged yw: *"sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021"*.
- 10.1.3 Mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lleol yn gwneud llawer i gynnal yr iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor ac mae'r corff wedi ymrwmo i Safonau'r Iaith Gymraeg a osodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 4A Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Polisi Iaith Gymraeg Gwynedd 2016 yn nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith a nodwyd uchod.
- 10.1.4 Mae gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd bolisi iaith blaengar hefyd sydd yn gymorth mawr i sicrhau fod plant di-Gymraeg yn cael eu cymhathu i'r gymuned leol. Datblygwyd cynlluniau arloesol dros y blynyddoedd diweddar, megis Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, sy'n hyrwyddo ac annog defnydd plant o'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.
- 10.1.5 Law yn llaw â'r iaith, mae diwylliant arbennig Llŷn yn rhan greiddiol o fywyd yma - yn gyfuniad cyfoethog o hanesion, chwedlau, ofergoelion, dywediadau a chymeriadau. Mae'n cynnwys hefyd enwau tai, ffermydd, caeau a'r holl nodweddion hanesyddol ac olion diwylliannol ac ati sydd i'w gweld ledled y Penrhyn. Yn ogystal mae dylanwadau hanesyddol – megis cysylltiad yr ardal â sefydlu Plaid Cymru, gwerthoedd, agweddau, credoau ac ofergoelion hefyd yn rhan o'r diwylliant hwn.

- 10.1.6 Ceir gwybodaeth fanwl ar wahanol agweddau o'r diwylliant mewn llyfrau hanes lleol, llenyddiaeth a barddoniaeth ac ar gof y trigolion lleol.
- 10.1.7 At bwrpas Cynllun Rheoli'r AHNE gosodwyd yr isod fel Prif Nod o ran iaith a Diwylliant:

Prif Nod

CYNNAL, GWARCHOD A HYRWYDDO DIWYLLIANT UNIGRYW LLŶN A'R IAITH GYMRAEG.

Nodweddion Arbennig

10.2 Yr iaith Gymraeg

- 10.2.1 Hyd at ganol y ganrif ddiwethaf roedd bron yr holl boblogaeth yn siarad y Gymraeg fel iaith gyntaf ac roedd llawer na allai siarad unrhyw Saesneg o gwbl. Dyma yw prif iaith Penrhyn Llŷn ac fe'i defnyddir hi yn ddyddiol yn y cartref, yr ysgol, y siop, yn y mannau gwaith ac ar y stryd. Hefyd mae'r iaith yn weledol ym mhob man, ar arwyddion a phosteri. Mae papur bro "Llanw Llŷn" yn parhau i gael ei gyhoeddi yn uniaith Gymraeg bob mis.
- 10.7.2 Enwau Cymraeg sydd ar leoliadau yn Llŷn, er bod enghreifftiau o enwau Saesneg yn cael eu creu a'u defnyddio ar wahanol leoliadau sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr fel Porthor (Whistling Sands) a Phorth Neigwl (Hell's Mouth).
- 10.2.3 Mae enwau Cymraeg safleoedd a nodweddion hanesyddol yn dal eu tir, ac hefyd caeau amaethyddol a gwelwyd cyfoeth o enwau diddorol yn cael eu hamlygu mewn prosiectau diweddar megis Prosiect Cynefin a gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar ran Gwasanaeth AHNE Llŷn. Mae'r enwau hyn yn ddrych o'r gorffennol i ni ac yn gallu dweud llawer am bobl a chymdeithas.
- 10.2.4 Cymraeg yw iaith llenyddiaeth leol a chymdeithasau lleol hefyd gan fwyaf. Un peth sydd yn arwydd o gyflwr y Gymraeg sydd ddim yn cael ei ddangos gan ffigyrau moel yw'r nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n uniaith Gymraeg yn Llŷn. Mae hyn yn dangos cryfder yr iaith yn yr ardal. Nid oes gwybodaeth fanwl am ddigwyddiadau uniaith Gymraeg yn lleol ond dyma'r prif rai:
- Cyfarfodydd Cyngor Sir (gyda chyfieithu ar y pryd os oes angen)
 - Cyfarfodydd Cyngor Cymuned
 - Cyfarfodydd Llywodraethwyr a Rhieni ysgolion
 - Nosweithiau adloniant Cymraeg
 - Cylch Llenyddol Llŷn
 - Merched y Wawr
 - Yr Urdd
 - Clybiau Ffermwyr leuanc
 - Clybiau hanes, llenyddiaeth a chymdeithasol lleol
 - Eisteddfodau lleol

- Oedfaon ac Ysgolion Sul yn y capeli a rhai Eglwysi.

10.2.5 Gwelwyd gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng nghymunedau'r AHNE yng nghyfrifiad 2011 (71.8% o'i gymharu â 72.3% yn 2001). Bydd angen sicrhau yn y dyfodol fod cefnogaeth i'w gwarchod a'i chryfhau fel bod yr iaith a'r diwylliant yn parhau yn greiddiol yn ein cymunedau.

10.3 Diwylliant
10.3.1 Crefydd - chwaraeodd crefydd rhan bwysig yn niwylliant Llŷn dros y canrifoedd. O gyfnod Cristnogaeth gynnar, oes y seintiau, teithiau'r pererinion i Enlli a'r eglwysi ac un ddiweddarach i gyfnodau Protestaniaeth, Piwritaniaeth, Methodistiaeth ac yn y blaen.

10.3.2 Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu chwyldro crefyddol mawr a bu cynnydd aruthrol mewn cynulleidfaoedd ac adeiladwyd capeli ar raddfa fawr. Y Methodistiaid Calfaidd neu'r Hen Gorff, a ddatblygodd gyflymaf ac erbyn canol y ganrif roedd ganddynt gymaint o gapeli â'r cyrff anghydfurfiol eraill, sef yr Eglwys Anglicanaidd, Annibynwyr, y Wesleaid a'r Bedyddwyr, gyda'i gilydd. Yn fuan iawn roedd capeli ym mhob pentref, rhai mewn ardaloedd digon gwledig ac eraill yn y prif drefi a phentrefi megis Nefyn, Aberdaron a Threfor ble roedd nifer o gapeli gan wahanol enwadau.

10.3.3 Mae crefydd wedi parhau'n bwysig ym mywyd diwylliannol yr ardal hyd heddiw er bu edwino sylweddol mewn cyfarfodydd a chynulleidfaoedd ers canol yr ugeinfed ganrif.

10.3.4 Bellach, mae nifer helaeth o eglwysi a chapeli i'w gweld ledled y Penrhyn. Mae nifer fawr wedi cau, rhai wedi eu troi yn dai, fflatiau, gweithdai neu at rhyw ddefnydd arall. Er hyn, maent yn adlais a chofnod o gyfnodau diddorol a phwysig yn ein diwylliant yn ogystal â nodweddion pwysig yn ein hamgylchedd hanesyddol.

10.3.5 **Celf a Llên** Mae Llŷn wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer iawn o feirdd ac arlunwyr nodedig dros y canrifoedd. Ymysg enwau amlwg mae Cynan a J. Glyn Davies, T.Rowland Hughes a Meirion MacIntyre Huws.

10.3.6 O ran rhyddiaith mae enghreifftiau o sawl awdur lleol amlwg gyda llawer o'u gweithiau yn dathlu hanes, diwylliant a harddwch arbennig yr ardal. Ceir nofelau hanesyddol hefyd yn ystod y blynyddoedd sydd wedi bod yn ddrych o'n cymdeithas mewn cyfnodau penodol dros y canrifoedd.

10.3.7 Ceir nifer o arlunwyr hefyd sy'n parhau i gael eu dylanwadu gan harddwch a nodweddion arbennig yr ardal. Arddangosir gweithiau yn Oriel Plas Glyn y Weddw ac yn Oriel Tonnau, Pwllheli. Ceir arddangosfa flynyddol hefyd o waith y grŵp lleol, Arlunwyr Sarn. Roedd arddangosfa 2016 wedi ei seilio ar gerdd enwog Meirion MacIntyre Huws, Penrhyn Llŷn.

10.3.8 **Eisteddfodau** - Mae Eisteddfodau yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyfan ac yn rhinwedd arbennig ac unigryw i'r genedl. Yn Llŷn, mae nifer o gapeli, eglwysi ac ysgolion yn ogystal â chlybiau'r Ffermwyr Ifanc a'r Urdd yn cynnal Eisteddfodau.

- 10.3.9 Ymysg Eisteddfodau yn yr AHNE ei hun, mae Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn a gynhelir bob mis Tachwedd, ac Eisteddfod Flynyddol Uwchmynydd MC sy'n digwydd ar ddydd Llun y Pasg.
- 10.3.10 **Llên gwerin** - Mae llên gwerin yr ardal yn llawn o ofergoelion am y tylwyth teg, bwganod, dewiniaid a gwrachod, ac enwid rhai o nodweddion lleol ar ôl y coelion hyn megis Cae'r Bwgan (ym Mhwlldefaid, Aberdaron) a'r Goeden Bechod (ger Ty'n y Coed, Nefyn). Hefyd, ceir nifer o chwedlau sy'n amlwg yn niwylliant Cymru yn hanu o Llyn megis chwedl Castellmarch a hanes Rhys a Meinir sydd wedi ei lleoli yn Nant Gwrtheyrn. Mae cysylltiad rhwng yr ardal hefyd â cheinciau'r Mabinogi.
- 10.3.11 Fel pob ardal mae gan Llyn hefyd ei chymeriadau ac mae ymwybyddiaeth am y rhai amlycaf wedi goroesi hyd heddiw. Mae Dic Aberdaron yn gymeriad hanesyddol oedd yn siarad hyd at bymtheg o ieithoedd yn ôl y sôn. Mae cyfeiriadau tuag ato mewn llenyddiaeth a barddoniaeth. Roedd Thomas Love Duncome Jones Parry, Madryn yn gymeriad lliwgar sydd wedi gadael ei farc.
- 10.3.12 Fel llawer man arall mae sôn am gysylltiad rhwng Y Brenin Arthur ag Ynys Enlli a Llŷn. Mae Chris Barber (1993) yn gwneud cais cryf yn ei lyfr 'Journey to Avalon' mai ym Mhorth Cadlan ger Aberdaron y bu Brwydr Camlan ac Enlli oedd Ynys Afallon.
- 10.3.13 Mae Ynys Enlli ei hun yn leoliad amlwg a phwysig o fewn ein diwylliant, gyda chefnidir a thraddodiad sanctaidd cryf iawn. Mae'n debyg y sefydlwyd yn fynachlog gyntaf ar yr ynys rhwng 516 a 542 OC. Cadfan oedd yr Abad cyntaf ac fe'i dilynwyd ef gan Lleuddad a gafodd ddylanwad mawr ar Enlli a rhannau o Llŷn. Ymysg y Seintiau y dywedir iddynt gael eu claddu ar yr ynys mae Dyfrig, Deiniol, Trillo, Padarn, Mael a Maugant ac yn ôl traddodiad mae 20,000 o saint wedi eu claddu yno. Oherwydd statws crefyddol arbennig yr ynys datblygodd yn ganolfan pererindod enwog iawn.
- 10.3.14 **Ffordd o Fyw** - Mae ffermio wedi bod yn ddiwydiant a ffordd o fyw yn Llŷn ers canrifoedd gan gynnal unigolion, teuluoedd, gweision ac uchelwyr. Mae yna fyrdd o arferion, straeon, dywediadau a chymeriadau yn gysylltiedig â ffermio yn yr ardal. Hefyd mae ffermio wedi chwarae rhan bwysig iawn o ran cynnal pobol, cymunedau a diwylliant Llŷn gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Er y newidiadau mawr sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o ffermydd cymysg teuluol yn parhau a dilyniant o'r tad i'r mab yn gyffredin. Yn ddiweddar gwelwyd bri unwaith eto ar hen draddodiadau ac mewn digwyddiadau megis Ras Aredig Sarn a'r Cylch a threialon cŵn defaid.
- 10.3.15 Mae trigolion Llŷn hefyd wedi pysgota a chewylla ers cyn cof. Datblygodd Nefyn a Phorthdinllaen yn borthladdoedd penwaig pwysig yn y 18fed ganrif ac mae'r penwaig ar arfbais Nefyn hyd heddiw. Mae rhai pysgotwyr llawn amser yn Llŷn heddiw yn bennaf allan o Borth Meudwy, Porthdinllaen a Nefyn ac mae cimychiaid a chrancod yn parhau yn gynnyrch lleol pwysig.

- 10.3.16 Erbyn heddiw porthladdoedd pleser yn bennaf yw rhai Llŷn ac mae hanes lliwgar a bywiog y gorffennol yn atgof pell. Mae amryw o hanesion a cherddi i'w gael am ddylanwad cryf mae'r môr wedi ei gael ar yr ardal. Ceir hefyd stôr o wybodaeth ac arddangosfeydd diddorol yn Amgueddfa Forwrol Llŷn yn Nefyn.
- 10.3.17 **Chwareli a chloddio mwynau** – Mae'r chwareli ithfaen a'r mwynfeydd amrywiol yn Llŷn hefyd wedi cyfrannu yn fawr at ein diwylliant ac mae eu olion yn amlwg ac yn rhan annatod o hunaniaith yr ardal. Yn sgil y galw am gerrig ithfaen yn yr 19eg Ganrif, datblygwyd nifer o chwareli ar fryniau igneaidd yn Llŷn. Roedd gwaith i bobol leol yn y chwareli ond hefyd daeth chwarelwyr o ardaloedd eraill a bu i rai o'r bobol yma gartrefu yn Llŷn a dod yn rhan o'r gymdeithas yma.
- 10.3.18 Dechreuodd gwaith manganîs yn Rhiw yn 1827 ac erbyn 1840 roedd 50 yn gweithio yno. Bu gweithio prysur yn Rhiw yn ystod y ddau ryfel byd ac amcangyfrif fod 196,770 tonn wedi ei gynhyrchu yno rhwng 1894 a 1945. Bu cloddio hefyd am blwm yn ardal Llanengan a Bwlchtocyn ac mae'r corn uchel a welir ynghanol y pentref yn dyst i'r gwaith a fu. Eto daeth mwynwyr o ardaloedd eraill i weithio yn y gweithfeydd hyn ag ymsefydlu yn Llŷn a dyma yw'r rheswm dros rai o'r cyfenwau dieithr sydd i'w gweld ar restrau cyfrifiad yn yr 19eg Ganrif yn yr ardal hon.
- 10.3.19 Er mwyn gwasanaethu'r diwydiannau cerrig a mwyn datblygwyd glanfeydd megis ar gyfer allforio cerrig ithfaen yn Nhrefor, Porth y Nant a Charreg y Llam ac ym Mhorth Neigwl a Phorth Ysgo ar gyfer llongau oedd yn cario manganîs o ardal y Rhiw. Mae olion rhai o'r strwythurau hyn i'w gweld hyd heddiw.
- 10.3.20 Dros y canrifoedd felly, mae ein hiaith a'n diwylliant diddorol a chyfoethog wedi ffynnu law yn llaw ac maent yn cyfrannu yn fawr at gymeriad yr AHNE a ffordd o fyw ein cymunedau hyd heddiw.

Materion Allweddol

10.4 Allfudo Pobl Ifanc

- 10.4.1 Un o'r prif bynciau llosg o ran yr effaith ar iaith a diwylliant Llŷn yw'r tueddiad ymysg nifer o bobl ifanc i fudo o'r ardal. Mae hyn am nifer o resymau gwahanol megis diffyg cyfleon gwaith addas, gadael i astudio cyrsiau addysg bellach ac hefyd yr apêl i brofi bywyd mewn trefi a dinasoedd. Os oes dymuniad gan bobl leol i fyw a gweithio yn yr ardal, mae'n bwysig ceisio sicrhau fod cyfleoedd ar gael iddynt ac amrywiaeth o swyddi a chysiau amrywiol ac addas. Mae'n bwysig hefyd codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc am fanteision byw yn lleol.

10.5 Mudo i'r Ardal

10.5.1 Ceir nifer o deuluoedd o ardaloedd eraill yn penderfynu symud i Lŷn. Mae pobol yn ymddeol a dod i Lŷn i fyw hefyd - mae astudiaethau yn dangos fod y bobl yma yn aml wedi treulio gwyliau yn yr ardal neu yn berchen ar dŷ haf yma. Mae hyn yn effaith nid yn unig yn ieithyddol, ond hefyd yn effaith ar ddiwylliant neu hanes lleol hefyd. Dylid sicrhau fod mentrau ar gael i fewnfudwyr chwarae rhan yn y gymuned, bod yn ymwybodol o'r hanes a'r diwylliant a'u pwysigrwydd, a dysgu'r Gymraeg.

10.6 Twristiaeth

10.6.1 Er bod twristiaeth i'w groesawu i'r ardal, mae astudiaethau yn y gorffennol wedi dangos fod cysylltiad rhwng twristiaeth, mewnfudo i'r ardal a gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Buasai mentrau i gyfyngu effaith niweidiol twristiaeth ar yr iaith a'r diwylliant a chodi ymwybyddiaeth o fudd.

10.7 Atyniadau Modern

10.7.1 Bellach mae llawer o wahanol gyfleon hamdden a chwaraeon ar gael gan olygu fod llai o fynd i'r capeli a'r eglwysi a bod rhai o'r hen arferion yn mynd yn angof. Mae angen rhagor o fentrau sy'n cryfhau apêl hanes a diwylliant cynhenid yr ardal, a hynny i drigolion ac ymwelwyr. Buasai o fudd rhoi mwy o gefnogaeth i weithgareddau traddodiadol megis y treialon cŵn defaid a'r Ras Aredig flynyddol.

10.8 Y Cyfryngau

10.8.1 Mae ffilmiau, rhaglenni teledu amrywiol a'r we fyd eang yn dylanwadu'n fawr ar ddiddordebau plant, pobol ifanc ac oedolion. Mae cyfle yma i ddatblygu mentrau i gyfleu hanes a diwylliant lleol mewn modd atyniadol a chynnig cefnogaeth i weithgareddau Cymraeg a Chymreig. Mae cyfle hefyd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Nifer o siaradwyr Cymraeg, Cymunedau'r AHNE (%)

Cymuned	1981	1991	2001	2011
Aberdaron	89.5	77.1	76.6	74.2
Botwnnog	85.5	81.5	78.3	75.9
Buan	82.1	75.1	74.1	74.3
Clynnog	80.3	72.6	69.3	73.2
Llanaelhaearn	90.9	83.4	81.1	73.8
Llanbedrog	73.2	53.5	55.6	54
Llanengan	71.5	63.0	59.8	63.4
Nefyn	84.5	77.8	78.6	76.1
Pistyll	85.7	78.0	74.9	-
Tudweiliog	86.4	84.9	75.0	73.9

Polisiau

IP 1. CEFNOGI GWEITHGAREDDAU ADLONIADOL A DIWYLLIANNOL YN YR IAITH GYMRAEG.

Ceir nifer o weithgareddau yn yr ardal yn amrywio o Eisteddfodau, sgysiau a darlithoedd i dreialon cŵn defaid ac ati. Maent oll yn ddigwyddiadau pwysig o ran cynnal a hyrwyddo'r diwylliant a'r iaith Gymraeg ac yn werthfawr o ran lles cymdeithasol trigolion yr ardal. Yn ddiweddar gwelwyd enghreifftiau da o gymunedau y ailafael mewn digwyddiadau traddodiadol oedd wedi edwino megis dathlu Gŵyl Ifan. Oherwydd eu pwysigrwydd o ran cynnal diwylliant a hanes bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid yn cefnogi gweithgareddau o'r fath trwy wahanol ffyrdd ac yn codi ymwybyddiaeth amdanynt.

IP 2. HYRWYDDO DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YMYSG BUSNESAU A SEFYDLIADAU YN LLŶN.

Er fod llawer o fusnesau a chwmnïau lleol yn defnyddio'r Gymraeg, credir fod cyfle i annog eraill i roi mwy o sylw a blaenoriaeth i'r Gymraeg o ran arwyddion, hysbysebion, safleoedd gwe ac ymysg staff. Mae hyrwyddo ac annog busnesau a sefydliadau'r ardal i ddefnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig er mwyn ei pharhad fel prif iaith yr ardal a chynnal cymeriad Cymreig yr ardal. Hefyd, bydd ei hyrwyddo ymysg ymwelwyr i'r ardal yn amlygu ein diwylliant a'n treftadaeth arbennig.

IP 3. CODI YMWHYBYDDIAETH AM ELFENNAU O DDIWYLLIANT ARBENNIG YR ARDAL.

Nid mewn llyfrau yn unig mae cofnod o'n diwylliant, mae lluniau, ffotograffau, ffilmiau ac atgofion o bob math hefyd yn bwysig. Bydd Gwasanaeth AHNE Llŷn a phartneriaid eraill fel Amgueddfa Forwrol Llŷn, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Oriol Plas Glyn y Weddw yn cefnogi mentrau i gofnodi ein diwylliant unigryw a'i rannu ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

IP 4. DATHLU DIWYLLIANT A THRADDODIADAU'R ARDAL TRWY GELF, LLENYDDIAETH A BARDDONIAETH.

Yn ogystal â chofnodi agweddau o'n hanes, diwylliant a thraddodiadau mae'n bwysig eu dathlu trwy gelf, llenyddiaeth a barddoniaeth. Mae llawer yn digwydd ar hyn o bryd - yn amrywio o'r Eisteddfodau lleol i wyliau celf, arddangosfeydd a chystadlaethau. Mae Gwasanaeth AHNE Llŷn, Cyngor Gwynedd a phartneriaid eraill yn awyddus i weld ffyniant gweithgareddau o'r fath ac am eu cefnogi trwy wahanol ddulliau yn cynnwys cefnogaeth ariannol os bydd cyllid ar gael.

IP 5. CODI YMWHYBYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG A'R CYFLEON I'W DYSGU.

Llŷn yw un o'r ardaloedd gyda'r canran mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae'r iaith yn rhan greiddiol o gymeriad yr ardal. Felly, yn ogystal â chefnogi gweithgareddau ymysg siaradwyr presennol mae'n bwysig sicrhau cyfleon i ddysgu Cymraeg a dysgu am ein diwylliant i bobl sydd unai yn ymweld â'r ardal neu yn mudo yma.

Ceir amryw o gyfleoedd megis trwy cyrsiau coleg addysg bellach, cyrsiau Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn a mentrau lleol. Anelir i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd hynny drwy wahanol ddulliau fel hysbysebion, sesiynau blasu, erthyglau mewn cylchgronau, dyddiau agored ac ati.

11. POBOL A CHYMDEITHAS

Ffeithiau Allweddol

Mae poblogaeth yr AHNE wedi cynyddu 4% ers 2001 ac erbyn 2011 roedd yn 6,108
Mae poblogaeth yr AHNE yn adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio, gyda'r gyfran fwyaf o bobl rhwng 60-74 oed.
Bu gostyngiad yn y rhai wedi eu geni yn yr AHNE o 12.6% rhwng 1981 a 2011.
Bu gostyngiad ym mhrisiau tai yn yr AHNE ac eithrio ardaloedd Morfa Nefyn a Thudweiliog.
Mae'r nifer o deuluoedd gyda phlant dibynnol yn yr AHNE wedi parhau'n sefydlog ers 2001
Mae lefelau o bobl gyda salwch cyfyngus hirdymor wedi gostwng yn yr AHNE ers 2001, yn unol â'r gostyngiad cenedlaethol.
Mae gostyngiad bychan wedi bod yn yr AHNE yn lefelau amddifadedd ers 2005

11.1 Cyflwyniad

- 11.1.1 Beth yw ardal heb ei phobol? Mae pobol leol Llŷn a'r gymdeithas y maent yn eu ffurfio yn rhan greiddiol o gymeriad yr ardal. Fel y tirlun naturiol hardd a'r cyfoeth o fywyd gwyllt mae'r gymdeithas a'i phobol yn nodwedd unigryw o'r Penrhyn ac mae'r Cynllun Rheoli yn adnabod hynny. Y gobaith yw y gall y Cynllun chwarae rhyw ran tuag at warchod a chynnal cymunedau cynhenid Llŷn yn ogystal â chynorthwyo mewnfudwyr i ddysgu am ei hanes, diwylliant a'r iaith a dod yn rhan o'r gymuned.
- 11.1.2 Yn ogystal â chynnal iaith a diwylliant unigryw'r ardal mae'r gymdeithas hefyd wedi cynnal ac ychwanegu at amgylchedd naturiol yr ardal fel trin y tir, cynnal coed, codi a chynnal cloddiau a waliau cerrig. Hefyd mae crefftwyr adeiladu lleol fel seiri coed a seiri maen yn bwysig, y bobl yma sydd wedi adeiladau a chynnal adeiladau traddodiadol yr ardal.
- 11.1.3 Wrth gwrs mae lles ac amgylchiadau byw pobol leol yn bwysig yn ogystal â'r gymdeithas yn gyffredinol. Felly mae'r rhan hwn o'r Cynllun Rheoli hefyd yn rhoi sylw i anghenion sylfaenol o ran cartrefi, gwasanaethau a chyfleusterau - materion sy'n dylanwadu ar les a safon byw'r boblogaeth yma yn Llŷn.
- 11.1.4 At bwrpas y Cynllun Rheoli fe osodir y Brif Nod ganlynol o ran Pobol a Chymdeithas:

Prif Nod

HYBU CYMUNEDAU MWY HYFYW GYDA DARPARIAETH O DAI, CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU AR GAEL YN LLEOL.

Nodweddion Arbennig

11.2 Y boblogaeth yn gyffredinol

11.2.1 Fel nodwyd, mae pobol Llŷn a'r gymdeithas y maent yn eu ffurfio yn rhan greiddiol o gymeriad yr AHNE. Mae'n bwysig felly fod y Cynllun hwn yn rhoi sylw i amgylchiadau pobl a'r materion allweddol sydd yn effeithio arnynt.

11.2.2 Gyda 71.8% o boblogaeth cymunedau'r AHNE yn siaradwyr Cymraeg, maent yn cynnal iaith a diwylliant unigryw'r ardal. Mae'r gymdeithas hefyd wedi cynnal ac ychwanegu at amgylchedd naturiol yr ardal gydag amryw o grefftwyr a gweithwyr gyda sgiliau arbenigol.

11.2.3 Dengys adroddiad diweddar ar Gyflwr yr AHNE (2014), fod poblogaeth yr ardal wedi cynyddu o 4% ers 2001 a bellach yn cyrraedd 6,108. Nodweddir y boblogaeth gan bobl sy'n heneiddio, gyda'r gyfran fwyaf rhwng 60 a 74 oed. Mae'r ffaith fod pobol yn byw yn hŷn yn rhannol gyfrifol am hyn ond hefyd mae natur y boblogaeth yn newid oherwydd mudo. Ceir allfudiad cyson o bobl ifanc sydd wedi eu geni a'u magu yn yr ardal. Amlygwyd y prif resymau am hyn yn y Cynllun blaenorol mewn astudiaeth gan Brifysgol Cymru Bangor, i fudo yng Ngwynedd a Môn. Ni ragwelir unrhyw newid yn y rhesymau a restrir isod:

- lleihad mewn swyddi yn y diwydiannau traddodiadol
- diffyg cyfleon cyflogaeth newydd
- diffyg cyfleoedd addysgol
- dymuniad am ffordd wahanol o fyw (e.e. mewn tref)
- dymuniad i fyw mewn man penodol.

11.2.4 Mae ffactorau amrywiol yn denu pobol sydd wedi eu geni a'u magu yma i adael— materion fel cyfleon addysg, swyddi, bywyd y ddinas a chysylltiadau teuluol/ ffrindiau.

11.2.5 Ar y llaw arall mae pobol a theluoedd yn symud i mewn i'r ardal. Mae ffigyrau yn dangos fod cyfran uchel o'r rhai sy'n symud i'r ardal yn bobl wedi ymddeol ond yn fwy diweddar gwelwyd cynnydd mewn teluoedd ifanc a chanol oed. Yn 2011, datganwyd mai 65.9% o boblogaeth yr AHNE oedd wedi eu geni yng Nghymru – mae hyn wedi gostwng dros y tri chyfrifiad diwethaf, gan ddangos bod mewnfudo ar gynnydd.

11.2.6 Pobol o wahanol rannau eraill o Gymru a Phrydain yn bennaf yw'r rhai sy'n dod yma i Llŷn ond mae rhai o leiafrifoedd ethnig yn ogystal. Yn gyffredinol mae dwy garfan o bobl yn tueddu i fewnfudo i'r ardal sef pobol hŷn yn dod i ymddeol a theluoedd yn dewis newid ffordd o fyw ac yn gadael ardaloedd trefol i fyw yng nghefn gwlad.

11.3 Cyfalaf Cymdeithasol yn Llŷn

11.3.1 Y term a ddefnyddir i grynhoi'r patrymau a'r cysylltiadau sy'n bodoli

mewn cymdeithas a'r gwahanol werthoedd sydd yn uno pobol at ei gilydd yw cyfalaf cymdeithasol neu "social capital". Po gryfaf ydi'r rhyngberthynas rhwng pobol â'i gilydd yna cryfaf yn y byd yw'r ymdeimlad o ysbryd cymunedol.

11.3.2 Mae'r cysylltiadau cymdeithasol dan sylw yn cynnwys ymdeimlad o berthyn a chymdogaeth, patrymau cymdeithasol a chyfranogiad mewn digwyddiadau. Dengys astudiaethau fod cyfalaf cymdeithasol yn bwysig a bod cysylltiad rhwng y lefelau hyn ac iechyd pobol, cyraeddiadau addysgol, llwyddiant o ran cyflogaeth a lefelau o droseddu. Gall mesur cyfalaf cymdeithasol fod yn gymhleth ac fel arfer bydd hyn yn cael ei wneud ar sail arolygon barn sydd yn gofyn cwestiynau megis:

- lefel o ymddiriedolaeth, ydi'r gymdogaeth yn un ddiogel?
- lefelau aelodaeth o grwpiau, cymdeithasau neu glybiau;
- cysylltiadau gyda chyfeillion a theulu.

11.3.3 Wrth adolygu'r Cynllun hwn nid oedd yn bosibl cynnal arolygon penodol i archwilio i gryfder y cyfalaf cymdeithasol yma yn Llŷn ond mae gwybodaeth gyffredinol yn awgrymu ei fod yn gryf iawn. Y prif faterion sydd yn awgrymu hyn yw:

- Ar y cyfan mae'r gymdogaeth yn un lle mae rhyngweithio da a lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng cymdogion. Mae lefelau troseddu yn isel yn yr ardal.
- Mae lefel uchel o aelodaeth grwpiau, cymdeithasau a chlybiau – megis Merched y Wawr, Cymdeithasau Capeli/Eglwysi, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Clwb Chwaraeon, Clybiau Llenyddol a Chymdeithasol ayb;
- Mae cysylltiad cryf rhwng pobol, cyfeillion a theuluoedd a llawer yn adnabod ei gilydd ac yn ymwybodol o gysylltiadau teuluol;
- Mae carfannau yn amlwg yn y gymuned yn Llŷn. Mae hyn yn arbennig o wir am y pentrefi llai lle mae pawb yn tueddu i adnabod ei gilydd a theimlad o berthyn yn gryf. Hefyd mae perthynas gref rhwng pobol yn yr un math o waith - megis ffermwyr, adeiladwyr, athrawon a.y.b.

11.4 Cynnal Iaith a Diwylliant

11.4.1 Trigolion Llŷn sydd wedi bod yn gyfrifol am gynnal diwylliant arbennig yr ardal ar hyd y canrifoedd a chynnal yr iaith Gymraeg, sydd ynddynt eu hunain yn adnoddau pwysig ac yn faterion sydd wedi eu hadnabod fel rhai o rinweddau arbennig Llŷn yn y Cynllun hwn. Mae diwylliant yn rhywbeth eang iawn wrth gwrs ac yn cynnwys traddodiadau, hanesion, arferion, chwedlau ac ofergoelion. Rhoddwyd sylw llawn i ddiwylliant ac iaith fel nodweddion amlwg o Llŷn eisoes yn y Cynllun.

11.5 Arfer a Chynnal Sgiliau

11.5.1 Yn ogystal â hyn mae pobol Llŷn yn meddu ar sgiliau amgylcheddol a

gwledig allweddol sydd yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth a hefyd yn cael eu meithrin o'r newydd. Mae'r sgiliau hyn wedi bod o gymorth i greu a chynnal cymaint o nodweddion sy'n cael eu gwerthfawrogi heddiw - nodweddion megis cloddiau, waliau cerrig, adeiladau a strwythurau traddodiadol.

11.5.2 Y prif sgiliau gwledig gan bobol ardal Llŷn yw:

- Codi a chynnal cloddiau a waliau cerrig sych,
- Cynnal ac addasu adeiladau hanesyddol - gwaith coed, mortar calch, ail doi hefo llechi a.y.b.
- Dulliau amaethu traddodiadol e.e. cynnal caeau gwair, cynnal tiroedd gwlyb, cynnal gwrychoedd a choedlannau.
- Cynnal tiroedd yn gyffredinol a rheoli rhywogaethau ymledol.

11.6 Cyfleusterau Cymunedol

11.6.1 Mae cyfleusterau a gwasanaethau digonol yn bwysig ar gyfer meithrin cymdeithas ac ar gyfer cynnal cyfalaf cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae darpariaeth dda o gyfleusterau cymunedol traddodiadol megis neuaddau pentref ac adeiladau at ddefnydd cyhoeddus (e.e. adeiladau crefyddol) yn yr ardal. Mae rhain yn bwysig ar gyfer cynnal gweithgareddau megis cyfarfodydd, cynnal cyrsiau hyfforddiant, adloniant, digwyddiadau codi arian ac yn y blaen.

11.6.2 Yn ddiweddar mae llawer o'r adeiladu hyn wedi eu gwella a'u gwneud oherwydd eu pwysigrwydd mewn bywyd cymunedol y fro. Hefyd mae angen sicrhau fod yr adeiladau a'r cyfleusterau yn addas ar gyfer yr anabl a bod cyfleusterau effeithiol ar gyfer gwahanol weithgareddau modern, megis cyfrifiaduron a'r we.

11.6.3 Mae nifer o gyfleusterau hamdden yn yr ardal – ar gyfer poblogaeth leol ac ymwelwyr. Maent yn cynnwys cae pob tywydd Ysgol Botwnnog, Clwb Chwaraeon Bodegroes a Chanolfan Hamdden Dwyfor sy'n cynnig amryw o gyfleusterau hamdden yn cynnwys; pwll nofio, ystafell ffitrwydd, cyrtiau badminton, tennis a sboncen, cae pêl droed a maes ymarfer.

11.6.4 Ceir enghreifftiau hefyd o fentrau cydweithredol llwyddiannus yn ardal sy'n darparu gwasanaeth cymunedol fel Tafarn y Fic a Siop y Groes ym mhentref Llithfaen. Rhoddir sylw pellach i'r mater yma yn y bennod ar Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau.

Materion Allweddol

11.7 Allfudo Pobl Ifanc

11.7.1 Mae hwn yn bwnc sy'n effeithio'n fawr ar yr ardal. Caiff pobl ifanc eu denu o'r ardal am nifer o resymau. Ymysg y rhai mwyaf amlwg, mae diffyg swyddi, diffyg swyddi addas, gadael i astudio ac hefyd yr apêl i brofi bywyd

mewn trefi a dinasoedd. Oherwydd absenoldeb unrhyw sefydliad addysg bellach yn yr ardal a phwyslais cynyddol ar gymwysterau rhagwelir y bydd parhad yn y bobol ifanc sydd yn gadael yr ardal am resymau addysgol - gyda chanran gweddol uchel ddim yn dychwelyd i'r ardal.

11.7.2 Rhagwelir parhad hefyd yn y duedd i adael yr ardal i chwilio am waith fel mae cyfleon yn lleihau ymhellach yn y diwydiannau traddodiadol a'r tebygolrwydd o unrhyw ddiwydiant cynhyrchu yn sefydlu yn yr ardal yn annhebygol.

11.7.3 Os oes dymuniad gan bobl leol i fyw a gweithio yn yr ardal, mae'n bwysig ceisio sicrhau fod cyfleoedd ar gael iddynt ac amrywiaeth o swyddi a chyrsgiau amrywiol ac addas ar gael. Rhoddir mwy o sylw i hyn yn y bennod ar Gwaith, Cynnyrch a Sgiliau. Credir hefyd fod lle i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc am y manteision o fyw yn lleol, neu ddychwelyd i'r ardal ar ôl cyfnod i ffwrdd.

11.8 Mudo i'r Ardal

11.8.1 Mae pobol wedi mudo i'r ardal hon ar wahanol gyfnodau dros y blynyddoedd ac roedd hynny yn creu amrywiaeth mewn cymdeithas. Yn hanesyddol dod yma i weithio yn y gweithfeydd mwyn neu chwareli fyddai pobol a daeth rhai adeg y rhyfel ond yn ddiweddar mae pobol yn symud i'r ardal oherwydd eu bod yn dewis newid ffordd o fyw. Mae mudo i'r ardal yn rhywbeth sy'n gallu dylanwadu ar wëad cymdeithas ac yn dylanwadu ar y defnydd o'r iaith a'r diwylliant sy'n rhan o gymeriad unigryw yr ardal.

11.8.2 Credir fod angen cymryd mesurau i godi ymwybyddiaeth pobol sy'n mudo i'r ardal o'r hanes a'r diwylliant a cheisio eu cymhathu gyda'r gymdeithas

11.9 Cartrefi Gwyliau a Phrisiau Tai

11.9.1 Mae sicrhau cartref addas yn bwysig i drigolion lleol. Gall trafferthion i gael tŷ neu lety addas fod yn rhan o'r rheswm pam fod rhai pobol yn gadael yr ardal.

11.9.2 Mae ail gartrefi/cartrefi gwyliau yn ffurfio rhan sylweddol o stoc dai'r ardal. Yn naturiol mae'r cyfanswm yn amrywio o ardal i ardal gyda'r nifer mewn mannau gwyliau poblogaidd megis Llanengan a Llanbedrog yn uchel. Hefyd mae cartrefi gwyliau yn creu cystadleuaeth ychwanegol am dai yn yr ardal ac yn dylanwadu ar brisiau tai. Yn sicr mae'r ffaith fod Llŷn yn ardal mor hardd ac atyniadol wedi cyfrannau at apêl cael cartref gwyliau yma.

11.9.3 Er fod ffigyrau yn dangos fod gostyngiad wedi bod ym mhrisiau tai ym mhob un o ardaloedd Llŷn rhwng 2008 a 2013, ag eithrio plwyfi Aberdaron, Morfa Nefyn a Thudweiliog mae prisiau tai yn parhau yn uchel – yn enwedig o ystyried cyflogau lleol. Mae rhai cynlluniau wedi

bod i gynorthwyo pobol leol fodd bynnag gan wahanol asiantaethau megis Cyngor Gwynedd a datblygwyr preifat i ddarparu tai fforddiadwy. Mae cynorthwyo pobol leol i sicrhau tai yn lleol yn bwysig ac mae hyrwyddo cynlluniau sy'n cynorthwyo pobol i brynu neu rentu am brisiau rhesymol yn rhan o hyn.

- 11.9.4 Rhwng 1997 a 2003 roedd 96.9% o gynnydd ym mhrisiau tai Gwynedd i'w gymharu â 84.8% ar gyfer Cymru. Mae gwybodaeth ddiweddarach yn dangos fod prisiau tai yn ardal Llŷn yn wedi gostwng mewn rhai ardaloedd – gan ddilyn patrwm cenedlaethol. Ni chafwyd gwybodaeth mwy diweddar am brisiau tai lleol ond yr argraff yw fod prisiau wedi cynyddu yn raddol yn y rhan fwyaf o ardaloedd a chynyddu yn sylweddol mewn pentrefi arfordirol poblogaidd.

11.10 Tai Gwag

- 11.10.1 Mae gwybodaeth yn Adroddiad i Gyflwr yr AHNE (2014) yn dangos fod gan y ddwy ardal o'r AHNE (gorllewin a dwyrain) ar gyfartaledd fwy o dai gwag na Gwynedd a Chymru. Hefyd mae gwahaniaeth mawr rhwng nifer y cartrefi gwag yn yr ardal ddwyreiniol (19.7% heb breswylwyr arferol) a'r ardal orllewinol (36.7% heb breswylwyr arferol). Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu cynllun Tai Gwag ac efallai fod cyfle i hyrwyddo y cynllun yn benodol yn ardal Llŷn oherwydd y canran uchel o dai gwag a photensial hynny i gyfrannu tuag at gartrefi i bobol leol.

11.11 Amddifadedd Gwledig

- 11.11.1 Gwelwyd lleihad dros y degawdau diwethaf mewn gwasanaethau a chyfleusterau ar y Penrhyn - megis siopa, swyddfeydd post, tafarndai, modurdai ayb, yn enwedig pentrefi ac ardaloedd mwyaf gorllewinol. Hefyd bu toriadau ariannol yn y sector gyhoeddus i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau, gydag ymdrechion i gyflawni arbedion.
- 11.11.2 Nefyn, Abersoch a Phwllheli yw'r prif ganolfannau sy'n cynnig gwasanaethau i bobl yr AHNE. Mae mannau fel Botwnnog, Morfa Nefyn a Llanbedrog yn cynnig lefel gymedrol o wasanaeth, tra mae gwasanaethau yn brin iawn yn ardaloedd gwledig iawn fel Ceidio, Dinas a Llangwennadl. Mae gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau penodol ym mhob ardal yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2015).
- 11.11.3 O ran y gwasanaethau sydd ar gael, mae natur wledig yr ardal heb os yn effeithio ar y rheiny. Mae ystadegau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) yn dangos hyn. Gyda phoblogaeth wasgarog sy'n heneiddio, mae mynediad at wasanaethau pwysig yn gallu bod yn anodd, ac mae cynlluniau yn yr ardal megis gwasanaeth O Ddrws i Ddrws yn adnodd pwysig i ymateb i anghenion.

11.12 Tlodi Tanwydd

- 11.12.1 Yn ôl amcangyfrifon diweddaraf, mae tua 23% o holl aelwydydd Cymru yn

dioddef tlodi tanwydd ac mae'n bwysig i drigolion yr ardal dderbyn pob cefnogaeth i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol yn eu cartrefi a helpu i ddygymod yn well ag unrhyw gynnydd ym mhrisiau ynni yn y dyfodol. Mae cynlluniau perthnasol megis Cynllun Cartrefi Clyd – Nyth gan Lywodraeth Cymru yn bwysig yn y cyd-destun hwn a dylid eto sicrhau fod digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gael yn lleol. Mae hyn yn arbennig o wir yn dilyn diwedd y cynllun Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal.

Polisiau

CP 1. CYNNAL A GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL LLEOL A'U GWNEUD YN FWY ADDAS I'R ANABL AC YN FWY YNNI EFFEITHIOL.

Mae'n bwysig fod gan y cymunedau lleol fannau hwylus i gyfarfod a chynnal gweithgareddau cymdeithasol. Drwy waith caled mae llawer o welliannau wedi eu gwneud yn y blynyddoedd diwethaf ond mae lle i wella rhai mannau eto a bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill yn gefnogol i gynlluniau i wella cyflwr adeiladau a'u gwneud yn fwy ynni effeithiol yn ogystal â gwella mynediad/cyfleusterau i rai anabl.

CP 2. HYRWYDDO CYMUNEDAU LLEOL I GYFRANNU AT OFALU Y DREFTADAETH LEOL YN CYNNWYS YMGYMRYD Â GWAITH GWIRFODDOL.

Yn sicr mae gan gymunedau ddiddordeb mewn hanes a threftadaeth lleol o ystyried faint o sgysiau, arddangosfeydd ac ati sy'n cael eu cynnal a faint sy'n mynd iddynt. Fodd bynnag, nid oes llawer o waith ymarferol a gwirfoddol yn cael ei wneud ar hyn o bryd er fod rhai nodweddion fel ffynhonnau hanesyddol wir angen gwaith cynnal cyson. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn cydweithio efo eraill i geisio hybu diddordeb yn y maes yma gyda'r gobaith o sefydlu cymdeithas neu sefydliad debyg i arwain ar waith cadwraeth ymarferol yn Llŷn.

CP 3. CODI YMWHYBYDDIAETH POBOL IFANC AM Y CYFLEON SY'N BODOLI A BUDDION ERAILL O FYW YN LLEOL.

Mae ffigyrau yn dangos fod llawer o bobol ifanc yn gadael yr ardal am resymau yn cynnwys addysg, gwaith, profiadau newydd ayb. Wrth gwrs mae'n bwysig fod pobol ifanc yn cael addysg a phrofiadau newydd ond credir fod lle i godi ymwybyddiaeth am fanteision byw yn lleol a hefyd y cyfleon i ddychwelyd i'r ardal yn nes ymlaen.

CP 4. ADFER AC AIL-DDEFNYDDIO TAI GWAG YN YR ARDAL.

Yn sicr mae pobol leol yn cael trafferth i gystadlu yn y farchnad dai oherwydd prisiau uchel a chyflenwad cyfyngedig. Mae ymchwil wedi dangos fod canran uwch na'r cyfartaledd o dai gwag yn Llŷn ac fe allai'r tai yma gyfrannau at ateb cyfran o'r angen lleol am dai. Mae gan Gyngor Gwynedd gynllun Tai Gwag ers rai blynyddoedd bellach sydd yn rhoi cyngor ac arweiniad, grantiau, benthyciadau a gostyngiad Treth ar Werth. Hefyd mae gan Lywodraeth Cymru raglen Troi Tai'n Gartrefi sy'n rhoi benthyciadau di-log ar gyfer adfer ac ail-ddefnyddio tai gwag a Benthyciadau Gwella Cartref . Mae lle i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cynllun

yn yr ardal.

CP 5. GWNEUD TAI YN FWY YNNI EFFEITHIOL, ARBED YNNI A CHREU YNNI ADNEWYDDOL DOMESTIG.

Mae llawer o dai yr ardal yn rhai hanesyddol ac ddim yn effeithiol iawn o ran y defnydd o ynni. Oherwydd hynny maent yn fwy costus i'w cynhesu a llawer yn dibynnu ar olew, glo neu dân coed i'w cynhesu sy'n cyfrannu at allyriannau CO2. Mae costau ynni uchel yn cyfrannau at amddifadedd gwledig. Bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid eraill yn gefnogol i gynlluniau arbed ynni a chreu ynni adnewyddol domestig lle na fyddai hynny yn golygu addasiadau fyddai yn amharu ar gymeriad tai hanesyddol neu'r dirwedd.

CP 6. HYRWYDDO DARPARIAETH O DAI FFORDDIADWY LLE PROFIR FOD GWIR ANGEN LLEOL A SICRHAU FOD CYNLLUNIAU, DYLUNIADAU A DEUNYDDIAU YN GWEDDU I AMGYLCHEDD YR AHNE.

Gorau oll os yw pobol leol yn medru prynu neu rentu tai o'r stoc bresennol a gobeithio y gall tai gwag gyfrannu at hyn. Mewn rhai achosion fodd bynnag, yn enwedig mewn cymunedau lle mae prinder tai ar werth a phrisiau tai uchel, mae cyfiawnhad dros ddarparu tai fforddiadwy o'r newydd. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn gefnogol i fentrau i godi tai fforddiadwy newydd pan fo gwir angen a phan fo'r cynllun yn gweddu i dirlun arbennig yr AHNE o ran lleoliad a dyluniad.

CP 7. CYNORTHWYO POBOL SY'N MUDO I'R ARDAL I DDYSGU AM HANES A DIWYLLIANT YR ARDAL A DYSGU'R IAITH GYMRAEG.

Mae pobol wedi symud i ardal Llŷn ar hyd dros wahanol gyfnodau ac wedi cyfrannau at greu y gymuned sydd ohoni heddiw. Credir ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth mewnfydwyr o hanes, diwylliant a thraddodiadau yr ardal trwy amrywiol ffyrdd. Hefyd fod pwyslais yn cael ei roi ar ddysgu ac ymarfer yr iaith Gymraeg sydd yn rhan mor bwysig o gymeriad yr ardal hon. Eisoes mae nifer o gynlluniau a mentrau da yn gweithredu yn y maes yma yn cynnwys Cyngor Gwynedd gyda'r pwyslais a roddir ar addysg drwy'r Gymraeg.

12. CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG

Ffeithiau Allweddol

Roedd lefelau diweithdra yn is yn yr AHNE nag ar gyfer Gwynedd a Chymru.
Roedd lefelau hunangyflogaeth yn sylweddol uwch na'r lefel yng Ngwynedd Chymru.
Roedd swyddi mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth yn cyfrif am ychydig dros 8% o gyfanswm cyflogaeth, tra bod y sector twristiaeth yn cyfrif am ychydig dros 17%.
Roedd gwariant ymwelwyr yn yr AHNE wedi cynyddu 5% ers 2006
Bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr i'r AHNE o 17%.
Bu gostyngiad yn y nifer o ymwelwyr dydd.
Roedd gostyngiad mewn ymwelwyr yn aros mewn llety gwasanaethol.
Roedd gostyngiad o 12% yn y bobol a gyflogir yn y sector dwristiaeth ers 2006

(Ffigyrau 2011 wedi eu haddasu ar gyfer ardal yr AHNE)

12.1 Cyflwyniad

- 12.1.1 Mae gweithgareddau economaidd yn yr AHNE a'r ardal gerllaw yn bwysig oherwydd eu dylanwad uniongyrchol ar rinweddau arbennig ardal – er gwell ac er gwaeth. Yn ogystal, mae gweithgareddau economaidd yn creu cynnyrch, cynnal sgiliau a chreu swyddi ac felly yn cynnal y gymdeithas leol. Pan fo diffyg cyfleon cyflogaeth digonol a/neu gyflogau isel bydd cynnydd yn y nifer o bobl yn gadael yr ardal i chwilio am waith. Fel sy'n gyffredin i ardaloedd gwledig eraill o Gymru wledig mae llawer o bobl ifanc yn gadael yr ardal. Mae colli aelodau o gymdeithas, yn cynnwys aelodau wedi eu haddysgu yn dda, yn tlodi cymdeithas.
- 12.1.2 Mae'r economi yn Llŷn yn gymharol wan gyda lefelau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y pen a gweithgarwch economaidd yn llawer yn is na'r cyfartaledd Prydeinig ac Ewropeaidd. Nid oes ystod eang o gyfleon gwaith yn yr ardal ac yn gyffredinol mae lefel cyflogau'n isel. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn cymdeithas sydd yn dlotach o ran enillion a lefelau uwch o amddifadedd. Mae'r ffaith fod angen teithio at wasanaethau a chyfleusterau hefyd yn cyfrannu at dlodi ac amddifadedd.
- 12.1.3 Mae cryn ddibyniaeth ar ddiwydiannau traddodiadol, diwydiannau gwasanaeth a gweinyddu ac nid oes cwmnïau a gweithfeydd mawr yn Llŷn. Mae'r cyfleon gwaith yn yr ardaloedd gwledig yn gyfyngedig iawn a llawer yn teithio i ganolfannau megis Pwllheli, Caernarfon a Bangor am waith, gwasanaethau a nwyddau.
- 12.1.4 At bwrpas yr adolygiad o'r Cynllun Rheoli derbyniwyd gwybodaeth am faterion economaidd a chymdeithasol drwy ymchwil gan gwmni Land Use Consultants. Casglwyd y wybodaeth o Gyfrifiad 2011 yn ogystal â gwybodaeth twristiaeth STEAM. Lle'r oedd hynny'n bosibl fe

gynhwyswyd gwybodaeth ar lefel Gwynedd a Chymru gyfan er mwyn cymharu.

- 12.1.5 Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod cynnydd wedi bod yn y gyfran o'r boblogaeth oed gweithio sy'n economaidd weithredol ar draws AHNE Llŷn. Yng nghyfrifiad 2001, roedd y nifer o bobl sy'n economaidd weithredol yn is na Gwynedd a Chymru, ond mae hyn wedi newid bellach. Yr adran ddwyreiniol o'r AHNE sydd wedi dangos y cynnydd mwyaf, gyda'r chynnydd o 11.9% yn y gyfran o bobl sy'n economaidd weithredol. Gweler Ffigur 5.6 yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2014).
- 12.1.6 Yn ogystal â gostyngiad yn y gyfran o bobl oedd yn ddi-waith, mae ychydig o newid wedi bod yng nghyfansoddiad y boblogaeth sy'n ddi-waith ers 2001. Gwelwyd gostyngiad yn y rhai oedd y wael/ anabl hir-dymor a chynnydd bychan yn y rhai oedd yn edrych ar ôl cartref neu aelod o'r teulu. Pobl wedi ymddeol yw'r mwyafrif o boblogaeth y bobl mewn oed gwaith sydd yn economaidd anweithredol a gwelwyd cynnydd yn y sector yma. Gweler Ffigur 5.7 yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2014).
- 12.1.7 Dengys yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE hefyd fod lefelau llai o ddiweithdra tymor hir a thymor byr na lefelau Cymru ac fod lefelau hunangyflogaeth yn yr AHNE yn uwch na Gwynedd a Chymru.
- 12.1.8 Mae cael economi (ac yn fwy penodol gweithgarwch economaidd) wedi ei wreiddio'n lleol yn bwysig er mwyn rheoli ansawdd yr AHNE (mae angen iddynt fod yn dirluniau byw a chynaliadwy). Gellir mesur i ba raddau mae'r economi wedi ei gwreiddio yn lleol trwy ystyried ffactorau megis:
- Cyfran gwariant y trigolion sy'n mynd ar brynu nwyddau a gwasanaethau yn lleol (a ddehonglir fel arfer yn nhermau'r lluosydd economaidd);
 - Cyfran y gweithwyr sy'n lleol (gweler patrwm teithio i'r gwaith);
 - Cyfran y perchnogion sy'n byw'n lleol;
- 12.1.9 Yn ogystal, lle bo'r amgylchedd o safon uchel y mae gan ardal y potensial i ddenu ymwelwyr a bydd eu gwariant hwy hefyd yn bwysig.
- 12.1.10 At bwrpas Cynllun Rheoli yr AHNE fe osodwyd yr isod fel Prif Nod o ran Cynnyrch a Sgiliau:

Prif Nod

HYRWYDDO A CHEFNOGI GWEITHGAREDDAU ECONOMAIDD ADDAS FYDD YN DOD A BUDD I'R CYMUNEDAU LLEOL AR YR AMOD NA FYDDENT YN AMHARU AR AMGYLCHEDD NATURIOL YR ARDAL.

Nodweddion Arbennig

12.2 Amaeth

- 12.2.1 Mae amaethu wedi bod ar diroedd Llŷn ers canrifoedd lawer. Mae'n debyg mai tir coediog oedd y penrhyn yn wreiddiol, ac eithrio'r tiroedd uchel, ond yn sgil amaethu fe dorwyd llawer o'r coed a chrëwyd terfynau i reoli tir a stoc. Dros y canrifoedd codwyd terfynau mwy cadarn i reoli'r tiroedd, - waliau cerrig sychion neu gloddiau. Mewn rhai mannau plannwyd coed drain hefyd i greu gwrychoedd. Roedd y caeau cynnar hyn yn eithaf bychan – llawer yn gysylltiedig gyda bythynnod neu ffermydd. Mae'r patrwm caeau hanesyddol i'w weld yn glir mewn rhai ardaloedd fel Rhiw ac Uwchmynydd a'r ffiniau yn bwysig o ran edrychiad y tirlun, hanes, diwylliant a bywyd gwylt.
- 12.2.2 Yn draddodiadol ffermydd cymysg oedd yn Llŷn yn magu anifeiliaid amrywiol, tyfu cnydau a chadw ieir neu wyddau ayb. Roedd llawer yn cynhyrchu llaeth hefyd ac yn sgil hynny a sefydlwyd Hufenfa De Arfon yn ôl yn 1938i brosesu'r cynnyrch, mae'r Hufenfa yn parhau'n weithredol hyd heddiw ac yn gyflogwr pwysig yn yr ardal. Yn sgil uno â'r Farchnad Gyffredin yn 1973 daeth mwy o bwyslais ar gynhyrchu cynnyrch unigol a gwelwyd tueddiad i arbenigo mewn un math o ffermio – mae'r tueddiad hyn wedi parhau hyd at y presennol.
- 12.2.3 Dechreuwyd rhoi mwy o bwyslais ar faterion amgylcheddol o ddiwedd yr 1980au ymlaen a gwelwyd sefydlu cynlluniau grant amaeth amgylchedd fel yr Ardal Amgylchedd Arbennig (ESA), Tir Gofal a Thir Cymen. Erbyn hyn mae cynllun Glastir yn weithredol dros Gymru gyfan ac yn seiliedig ar warchod a chynnal cynefinoedd, bioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol.
- 12.2.4 Mae cyfran helaeth o Llŷn yn dir amaethyddol da ac mae safon y stoc yn gyffredinol uchel. Mae'r ardal yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol o safon uchel – yn cynnwys cig oen, cig eidion, llaeth a chig moch. Mae cyfran i'r cynnyrch yma yn cael ei werthu yn lleol trwy werthu yn uniongyrchol neu trwy gyflenwi siopau bychan ond mae llawer iawn yn gadael yr ardal hefyd. Nid oes llawer o gynhyrchu llysiâu, ffrwythau a chigoedd mwy prin e.e. carw yma ac mae'n ymddangos fod cyfle i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol mwy amrywiol yn yr ardal yn ogystal â defnyddio mwy o gynnyrch yn lleol. Gallai hynny gynnig buddion economaidd ac amgylcheddol.
- 12.2.5 Er mwyn parhau yn hyfyw ac amserol bydd raid i ffermydd addasu – bydd hynny yn cynnwys datblygiadau newydd i wella effeithlonrwydd, addasu ar gyfer peiriannau newydd ayb. Mewn rhai achosion bydd angen adeiladau a strwythurau newydd a dylid rhoi sylw manwl yn yr AHNE i geisio sicrhau fod y rhain yn ymdoddi i'r tirlun trwy fesurau megis lleoliad addas, maint, deunyddiau, lliwiau a thirlunio.
- 12.2.6 Mae Amaethyddiaeth yn parhau i fod yn gyflogwr pwysig yn yr ardal er fod yr Adroddiad o Gyflwr yr AHNE (2014) yn dangos fod cyflogaeth mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth wedi gostwng. Mae'r gymhariaeth o

gyflogaeth ym mhob sector yn dangos fod amaeth a choedwigaeth yn darparu 8.5 % o gyflogaeth (o gyfrifiad 2011) tra mae swyddi yn ymwneud â thwristiaeth yn 17.5% o gyflogaeth (o STEAM 2012).

- 12.2.7 Yn ogystal â chreu gwaith i amaethwyr a chynnal teuluoedd cefn gwlad mae'r diwydiant amaethyddol yn creu gwaith yn uniongyrchol i eraill – gweision a chontractwyr. Hefyd mae'r diwydiant yn cynnal llawer o fusnesau a swyddi cysylltiol eraill fel rhai sy'n cyflenwi'r diwydiant efo bwydydd anifeiliaid, offer ffensio, giataiu, peiriannau ayb. Yn ogystal, mae angen cynnal adeiladau presennol a chodi adeiladau newydd yn gyson felly darperir gwaith i adeiladwyr a chrefftwyr.
- 12.2.8 Mae ffermwyr a'u teuluoedd hefyd yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i gynnal hanes, diwylliant ac arferion cefn gwlad. Mae'n gymuned Gymraeg a Chymreig sydd yn cynnal arferion cefn gwlad, hanesion lleol, enwau caeau ac ardaloedd, tai fferm ac adeiladau hanesyddol, ffynhonnau. Mae sgiliau amaethyddol fel codi a chynnal waliau cerrig, cloddiau a rheoli tir yn bwysig iawn o ran amgylchedd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- 12.2.9 Maes arall lle mae amaethyddiaeth yn gwneud cyfraniad i'r AHNE yw trwy fentrau arallgyfeirio - creu incwm, cyflog ac ychwanegu gwerth ac adnodd ymwelwyr. Oherwydd y gwasgu ariannol a chefnogaeth y Llywodraeth mae nifer o ffermwyr yn Llŷn wedi arallgyfeirio i ddod ac incwm ychwanegol i'w busnesau. Y mentrau mwyaf cyffredin yw carafanau, addasu adeiladau allanol yn llety gwyliau a gweithgareddau awyr agored. Mae cynlluniau arallgyfeirio amaethyddol o gymorth i gynnal unedau fferm a chymunedau lleol a chynnal yr economi lleol ond mae angen gofal i reoli cynlluniau allai amharu ar rinweddau arbennig yr AHNE e.e. carafanau mewn mannau amlwg, gweithgareddau swnllyd neu addasiadau i adeiladau amaethyddol traddodiadol.

12.3 Coedwigaeth

- 12.3.1 Yn ystod y 1950au a'r 1960au roedd y Llywodraeth yn awyddus i gynhyrchu mwy o goed ym Mhrydain er mwyn bod yn fwy hunangynhaliol. Plannwyd llawer o goedlannau pinwydd ar diroedd uchel a thiroedd eraill o ansawdd isel yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae rhai o'r coedwigoedd pinwydd yn AHNE Llŷn sef ar Garn Fawr, Moel Penllechog, Nant Gwrtheyrn, ochrau Garn Boduan, Garn Fadrun, ardal y Rhiw a Glasfryn. Er nad yw coed pinwydd yn gynhenid i'r ardal maent wedi dod yn rhan o edrychiad y tirlun ac mae effaith weledol sylweddol pan mae'r coedwigoedd hyn yn cael eu torri a'r broses o ailblannu yn dechrau oherwydd bod hyn yn gadael y tirlun yn foel ac agored.
- 12.3.2 Ychydig o goedwigoedd cynhenid sydd yn yr AHNE ond maent yn ffurfio elfen bwysig o'r tirlun a'r amgylchedd naturiol. O ddiddordeb arbennig mae'r goedlan hynafol yn y Rhiw a choedlannau Cwm Gwared a Choed Eiernion. Mae'r coedlannau hyn wedi ei gwarchod gyda Gorchmynion Diogelu Coed yn ogystal â bod yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

12.3.3 O ran gwaith, ychydig mae'r coedwigoedd pinwydd yn ei ddarparu ac eithrio Glasfryn ger Llanaelhaearn sydd ychydig oddi allan i'r AHNE. Sefydlwyd Melin Goed a Chanolfan Ffensio Glasfryn yng nghanol yr 1990au ac mae'n cynhyrchu stanciau ffensio, giatiau, byrddau, meinciau, ffensys, coed tân ayb. Mae nifer o bobol leol yn gweithio yno.

12.4 Pysgota

12.4.1 Mae pysgota wedi bod yn weithgaredd pwysig yn Llŷn ar hyd y canrifoedd. Roedd dibyniaeth ar y cynnyrch morol fel ffynhonnell fwyd a hefyd fel rhywbeth i'w fasnachu. Yn ôl yr hanes roedd helfeydd mawr o rai pysgod yn y gorffennol – yn arbennig penwaig yn ardal Nefyn. Yn aml roedd y pysgod yn cael eu halltu er mwyn eu cludo i'r marchnadoedd. Mae llawer o hanesion a llên gwerin ynghlwm â'r diwydiant pysgota a bod y pysgotwyr hwythau, fel y ffermwyr wedi cynnal hanes a diwylliant lleol dros y blynyddoedd.

12.4.2 Erbyn heddiw y prif gynnyrch môr yw draenogiaid y môr, mecryll, crancod, cimychiaid, corgimychiaid a chregyn ("whelks"). Nid oes ffigyrau diweddar wedi eu cyhoeddi ar y diwydiant pysgota yn yr ardal hon ond mae dal pysgod, crancod a chimychiaid yn parhau'n weithgaredd poblogaidd, yn bennaf fel ffynhonnell incwm eilradd er fod rhai pysgotwyr llawn amser yn parhau. Er fod rhai pysgod a physgod cregyn yn cael eu gwerthu yn lleol i unigolion a bwytai y tueddiad yw i werthu'r cynnyrch i gwmnïau sydd yn eu cludo o'r ardal i'w gwerthu ymlaen. Felly mae llawer o gynnyrch môr lleol safonol yn gadael yr ardal, ac yn cael eu gwerthu yn aml am brisiau gweddol isel.

12.4.3 Ymddengys fod potensial i brosesu a defnyddio mwy o gynnyrch môr lleol yn Llŷn ac fod cyfleon economaidd ac amgylcheddol ynghlwm â hynny. Un datblygiad yn y maes yma yw'r prosiect gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda pysgotwyr cimychiaid a chrancod lleol i addasu beudai yng Nghwrt ger Aberdaron i ddatblygu cyfleusterau storio, oeri a prosesu cynnyrch môr gyda'r gobaith o gynyddu gwerth y cynnyrch..

12.5 Gwaith chwarel a chloddio mwyn

12.5.1 Bu chwarelydda a chloddio mwynau yn ddiwydiannau pwysig iawn yn Llŷn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Bryd hynny roedd nifer o chwareli ithfaen ar ochrau'r bryniau igneaidd sy'n britho'r ardal – manau fel Trefor, Nant Gwrtheyrn, Mynydd Nefyn a Thir y Cwmwd, Llanbedrog. Hefyd roedd cloddio mwynau yn ardal Llanengan a Bwlchtocyn (plwm yn bennaf) a manganîs yn ardal y Rhiw. Gellir darllen am y diwydiannau hyn mewn llyfrau hanes lleol.

12.5.2 Mae'r chwareli wedi cael effaith trawiadol ar dirlun a daeareg y penrhyn ond hefyd maent wedi darparu'r deunydd crai ar gyfer nifer helaeth o adeiladau

hanesyddol. Fe ellir dadlau fod cyfiawnhad i barhau i gynhyrchu rhyw gymaint o gerrig lleol er cynnal adeiladau ac er mwyn sicrhau fod adeiladau newydd mewn lleoliadau sensitif yn cyd-fynd ag adeiladau traddodiadol. Bellach dim ond dwy o'r chwareli ithfaen sy'n parhau i weithio yn yr Ardal Harddwch sef chwareli Trefor a Nanhoron. Cynhyrchu ar raddfa fechan ar gyfer y farchnad leol a wneir yn y ddwy chwarel felly maent yn darparu ar gyfer angen lleol ac yn cynnal rhai swyddi. Hefyd mae'r traddodiad o chwarelydda yn cael ei gynnal a rhai o'r hen sgiliau a thraddodiadau yn parhau.

- 12.5.3 Oherwydd sensitifrwydd yr AHNE, yr Arfordir Treftadaeth, bioamrywiaeth, olion archeolegol a'r effaith posibl pe byddai hen chwareli yn cael eu hailagor, bu i Gyngor Gwynedd osod Gorchymyn Gwahardd ar nifer o hen chwareli yn 2003.

12.6 Cwmnïau bach a hunangyflogaeth

- 12.6.1 Oherwydd natur wledig yr ardal mae traddodiad o fusnesau bach yn Llŷn. Mae llawer ohonynt yn cyflenwi anghenion aelwydydd neu fusnesau eraill yn arbennig amaethyddiaeth. Mae'r busnesau yma yn hollbwysig am eu bod yn cynnal unigolion a theuluoedd ac yn darparu ar gyfer anghenion y boblogaeth a busnesau eraill.

- 12.6.2 Mae hunangyflogaeth yn uchel yn yr ardal fel mae'r Adroddiad o Gyflwr yr AHNE 2014 yn ei gadarnhau. Mae'r sector yma yn cynnwys amaethwyr, contractwyr unigol, adeiladwyr a plymwyr, trydanwyr, seiri coed ayb. Eto mae'r bobol hyn yn darparu gwasanaeth i'r gymdeithas leol a rhai sydd yn berchen ar eiddo yn yr ardal yn ogystal â chynnal a chadw eiddo a thiroedd – yn cynnwys rhai adeiladau a strwythurau hanesyddol, cloddiau, walïau, llwybrau cefn gwlad ayb.

12.7 Mentrau Cydweithredol

- 12.7.1 Dros y blynyddoedd mae Llŷn ac Eifionydd wedi bod yn ardal lle gwelwyd nifer o fentrau cydweithredol yn sefydlu. Dyma enghraifft o gymuned yn cymryd camau i gynnal a darparu gwaith a gwasanaeth yn y gymuned pan nad yw cwmnïau neu unigolion yn gweld elw digonol o wneud hynny. Yr enghreifftiau amlycaf yn yr AHNE ei hun ydi Tafarn y Fic a Siop y Groes yn Llithfaen tra mae Hufenfa De Arfon ger Y Ffôr yn enghraifft pwysig sy'n darparu gwaith i lawer o ardal Llŷn.

12.8 Y Gwasanaethau Cyhoeddus

- 12.8.1 Mae nifer helaeth o boblogaeth yr ardal yn cael eu cyflogi yn y gwasanaethau cyhoeddus (awdurdod lleol, gwasanaeth iechyd, gwasanaeth tân ayb). Dros y blynyddoedd diweddar gwelwyd toriadau sylweddol mewn cyllidebau rhai o'r gwasanaethau hyn sydd wedi golygu llai o gyfleon swyddi yn lleol. Fodd bynnag, mae'r sector gyhoeddus yn parhau yn gyflogwr pwysig yn lleol ac mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn bwysig.

12.9 Twristiaeth

- 12.9.1 Mae'r diwydiant twristiaeth rhan bwysig o'r economi leol yn Llŷn, yn creu a chynnal swyddi ac yn cyfrannu at gynnal y cymunedau. Hefyd mae'r gwariant gan ymwelwyr yn hwb mawr i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol megis tafarndai, bwytai, caffis, gwestai, siopau a modurdai. Mae astudiaethau yn cadarnhau fod yr amgylchedd naturiol – y traethau, bryniau, llwybrau a bywyd gwylt yw prif yn rhan fawr o atyniad yr ardal. Y sialens yw cael cydbwysedd rhwng elwa o'r diwydiant ac osgoi gor-ddatblygiad fyddai'n amharu ar rinweddau arbennig ardal.
- 12.9.2 Yn ddiweddar gwelwyd symudiad cynyddol o wyliau wythnos a phythefnos traddodiadol ym Mhrydain i wyliau byrrach – mae gwybodaeth yn dangos fod hyn yn wir am ardal Llŷn hefyd. Yn gyffredinol mae'r tueddiad hyn o fudd economaidd i'r ardal gan gynyddu'r galw am wneud defnydd o adnoddau hamdden naturiol yr ardal (y môr, llwybrau cyhoeddus, Llwybr yr Arfordir ayb) a hynny am gyfnod hirach o'r flwyddyn.
- 12.9.3 Dengys gwybodaeth fod y mwyafrif o ymwelwyr bellach yn aros yn mewn llety hunan ddarpar – llety, cartrefi gwyliau, carafanau neu wersylla. Mae darpariaeth dda o lety hunan-ddarpar yn Llŷn bellach - yn bennaf yn sgil adeiladau'n cael eu haddasu i lety gwyliau a chynnydd mewn niferoedd o garafanau. Ar y llaw arall mae gostyngiad sylweddol wedi bod mewn rhai sy'n aros mewn gwestai, gwely a brecwast a llety gwasanaethol arall ac yn sgil hynny mae gostyngiad yn y math hynny o sefydliadau (nifer o westai wedi eu dymchwel, a thai aros wedi eu troi yn dai preifat).
- 12.9.4 Yn y blynyddoedd diweddar mae Croeso Cymru wedi rhoi pwyslais ar weithgareddau awyr agored a diwylliant a hanes – gan y bydd hyn yn denu gwahanol fath o bobol ac yn ymestyn y tymor gwyliau. Mae gan Llŷn lawer i'w gynnig o ran y math yma o dwristiaeth ac mae'n fwy cynaliadwy ac yn fwy cydnaws â rhinweddau'r ardal. Eisoes mae'n bosib gwneud amrywiaeth o weithgareddau yma ac mae nifer o ganolfannau hanesyddol/ diwylliannol y gellir ymweld â nhw. Sefydlwyd Ecoamgueddfa yn 2014, y gyntaf i'w datblygu yng Nghymru. Mae'n gweithredu mewn partneriaeth gyda saith sefydliad treftadol, Nant Gwrtheyrn, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Felin Uchaf, Porth y Swnt, Plas yn Rhiw, Plas Glyn y Weddw, a Phlas Heli. Mae'r gweithredu yn ddigidol drwy ddefnyddio technoleg newydd a chyfryngau cymdeithasol mewn ffordd arloesol. Nod yr Ecoamgueddfa yw creu cynnydd mewn twristiaeth ddiwylliannol a thymor gwyliau ehangach a chynaliadwy fydd yn dod â buddion economaidd i'r ardal yn ogystal â rhai cymdeithasol ac amgylcheddol.
- 12.9.5 Ond mae sgil-ffeithiau i'r diwydiant twristiaeth. Mae gor-dddefnydd o lwybrau yn creu erydiad ac mae rhai gweithgareddau yn swnllyd neu'n creu gwrthdaro. Yn ystod y cyfnodau gwyliau prysur mae pwysedd sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol cheir tagfeydd traffig yn Abersoch a Phyllheli. Hefyd mewn rhai ardaloedd mae carafanau yn amharu ar y tirlun a gall lefelau uchel o ail gartrefi effeithio ar yr iaith a'r diwylliant (rhoddir sylw i'r materion hyn mewn rhannau eraill o'r Cynllun).

- 12.9.6 Mae'r Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2014) yn dadansoddi lefelau twristiaeth o fewn AHNE Llŷn, a chyfraniad y sector i'r economi leol yn sgil incwm a chyflogaeth. Rhaid pwysleisio mai amcangyfrifon a geir yn yr Adroddiad, yn seiliedig ar wybodaeth STEAM ar gyfer Gwynedd sydd wedi ei addasu ar gyfer yr AHNE.
- 12.9.7 Mae'r Adroddiad yn dangos fod gostyngiad yn nifer o ymwelwyr i'r AHNE gyda niferoedd wedi gostwng 17% ers 2006 i tua 320,000 yn 2011. Nifer yr ymwelwyr dydd sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd, er eu bod yn dal i gyfrif am dros hanner (52.7%) yr holl ymwelwyr i'r AHNE. Rhwng 2006 a 2011, amcangyfrifir fod cynnydd o £1.7 miliwn (5%) mewn gwariant ymwelwyr yn yr AHNE i gyfanswm o £35.8m. O edrych ar yr wybodaeth yn ôl sector mae lleihad mewn gwariant ar lety i'w weld. Roedd cynnydd ym mhob sector arall a'r cynnydd mwyaf yn y sector hamdden, ble gwelwyd cynnydd amcaniedig o 23% mewn incwm sy'n golygu fod 7.4% o wariant ymwelwyr yn yr AHNE yn cael ei wario ar hamddena.
- 12.9.8 Mae'r Adroddiad hefyd yn amcangyfrif lefelau cyflogaeth yn y sector dwristiaeth yn ardal yr AHNE. Yr amcangyfrif yw fod y nifer o bobl a gyflogir gan y sector wedi gostwng 12% rhwng 2006 a 2011. Nid yw'r gostyngiad hwn wedi bod yn gyson ar draws pob sector, gan fod rhai sectorau megis llety, siopa a bwyd a diod wedi gweld gostyngiad mwy na sector hamdden a thrafnidiaeth.

12.10 Hamdden

- 12.10.1 Mae cyfle i wneud llawer iawn o weithgareddau hamdden awyr agored yn Llŷn, yn sicr mae hyn yn rhan o apêl yr ardal i ymwelwyr. Yn ogystal â'r rhwydwaith eang o hawliau tramwy cyhoeddus a'r Llwybr Arfordir mae llawer o diroedd gyda mynediad agored a chyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau awyr agored eraill yn cynnwys beicio, marchogaeth ac ymweld â'r traethau.
- 12.10.2 Oherwydd natur ddaearyddol yr ardal mae llawer o gyfleon hamdden yn gysylltiedig gyda'r môr a'r arfordir. Yn ogystal â gweithgareddau ar y traeth fel chwaraeon, torheulo a physgota gellir mynd ar y môr i rwyfo, hwylio, canwïo, hwylyfyrddio neu syrffio. Yn 2015 agorwyd Academi Hwyllo Genedlaethol newydd Plas Heli ym Mhwlheli ac mae ystod o weithgareddau ar gael yma. Mae gweithgareddau awyr agored ar y môr a'r tir yn rhai ardrawiad isel ar y cyfan ac mae'n ymddangos fod potensial i ddatblygu rhai gweithgareddau pellach o'r math yma yn Llŷn.
- 12.10.3 Mae adnoddau hamdden dan do yn bodoli yn yr ardal hefyd. Ymysg y rhain mae plasdy bychan Plas yn Rhiw, Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog ac Oriel Plas Glyn y Weddw. Yn ddiweddar mae atyniadau dan do newydd wedi agor yn yr ardal gan gynyddu dewis i ymwelwyr yn cynnwys yr Amgueddfa Forwrol a Bragdy Cwrw Llŷn yn Nefyn, Porth y Swnt (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn Aberdaron, Menter y Felin Uchaf yn Rhoshirwaun a Phlas Heli yn

Mhwilheli.

Materion Allweddol

12.11 Diffyg cyfleon gwaith amrywiol

- 12.11.1 Fel y dangoswyd mae'r economi yma yn Llŷn yn eithaf cyfyngedig gyda dibyniaeth ar y diwydiannau traddodiadol – amaethu, pysgota a choedwigaeth. Credir fod cyfleon ar gyfer sefydlu busnesau newydd i gynhyrchu, prosesu a gwerthu cynnyrch lleol – gwelwyd sawl enghraifft o hyn yn ddiweddar.
- 12.11.2 Hefyd mae dibyniaeth ar swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus - dysgu, llywodraeth leol, gwasanaethau proffesiynol a'r diwydiant croeso (yn cynnwys siopa, bwyta, tafarnau ayb). Mae toriadau sylweddol wedi bod mewn rhai o'r gwasanaethau yma yn ddiweddar ac mae llai o gyfleon cyflogaeth bellach.
- 12.11.3 Mae cyfleon mwy amrywiol yn bodoli yn nhrefi Caernarfon, Porthmadog a Bangor gerllaw ond mae cryn daith i'r mannau o Lŷn sydd yn golygu costau ac amser ychwanegol. Nid yw teithio i'r mannau hyn yn opsiwn i rai pobol oherwydd nad oes ganddynt gar neu fod trafndiaeth gyhoeddus ddim digon effeithiol.
- 12.11.4 Mae'r we fyd eang wedi creu cyfleon i fusnesau presennol ehangu a busnesau newydd yn lleol. Gellir marchnata trwy'r byd a dydi lleoliad strategol ddim bwysig y dyddiau yma. Oherwydd hyn mae cyfleon pellach i ehangu busnesau presennol a sefydlu busnesau o'r newydd yn yr ardal gan greu gwaith a denu incwm.

12.12 Tueddiadau mewn ffermio

- 12.12.1 Mae'r tueddiad i rai busnesau fferm ehangu ar draul eraill i weld yn parhau a gwelwyd hefyd arbenigo mewn dull penodol o ffermio – boed yn wartheg bîff, defaid neu gynhyrchu llaeth. Yn sgil hynny mae angen am adnoddau newydd ac mae siediau amaethyddol newydd, iardiau a parlyrau godro wedi dod yn gyffredin.
- 12.12.2 Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol a ddechreuodd gyda'r Cynllun AAA (ESA) wedi bod i fudd i gynnal y diwydiant amaeth yn ogystal â cynnal, cadw ac ail-greu nodweddion hanesyddol a naturiol lleol. Gwelwyd hyn yn parhau gyda chynllun diweddar Glastir a byddai parhad y cynllun hwn o fudd i amgylchedd naturiol yr AHNE a thu hwnt.
- 12.12.3 Mae cyfleon i hybu mwy ar gynnyrch lleol – i'w brosesu a'i ddefnyddio yn lleol er mwyn ychwanegu gwerth at y cynnyrch a chreu gwaith yn lleol. Mae angen cefnogi cwmnïau lleol i farchnata eu cynnyrch a rhoi pwyslais ar annog pobol i brynu cynnyrch lleol. Fe allai defnyddio'r AHNE fel rhan o'r brandio cynnyrch fod o fudd a rhoi cymorth i gwmnïau lleol farchnata eu cynnyrch a rhoi pwyslais ar brynu cynnyrch

lleol. Credir hefyd fod angen hybu ac annog arall gyfeirio at entrepreneuriaeth o ran busnesau presennol a rhai newydd.

12.13 Band llydan a gwasanaeth ffôn symudol

12.13.1 Bellach mae gwasanaeth band-llydan da a dibynadwy yn bwysig iawn ir rhan fwyaf o fusnesau, yn ogystal â gwasanaeth ffôn symudol. Fel sydd i ddisgwyl mewn lleoliad gwledig, ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth band-llydan yn is-safonol mewn rhai ardaloedd. Hefyd, oherwydd natur arfordirol a bryniog yr ardal mae'r gwasanaeth ffôn symudol yn wael mewn rhai ardaloedd.

12.13.2 Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau fod gan bawb fynediad at fand-llydan arbennig o gyflym. Mae prosiect Superfast Cymru yn mynd i ddod â'r gwasanaeth hwn i'r rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yn Nghymru sydd ddim yn derbyn y gwasanaeth gan y sector breifat. Mae'r arian yn dod gan Llywodraeth Cymru a'r DU, yr UE a Telecom Prydain. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gyda Airband i ddod a band-llydan di-wifren uwch gyflymder i fannau eraill fydd ddim yn rhan o'r ddarpariaeth masnachol na Superfast Cymru. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar dechnolegau eraill i rai mannau eraill sydd heb wasanaeth.

12.14 Toriadau mewn gwariant cyhoeddus

12.14.1 Gwelwyd toriadau sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd diweddar. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar Gyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ayb gan olygu llai o arian ar gyfer gwaith cyfalaf a swyddi yn ymwneud gyda chadwraeth cefn gwlad a bywyd gwyllt. Dyma rai enghreifftiau fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y diwydiant twristiaeth :

- cau canolfannau twristiaeth, yn cynnwys yr un ym Mhwlheli
- llai o wariant ar ddeunydd marchnata twristiaeth e.e. taflenni ayb
- cau toiledau cyhoeddus

12.14.2 Mae hefyd wedi golygu llai o gyfleon gwaith yn lleol a llai o waith i gontractwyr. Efallai fod cyfle i fentrau cydweithredol ddarparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau a gollwyd a chreu swyddi.

12.15 Brexit a'r Undeb Ewropeaidd

12.15.1 Mae'r Prydain wedi bod yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd ers 1973. Mae canlyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd yn Mehefin 2016 wedi creu ansicrwydd mawr o ran yr economi, amgylchedd a symudiadau pobol trwy'r Ewrop. Pan yn adolygu'r Cynllun Rheoli nid oedd yn bosibl rhagweld beth fyddai effaith Brexit ar yr ardal hon ond mae pryderon yn bodoli am yr effaith economaidd yn sgil:

- Gostyngiad yng ngwerth y bunt yn erbyn yr ewro
- Grantiau i amaethyddiaeth a busnesau eraill trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig
- Colli mynediad at gronfeydd grant Ewropeaidd e.e. Interreg
- Dyfodol Rheoliadau a Dynodiadau Cadwriaethol Ewropeaidd.

12.16 Twristiaeth

- 12.16.1 Mae'r diwydiant twristiaeth yn dod a chyfran sylweddol o incwm i'r ardal ac yn fanteisiol i nifer o fusnesau ac atyniadau. Mae mannau gwerthu bwyd a diod yn gwneud yn dda yn ystod y cyfnodau gwyliau yn ogystal â siopa a'r siopa bwyd mawr ym Mhwlheli. Mae atyniadau lleol hefyd yn elwa, yn cynnwys eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Yr Amgueddfa Forwrol, Oriol Plas Glyn y Weddw a nifer o rai eraill.
- 12.16.2 O ran llety gwyliau gwelwyd newid o lety gwasanaethol, fel gwestai, tai aros a gwely a brecwast i lety hunan-wasanaeth a charafanau. Er fod y math yma o lety yn creu gwaith o ran cynnal a chadw, garddio ayb mae llai o gyfleon cyflogaeth cyffredinol yn gysylltiedig ag o. Mewn gwirionedd mae'r nifer o swyddi sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal yn weddol isel, mae llawer yn rhai tymhorol ac mae cyflogau yn isel. Mae llawer o swyddi yn caei eu gwneud gan blant ysgol a myfyrwyr.
- 12.16.3 Mae rhai sgil effeithiau negyddol eraill o'r diwydiant ymwelwyr. Mae rhannau eraill o'r Cynllun yn deilio gyda materion fel erydiad, sbwriel, traffig, tai gwyliau a charafanau.

Polisïau

GP 1. HYRWYDDO'R DIWYDIANT FFERMIO TRWY FENTRAU MARCHNATA, MEITHRIN SGILIAU GWLEDIG TRADDODIADOL A CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDD.

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan greiddiol yn amgylchedd ac economi o Benrhyn Llŷn a'r AHNE. Gwelir olion amaethu o ddyddiau cynnar yr y tirlun ac mae datblygiadau a dulliau amaethu dros amser wedi dylanwadu ar gymeriad presennol i'r tirlun. Mae'r gymuned amaethyddol – y ffermwyr a'u teuluoedd a'r gweithwyr hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nghymunedau yr ardal ac yn fodd i gynnal traddodiad, sgiliau, arferion, diwylliant ac iaith.

Mae llawer o newidiadau wedi bod mewn amaethu yn ddiweddar – newid polisïau, peiriannau, marchnadoedd a rheoliadau amgylcheddol. Ond mae mwy o newidiadau i ddod yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd sydd yn un o'r marchnadoedd pwysicaf i'r diwydiant ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun hwn yn anelu i gefnogi'r diwydiant amaeth trwy helpu i farchnata cynnyrch amaethyddol a chynnal a datblygu sgiliau traddodiadol fel codi walïau.

GP 2. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU YNGHLWM Â'R DIWYDIANT AMAETHYDDOL YN CAEL YR EFFAITH LEIAF BOSIB AR DIRLUN AG AMGYLCHEDD YR AHNE.

Fel diwydiannau eraill mae amaethyddiaeth yn gorfod newid ac addasu ac bydd hyn yn golygu angen am siediau newydd, storfeydd slyri, pitiau silwair ayb. Beth sy'n bwysig yw ceisio sicrhau nad yw'r datblygiadau hyn yn cael eu gwneud ar draul edrychiad yr tirlun ac amgylchedd yr ardal. Yn hyn o beth mae lleoli gofalus (ger adeiladau eraill os bosib), dyluniad, lliwiau a thirlunio yn medru cynorthwyo yn achos datblygiadau newydd. Anelir felly i reoli datblygiadau er cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol trwy'r drefn gynllunio a thrwy baratoi Canllaw Dylunio penodol.

GP 3. CEFNOGI Y DIWYDIANT PYSGOTA YN LLŶN TRWY HYRWYDDO MENTRAU PROSESU LLEOL A MARCHNATA.

Erbyn hyn dim ond ychydig o unigolion sy'n gwneud bywoliaeth lawn amser o bysgota ond mae'r diwydiant yn parhau i fod yn bwysig yn lleol ac yn cynnal traddodiad sy'n ymestyn yn ôl dros ganrifoedd. Beth sydd yn amlwg yw nad oes llawer o'r cynnyrch yn cael ei werthu a'i ddefnyddio yn lleol. Credir fod cyfleon i wneud mwy o farchnata a phrosesu cynnyrch morol lleol ac i gael mwy o fusnesau lleol fel gwestai a bwytai i'w ddefnyddio yn ogystal â gwerthu yn uniongyrchol mewn marchnadoedd lleol.

GP 4. HYRWYDDO CYNHYRCHION PRIMAIDD LLEOL ERAILL.

Er fod pwyslais ar gynnyrch amaethyddol a morol yn yr ardal mae pethau amrywiol eraill yn cael eu cynhyrchu yma hefyd. Er ddim yn amlwg mae dwy chwarel ithfaen yn dal yn agored a'u cynnyrch yn ddefnyddiol i adeiladu ac fel seiliau i ffyrdd ayb. Mae menter coedwigaeth yn Glasfryn ac ambell un llai mewn mannau eraill.

GP 5. HYRWYDDO GWELLIANT MEWN GWASANAETH BAND LLYDAN A FFONAU SYMUDOL YN YR ARDAL LLE NA FYDDAI HYN NY YN CAEL EFFAITH ANNERBYNIOL AR DIRLUN YR AHNE.

Y dyddiau hyn mae cadw mewn cysylltiad a marchnata yn holl bwysig i fusnesau o bob math. Oherwydd ei natur wledig ag arfordirol mae cysylltiadau band llydan a ffonau symudol yn wael mewn rhai mannau ac mae hynny yn anfanteisiol. Bwriedir felly cefnogi gwelliannau lle na fyddai hynny yn cael effaith negyddol ar dirlun yr AHNE ac annog rhannu mastiau.

GP 6. HYRWYDDO A CHYNORTHWYO MENTRAU CYDWEITHREDOL FEL DULL O REDEG BUSNESAU A CHYNNAL SWYDDI YN LLEOL.

Mae rhai mentrau cydweithredol yn bodoli yn yr ardal yn barod fel Tafarn y Fic, Siop y Groes a Hufenfa De Arfon. Mewn ardal wledig fel Llŷn credir fod potensial i ehangu hyn a sefydlu mentrau newydd er mwyn cynnal busnesau a gwasanaethau ac felly yn cynnal swyddi hefyd.

GP 7. CEFNOGI MENTRAU GWLEDIG NEWYDD A MENTRAU ARALLGYFEIRIO AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.

Yn ddiweddar gwelwyd sefydlu nifer o fusnesau newydd fel Cwrw Llŷn, Glasu a Llaethdy Llŷn. Mae busnesau newydd cynhenid fel hyn yn hynod bwysig oherwydd yr incwm y maent yn ei greu a'r cyfleon cyflogaeth a darperir. Gyda phartneriaid felly anelir i gynorthwyo busnesau presennol a hyrwyddo sefydlu mentrau eraill tebyg.

GP 8. ANNOG BUSNESAU, YN CYNNWYS RHAI YN Y SECTOR DWRISTIAETH, I FOD YN FWY CYNALIADWY O RAN DEFNYDDIO YNNI AC AILGYLCHU.

Mae cynnal a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn un o brif amcanion y Cynllun Rheoli ac felly rhoddir pwyslais ar leihau sgil-effeithiau busnesau ar yr amgylchedd. Bydd y Gwasanaeth AHNE a sefydliadau eraill yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth am ddulliau arbed ynni ac ynni adnewyddol cydnaws â'r AHNE.

GP 9. CEFNOGI DATBLYGIADAU HAMDDEN AWYR AGORED NEWYDD AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR ADNODDAU NATURIOL.

Mae gweithgareddau awyr agored mewn bri ar hyn o bryd ac mae llawer o adnoddau naturiol ar gyfer y math hynny o hamdden yn Llŷn. Mae'n ymddangos fod cyfleon i ddatblygu y math yma o weithgaredd hamdden ymhellach, gan elwa o'r diwydiant a chreu cyfleon gwaith yn lleol. Mae'n bwysig sicrhau na fydd mentrau yn amharu ar y rhinweddau fodd bynnag a bydd mentrau yn cael eu hasesu a dim ond y rhai addas a gefnogir.

GP 10. HYRWYDDO MENTRAU TWRISTIAETH PRESENNOL A NEWYDD, YN ENWEDIG RHAI SY'N SEILIEDIG AR HANES A DIWYLLIANT LLEOL, AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.

Mae'r diwydiant ymwelwyr yn dod a budd economaidd sylweddol i ardal Llŷn yn darparu swyddi ac chreu incwm i gynnal gwasanaethau a busnesau lleol. Gall rhai datblygiadau newydd addas ychwanegu at yr ystod o weithgareddau i ymwelwyr yn ogystal â phobol lleol. Felly bydd cefnogaeth i weithgareddau presennol a newydd, sy'n gydnaws â rhinweddau arbennig yr ardal, yn enwedig mentrau sy'n gysylltiedig â hanes a diwylliant lleol.

13. HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD

Ffeithiau Allweddol

Cyngor Gwynedd sydd yn parhau i fod yn gyfrifol am hawliau tramwy cyhoeddus yn y Sir yn ogystal ag arwain ar y gwaith ar y Llwybr Arfordir yn Llŷn

Mae rhwydwaith eang o lwybrau yn Llŷn er nad yw rhannau ohonynt yn cael eu defnyddio'n gyson

Mae data swyddogol Eco Counter yn waelodlin newydd ar gyfer asesu poblogrwydd manau o Lwybr yr Arfordir.

Y ffigwr diweddaraf ar gyfer tir comin yn AHNE Llŷn yw 834.5 hectar

13.1 Cyflwyniad

13.1.1 Mae Penrhyn Llŷn yn lle gwerth chweil i grwydro cefn gwlad ac arfordir gan fwynhau golygfeydd gwych. Mae hefyd yn le i ymlacio, cadw'n heini a gweld byd natur, olion ac adeiladau hanesyddol ac amrywiol nodweddion diddorol eraill. Ond ni ellir mwynhau'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig heb allu cyrraedd atynt - ac felly mae'r hawliau mynediad a thir sy'n agored i'r cyhoedd yn bwysig.

13.1.2 Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnwys llwybrau cyhoeddus, llwybrau marchogaeth a ffyrdd a chilffyrdd. Y mwyaf niferus o bell ffordd yw'r llwybrau cyhoeddus ac mae llawer yn agored ac mewn cyflwr da - ond mae rhai problemau yn bod ac mae sicrhau adnoddau digonol at gynnal a chadw yn sialens. Mae llawer o ffyrdd gwledig yn yr ardal – lonydd bach y wlad fel y'i gelwir – ac mae'r rhain hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer teithio hefo car, bws, beic neu gerdded.

13.1.3 Adnodd arall gwerthfawr o ran mynediad yn Llŷn yw'r tiroedd comin. Er fod y tiroedd hyn mewn perchnogaeth breifat mae mynediad i rannau sylweddol ohonynt fel Tir Mynediad. Mae llawer o'r safleoedd hyn yn dir heb ei drin a'i wella a nifer yn rhostiroedd naturiol sy'n gynefin gwerthfawr i amrywiaeth o fywyd gwyllt.

13.1.4 Yn ychwanegol i'r tiroedd comin mae tiroedd eraill gyda mynediad cyhoeddus cyfyngedig, sef Tir Mynediad, wedi dod i fodolaeth yn sgil Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Yr hen Gyngor Cefn Gwlad Cymru oedd yn arwain ar y broses hon a bu ymarferion i godi ymwybyddiaeth ac ymgynghori fel rhan o'r cofrestru. Gelir cael gwybodaeth am Diroedd Mynediad yn ardal AHNE Llŷn i'w weld ar fapiau AO Graddfa 1:25,000. Gellir cael mwy o wybodaeth am Dir Mynediad ar safle we Cyfoeth Naturiol Cymru.

13.1.5 Ceir cyfleon mynediad cyhoeddus hefyd ar diroedd ym mherchnogaeth sefydliadau cadwriaethol (mynediad trwy drefniant ymlaen llaw ar rai tiroedd). Y ddau amlwg yn Llŷn yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar nifer o safleoedd, tiroedd arfordirol a ffermydd yn cynnwys traeth Llanbedrog a

Phorthdinllaen, ac Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.

- 13.1.6 Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am hawliau tramwy yn ogystal ag arwain y gwaith ar y Llwybr Arfordir. Ers 2005 mae llawer o adnoddau wedi eu rhoi i ddatblygu'r Llwybr Arfordir, sy'n ffurfio rhan o Lwybr Arfordir Cymru, gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gan Gynghorau Cymuned hefyd rôl bwysig i'w chwarae o ran cynnal a chadw llwybrau yn eu hardaloedd tra mae gan dirfeddianwyr hefyd gyfrifoldeb i gadw llwybrau statudol ar agor.
- 13.1.7 Mae gan Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor ran bwysig i'w chwarae o ran cynghori'r Cyngor ar faterion mynediad cyhoeddus. Cynhelir cyfarfodydd cyson y Fforwm i drafod gwahanol faterion mynediad ac fe all y Fforwm gyfrannu at weithredu rhai o bolisïau'r Cynllun Rheoli o ran materion mynediad.
- 13.1.8 Mae'r cyfleon i grwydro yn bwysig er mwyn mwynhau yr ardal, ymweld ag olion hanesyddol a chynefinoedd, gweld amrywiaeth o fywyd gwyllt ac adar a lles iechyd a chadw'n heini. Hefyd mae'n rhan o'r adnodd twristaidd sy'n dod a gwaith ac incwm sylweddol i Lŷn.
- 13.1.9 At bwrpas Cynllun Rheoli'r AHNE gosodwyd yr isod fel Prif Nod o ran Mynediad a Mwynhad

Prif Nod

<p>GWELLA A HYRWYDDO'R DDARPARIAETH O HAWLIAU TRAMWY A CHYFLEON MYNEDIAD YN YR ARDAL I HOLL DDEFNYDDWYR A CHODI YMWHYBYDDIAETH A GWELLA GWERTHFAWROGIAD O NODWEDDION ARBENNIG YR ARDAL A'R BUDDION CYHOEDDUS A GYNIGIR GAN YR AMGYLCHEDD.</p>
--

Nodweddion Arbennig

- 13.2 Llwybrau a Hawliau Tramwy**
- 13.2.1 Mae'r llwybrau a hawliau tramwy yn cynnwys llwybrau cerdded, llwybrau ceffyl/marchogaeth a chilffyrdd. Ceir rhwydwaith eang o lwybrau cyhoeddus yn Llŷn er nad yw rhannau sylweddol ohonynt yn cael eu defnyddio yn gyson erbyn hyn. Cyngor Gwynedd sydd yn cadw'r wybodaeth am yr union ffyrdd mae'r llwybrau yn mynd ar gyfres o fapiau ac ar system gyfrifiadurol.
- 13.2.2 Mae mynediad at lawer o safleoedd hanesyddol ac olion archeolegol trwy hawliau tramwy. Gellir cerdded i ben nifer o fryniau'r ardal a gweld olion yr hen geyrydd megis Tre'r Ceiri neu weld meini hirion a chromlechi yn ogystal ag olion mwy diweddar y diwydiant mwynau a chwareli ithfaen.

- 13.2.3 Gellir crwydro a gweld amrywiaeth o fywyd gwyllt arbennig Llŷn gan ddefnyddio hawliau tramwy a hawliau mynediad. Mae cerdded y llwybrau arfordirol yn gyfle gwych i weld ac astudio adar y môr a'r morloi llwyd tra gellir gweld sgwarnogod, adar fferm a chreaduriaid llai yn fwy mewndirol. Hefyd gellir ymweld â chynefinoedd amrywiol yn cynnwys corsydd, tir pori arfordirol a rhostiroedd amrywiol.
- 13.2.4 Cynhaliwyd asesiad manwl o'r llwybrau cyhoeddus fel rhan o baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn 2005. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys arolygu llwybrau i weld os oeddent yn agored, cyflwr y dodrefn ac arwyddion a lefel y defnydd. Ar sail yr arolwg fe osodwyd llwybrau mewn categorïau o ran blaenoriaeth er mwyn rhaglennu gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol.
- 13.2.5 Mae rhai llwybrau a ffyrdd yn addas ar gyfer rhai yn cael trafferthion symud neu mewn cadair olwyn. Oherwydd diffyg gwybodaeth am fannau addas a gwelliannau fyddai yn bosibl eu gwneud comisiynwyd arolwg gan yr Uned AHNE i edrych ar Gyfleon Mynediad yn 2008. Daeth yr Adroddiad i'r casgliad y byddai modd gwella cyfleusterau a mynediad ar nifer o safleoedd – yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer yr anabl.
- 13.2.6 Ychydig o lwybrau ceffyl/marchogaeth sydd yn yr AHNE ac mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod llawer yn defnyddio cychod i symud o le i le yn y gorffennol yn hytrach na cheffylau. Mae'r llwybrau ceffyl yn adnodd pwysig ac yn ôl y ddeddfwriaeth mae llwybrau ceffyl hefyd yn agored i feicwyr.
- 13.2.7 Llwybrau goddefol – sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd ond nid ydynt yn llwybr cyhoeddus e.e. at ffynhonnau neu draethau, mae llawer ar dir ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- 13.2.8 Ffyrdd di-ddosbarth - wedi datblygu dros amser ac wedi eu seilio yn wreiddiol ar lwybrau cerdded a llwybrau trol gan ddatblygu yn ffyrdd mynediad pwysig i bentrefi ac ardaloedd Llŷn. Mae cilffyrdd a ffyrdd bychain eraill hefo hawl tramwy hefyd yn cyfrannu at y cyfleon mynediad sy'n bod - cyfanswm o 43 ohonynt yn ychydig dros 18 cilomedr o hyd.

13.3 Llwybr Arfordir Cymru

- 13.3.1 Mae llwybrau cyhoeddus yn bwysig ym mhob ardal ond yma yn Llŷn mae'r Llwybr Arfordir yn cynnig golygfeydd trawiadol. Ers rhai blynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio ar ddatblygu llwybr di-dor ar hyd arfordir y Penrhyn. Mae'r llwybr yn defnyddio llwybrau cyhoeddus, ffyrdd bychain, llwybrau goddefol, traethau a thir agored. Bellach, mae'r Llwybr Arfordir bron yn gyfan gwbl ar hyd yr arfordir yn ardal Llŷn yn dilyn sefydlu cysylltiadau arfordirol newydd. Hefyd mae gwaith yn parhau, fel rhan o raglen Mynediad at yr Arfordir, i gael rhai rhannau ychwanegol ar hyd yr arfordir.

13.3.2 Yn bendant mae nifer sylweddol o bobl yn cerdded y Llwybr yr Arfordir yn Llŷn ac mae busnesau yr ardal wedi elwa o'r datblygiad hwn. Hyd yn ddiweddar roedd amcangyfrifon yn cael eu gwneud o nifer o gerddwyr ond erbyn hyn mae dyfeisiadau digidol yn cyfrif union nifer o gerddwyr. Yn anffodus, nid oes modd cymharu gyda'r data yn y cynllun blaenorol. Fodd bynnag, mae gennym waelodlin ar gyfer adolygiadau'r dyfodol.

13.3.3 Yn 2014 derbyniodd Cyngor Tref Nefyn arian o Gronfa Cymunedau'r Arfordir i wella rhan o'r Llwybr Arfordir rhwng Nefyn a Morfa Nefyn i'w wneud yn addas ar gyfer pobl sydd ag anableddau a theuluoedd ifanc. Hefyd bydd y prosiect yn ail-sefydlu llwybr hanesyddol 10 milltir rhwng Nefyn a Llanbedrog.

13.4 Cylchdeithiau

13.4.1 Mae cylchdeithiau yn boblogaidd oherwydd fod amrywiaeth o bethau i'w gweld ar hyd y ffordd a does ddim rhaid cael cerbyd i fynd yn ôl i'r man cychwyn. Mae'n bosib llunio cylchdeithiau trwy ddilyn mapiau wrth gwrs ond mae elfen o risg y bydd llwybr neu ffordd wedi cau gan eich gorfodi i droi'n ôl.

13.4.2 Yn 2015 bu i Gyngor Gwynedd a nifer o bartneriaid lwyddo i gael cymhorthdal o Gronfa Cymunedau'r Arfordir i ddatblygu cylchdeithiau newydd hwylus, gyda chysylltiad gyda'r Llwybr Arfordir. Mae nifer o'r llwybrau hyn yn yr AHNE ac maent yn gyfle i ymweld â nifer o safleoedd hanesyddol a natur diddorol. Mae'r cylchdeithiau newydd wedi eu huwchraddio yn sgil y prosiect ac wedi eu harwyddo. Gellir cael mwy o fanylion o www.ymweldgaeryri.info.

13.5 Tir Mynediad

13.5.1 Fel y nodwyd rhoddodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawl mynediad newydd i'r cyhoedd (gyda chyfyngiadau) ar:

- dir agored, sef tir yn cynnwys mynydd-dir, rhostir, gweundir neu dwyndir;
- dir comin (sydd wedi ei gofrestru dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965);
- unrhyw fath o dir arall sydd wedi ei ddynodi'n 'dir mynediad' gan y perchennog.

13.5.2 O ran Hawliau Tramwy bydd y Ddeddf yn gwella'r ddeddfwriaeth bresennol drwy hybu agor mynediad o'r newydd a chael gwared ag ansicrwydd o ran hawliau presennol. Bu Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor yn cyfrannu at y broses o ddiffinio tir gyda mynediad cyhoeddus.

13.6 Tir Comin

13.6.1 Rhwng 2004 a'r presennol prin fu'r newid o ran arwynebedd tir comin o fewn yr AHNE. Y ffigwr diweddaraf yw 824.5 hectar. Mae 30 safle o dir comin yn Llŷn

ac mae'r rhain yn bwysig o ran mynediad cyhoeddus ac fel adnodd ar gyfer hamdden anffurfiol. Rhoddodd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawl mynediad i diroedd comin cofrestredig yn ogystal ag i diroedd agored eraill. Mae tiroedd comin hefyd yn bwysig iawn fel cynefin naturiol a lled naturiol ac oherwydd eu gwerth o ran natur, mae nifer o'r tiroedd wedi eu dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae nifer o diroedd comin Llŷn ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ceir amrywiaeth fawr o ran maint ac mae rhai unedau yn cysylltu gyda'i gilydd i greu arwynebedd sylweddol megis Yr Eifl. Y prif diroedd comin eraill yn Llŷn yw Mynydd Tir y Cwmwd, Mynydd Rhiw, Foel Gron, Ynys Enlli, Mynydd Cilan a Phenarfynydd. Gellir cael manylion llawn am berchnogaeth, maint a hawliau pori ac ati yn y Gofrestr a gedwir gan Gyngor Gwynedd.

- 13.6.2 Mae'r tiroedd comin yn adnodd mynediad pwysig iawn yn yr AHNE ac oherwydd hynny mae cryn bwysedd ar rai ohonynt gan weithgareddau hamdden. Yn y gorffennol mae rhai tiroedd comin e.e. Rhiw a Mynytho wedi bod yn mynd ar dân yn ystod hafau sych.

13.7 Tir Ymddiriedolaethau

- 13.7.1 Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar lawer o safleoedd a thiroedd yn Mhen Llyn. Y prif fannau cyhoeddus yw:

- Pentref a thraeth Porthdinllaen, Morfa Nefyn
- Traeth Porthor, Aberdaron
- Porth Meudwy, Aberdaron
- Porth y Swnt, Aberdaron
- Traeth Llanbedrog

- 13.7.2 Hefyd mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen ar diroedd a ffermydd arfordirol yn Llŷn yn cynnwys Porth Gwylan, Mynydd y Graig a Phenarfynydd. Mae mynediad cyhoeddus i rai o'r tiroedd hyn drwy gytundeb ymlaen llaw.

- 13.7.3 Ers 1979 mae Ynys Enlli ym mherchnogaeth Ymddiriedolaeth Enlli. Mae'n bosib mynd drosodd i'r Ynys drwy drefniant hefo'r gwasanaeth sy'n croesi o Borth Meudwy. Mae Enlli yn lle arbennig iawn oherwydd ei gysylltiadau hanesyddol, cefndir crefyddol, bywyd gwylt ac adar môr a natur dawel a phellennig. Lle ydyw am brofiad unigryw ac mae nifer cynyddol yn ymweld â'r ynys ac yn aros yno am gyfnodau i ddianc rhag bywyd modern.

- 13.7.4 Oriol Glyn y Weddw – mae'r Oriol wedi prynu coedlan Allt Goch gerllaw ers rhai blynyddoedd ac wedi clirio rhai coed ac ail-agor hen lwybrau lle gellir crwydro a chysylltu gyda'r Llwybr Arfordir.

13.8 Traethau

- 13.8.1 Mae traethau sydd gyda mynediad atynt yn adnodd mynediad a hamdden pwysig i Llŷn. Maent yn cyfrannu at harddwch gweledol yr ardal ac yn darparu cyfle i fwynhau a hamddena. Ceir amrywiaeth eang o draethau, rhai yn greigiog ac eraill yn dywod mân a cheir twyni tywod mewn rhai manau. Mae'r traethau tywodlyd megis Llanbedrog, Abersoch, Porth Ceiriad a Phorthdinllaen yn boblogaidd ar gyfer torheulo, ymlacio, ymdrochi a chwaraeon. Ar y llaw arall mae rhai traethau yn fwy caregog a gwyllt ac yn denu cerddwyr, naturiaethwyr a physgotwyr.
- 13.8.2 Y traethau neu'r glannau sy'n rhoi mynediad at y môr. Mae pysgotwyr a phobol leol yn cadw cychod ar rai traethau fel Trefor, Nefyn, Porth Ysgaden, Porth Meudwy ac Abersoch. Mae llawer yn lansio cychod pleser a badau dŵr personol o'r traethau yma hefyd ac ar adegau mae prysurdeb mawr a pherygl o ddamweiniau. Mae rhai traethau yn boblogaidd ar gyfer hamddena o fath arbennig- er enghraifft mae syrffio yn boblogaidd iawn ym Mhorth Neigwl tra mae deifio yn boblogaidd ym Mhorth Ysgaden.

13.9 Lle i Feicio

- 13.9.1 Mae llawer o lonydd gwledig yma yn Llŷn sydd yn addas iawn i feicwyr oherwydd nad oes llawer o draffig arnynt. Gellir dilyn y ffordd yma yn glir gyda map AS Graddfa 50,000 neu 25,000. Mae'r Astudiaeth Cyfleon Mynediad (AHNE, 2008) wedi dangos fod cyfleusterau ar gyfer gadael a chloi beiciau ger nifer o draethau'r ardal a bod cyfleon i wella'r ddarpariaeth mewn rhai manau.
- 13.9.2 Hyd at 2009 nid oedd unrhyw lwybr beicio penodol yn yr AHNE. Yn sgil gwaith adnewyddu'r A499 o Aberdesach i Llanaelhaearn mae llwybr beic penodol wedi ei ffurfio gan ddefnyddio rhannau o'r hen lôn ac ymyl y ffordd newydd. Hefyd mae llwybrau marchogaeth ar gael i'w defnyddio gan feicwyr, ond does dim llawer o'r rhain yn Llŷn. Efallai bod cyfle i godi ymwybyddiaeth am hynny a dangos fod cyfleon yn bodoli.
- 13.9.3 Mae rhwydwaith o deithiau sy'n defnyddio ffordd lleol wedi eu datblygu gan Gyngor Gwynedd, Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Cyhoeddwyd pecyn gwybodaeth a gosodwyd arwyddion yn ystod 2004. Mae dwy o'r teithiau hyn yn mynd trwy rannau helaeth o'r AHNE (Taith A - Mynydd yr Ystum, Taith B - Garn Fadrun) ac mae taith arall yn teithio drwy ran o'r AHNE (Taith C - Garn Boduan). Pan yn adolygu'r Cynllun nid oedd llawer o waith hyrwyddo yn cael ei wneud ar y teithiau hyn ac roedd rhai arwyddion ar goll.
- 13.9.4 Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn hyrwyddo teithiau o Aberdaron i dri o leoliadau cyfagos (Porthor, Mynydd Mawr a Phlas yn Rhiw). Mae'r teithiau yn cael eu marchnata ar y wê a thrwy daflen.

13.10 Teithio i'r Ardal ac o Amgylch

- 13.10.1 Y prif lonydd i Llyn ydi'r A499 o gyfeiriad Caernarfon a'r A497 drwy Borthmadog. Mae llawer yn defnyddio ceir i deithio o amgylch yr ardal ac ymweld â gwahanol fannau ond mae problemau traffig ym Mhwillheli a rhai o'r pentrefi yn ystod cyfnodau gwyliau prysur.
- 13.10.2 Mae Rheilffordd Arfordir y Cambrian yn gyfle i deithio i mewn ac allan o'r ardal hefo trên. Mae'r gwasanaeth yn dilyn yr arfordir i Gyffordd Dyfi neu Fachynlleth gyda chysylltiadau wedyn gydag Aberystwyth neu'r Amwythig a Birmingham. Mae'r trên yn ddull mwy cynaliadwy o deithio a allai helpu i leihau traffig modurol i'r ardal. Ceir manylion llawn am y gwasanaeth a reolir gan gwmni ARRIVA ar y safle we: www.cambrianline.co.uk.
- 13.10.3 Ym Mhwillheli y mae canolfan fysiau Llyn gyda bysiau yn gadael i bob ardal. Mae gwasanaeth cyson rhwng y prif ganolfannau megis Porthmadog, Caernarfon, Nefyn ac Abersoch a gwasanaeth lled-gyson rhwng y pentrefi ar y prif ffyrdd. Gellir cael manylion llawn am y gwasanaeth bws ar safle we Cyngor Gwynedd neu trwy www.cymraeg.traveline-cymru.info.
- 13.10.4 Bws Arfordir - Mae Bws yr Arfordir yn wasanaeth newydd yn Llyn sy'n rhedeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Nefyn, Aberdaron ac Abersoch. Mae'n darparu cyfle da i gerdded rhan o'r Llwybr Arfordir ac yna cael y bws yn ôl neu ymlaen i'r ganolfan nesaf. Ceir mwy o fanylion ar safle wê -www.bwsarfordirllyn.co.uk .

Materion Allweddol

13.11 Cynnal llwybrau a hawliau tramwy yn wyneb toriadau ariannol

- 13.11.1 Un o'r prif bynciau llosg o ran mynediad yw sut i gynnal llwybrau cyhoeddus a hawliau tramwy eraill yn wyneb toriadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus. Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnwys gwybodaeth am holl hawliau tramwy yr ardal ac yn gosod llwybrau mewn gwahanol gategoriau o ran blaenoriaeth. Yn dilyn hynny rhoddwyd pwyslais ar gynnal y llwybrau yng nghategoriau 1, 2 a 3 er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau cyfyngedig ar gael. Ond dros y blynyddoedd mae cwtogi wedi bod ar y gyllideb a bydd toriadau sylweddol pellach yn 2016-8. Bydd adolygiad a diweddariad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn digwydd rhwng 2016 a 2019. Bydd y Cynllun diwygiedig yn cymryd ystyriaeth o'r lleihad a fu mewn cyllidebau ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol yn 2007.

13.12 Rhwystrau ar lwybrau a stoc mewn caeau lle mae hawliau tramwy.

13.12.1 Yn anffodus mae rhwystrau ar lwybrau cyhoeddus yn yr AHNE yn eithaf cyffredin ac yn amharu ar allu pobol i gerdded a mwynhau. Gall materion o'r fath fod yn anodd i'w datrys. Gwifrau neu giatau ar draws llwybrau sydd fwyaf cyffredin ond mewn rhai ardaloedd yn ddiweddar gwelwyd cynnydd mewn mwy yn defnyddio gwifrau trydan i reoli pori gerllaw neu ar draws llwybrau cyhoeddus. Mewn achosion o'r fath mae angen codi ymwybyddiaeth ac addysgu perchnogion tir am eu cyfrifoldebau o ran llwybrau.

13.12.2 Mewn rhai achosion mae gwartheg ar diroedd lle ceir llwybrau yn broblem. Mae angen codi ymwybyddiaeth cerddwyr o beryglon ac i weithio gyda amaethwyr i'w hannog i osgoi rhoi gwartheg a lloi a theirw mewn caeau lle mae llwybrau cyhoeddus.

13.13 Erydiad a Thywydd

13.13.1 Mae erydiad arfordirol yn cael effaith sylweddol ar Lwybr yr Arfordir mewn rhai mannau yn Llŷn. Cyfuniad o aeafau gwlyb a stormydd sy'n creu erydiad ac ansefydlogrwydd nifer o fannau ar hyd yr arfordir. Y rhannau gwaddodol o'r tir sydd yn dioddef fwyaf ac yn ystod 2015 a 2016 mae erydiad sylweddol wedi bod ger Llanbedrog, Porth Neigwl, Nefyn a Morfa Nefyn ac yn ardal Trefor.

13.13.2 Mewn rhai mannau mae'r Lwybr Arfordir wedi disgyn i'r môr neu wedi ei danseilio i'r graddau fod angen ei symud yn fwy i mewn i'r tir. Er mwyn gwneud hyn bydd angen cydweithrediad trefeddiannwyr ac adnoddau i dalu am waith a chyfarpar fel giatau, gwifrau ac arwyddion yn ogystal â iawndal i'r perchnogion tir.

13.14 Pwysedd Ymwelwyr

13.14.1 Gall gormod o ddefnydd o safleoedd neu lwybrau fod yn niweidiol trwy greu erydiad a thraul. Nid yw hon yn broblem fawr yn yr AHNE ar hyn o bryd ond fe all ddatblygu yn sgil cynnydd mewn defnydd.

13.14.2 Mewn rhai mannau yn yr AHNE mae pwysedd yn sgîl parcio ar ochor ffyrdd oherwydd nifer yr ymwelwyr yn ymweld â mannau poblogaidd. Yr enghreifftiau amlycaf yw ger maes parcio cyhoeddus Porth Neigwl, ym Mhorth Ysgaden ac ar ochr y B4417 ar odrau Tre'r Ceiri.

13.15 Cŵn ar heb fod dan reolaeth

13.15.1 Mae cyfrifoldeb ar berchnogion i gadw eu cŵn dan reolaeth pan yn dilyn hawliau tramwy. Fodd bynnag derbynir cwynion cyson gan y Cyngor am gŵn yn rhedeg yn rhydd ac yn amharu ar stoc a giatau yn cael eu gadael ar agor. Mae hyn yn creu drwg-deimlad a cholledion mewn rhai achosion a rhaid cofio

fod gan ffermwyr hawl i ddifa cŵn sy'n ymosod ar eu stoc.

13.16 Gwrthdaro rhwng defnyddwyr ar draethau ac yn y môr

13.16.1 Traethau yr ardal yw un o'i phrif atyniadau ac mae rhai o'r traethau yn medru bod yn brysur iawn yn ystod yr Haf. Mae gweithgareddau amrywiol ar draethau – torheulo, chwarae gemau, pysgota, lansio cychod ayb. Ar adegau prysur mae gwrthdaro rhwng defnyddwyr yn broblem, yn arbennig felly rhwng rhai sydd eisiau lansio cychod – gyda cherbydau neu dractorau – a defnyddwyr eraill y traethau.

13.16.2 Gall gwrthdaro hefyd ddatblygu rhwng rhai sy'n nofio a mwynhau'r traethau a rhai sy'n defnyddio badau dŵr personol a chychod rasio. Mae Gwasanaeth Morwrol Cyngor Gwynedd yn gweithredu i reoli trwy drwyddedu a gosod terfynau a chadw golwg ar y traethau ond mae sŵn y badau hyn hefyd yn gallu tarfu ar eraill. Yn ddiweddar mae prosiect Ecosystemau Morol, sydd wedi esblygu o waith ACA Pen Llŷn a'r Sarnau wedi lansio Côd Morol newydd i roi canllawiau ar sut i barchu amgylchedd a bywyd gwylt morol a defnyddwyr eraill.

13.17 Diffyg Cyfleon i Rai Grŵpiau

13.17.1 Er fod darpariaeth dda o gyfleusterau i grwydro a mwynhau yn yr ardal mae prinder o ran adnoddau i rai carfanau:

- Rhai sy'n marchogaeth
- Beicwyr
- Rhai ag anableddau symud

13.17.2 Edrychodd yr Astudiaeth ar Gyfleon Mynediad (2008) ar faterion megis pa mor gyfleus oedd mynediad ac os gallai pobl anabl gyrraedd at y traeth. Hefyd rhoddwyd sylw i ddarpariaeth ar gyfer beics, meysydd parcio a gwasanaeth bws. Mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu gwelliannau i gyfleusterau mewn mannau penodol.

13.18 Traffig

13.18.1 Yn ystod y cyfnodau gwyliau prysur mae llif y traffig yn drwm trwy dref Pwllheli a phentrefi Abersoch, Llanbedrog, Nefyn, Morfa Nefyn ag Aberdaron. Mae hyn yn amharu ar fywyd a Gwaith pobol leol a mwynhad ymwelwyr yn ogystal â chynyddu lefelau llygredd aer. Credir fod angen rhoi ystyriaeth i fesurau i liniaru'r sefyllfa - mesurau fel hyrwyddo ffyrdd amgen o deithio, creu llwybrau beics newydd, edrych ar wella gwella llif y traffig trwy Bwllheli a rheoli parcio.

13.19 Diffyg gwybodaeth o'r dynodiad a buddion amgylcheddol

- 13.19.1 Dros y blynyddoedd mae llawer wedi ei wneud i geisio codi ymwybyddiaeth am ddynodiad yr AHNE yn gyffredinol, AHNE Llŷn a gwahanol rinweddau yr ardal. Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi cyfrannau erthyglau i'r wasg leol, cynnal sgysiau a digwyddiadau, creu safle we a chyhoeddi cylchgrawn blynyddol.
- 13.19.2 Er hynny, yr argraff a geir yw fod lefelau gwybodaeth ymysg pobol leol ac ymwelwyr yn weddol isel – am y dynodiad ei hun a hefyd am y buddion amgylcheddol (gwasanaethau ecosystem) sy'n cael ei ddarparu. Yn bendant mae lle i weithio i wella hyn a cheisio cael pobol i weld buddion y dynodiad a'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan yr amgylchedd naturiol. Yn ychwanegol i hyn credir fod cyfle i bobol gefnogi a chyfrannu yn fwy uniongyrchol trwy waith ymarferol ar brosiectau gan y Gwasanaeth AHNE.

Polisiau

MP 1. CYNNAL, GWARCHOD A HYRWYDDO HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS ALLWEDDOL YR ARDAL A SICRHAU EU BOD AR GAEL I'W DEFNYDDIO YN DDI-RWYSTR.

Mae hawliau tramwy yn adnodd pwysig i bobol leol ac ymwelwyr i ardal Llŷn i grwydro, mwynhau a chadw'n iach. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn annog a chynorthwyo Tîm Hawliau Tramwy Gwynedd, Cynghorau Cymuned, tîrfeddianwyr a sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gynnal a chadw hawliau tramwy allweddol (categori 1 a 2) yn yr ardal. Sylweddolir y bydd hyn yn fwy o sialens i'r dyfodol yn sgîl y gwasgu ariannol ar yr Awdurdodau Lleol.

Hefyd bydd y Gwasanaeth AHNE a phartneriaid yn gwrthwynebu unrhyw fwriad i gau, neu osod rhwystrau ar hawliau tramwy. Mae gwartheg ar diroedd gyda hawliau tramwy yn medru achosi pryder i'r cyhoedd ac mae lle i weithio gyda ffermwyr a'r Undebau amaethyddol i godi ymwybyddiaeth am hyn yn ogystal ag addysgu pobol am gau giatiau a rheoli eu cŵn.

MP 2. CYNNAL A CHADW Y LLWYBR ARFORDIR CENEDLAETHOL A CHREU CYSYLLTIADAU NEWYDD YN UNOL Â SAFONAU A CHANLLAWIAU CENEDLAETHOL.

Lansiwyd Llwybr Arfordir Cymru yn 2012 ac ers hynny mae nifer o rannau arfordirol newydd wedi eu hychwanegu yn Llŷn, fel ardal Cim, Abersoch a Methlem, Llangwnnadr. Mae rhai rhannau eto i'w cwblhau a bydd y Gwasanaeth AHNE yn cefnogi ymdrechion i gynnwys y rhannau ychwanegol hyn. Hefyd cefnogir cynnal a chadw yr holl lwybr a'i hyrwyddo ymysg pobol leol ac ymwelwyr.

Fel y nodwyd wrth drafod y materion llosg mae erydiad ar hyd yr allt fôr yn amharu ar y Llwybr Arfordir mewn rhai manau. Rhaid derbyn fod hyn yn anorfod yn sgîl natur y tir, gaeafau gwlyb a stormydd. Yr hyn fydd angen ei wneud yw cadw golwg fanwl ar y Llwybr, adnabod problemau yn gynnwys a bod yn barod i addasu'r llwybr/ creu rhannau

newydd, os bydd raid.

MP 3. HYRWYDDO'R DEFNYDD O GYLCHDEITHIAU LLEOL SYDD YN GYSYLLTIEDIG GYDA'R LLWYBR ARFORDIR YN LLŶN.

Yn 2015/6 datblygwyd nifer o gylchdeithiau lleol fel rhan o brosiect gan Gyngor Gwynedd a dderbyniodd nawdd gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir i greu 18 cylchdaith yn cysylltu hefo Llwybr Arfordir Cymru. Mae nifer o'r teithiau hyn yn Llŷn, ac yn gyfle i weld safleoedd diddorol yn agos i'r arfordir fel Tre'r Ceiri a Mynydd Tir y Cwmwd. Bwriedir hyrwyddo'r teithiau hyn gan eu bod yn gyfle i bobol leol ac ymwelwyr gadw'n heini a gweld a dysgu am nodweddion naturiol a dynol diddorol yr un pryd (www.ymweldageryri.info).

MP 4. GWELLA DARPARIAETH AR GYFER DDEFNYDDWYR HAWLIAU TRAMWY, GAN GYNNWYS RHAI'N MARCHOGAETH, BEICWYR A'R ANABL.

Mae darpariaeth dda o hawliau tramwy a thir mynediad agored yn Llŷn ond mae prinder cyfleon mynediad ar gyfer rhai'n marchogaeth, beicwyr (llwybrau penodol i feics) a'r anabl. Yn ddiweddar mae prosiect gan Gyngor Tref Nefyn wedi gwella cyfleusterau i'r anabl drwy roi wyneb caled ar lwybr ben yr allt fôr rhwng Nefyn a Morfa Nefyn. Hefyd, anelir i wneud gwelliannau eraill tebyg yn ogystal â gwella cyfleon i rai'n marchogaeth a beicio.

MP 5. MONITRO PWYSEDD GWEITHGAREDDAU HAMDDEN MEWN RHAI MANNAU PENODOL YN YR AHNE A CHYMRYD CAMAU GWEITHREDU OS BYDD ANGEN.

Mae gormod o bwysedd gan ddefnyddwyr ac ymwelwyr yn gallu cael effaith negyddol ar safleoedd a lleoliadau yn yr AHNE. Ar hyn o bryd nid yw hon yn broblem fawr yn yr AHNE ond mae yn bodoli mewn rhai manau fel a nodwyd eisoes. Drwy wahanol fesurau anelir i reoli a lleihau'r broblem, neu sicrhau nad yw'n datblygu'n broblem.

MP 6. RHEOLI TRAETHAU A GLANFEYDD YR ARDAL YN EFFEITHIOL A'U CYNNAL I SAFON UCHEL.

Mae rhai o draethau'r ardal yn boblogaidd iawn yn ystod gwyliau ysgol a nifer fawr o bobol yn eu rhannu gan wneud gwahanol bethau fel pysgota, torheulo, chwaraeon dŵr ac ati. Anelir i hyrwyddo defnydd rhesymol o'r traethau ac osgoi gwrthdaro rhwng y gwahanol ddefnyddwyr. Mae'n bwysig hefyd fod y traethau yn cael eu cynnal yn dda trwy atal sbwriel, rheoli cŵn ac atal pobol rhag gyrru moduron i lansio heb oruchwyliaeth (ac annog cydymffurfiaeth gyda'r Côd Morol).

MP 7. HYRWYDDO DULLIAU CYNALIADWY O DEITHIO I'R ARDAL AC YN YR ARDAL.

Gall hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio i'r ardal ac o gwmpas yr ardal fod yn llesol mewn sawl ffordd. Gall fod yn help i leihau tagfeydd traffig ym Mhwlheli a rhai o bentrefi'r ardal, yn fodd i bobol gadw yn fwy heini wrth gerdded neu feicio a hefyd yn fodd o leihau llygredd awyr. Bydd y Gwasanaeth AHNE felly yn hyrwyddo beicio,

cerdded a defnyddio bysiau a Rheilffordd y Cambrian.

MP 8. CODI YMWHYBYDDIAETH A CYNYDDU GWERTHFAWROGIAD O DDYNODIAD YR AHNE.

Er fod llawer wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r dynodiad ers sefydlu'r gwasanaeth AHNE yng Nghyngor Gwynedd yn 2003 credir fod mwy i'w wneud. Yn aml nid yw pobol leol ac ymwelwyr yn gwybod fod Llŷn yn un o ddim ond 5 AHNE drwy Gymru gyfan ac fod hyn yn rhoi statws arbennig i'r ardal sydd angen bod yn falch ohono. Gall y dynodiad fod yn gyfle da i fusnesau farchnata eu cynnyrch neu wasanaeth. Hefyd er mwyn ceisio ennyn diddordeb a pherchnogaeth anelir i ddarparu mwy o gyfleon i bobol a phlant gyfrannau at waith yr AHNE, yn cynnwys gwaith gwirfoddol fel gweithio ar brosiectau amgylcheddol.

MP 9. CODI YMWHYBYDDIAETH O'R YSTOD EANG O WASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A DIWYLLIANNOL A DDARPERIR GAN YR AHNE.

Bellach pwyslais cynyddol yn cael ei roi ar y buddion mae'r amgylchedd naturiol yn ei ddarparu i gymdeithas – term arall am hyn yw gwasanaethau ecosystemau. Mae'r buddion hyn yn cael eu rhannu i bedwar categori:

- Gwasanaethau Darparu – cynnyrch megis bwyd, ffibr a moddion
- Gwasanaethau Rheolaeth – puro dŵr, cynnal safon aer, a rheoli hinsawdd
- Gwasanaethau Diwylliant – lles trwy gysylltu efo natur ac addysg
- Gwasanaethau Cynnal – prosesau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau eraill megis ffurfio pridd a chylchdroi maeth.

Drwy gydweithio hefo eraill, bydd y Gwasanaeth AHNE yn codi ymwybyddiaeth am y buddiannau hyn a'u pwysigrwydd i gymdeithas, y cyfleon sy'n bodoli a'r angen i'w cynnal a'u gwarchod ar gyfer y dyfodol.

14. GWEITHREDU

14.1 Cyflwyniad

- 14.1.1 Mae rhan yma o'r Cynllun Rheoli yn cynnwys y Cynllun Gweithredu, sef rhaglen waith sy'n deillio o'r rhannau blaenorol o'r Cynllun. Yn y Cynllun Gweithredu fe nodir beth sydd am gael ei wneud ac ym mha ddull y bydd hyn yn digwydd, er enghraifft trwy baratoi neu weithredu cynllun neu strategaeth.
- 14.1.2 Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi pa gorff neu gyfuniad o gyrff fel partneriaid fydd yn gyfrifol am weithredu ac yn cynnwys targed amser. Drwy gynnwys targed amser gellir mesur llwyddiant y Rhaglen o ran cwblhau gwaith ar amser a gwireddu'r nodau a'r amcanion.
- 14.1.3 Llwyddwyd i wireddu rhan helaeth o Gynllun Gweithredu y Cynllun Rheoli blaenorol. Fodd bynnag, ni fu yn bosibl i weithredu rhai prosiectau am resymau amrywiol yn cynnwys diffyg adnoddau, amgylchiadau anffafriol neu drafferthion technegol (e.e. sicrhau hawl perchnogion). Mae rhai gweithredoedd o'r Cynllun blaenorol wedi eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig felly ond mae nifer helaeth yn weithredoedd newydd.

14.2 Gwireddu'r Rhaglen Weithredu

- 14.2.1 Bydd gwireddu'r Rhaglen Weithredu yn ddibynnol ar gydweithrediad ac ymrwymiad i les AHNE Llŷn gan amrywiol gyrff ac asiantaethau. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau annisgwyl yn golygu na all pob agwedd o'r Rhaglen gael ei gwireddu neu fod oedi o ran cyflawni rhai gweithredoedd am wahanol resymau.
- 14.2.2 Un o'r anghenion pwysicaf o ran gweithredu'r Cynllun fydd cyllid ac adnoddau digonol. Bydd ymrwymiad Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at wasanaeth craidd yr AHNE yn parhau oherwydd y cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ond fe all y cyfraniadau ariannol newid. Bydd gan Adran Amgylchedd y Cyngor ran ganolog i'w chwarae mewn gwireddu a chydgordio'r Cynllun Gweithredu. Oherwydd hynny mae'n bwysig sicrhau Gwasanaeth gydag adnoddau digonol o ran staff a chyllid ar gyfer y gwaith mewn llaw. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn chwilio a sicrhau ffynonellau ariannu ychwanegol er gwireddu rhannau o'r Rhaglen Weithredu.

- 14.2.3 Mae nifer o gynlluniau cymorth ariannol yn weithredol yn Llŷn a allai fod yn gymorth i gefnogi gweithgareddau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn yr ardal. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r cyfleon a grëir gan y cymorthdaliadau hyn - gallent gynnig cymorth i wella a chynnal yr amgylchedd, yr economi a chyfleusterau cymunedol.
- 14.2.4 Un o'r cronfeydd amlycaf sydd yn cynnig cyfleon ar gyfer gwelliannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i'r AHNE yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Sefydlwyd y Gronfa gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer cefnogi prosiectau mewn AHNE a Pharciau Cenedlaethol. Ers ei sefydlu yn 2001 mae'r Gronfa wedi cefnogi cannoedd o brosiectau yn ardaloedd gwarchoddedig Cymru ac mae'n holl bwysig ei bod yn parhau ar gyfer y dyfodol.
- 14.2.5 Mae nifer o ffynonellau ariannol eraill all gyfrannau at wireddu rhannau o'r Cynllun Rheoli yn cynnwys y Loteri Treftadaeth, Cadw, Cynlluniau yr Undeb Ewropeaidd, Cronfa Cymunedau'r Arfordir ayb.
- 14.3 Rhaglen Weithredu**
- 14.3.1 Ar y tudalennau sy'n dilyn gwelir y Rhaglen Weithredu gyflawn ar gyfer y Cynllun Rheoli AHNE Llŷn 2015 - 20.

TIRLUN AC ARFORDIR

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
TP 1. CYNNAL A GWARCHOD SAFLEOEDD DAEAREGOL A GEOMORFFOLEGOL ALLWEDDOL YN YR AHNE A CHODI YMWYBYDDIAETH O'U PWYSIGRWYDD.	Gweithredu a monitro Cynlluniau Rheoli SoDdGA daearegol yn yr AHNE a gerllaw.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Parhaol
	Trafod y posibilrwydd o baratoi a gweithredu Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol ar gyfer ardal Llŷn.	Grŵp RIGS Gwynedd Gwasanaeth AHNE	2018
TP 2. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMLWG AR Y TIRLUN AC YN AMHARU AR OLYGFEYDD GAN GYNNWYS DATBLYGIADAU GER Y FFIN A FYDDAI YN AMHARU AR OLYGFEYDD I MEWN AC ALLAN O'R AHNE.	Mabwysiadu polisiau cynllunio addas i warchod yr AHNE yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.	Cynghorau Gwynedd a Môn	2017
	Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE.	Gwasanaeth Cynllunio a Phwyllgor Cynllunio Gwynedd	Parhaol
TP 3. GWARCHOD ARFORDIR ARBENNIG LLŶN A'R YNYSOEDD TRWY WRTHSEFYLL UNRHYW DATBLYGIADAU NEWYDD ARWYDDOCAOL.	Mabwysiadu polisiau cynllunio addas i warchod yr AHNE yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.	Cynghorau Gwynedd a Môn.	2017
	Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE.	Gwasanaeth Cynllunio a Phwyllgor Cynllunio Gwynedd	Parhaol
TP 4. GWARCHOD AC ADFER TERFYNAU HANESYDDOL SYDD YN CYFRANNU AT GYMERIAD A HUNANIAETH LLŶN - SEF CLODDIAU, WALIAU CERRIG A GWRYCHOEDD.	Anfon cais i Lywodraeth Cymru i sefydlu trefn i roi gwarchodaeth i gloddiau a waliau cerrig mewn Tirluniau Dynodedig.	Tirweddau Dynodedig Cymru	2018
	Darparu hyfforddiant ar gynnal a chadw gwrychoedd, cloddiau a waliau cerrig.	Menter y Felin Uchaf Coleg Glynllifon Gwasanaeth AHNE	2017-20

TP 5. HYRWYDDO GWELLIANNAU O RAN SAFLEOEDD AC ADEILADAU BLÛR AC YMWTHIOL YN YR AHNE A GERLLAW.	Cynnal ymchwil a chasglu gwybodaeth am safleoedd ac adeiladau blêr yn yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2018
	Gweithredu camau gorfodaeth dan Adran 215 o'r Ddeddf Cynllunio ar berchnogion safleoedd ac adeiladau blêr mewn achosion penodol.	Uned Gorfodaeth Cynllunio Gwynedd	2017- 20
TP 6. SICRHAU FOD ADEILADAU NEWYDD AC YN GWEDDU I'R ARDAL O RAN DYLUNIAD A DEUNYDDIAU AC FOD ADDASIADAU I ADEILADAU PRESENNOL YN GWEDDU I'R GWREIDDIOL.	Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio am adeiladau newydd ac addasiadau i adeiladau presennol yn yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Paratoi a chyhoeddi canllawiau dylunio ar gyfer AHNE Llŷn.	Gwasanaeth AHNE	2019-20
TP 7. ANNOG Y CWMNÏAU TRYDAN A THELEGYFATHREBU I RANNU CYFARPAR A GOSOD CEBLAU O DAN Y DDAEAR MEWN MANNAU AMLWG YN YR AHNE A GERLLAW.	Asesu llinellau trydan a ffôn ymwthiol yn yr AHNE a thrafod y posibilrwydd o danddaearu gyda chwmnïau perthnasol.	Gwasanaeth AHNE	2017- 20
	Tanddaearu gwifrau trydan a ffôn ar safleoedd penodol yn yr AHNE.	SP Manweb BT	2017-20
TP 8. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU TYRBINAU GWYNT A FFERMYDD YNNI SOLAR FYDDAI YN CAEL EFFAITH ANDWYOL AR EDRYCHIAD A CHYMERIAD TIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A'I GOSODIAD.	Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE.	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd Gwasanaeth AHNE	Parhaol
TP 9. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU CARAFANAU NEWYDD AC ESTYNIADAU I SAFLEOEDD PRESENNOL MEWN LLEOLIADAU AMLWG AR DIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A HYRWYDDO TIRLUNIO SAFLEOEDD PRESENNOL.	Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE.	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Paratoi a dosbarthu Llyfryn o Ymarfer Da ar gyfer perchnogion a gweithredwyr safleoedd carafanau fydd yn cynnwys gwybodaeth am gydymffurfio gyda amodau cynllunio a chyfleon i wella safleoedd a thirlunio.	Gwasanaeth AHNE	2018
TP 10. CYNNAL CYMERIAD FFYRDD GWLEDIG LLŶN TRWY WRTHSEFYLL DATBLYGIADAU NIWEIDIOL A CHYNNAL AC ADFER NODWEDDION HANESYDDOL.	Gweithredu canllawiau o arfer da o ran cynnal cymeriad ffyrdd gwledig Llŷn.	Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Mabwysiadu a gweithredu protocol ar arwyddion ffyrdd yn yr AHNE.	Adran Amgylchedd Gwynedd	2018

TP 11. CODI YMWYBYDDIAETH AM GYMERIAD UNIGRYW LLŶN A HYRWYDDO BALCHDER YN YR ARDAL A CHEFNOGAETH TUAG AT GADWRAETH.	Cynnwys erthyglau yn y wasg leol, Llygad Llŷn ac ar gyfryngau cymdeithasol.	Gwasanaeth AHNE	2017-20
TP 12. CEFNOGI A HYRWYDDO DULLIAU O REOLI TIRLUN AC ARFORDIR FYDD YN GYMORTH I GYFYNGU AR SGIL -EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AG YMDOPI GYDA EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD.	Cynnal gwaith ymchwil i ddulliau o reoli tirlun ac arfordir sydd yn ymateb i newid hinsawdd mesurau posibl i ymdopi â'r newidiadau hynny.	Gwasanaeth AHNE	2019
	Codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ac effeithiau posibl ar tirlun, yr arfordir a'r môr a dulliau o ymateb i hynny yn Llygad Llŷn a chyhoeddiadau eraill a safleoedd gwe.	Gwasanaeth AHNE Cyfoeth Naturiol Cymru	2018

TAWELWCH A LLYGREDD ISEL

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
PP 1. HYRWYDDO MENTRAU CLUDIANT CYHOEDDUS A'R DEFNYDD OHONYNT A MATHAU ERAILL O DEITHIO CYNALIADWY.	Codi ymwybyddiaeth am gyfleon cludiant cyhoeddus a dulliau eraill o deithio cynaliadwy, yn cynnwys Rheilffordd y Cambrian a Bws Arfordir Llŷn, trwy Llygad Llŷn, safle we'r AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol.	Gwasanaeth AHNE, Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian	Parhaol
PP 2. CYNNAL A GWELLA SAFON DŴR A PHRIDD YN YR ARDAL.	Gweithio mewn partneriaeth i wireddu rhannau perthnasol Cynllun Rheoli Basin Afon Ardal Gorllewin Cymru i gynnal, a gwella yr amgylchedd ddŵr yn yr AHNE, ac yn bwydo i mewn i'r ardal.	Uned Forwrol Gwynedd, Dŵr Cymru	2017- 20
	Cydweithio i sicrhau gwobrau Baner Las a Baner Werdd ar gyfer traethau'r ardal.	Uned Forwrol CG Dŵr Cymru	Yn flynyddol
	Gweithredu prosiect i leihau llygredd yn afon Daron.	Cyngor Gwynedd	2018-19
PP 3. CYFYNGU AR LEFELAU SŴN A GOLAU NOS YN YR AHNE A GERLLAW A HYRWYDDO'R DEFNYDD O OLAU STRYD/ ALLANOL SY'N YNNI EFFEITHIOL AC ARDRAWIAD ISEL.	Defnyddio amodau cynllunio addas i reoli lefelau sŵn a golau	Gwasanaeth Cynllunio CG	Parhaol
	Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael statws "Awyr Dywyll" i Llŷn a'r AHNE	Gwasanaeth AHNE	2017-18
	Paratoi, cyhoeddi a dosbarthu arweiniad ar olau ynni effeithiol ac ardrawiad isel a lleihau golau.	Gwasanaeth AHNE	2018
PP 4. HYRWYDDO LEFELAU GLENDID LLEOL TRWY ANNOG AILDDEFNYDDIO, AILGYLCHU, A GWAREDU SBWRIEL YN GYFRIFOL.	Sicrhau trefniadau gwastraff ac ail-gylchu effeithiol	Cyngor Gwynedd	Parhaol
	Codi ymwybyddiaeth am drefniadau gwastraff ac ail-gylchu'r Awdurdod Lleol a manylion cyswllt i drafod problemau o ran gwaredu sbwriel.	Cyngor Gwynedd Gwasanaeth AHNE	Parhaol

	Cynnal ymgyrch addysgu am ail-ddefnyddio ac ail-gylchu	Gwasanaeth AHNE Cadwch Gymru'n Daclus	2018
	Codi ymwybyddiaeth am reolau ac erlyniadau yn achos tipio anghyfreithlon yn y wasg leol.	Gwasanaeth AHNE	2018
PP 5 . CODI YMWYBYDDIAETH AM EFFAITH NEGYDDOL A PHERYGLON IECHYD BAW CŴN AC ANNOG PERCHNOGION I FOD MWY CYFRIFOL.	Cynnal ymgyrch addysgu am effeithiau negyddol baw cŵn a dirwyon posibl yn Llŷn.	Gwasanaeth AHNE Trefi Taclus Cadwch Gymru'n Daclus	2018

CYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
BP 1. HYRWYDDO GWARCHODAETH A RHEOLAETH EFFEITHIOL O GYNEFINOEDD ALLWEDDOL AHNE LLŶN.	Cydweithio gyda perchnogion tir i sicrhau fod Safleoedd Ewropeaidd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail cynefin mewn cyflwr boddhaol.	Perchnogion tir, Tenantiaid, Cyfoeth Naturiol Cymru Undebau Amaeth	Parhaol
	Prosiect Morwellt Porthdinllaen – treialu dulliau ymarferol o warchod ag adfer y morwellt.	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Ymddiriedolaeth Genedlaethol Perchnogion Cychod	2017-18
BP 2. GWARCHOD, RHEOLI A HYRWYDDO DEFNYDD ADDAS O DIROEDD COMIN YN LLŶN.	Cynnal asesiad o holl diroedd comin yn yr AHNE a pharatoi cynlluniau rheoli mewn ymgynghoriad gyda perchnogion a rhai sydd gyda hawliau.	Gwasanaeth AHNE Perchnogion tir Unigolion gyda hawliau	2018-19
BP 3. GWARCHOD, CYNNAL A GWELLA RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT AHNE LLŶN, YN ARBENNIG Y RHAI A DDYNODWYD DAN DDEDDFAU EWROPEAIDD NEU YN RHAI O BWYSIGRWYDD UCHEL IAWN YN NEDDF ANCG 2006, A GWRTHWYNEBU UNRHYW DDATBLYGIADAU NIWEIDIOL.	Cydweithio gyda perchnogion tir i sicrhau fod Safleoedd Ewropeaidd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail rhywogaethau mewn cyflwr boddhaol.	Perchnogion tir, Tenantiaid Undebau Amaeth	Parhaol
	Datblygu prosiect i ail-gyflwyno Siacar Goch i'r môr yng nghyffiniau Aberdaron.	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Ymddiriedolaeth Genedlaethol	2018-19
	Datblygu prosiect i ail-gyflwyno dyfrgwn i'r ardal.	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	2018-19
	Dosbarth a hyrwyddo Côt Morol Gwynedd a fabwysiadwyd	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	Parhaol

BP 4. CREU A GWELLA CYSYLLTIAD RHWNG SAFLEOEDD PWYSIG O RAN CYNEFIN A BYWYD GWYLLT.	Gweithredu prosiectau i wella cysylltedd rhwng safleoedd natur penodol.	Uned Bioamrywiaeth Gwynedd Cyfoeth Naturiol Cymru	2018-19
BP 5. ASESU EFFEITHIAU POSIBL NEWID HINSAWDD AR GYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT CYNHENID YR ARDAL A MESURAU POSIB I DDYGYMOD Â HYNNY.	Asesu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac amgylchiadau lleol a chreu rhaglen o fesurau i ymateb i newid hinsawdd.	Cyfoeth Naturiol Cymru Gwasanaeth AHNE	2017-19
BP 6. TRIN RHYWOGAETHAU YMLEDOL CYNHENID AG ESTRON A CHODI YMWYBYDDIAETH AMDANYNT A'R FFORDD O'U TRIN A'U GWAREDU. Tud. 158	Ymchwilio a chofnodi i achosion o rywogaethau ymledol estron yn yr AHNE.	Adran Amgylchedd Gwynedd	2017-18
	Hysbysu perchnogion tir o'u cyfrifoldeb tuag at reoli rhywogaethau ymledol a darparu hyfforddiant ar ddulliau o drin gwahanol rywogaethau.	Uned Cefn Gwlad Gwynedd Gwasanaeth AHNE Undebau Amaeth	2017-18
	Gweithredu prosiect gwaredu ar o leiaf 3 safle penodol oddi fewn ffiniau'r AHNE yn ystod cyfnod y Cynllun.	Gwasanaeth AHNE	2017-20
	Gweithredu prosiect i gael gwared â Efwr Enfawr o ran (2.4 cilomedr) o Afon Soch.	Cyfoeth Naturiol Cymru Tirfeddianwyr	2017-20
BP 7. CODI YMWYBYDDIAETH A GWELLA DEALLTWRIAETH AM GYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT YN AHNE LLŶN A HYRWYDDO GWIRFODDOLWYR I GYMRYD RHAN MEWN PROSIECTAU RECORDIO A CHADWRAETH.	Codi ymwybyddiaeth am fywyd gwyllt lleol trwy safleoedd gwe a Newyddlenni AHNE, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a Chyngor Gwynedd.	Gwasanaeth AHNE Uned Bioamrywiaeth Gwynedd	Parhaol
	Paratoi, cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i ffermwyr ar reolaeth o gynefinoedd amaethyddol megis gwrychoedd, pyllau fferm ac ymylon caeau.	Gwasanaeth AHNE Uned Bioamrywiaeth Gwynedd	2018
	Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn – parhau â'r gwaith o drafod a chydweithio gyda pysgotwyr	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau	Parhaol
	Datblygu a gweithredu prosiect gwyllo dolffiniaid	ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Uned Bioamrywiaeth Gwynedd	2017

<p>BP 8. GWELLA YMWYBYDDIAETH AM GYFRANIAD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU MEWN DARPARU GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A BUDDION Y GWASANAETHAU HYNNY O RAN IECHYD A LLES.</p>	<p>Codi ymwybyddiaeth trwy safle we'r AHNE, Cyngor Gwynedd, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, Llygad Llŷn a chyhoeddiadau eraill.</p>	<p>Cyfoeth Naturiol Cymru Gwasanaeth AHNE</p>	<p>Parhaol</p>
---	--	---	----------------

YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
HP 1. ADNABOD, COFNODI AC ASESU CYFLWR ADNODDAU HANESYDDOL YR ARDAL.	Cadw cofnod o holl henebion ac olion archeolegol yn yr AHNE a diweddarau'r gwybodaeth fel bod angen.	Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd	Parhaol
	Cadw cofnod o holl Adeiladau a Strwythurau Rhestredig yn yr AHNE a diweddarau'r gwybodaeth fel bod angen.	Cadw	Parhaol
	Ymgymryd â gwaith ymchwil ar adeiladau diwydiannol hanesyddol yn cynnwys melinoedd gwynt, melinoedd dŵr, melinoedd gwlan, adeiladau yn ymwneud â'r diwydiant cloddio a chwarelydda.	Gwasanaeth AHNE	2018
HP 2. GWARDHOD A CHYNNAL NODWEDDION HANESYDDOL YN CYNWYS OLION ARCHEOLEGOL A STRWYTHURAU AC ADEILADAU HANESYDDOL A'U GOSODIAD.	Gwardhod olion archeolegol, adeiladau a strwythurau hanesyddol rhag datblygiadau niweidiol.	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd	Parhaol
	Cynnal rhaglen o hyfforddiant ar sut i gynnal ac adfer adeiladau a strwythurau hanesyddol, cloddiau a waliau cerrig.	Menter y Felin Uchaf Coleg Glynllifon Gwasanaeth AHNE	2018-20
	Gweithredu ymhellach i gynnal a gwella ffynhonnau hanesyddol yn yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE Cadw Cymru'n Daclus	2017-20
HP 3. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU NEWYDD AC ADDASIADAU YN PARCHU AC ATGYFNERTHU CYMERIAD AC EDRYCHIAD ADEILADAU A STRWYTHURAU HANESYDDOL A HYRWYDDO YMARFER DA O RAN CYNNAL A CHADW.	Peidio â chaniatáu ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau fyddai yn amharu ar gymeriad ac edrychiad adeiladau a strwythurau hanesyddol yn yr AHNE.	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd	Parhaol
	Dosbarthu canllawiau Cadw ar gynnal, adfer a gwneud defnydd newydd o adeiladau hanesyddol a thraddodiadol i benseiri ac arolygwyr adeiladu lleol.	Gwasanaeth AHNE	2018

HP 4. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMHARU AR GYMERIAD AC EDRYCHIAD ARDALOEDD CADWRAETH A CHEFNOGI MENTRAU I WNEUD GWELLIANNAU.	Peidio â chaniatáu ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau na fyddai yn cynnal a gwella cymeriad Ardaloedd Cadwraeth yn yr AHNE.	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd	Parhaol
	Gweithredu Cynlluniau Gwella Ardaloedd Cadwraeth a baratowyd yn Burum ar ran y Gwasanaeth AHNE.	Gwasanaeth AHNE Cynghorau Cymuned/ Tref	2017-20
HP 5. CODI YMWYBYDDIAETH A HYRWYDDO DEALLTWRIAETH O AMGYLCHEDD HANESYDDOL YR ARDAL YMYSG PERCHNOGION EIDDO, POBOL LEOL, PLANT AC YMWELWYR.	Cynnwys gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Llŷn yn Llygad Llŷn ac ar safle we'r AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2018
	Dehongli hanes Llŷn ac arddangos creiriau amrywiol mewn canolfannau leol.	Partneriaid Ecoamgueddfa Llŷn	Parhaol
	Cynnal asesiad o'r posibilrwydd i ddod a rhai creiriau lleol sydd mewn amgueddfeydd yn ôl i ardal Llŷn i'w harddangos.	Gwasanaeth AHNE	2018
HP 6. HYRWYDDO GWELL MYNEDIAD AT ADNODDAU HANESYDDOL LLEOL A MWYNHAD OHONYNT.	Gwella mynediad at nifer o nodweddion hanesyddol yn yr AHNE yn ystod cyfnod y Cynllun.	Gwasanaeth AHNE Uned Cefn Gwlad Gwynedd	2017-20

YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
IP 1. CEFNOGI GWEITHGAREDDAU ADLONIADOL A DIWYLLIANNOL YN YR IAITH GYMRAEG.	Hyrwyddo digwyddiadau lleol drwy Llygad Llŷn, gwefan yr AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol.	Llanw Llŷn Ecoamgueddfa Llŷn	Parhaol
	Cynnal cyfres o wersi cynganeddu i drigolion mewn gwahanol leoliadau lleol.	Gwasanaeth AHNE	2017-18
	Gweinyddu a hyrwyddo cronfeydd grant ar gyfer prosiectau perthnasol e.e. Cronfa'r Degwm a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy	Gwasanaeth AHNE Cyngor Gwynedd Arianwyr Eraill	Parhaol
IP 2. HYRWYDDO DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YMYSG BUSNESAU A SEFYDLIADAU YN LLŷN.	Adnabod y defnydd o Gymraeg ar gynnyrch, gwasanaethau a chyfleusterau. Cysylltu ag unigolion a chwmnïau i annog labelu ac arwyddo Cymraeg neu ddwyieithog.	Gwasanaeth AHNE Cyfeillion Llŷn	Parhaol
IP 3. CODI YMWHYBYDDIAETH AM ELFENNAU O DDIWYLLIANT ARBENNIG YR ARDAL.	Hyrwyddo elfennau o'r diwylliant lleol drwy Llygad Llŷn, gwefan yr AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol.	Gwasanaeth AHNE Llanw Llŷn Ecoamgueddfa Llŷn	Parhaol
IP 4. DATHLU DIWYLLIANT A THRADDODIADAU'R ARDAL TRWY GELF, LLENYDDIAETH A BARDDONIAETH.	Cynnal cystadleuaeth gelfyddydol/ ffotograffiaeth bob 2 flynedd yn seiliedig ar Rinweddau Llŷn.	Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Cynnal arddangosfeydd o waith artistiaid sy'n gysylltiedig â'r tirlun a nodweddion eraill lleol.	Oriel Plas Glyn y Weddw	Parhaol
	Cynnal Eisteddfodau yn gyda cystadlaethau canu, adrodd, llenyddiaeth ac ati drwy'r iaith Gymraeg.	Pwyllgorau Lleol Enwadau crefyddol amrywiol	Parhaol

IP 5. CODI YMWYBYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG A'R CYFLEON I'W DYSGU.	Darparu gwersi dysgu Cymraeg yn lleol a darparu cyfleon i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg neu sefyllfa anffurfiol .	Nant Gwrtheyrn Grŵp Llandrillo Menai Prifysgol Bangor	Parhaol
	Gweithredu Prosiect i gynhyrchu pecyn gwybodaeth i werthwyr tai ei gyflwyno i gwsmeriaid am ddynodiad yr AHNE a'i rhinweddau arbennig – gan gyfeirio at bwysigrwydd cadw enwau Cymraeg ar dai.	Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo y cyfleon i ddysgu ac ymarfer Cymraeg yn lleol trwy safle we'r AHNE a Llygad Llŷn	Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Llunio, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Iaith Gwynedd	Hunaniaith	2017
	Cysylltu gyda chynhyrchwyr cylchgronau lleol i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.	Gwasanaeth AHNE	2017-18

Tud. 163

POBOL A CHYMDEITHAS

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
CP 1. CYNNAL A GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A’U GWNEUD YN FWY ADDAS I’R ANABL AC YN FWY YNNI EFFEITHIOL.	Gwrthwynebu unrhyw fwriad i gau canolfannau a neuaddau pentref a chefnogi ceisiadau i wneud gwelliannau addas i adeiladau perthnasol.	Gwasanaeth AHNE	Parhaol
	Ymchwilio i grantiau posibl ar gyfer cynnal a gwella canolfannau a neuaddau pentref a’u dosbarthu i’r grwpiau a’r unigolion perthnasol.	Gwasanaeth Adfywio Bro Gwynedd. Gwasanaeth AHNE	2017-20
CP 2. HYRWYDDO CYMUNEDAU I GYFRANNAU AT OFALU AM Y DREFTADAETH LEOL YN CYNWYS YMGYMRYD Â GWAITH GWIRFODDOL.	Asesu’r posibilrwydd o sefydlu grŵp o wirfoddolwyr i gymryd swyddogaeth ehangach o ran gofalu am yr ardal a’r dreftadaeth leol.	Gwasanaeth AHNE	2017-18
CP 3. CODI YMWHYBYDDIAETH POBOL IFANC AM Y CYFLEON SY’N BODOLI A BUDDION ERAILL BYW YN LLEOL	Cynnal sesiynau gwybodaeth gyda phobl ifanc lleol mewn lleoliadau addysg a chlybiau ieuencid a ffermwyr ifanc.	Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd Grŵp Llandrillo Menai Gwasanaeth AHNE Clybiau Ffermwyr Ifanc	2018-20
CP 4. ADFER AC AIL-DEFNYDDIO TAI GWAG YN YR ARDAL	Hyrwyddo a gweithredu cronfeydd grant neu fenthyciadau ar gyfer adfer tai gwag.	Adran Tai Gwynedd Llywodraeth Cymru	Parhaol
	Defnyddio pwerau gorfodaeth i adfer tai gwag.	Adran Tai Gwynedd Llywodraeth Cymru	Parhaol

CP 5. GWNEUD TAI YN FWY YNNI EFFEITHIOL, HYRWYDDO ARBED YNNI A CHREU YNNI ADNEWYDDOL DOMESTIG.	Cydwethio i ddsbarthu gwybodaeth am gymorthdaliadau perthnasol.	Cyngor Gwynedd Llywodraeth Cymru Ynni Llŷn	Parhaol
CP 6. HYRWYDDO DARPARIAETH O DAI FFORDDIADWY LLE PROFIR FOD GWIR ANGEN LLEOL A SICRHAU FOD CYNLLUNIAU, DYLUNIADAU A DEUNYDDIAU YN GWEDDU I AMGYLCHEDD YR AHNE.	Cynnal arolygon i asesu os oes gwir angen am dai fforddiadwy	Gwasanaeth Cynllunio	Parhaol
	Cynnal arolwg blynyddol o dai ar werth yn ardal yr AHNE a phrisiau tai yn lleol	Gwasanaeth AHNE	2017-2019
	Sicrhau mai dim ond tai fforddiadwy addas a ganiateir yn yr AHNE	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd	Parhaol
CP 7. CYNORTHWYO POBOL SY’N MUDO I’R ARDAL I DDYSGU AM HANES A DIWYLLIANT YR ARDAL A DYSGU’R IAITH GYMRAEG.	Darparu sesiynau gwybodaeth a gwersi dysgu Cymraeg yn lleol a darparu cyfleon i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg neu sefyllfa anffurfiol – mewn sgysiau drwy weithgareddau	Paratoi a chyhoeddi canllawiau dylunio ar gyfer tai fforddiadwy yn yr AHNE	Gwasanaeth AHNE
		Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn Prifysgol Bangor Grŵp Llandrillo Menai	Parhaol

CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN	
Tud.	GP 1. HYRWYDDO'R DIWYDIANT FFERMIO TRWY FENTRAU MARCHNATA, MEITHRIN SGILIAU TRADDODIADOL A CHYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDD.	Cynnal cyfarfodydd gyda'r Undebau Amaethyddol i drafod y cyfleon i greu mwy o amrywiaeth o gynnyrch amaethyddol lleol a chyfleon i werthu yn lleol.	Gwasanaeth AHNE Undebau Amaethyddol	2018
		Darparu hyfforddiant mewn sgiliau traddodiadol e.e. codi cloddiau a phlygu gwrychoedd.	Gwasanaeth AHNE Grŵp Llandrillo Menai	2018-20
		Hyrwyddo datblygiad, ac aelodaeth, o gynlluniau amaeth-amgylchedd yn yr AHNE a gerllaw.	Gwasanaeth AHNE	2017-20
63	GP 2. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU YNGHLWM A'R DIWYDIANT AMAETHYDDOL YN CAEL YR EFFAITH LEIAF BOSIB AR DIRLUN AC AMGYLCHEDD YR AHNE.	Sicrhau fod ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau amaethyddol yn cael eu hystyried yn ofalus o ran effaith ar y tirlun a'r amgylchedd yn unol â pholisïau perthnasol. Cynnwys amodau i reoli materion fel lliwiau, tirluniau ac ati, pan fo angen.	Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd	Parhaol
		Paratoi a chyhoeddi llawlyfr o ymarfer da ar ddatblygiadau ynghlwm â'r diwydiant amaethyddol.	Gwasanaeth AHNE	2018-20
64	GP 3. CEFNOGI Y DIWYDIANT PYSGOTA YN LLŶN TRWY HYRWYDDO MENTRAU PROSESU LLEOL A MARCHNATA.	Comisiynu adroddiad ar y cyfleon o brosesu a marchnata cynnyrch môr lleol.	Gwasanaeth AHNE	2018-19
		Cynnal digwyddiadau i hyrwyddo cynnyrch môr lleol fel digwyddiadau Blas y Môr.	Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Yn flynyddol
65	GP 4. HYRWYDDO CYNHYRCHION PRIMAIDD LLEOL ERAILL	Parhau a hyrwyddo Marchnad Cynnyrch Lleol sydd wedi ei sefydlu yn Sarn Mellteyrn.	Cymydmaen Cyf Gwasanaeth AHNE	Parhaol
		Ymchwilio i'r defnydd o frand "AHNE Llŷn" ar gyfer cynnyrch lleol.	Gwasanaeth AHNE	2018
66	GP 5. HYRWYDDO GWELLIANT MEWN GWASANAETH BANC LLYDAN A FFONAU SYMUDOL YN YR ARDAL LLE NA	Adnabod diffygion a phwyso am welliannau sydd yn cymryd ystyriaeth o dirlun arbennig yr AHNE.	Uned Busnes Gwynedd	2017-18

FYDDAI HYNNY YN CAEL EFFAITH ANNERBYNIOL AR DIRLUN YR AHNE.		Gwasanaeth AHNE.	
GP 6. HYRWYDDO A CHYNORTHWYO MENTRAU CYDWEITHREDOL FEL DULL O REDEG BUSNESAU A CHYNNAL SWYDDI YN LLEOL.	Cynnal gweithdy yn Llŷn i godi ymwybyddiaeth am fentrau cydweithredol fel dull o redeg busnesau a'r cymorth sydd ar gael i sefydlu mentrau o'r fath.	Gwasanaeth AHNE Canolfan Cydweithredol Cymru.	2018
GP 7. CEFNOGI MENTRAU GWLEDIG NEWYDD A MENTRAU ARALLGYFEIRIO AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.	Paratoi a chyhoeddi canllawiau cyffredinol am fentrau newydd ac arallgyfeirio gan bwysleisio'r angen i gynnal a gwarchod rhinweddau arbennig yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2018-19
GP 8. ANNOG BUSNESAU, YN CYNWYS RHAI YN Y SECTOR DWRISTIAETH, I FOD YN FWY CYNALIADWY O RAN DEFNYDDIO YNNI AC AILGYLCHU.	Paratoi, cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i berchnogion busnes lleol i dynnu sylw at gyfleon a fanteision arbed ynni, defnyddio cynnyrch lleol ac ailgylchu a hefyd i annog dulliau cynaliadwy o deithio.	Gwasanaeth AHNE	2018
	Ymchwilio i oblygiadau mabwysiadu Rheolaeth Safon Integredig ar gyfer y diwydiant twristiaeth er gwella adnoddau a chreu budd amgylcheddol, economaidd a chymunedol.	Gwasanaeth AHNE	2018
GP 9. CEFNOGI DATBLYGIADAU HAMDDEN AWYR AGORED NEWYDD AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.	Paratoi a chyhoeddi canllawiau cyffredinol am fentrau hamdden awyr agored gan bwysleisio'r angen i gynnal a gwarchod rhinweddau arbennig yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2018
GP 10. HYRWYDDO MENTRAU TWRISTIAETH PRESENNOL A NEWYDD, YN ENWEDIG RHAI SY'N SEILIEDIG AR HANES A DIWYLLIANT LLEOL, AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.	Paratoi a chyhoeddi canllawiau cyffredinol am fentrau twristiaeth newydd gan bwysleisio'r angen i gynnal a gwarchod rhinweddau arbennig yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2019
	Comisiynu a chyhoeddi Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer Llŷn a'r AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2019-20

HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD

POLISI	GWEITHREDOEDD	PARTNERIAID	AMSERLEN
MP 1. CYNNAL, GWARCHOD A HYRWYDDO HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS ALLWEDDOL YR ARDAL A SICRHAU EU BOD AR GAEL I'W DEFNYDDIO YN DDI-RWYSTR.	Gweithredu rhaglen o gynnal, gwella cyflwr ac arwyddo hawliau tramwy cyhoeddus allweddol yr ardal.	Uned Cefn Gwlad Gwynedd Cynghorau Cymuned Fforwm Mynediad	Parhaol
	Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	Uned Cefn Gwlad Gwynedd	2018
MP 2. CYNNAL A CHADW Y LLWYBR ARFORDIR CENEDLAETHOL A CHREU CYSYLLTIADAU NEWYDD YN UNOL Â SAFONAU A CHANLLAWIAU CENEDLAETHOL.	Gweithredu rhaglen o gynnal cyflwr y llwybr, dodrefn ac arwyddion a chreu cysylltiadau arfordirol newydd os yn bosibl.	Prosiect Llwybr yr Arfordir Llywodraeth Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru	Parhaol
MP 3. HYRWYDDO'R DEFNYDD O GYLCHDEITHIAU LLEOL SYDD YN GYSYLLTIEDIG GYDA'R LLWYBR ARFORDIR YN LLŶN.	Cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer cerdded, beicio, marchogaeth a hamdden yn Llygad Llŷn, ar safle we'r AHNE, safle we Eryri Mynyddoedd a Môr a chyfryngau cymdeithasol. Hyrwyddo taflen "Mwynhau Llŷn".	Gwasanaeth AHNE Gwasanaeth Marchnata a Gofal Cwsmer Gwynedd	Parhaol
	Darparu gwybodaeth am gylchdeithiau cerdded yn ardal Llŷn ar wefan yr AHNE.	Gwasanaeth AHNE	2017
	Cynnal digwyddiadau blynyddol gyda theithiau cerdded, gweithgareddau awyr agored a sesiynau blasu.	Gwasanaeth AHNE Y. Genedlaethol Rhodwyr Llŷn	Parhaol
MP 4. GWELLA DARPARIAETH AR GYFER DEFNYDDWYR HAWLIAU TRAMWY GAN GYNNWYS RHAI'N MARCHOGAETH, BEICWYR A'R ANABL.	Cynnal astudiaeth i'r adnoddau ar gyfer marchogaeth yn yr ardal a'r modd o wella'r ddarpariaeth.	Y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig Gwasanaeth AHNE	2018
	Cydweithio ar brosiect i geisio sefydlu llwybr aml-ddefnydd pwrpasol rhwng Pwllheli a Llanbedrog.	Adran Amgylchedd Gwynedd	2017-19

	Casglu gwybodaeth am rannau o lwybrau cyhoeddus a Llwybr yr Arfordir sydd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn, pramiau ac ati. Hyrwyddo'r wybodaeth yn Llygad Llŷn, safle we'r AHNE a chyfryngau cymdeithasol.	Gwasanaeth AHNE	2018
	Sefydlu a chynnal teithiau sy'n cysylltu ar draws y Penrhyn.	Adran Amgylchedd Gwynedd	2017-19
	Ail sefydlu cylchdaith Ffynnon Saint, Y Rhiw	Gwasanaeth AHNE Ymddiriedolaeth Genedlaethol	2018
	Ail-sefydlu llwybr i Gastell Odo, Aberdaron	Gwasanaeth AHNE	2018
MP 5. MONITRO PWYSEDD GWEITHGAREDDAU HAMDDEN MEWN RHAI MANNAU PENODOL YN YR AHNE A CHYMRYD CAMAU GWEITHREDU OS BYDI ANGEN.	Cofnodi lefelau defnydd ar fannau a safleoedd poblogaidd a chymryd camau i reoli defnydd os cyfyd problemau sylweddol.	Prosiect Llwybr yr Arfordir Gwasanaeth Hamdden Gwynedd Gwasanaeth Morwrol Gwynedd Y. Genedlaethol	Parhaol
MP 6. RHEOLI TRAETHAU A GLANFEYDD YR ARDAL YN EFFEITHIOL A'U CYNNAL I SAFON UCHEL.	Cynnal Gwasanaeth Morwrol effeithiol	Gwasanaeth Morwrol Gwynedd	Parhaol
	Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol ymysg defnyddwyr a chodi ymwybyddiaeth am fanylion cyswllt i gyflwyno cynion.	Gwasanaeth Morwrol Gwynedd Gwasanaeth AHNE	Parhaol
MP 7. HYRWYDDO DULLIAU CYNALIADWY O DEITHIO I'R ARDAL AC YN YR ARDAL.	Cynnwys erthyglau mewn cyhoeddiadau AHNE a'r wasg leol am y gwasanaeth Bws lleol a Rheilffordd y Cambrian.	Gwasanaeth AHNE Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian	2018
	Rhedeg a hyrwyddo gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn.	O Ddrws i Ddrws	2017-19
MP 8. CODI YMWHYBYDDIAETH A CYNYDDU GWERTHFAWROGIAD O DDYNODIAD YR AHNE.	Cynhyrchu erthyglau mewn cyhoeddiadau lleol a safle we'r AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol.	Gwasanaeth AHNE	Parhaol

MP 9. CODI YMWYBYDDIAETH O'R YSTOD EANG O WASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A DIWYLLIANNOL A DDARPERIR GAN YR AHNE	Erthyglau mewn cyhoeddiadau lleol a safle we'r AHNE ac ar gyfryngau cymdeithasol am y buddion mae gwasanaethau'r AHNE yn ei gynnig o ran yr amgylchedd, iechyd a lles.	Gwasanaeth AHNE Cyfoeth Naturiol Cymru	2018
	Cynnal sesiynau gwybodaeth gyda grwpiau lleol e.e. ysgolion.	Gwasanaeth AHNE	2017-19

Eitem 8

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	6ed o Fedi 2017
TEITL	Cais Cynllunio - The Shanty, Abersoch
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys ar raglen y Cydbwyllgor Ymgynghorol (CY) ar gais y Cadeirydd. Mae'n ymwneud â chais cynllunio i ddymchwel tŷ ac chodi tŷ newydd yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

2.0 THE SHANTY, ABERSOCH

2.1 Mae'r cais yn ymwneud â thŷ o'r enw The Shanty sydd wedi ei leoli ar drwyn Penbenar, Abersoch. Ar hyn o bryd mae tŷ unllawr ac adeiladau eraill ar y safle.

2.2 Y bwriad yw dymchwel y tŷ a'r holl adeiladau a chodi tŷ newydd, mwy o faint ar 3 lefel. Mae'r adeilad wedi ei ddylunio gan gwmni o benseiri siartedig gan anelu i fod yn addas ar gyfer y safle arfordirol unigryw ar y trwyn.

2.3 Gellir gweld holl fanylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd (Cynllunio a Rheolaeth Adeiladau). Rhif y cais yw **C17/0159/39/LL**.

3.0 EFFAITH AR YR AHNE

3.1 O ran ystyried yr effaith tebygol ar yr AHNE mae'r materion canlynol yn berthnasol:

- Lleoliad y safle ar yr arfordir yn yr AHNE
- Pa mor weladwy yw'r safle o fannau cyhoeddus gerllaw
- Fod adeiladau ar y safle ar hyn o bryd (heb eu rhestru)
- Yr adeiladau eraill gerllaw (maint, dyluniad, deunyddiau)
- Maint a dyluniad yr adeilad newydd arfaethedig
- Y deunyddiau a fwriedir
- Effaith posibl ar olygfeydd o'r Llwybr Arfordir uwchben y safle

3.2 Yn unol â chytundeb gwasanaeth mae'r Gwasanaeth AHNE wedi darparu sylwadau ar y cais dan sylw. Gellir gweld y sylwadau hyn ar safle we'r Cyngor yn ogystal â sylwadau eraill a gyflwynwyd.

4.0 Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF

- 4.1 Mae'r cais eisoes wedi ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 3ydd o Orffennaf 2017. Penderfynwyd bryd hynny i ohirio penderfyniad a chynnal Is-bwyllgor Ymweld (Gellir gweld yr Adroddiad Cynllunio a manylion y drafodaeth ar safle we'r Cyngor).
- 4.2 Bydd y cais yn cael ei drafod eto, yn dilyn ymweliad safle, yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhelir ar **Fedi'r 25ain** ym Mhwlheli.

5.0 ARGYMHELLIAD

- 5.1 **I ystyried y mater dan sylw a'r effaith tebygol ar yr AHNE.**
- 5.2 **I gyflwyno sylwadau i sylw'r Adran Gynllunio mewn perthynasol â'r datblygiad arfaethedig os oes pryderon am yr effaith tebygol ar yr AHNE.**

Eitem 9

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	6 Medi 2017
TEITL	Ethol Aelodau Newydd i'r Panel Grantiau
PWRPAS	Cyflwyno'r Cefndir ac Ethol Aelodau Newydd
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth ac ethol aelodau newydd.

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn parhau yn y flwyddyn ariannol hon, sef y ffynhonnell grant sydd yn dod gan Lywodraeth Cymru i'r pum AHNE yn Nghymru i'w dyrannu ar gyfer prosiectau cynaliadwy eu naws yn eu cymunedau.

2.0 SEFYLLFA'R GRONFA HYD YMA

2.1 Er gwybodaeth, cyfanswm y Gronfa eleni oedd £55,000 i bob ardal, ac o ran AHNE Llŷn, mae £32,806 yn weddill.

3.0 AELODAU PANEL GRANTIAU

3.1 Mae'r amser wedi dod i ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau – sef y Panel fydd yn ymgynnull i ymdrin â phenderfynu ar geisiadau grant dros £3,000.

3.2 Yn y gorffennol, 8 aelod o'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol oedd aelodau'r Panel Grantiau.

4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod ac ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau.